THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

England & Wales · Charity number 1106032

Details

Other names	Theatr Cymru
Status	Registered
Legal form	Charitable company
Company number	04784488
Registered	2004-09-24
Register	View on the Charity Commission register

Contact

Address	Yr Egin Heol y Coleg Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 3EQ
Phone	01267233882
Email	thgc@theatr.com
Website	www.theatr.cymru

Activities

Objects: TO PROMOTE AND ASSIST IN THE ADVANCEMENT OF THE EDUCATION OF THE PUBLIC SO FAR AS THIS SHALL BE CHARITABLE AND, IN PARTICULAR, TO PROCURE THE PERFORMANCE OF AND INCREASE THE UNDERSTANDING OF THE DRAMATIC ARTS IN ALL THEIR FORMS, INCLUDING WITHOUT LIMITATION THE ARTS OF DRAMA, MIME, DANCE, SONG, MUSIC IN WALES AND ELSEWHERE ESPECIALLY THROUGH THE MEDIUM OF THE WELSH LANGUAGE.AMCANION YR ELUSEN YW HYRWYDDO A CHYNORTHWYO HYRWYDDIAD ADDYSG Y CYHOEDD CYN BELLED AG Y BO HYN YN ELUSENNOL AC, YN ARBENNIG, I BERI PERFFORMIO A CHYNYDDU DEALLTWRIAETH O'R CELFYDDYDAU DRAMATIG YN EU HOLL FFURFIAU, GAN GYNNWYS HEB GYFYNGU AR NATUR GYFFREDINOL Y GEIRIAU BLAENOROL CELFYDDYDAU DRAMA, MEIM, DAWNS, CANU A CHERDDORIAETH YNG NGHYMRU AC MEWN MANNAU ERAILL YN ARBENNIG DRWY GYFRWNG YR IAITH GYMRAEG

Activities: National Welsh Language Theatre Company, producing and touring plays in the Welsh language

Downloaded from opencharities.uk/ew/1106032

Classification

- **How:** Provides Services, Other Charitable Activities
- **What:** Education/training, Arts/culture/heritage/science, Recreation
- **Who:** Other Defined Groups, The General Public/mankind

Geography

- **Area of benefit:** IN WALES AND ELSEWHERE.
- Throughout England And Wales

Finances

Period end	Income	Expenditure	Assets	Employees
2025-03-31	£1,545,063	£1,458,441	£915,484	16
2024-03-31	£1,302,202	£1,446,538	£828,862	15
2023-03-31	£1,269,538	£1,499,803	£819,591	16
2022-03-31	£1,238,759	£1,374,356	£894,667	16
2021-03-31	£1,103,316	£879,499	£988,986	15

Downloaded from opencharities.uk/ew/1106032

Trustees

Name	Role	Appointed
Thomas Gerald Hunter	Chair	2023-07-08
Ann Pari Williams		2025-06-28
Elin Parisa Fouladi		2023-07-08
Ffion Williams		2025-06-28
Fiona Ann Phillips		2021-02-23
Haf Angharad Jones Leefe		2022-06-25
Lois Llywelyn Williams		2024-10-02
Nia Naseem Edwards-Behi		2021-04-27
Rhys Miles Thomas		2021-02-23
Sion Wyn Fon		2021-02-23
Steffan Donnelly		2022-10-04
WILLIAM GWYN JONES		2015-11-07

Downloaded from opencharities.uk/ew/1106032

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

England & Wales - Charity number 1106032

Accounts

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

yn masnachu fel

THEATR CYMRU

(Cwmni Cyfyngedig trwy Warant)

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AC ADRODDIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

Ashmole & Co
3 Stryd y Farchnad
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6AH

Cynnwys y Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	1 i 15
Adroddiad yr archwilydd annibynnol	16 i 19
Datganiad o weithgareddau ariannol	20
Mantolen	21
Datganiad llif arian	22
Nodiadau i'r datganiad llif arian	23
Nodiadau i'r datganiadau ariannol	24 i 38

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyflwyno'u hadroddiad, ynghyd â'r cyfrifon wedi eu harchwilio, am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025.

Rhif Elusen gofrestredig	1106032
Rhif Cwmni cofrestredig	04784488 (Cymru a Lloegr)

Cyfeirnod a Manylion Gweinyddol yr Elusen, ei Hymddiriedolwyr a'i Hymgynghorwyr

Swyddfa gofrestredig	Yr Egin Heol y Coleg Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 3EQ
Banc	HSBC 15 Heol Awst Caerfyrddin SA31 3AQ
Cyfreithwyr	Morgan La Roche Bay House Phoenix Way Swansea SA7 9YT
Archwilydd Anibynnol	Ashmole & Co 3 Stryd y Farchnad Llandeilo Sir Gaerfyrddin SA19 6AH
Cyd-Brif Weithredwyr	Haf Angharad Jones Leefe a Steffan Donnelly

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

Aelodau'r Bwrdd

O dan y Ddeddf Cwmnïau mae gan aelodau'r Bwrdd yr un cyfrifoldebau a chyfarwyddwyr.

Yr aelodau a wasanaethodd yn ystod y cyfnod yw:

Dr N N Edwards-Behi	
Mr S W Fôn	
Mr E Jones	Ymddiswyddodd 29/06/2024
Miss F A Phillips	
Mrs C M L Rees	Ymddiswyddodd 28/06/2025
Mr R M Thomas	
Mr M R Williams	Ymddiswyddodd 28/06/2025
Mr G Williams	Ymddiswyddodd 28/06/2025
Mr W G Jones	
Mrs H A Jones Leefe (Cyfarwyddwr Gweithredol)	
Mr S Donnelly (Cyfarwyddwr Artistig)	
Mrs E P Fouladi	
Mr T G Hunter (Cadeirydd)	
Mr D G Jones	Ymddiswyddodd 29/06/2024
Mrs L Llywelyn Williams	Penodwyd 02/10/2024

Ysgrifennydd Mrs H A Jones Leefe

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen ar gyfer dibenion y Ddeddf Cwmnïau 2006, yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau cyllid yr elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau Datganiadau o Arferion Cymeradwy: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Gyllidol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) (effeithiol o 1 Ionawr 2019).

1. STATWS, STRWYTHUR, TREFN LYWODRAETHU A RHEOLAETH

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd heb unrhyw gyfalaf cyfrannau. Caiff y cwmni ei lywodraethu gan ei amcanion elusennol a'r Memorandwm Cymdeithasiad a'r Erthyglau Cymdeithasiad. Mae aelodau'r bwrdd llywodraethol (Bwrdd Ymddiriedolwyr Theatr Genedlaethol Cymru) yn Ymddiriedolwyr yr elusen ac yn gyfarwyddwyr y cwmni. Penodir Ymddiriedolwyr drwy broses agored, gan ddiogelu'r sgiliau gofynnol ac allweddol.

Mae pob aelod newydd yn mynd trwy gyfnod o gynefino, ac yn derbyn gwybodaeth am ei rôl fel Ymddiriedolwr ac fel cyfarwyddwr y cwmni. Mae'r aelodau newydd hefyd yn derbyn pecyn cynefino sy'n cynnwys Erthyglau Cymdeithasiad y cwmni, cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Bwrdd, copi diweddar o gyfrifon rheolaeth y cwmni, a chopi o gynllun busnes cyfredol y cwmni. Anogir aelodau newydd i gwrdd â staff y cwmni, ac i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi a ddarperir ar gyfer Ymddiriedolwyr gan fudiadau megis Celf a Busnes Cymru ac UK Theatre. Mae'r ymddiriedolwyr yn cael cynnig i fynychu nifer o gyrsiau hyfforddiant ar lywodraethu a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr, yn cynnwys cwrs 'Ar Fwrdd' A&B Cymru, a chyrsiau'r CGCG (WCVA). Mae ymddiriedolwyr hefyd yn derbyn hyfforddiant ar iechyd a diogelwch, a chydraddoldeb a chynhwysiant.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyfarfod fel Bwrdd o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am osod cyfeiriad strategol y cwmni, ac i'r perwyl hwnnw mae'n cymeradwyo'r polisïau allweddol hynny sy'n llywio'r cyfeiriad strategol, ac yn cymeradwyo gweithdrefnau strategol a chynlluniau hirdymor y cwmni. Mae'r Bwrdd hefyd yn monitro gweithrediad y cwmni a pherfformiad y Prif Weithredwyr. Mae'n gyfrifol am hydaledd ariannol y cwmni, ond yn dirprwyo'r rheolaeth o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwyr a'u swyddogion.

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

Mae gan y Bwrdd ddau Bwyllgor:

- Pwyllgor Cyllid a Materion Gweithredol;
- Pwyllgor Cynnwys a Chynulleidfaoedd.

Mae'r ddau Bwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd; maent yn atebol i'r Bwrdd, ac yn cyflwyno argymhellion iddo.

Rheoli Risg

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r ffaith bod yr elusen yn agored i amrywiol beryglon posibl. Caiff y Gofrestr Risg ei monitro'n rheolaidd, a rhoddwyd systemau ar waith i leihau'r peryglon hyn. Cydnabyddir fod Cyllid, ynghyd â materion Iechyd a Diogelwch, ymhlith y prif beryglon posibl.

Cyflawnir asesiadau risg Iechyd a Diogelwch ar bob gweithgaredd neu brosiect unigol, yn unol â pholisi Iechyd a Diogelwch y cwmni. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud â pheryglon, hyfforddiant staff a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch.

Archwilir y cyfrifon yn fanwl yn rheolaidd, gan sicrhau bod unrhyw orwariant neu darged incwm nas cyrhaeddir yn cael ei wrthweithio.

Penodi'r Archwilwyr

Cynhaliwyd proses dendro ffurfiol gan Theatr Cymru yn 2019 ar gyfer penodi archwilwyr am gyfnod cychwynnol o dair blynedd, gyda'r opsiwn i ymestyn y cytundeb am ddwy flynedd ychwanegol. O ganlyniad i'r broses hon, penodwyd Ashmole & Co fel archwilwyr statudol y cwmni, ac maent wedi parhau yn eu rôl ers hynny. Defnyddiwyd yr opsiwn ymestyn yn unol â'r cytundeb ac felly parhaodd y penodiad tan ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24. Oherwydd diffyg capasiti mewnol yn ystod 2024/25 i gynnal proses dendro lawn, cytunodd y Bwrdd i ymestyn penodiad Ashmole & Co am flwyddyn ychwanegol fel eithriad. Bydd proses dendro gystadleuol lawn yn cael ei chynnal ar gyfer penodi archwilwyr ar gyfer cyfrifon 2025/26 ymlaen.

Cadeirydd

Ym mis Gorffennaf 2023 penodwyd Yr Athro Jerry Hunter yn Gadeirydd y Bwrdd. Penodwyd Elwyn Jones yn Ddirprwy Gadeirydd er mwyn cefnogi'r Cadeirydd newydd yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Ymddiswyddodd Elwyn Jones fel Ymddiriedolwr ac Is-Gadeirydd ym mis Gorffennaf 2024, yn dilyn cyfnod estynedig o wasanaeth ar y Bwrdd.

Prif Swyddogion

Mae Steffan Donnelly, y Cyfarwyddwr Artistig, ac Angharad Jones Leefe, y Cyfarwyddwr Gweithredol, yn gyfrifol ar y cyd am reoli materion yr elusen o ddydd i ddydd ac am weithredu polisïau y cytunwyd arnynt gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r Prif Weithredwyr hefyd yn ymddiriedolwyr yn rhinwedd eu swyddi (ex-officio).

Polisi cyflogi

Y Pwyllgor Cyllid a Materion Gweithredol sy'n gwneud argymhelliad i'r Bwrdd ar dâl a chydnabyddiaeth ariannol y Tîm Rheoli yn seiliedig ar y ffactorau allweddol canlynol; amodau a gofynion presennol y farchnad, fforddiadwyedd, cyfraddau cyflog mewnol cyfredol a meincnodi gyda sefydliadau tebyg eraill.

2. AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Ein Gweledigaeth: Creu theatr Gymraeg fel man i ddod ynghyd, i gysylltu'r adnabyddus a'r annisgwyl, Cymreictod a'r byd, i drafod yn ddwys ac i godi'r galon.

Ein Cenhadaeth: Theatr deithiol sy'n rhoi Cymru a'i phobl ar y map, yn agored ac yn groesawgar i bawb, gan sicrhau dyfodol disglair i'n hiaith a'n diwylliant.

Ein Gwerthoedd:

Cymraeg: Rydym yn defnyddio ein statws fel cwmni teithiol cenedlaethol i roi'r Gymraeg, Cymru a'i phobl ar y map. Rydyn ni'n dathlu ein hiaith unigryw, yn denu pobl ato, ac yn rhoi hwb i hyder yn ei defnydd. Cymraeg yw iaith y cwmni, ac mae sicrhau ei dyfodol yn treiddio i bopeth a wnawn.

Dyfeisgar: Rydym yn ddyfeisgar, yn feiddgar ac yn uchelgeisiol yn y ffordd rydym yn comisiynu ac yn creu gwaith, gan chwilio am straeon sydd angen eu hadrodd a chwarae gyda ffurfiau cyffrous. Rydym yn diddanu ac yn ysbrydoli ein cynulleidfaoedd gyda gwaith sy'n berthnasol ac yn hawdd uniaethu ag e.

Cynhwysol: Mae ein gwaith yn adlewyrchu ystod o hunaniaethau a safbwyntiau, gan herio'r cysyniad o hunaniaeth Gymreig sefydlog. Rydym yn gweithredu'n dryloyw ac yn cynnig gweithle croesawgar, sy'n meithrin ac yn cefnogi pawb.

Cydweithredol: Rydym yn cydweithio'n ystyrlon â chymunedau ac artistiaid, yn meithrin partneriaethau cryf, ac yn defnyddio ein statws fel cwmni cenedlaethol i gefnogi eraill a chynnig cyfleoedd datblygu yn yr iaith Gymraeg.

Ymwybodol: Rydym yn sefydliad sy'n cwestiynu ac yn hunan-fyfyrio, sy'n gweithredu'n gynaliadwy ac yn gyfrifol. Rydym yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn sbarduno sgyrsiau ynghylch cyfiawnder cymdeithasol a'r argyfwng hinsawdd, gan gymryd agwedd ystwyth wrth ymateb i'r byd o'n cwmpas.

Y Cwmni

Sefydlwyd ac ymgorfforwyd Theatr Genedlaethol Cymru yn 2003, ac mae'r cwmni wedi ei leoli yng Nghaerfyrddin. Yn dilyn proses o ail-frandio ym mis Tachwedd 2024, mae'r cwmni bellach yn defnyddio yr enw Theatr Cymru fel enw masnachu.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'u dyletswydd dan adran 17 (5) o Ddeddf Elusennau 2011 o ran arweiniad cyffredinol y Comisiwn Elusennau er budd cyhoeddus wrth adolygu'r Elusen ac amcanion wrth gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol.

Mae'r cwmni yn gwmni theatr teithiol sy'n cynhyrchu dramâu prif lwyfan, cynyrchiadau mewn lleoliadau arbennig, a chynyrchiadau yng nghalon cymunedau Cymru. Ei fwriad yw creu rhaglen gytbwys o waith theatr sy'n adloniannol, arloesol ac uchelgeisiol, ac sy'n cynrychioli diwylliant deinamig Cymru.

Prif Swyddogaethau'r Cwmni:

- Cynyddu'r ddarpariaeth ddiwylliannol a chelfyddydol yn y Gymraeg.
- Dathlu, herio a datblygu hunaniaeth genedlaethol trwy gyfrwng theatr.
- Datblygu theatr fel cyfrwng celfyddydol yng nghyd-destun y diwylliant Cymraeg.
- Datblygu sgiliau a hyder gweithwyr theatr, rhanddeiliaid, mynychwyr a chyfranogwyr theatr trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar gyfartaledd, mae'r cwmni'n llwyfannu pedwar cynhyrchiad y flwyddyn, a'r rheiny'n amrywio o ddramâu clasurol Cymraeg, addasiadau llwyfan o glasuron llenyddol Cymraeg, trosiadau o glasuron theatr ryngwladol,

ysgrifennu newydd, theatr i blant a phobl ifanc, prosiectau cymunedol, cynyrchiadau safle-benodol, theatr ddawns a theatr gerddorol. Crëir cynyrchiadau ar gyfer eu teithio i ganolfannau celfyddydol ar draws Cymru, yn brif lwyfannau a chanolfannau graddfa ganolig, bychan a chymunedol, a hefyd teithio'n achlysurol y tu hwnt i Gymru yn y DU ac yn rhyngwladol.

Mae'n cynhyrchu rhaglen gynhwysfawr o waith cyfranogol, yn cynnwys gweithdai a sgyrsiau i ysgolion a grwpiau cymunedol o bob oed. Mae'n cydweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau ar draws y celfyddydau a thu hwnt i gynnig y ddarpariaeth hon.

Mae gwaith y cwmni wedi'i anelu'n bennaf at siaradwyr Cymraeg, ond anelir hefyd at gyrraedd dysgwyr y Gymraeg a'r di-Gymraeg yng Nghymru. Mae'r cwmni'n cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn cefnogi mynediad i ddysgwyr ac yn trefnu sgyrsiau cyn-sioe a gweithdai i ddysgwyr, ac mae'r Ganolfan yn paratoi pecynnau i ddysgwyr a modiwlau cyfoes o amgylch y cynyrchiadau. Mae darpariaeth ar gyfer dysgwyr a'r rhai sydd ddim yn medru'r Gymraeg ar bob un o gynyrchiadau theatr byw y cwmni, p'un ai bod hynny yn uwchdeitlau neu'n ddefnydd o ap Sibrwd. Darperir is-deitlau Cymraeg a Saesneg ar unrhyw gynnwys fideo a gaiff ei rhyddhau'n ddigidol, er mwyn ei wneud yn hygyrch i ddysgwyr a'r di-Gymraeg, yn ogystal â phobl fyddar a trwm eu clyw.

Er bod gwaith y cwmni wedi'i wreiddio yng Nghymru, mae wedi ymrwymo i godi proffil Cymru, y Gymraeg, a theatr trwy gyfrwng y Gymraeg y tu hwnt i Gymru, o fewn y Deyrnas Unedig yn ehangach, ac yn rhyngwladol.

Cynllun Strategol

Ym mis Ionawr i Mawrth 2023, cynhaliwyd proses cynllunio strategol manwl, yn ymateb i'r ffaith fod y cwmni wedi penodi Cyfarwyddwr Artistig newydd a bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnal proses Adolygu Buddsoddi i edrych ar sut y maen nhw'n ariannu'r celfyddydau yng Nghymru. Crëwyd cynllun strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2023-27 i gyd-fynd a'r cais a gyflwynwyd i'r Adolygiad Buddsoddi.

Y tri phrif nod strategol ar gyfer y cyfnod 2023-27 yw:

1. Galluogi pobl Cymru, pwy bynnag neu ble bynnag y maen nhw, i deimlo'n hyderus wrth ymwneud â theatr, y celfyddydau a diwylliant Cymraeg.
2. Cyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas a'r byd o'n cwmpas ac annog ffordd foesegol o fyw a gweithio.
3. Diwallu anghenion pobl Cymru yn y presennol ac yn y dyfodol, drwy sicrhau gwytnwch a hyblygrwydd y cwmni a chyfrannu at yr ecosystem gelfyddydol Gymraeg.

Prif Weithgareddau'r Cwmni

Yn unol â'i genhadaeth, mae'r cwmni'n cynnig amrywiaeth o brofiadau theatr Cymraeg eang eu hapêl, sy'n cynnwys perfformiadau o'i gynyrchiadau ac amrywiaeth o gyfleoedd i ymgyfranogi yn y celfyddydau.

Yn ystod 2024/25 roedd gweithgaredd y cwmni yn cynnwys:

Cynyrchiadau: Llwyfannwyd 7 cynhyrchiad yn 2024/25, gyda 5 ohonynt yn ddramâu gwreiddiol Cymraeg.

- **Parti Priodas** – Cynhyrchiad teithiol o'r ddrama a berfformiwyd yn wreiddiol yn Eisteddfod Genedlaethol 2023, i ganmoliaeth uchel (★★★★★ Buzz Magazine). Dyma ddrama gomedi gan Gruffudd Owen, a ddatblygwyd yn wreiddiol drwy'r rhaglen Grŵp Dramodwyr Newydd yn 2019. Mae'r ddrama'n dilyn hynt a helynt dau brif gymeriad (a chriw o gymeriadau ychwanegol sy'n cael eu chwarae gan y ddau actor) sy'n westeion ar ddiwrnod priodas ym Mhen Llŷn. Roedd gan y darn hwn apêl eang gyda gwreiddiau gwleidyddol, yn archwilio tlodi gwledig a'r argyfwng tai haf yn yr ardal. Teithiwyd y cynhyrchiad i 13 o

leoliadau ledled Cymru, yn cynnwys perfformiadau yng Ngŵyl Gomedi Machynlleth a Chlwb Rygbi Llanrwst, yn unol â nod y cwmni o fynd â'n gwaith mor agos at stepen drws ein cynulleidfaoedd a phosib. Cyflwynwyd 2 berfformiad drwy gynllun Noson Allan, cynllun gan Gyngor Celfyddydau Cymru i ddod â'r celfyddydau perfformio i neuaddau a lleoliadau cymunedol.

- **Brên. Calon. Fi** – Cyflwynwyd Brên. Calon. Fi yn nghanolfan YMa, fel rhan o arlwy Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024. Cafwyd ymateb gwefreiddiol i'r fonolog doniol a dirdynnol am chwant a chariad lesbiaid, gan y dramodydd Bethan Marlow (*"dyma'r sioe orau i mi weld ers tro byd"* - BBC Radio Cymru). Cynhyrchiad Theatr Cymru gyda chefnogaeth gan Eisteddfod Genedlaethol Cymru, ac yn rhan o rhaglen Mas ar y Maes. Comisiynwyd Brên. Calon. Fi yn wreiddiol gan Eisteddfod Genedlaethol Cymru i'w berfformio yn Eisteddfod Tregaron 2022.
- **Ha/Ha** - Cyd-gynhyrchiad gyda Theatr Clwyd, parhad o'r bartneriaeth a sefydlwyd yn 2023 gyda chynhyrchiad Rŵan Nawr. Cyflwynwyd y cynhyrchiad hwn, oedd yn cynnwys 4 drama gomedi fer newydd gan 4 dramodydd gwahanol, yng Nghaffi Maes B ar faes Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024.
- **Fy Enw i yw Rachel Corrie** – Yn ymateb i'r argyfwng dyngarol yn Gaza, cyflwynwyd gyfieithiad Cymraeg newydd gan Menna Elfyn o'r ddrama My Name is Rachel Corrie. Mae'r ddrama yn seiliedig ar ddyddiaduron a negeseuon e-bost yr actifydd Rachel Corrie, ymgyrchydd ifanc o America, a'i lladdwyd yn 2003 gan darw dur Byddin Israel wrth geisio amddiffyn cartref Palestinaidd rhag ei ddymchwel. Cyd-olygwyd y ddrama wreiddiol Saesneg gan Katharine Viner a'r diweddar Alan Rickman. Fe'i berfformiwyd yn Galeri Caernarfon, Theatr y Sherman, a Chanolfan S4C Yr Egin, gyda chefnogaeth gan Galeri Caernarfon.
- **Dawns y Ceirw** - Wedi'i ysgrifennu a'i pherfformio gan Casi Wyn (Bardd Plant Cymru 2022-23), roedd y sioe newydd swynol hon yn dod â hud, cerddoriaeth a dawns i gynulleidfaoedd ifanc ledled Cymru. Cyd-gynhyrchiad Theatr Cymru a Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, wedi ei chyfarwyddo gan Gyfarwyddwyr Artistig y ddau gwmni – Steffan Donnelly a Matthew Robinson. Gyda chefnogaeth gan Tŷ Cerdd.
- **Byth Bythoedd Amen** – Drama newydd ddinesig, doniol a thywyll gan **Mared Jarman** am gariad, colled a bywyd fel pobl ifanc anabl mewn byd sy'n blaenoriaethu'r brif ffrwd. Datblygwyd y ddrama yn wreiddiol o ganlyniad i'n Bwrsari Artist a Chymuned yn 2020. Ymdrechwyd i sicrhau fod y perfformiadau ar y daith yn hygyrch i gynulleidfa - roedd capsiynau a sain ddisgrifiad ar gael ym mhob perfformiad, a theithiau cyffwrdd dan ofal ein Sain Ddisgrifiwr, Eilir Gwyn, cyn pob sioe. Cyflwynwyd y cynhyrchiad gyda chefnogaeth gan Craidd. Yn ogystal â bod yn hygyrch, fe lwyddodd y cynhyrchiad hwn i gyrraedd lefel canolradd (intermediate) y Llyfr Gwyrdd Theatr. Dyma'r tro cyntaf i Theatr Cymru gyflawni lefel Canolradd, sy'n golygu bod 60% o'r deunyddiau ar y llwyfan wedi'u hailddefnyddio neu eu hailgylchu a bod o leiaf 70% o'r deunyddiau yn cael eu storio ar ôl y cynhyrchiad er mwyn eu defnyddio eto.
- **Ie ie ie** – Yn dilyn taith lwyddiannus ar ddechrau 2023, cynhaliwyd berfformiad o'r sioe hon ar faes Eisteddfod yr Urdd Maldwyn 2024. Roedd y cynhyrchiad hwn yn archwilio perthnasau iach, chwant a chaniatâd mewn ffordd feddylgar a chwareus. Roedd y sioe yn cynnwys perfformiad unigol arbennig gan y comedïwr Eleri Morgan a chyfweliadau gonest gyda phobl ifanc Cymru, yn ogystal â chyfle i'r gynulleidfa gyfrannu at y drafodaeth. Wedi ei dargedu yn bennaf at bobl ifanc, roedd y sioe yn addasiad Cymraeg o Yes Yes Yes; sioe fyw arobryn gan y gwneuthurwyr theatr o Aotearoa/Seland Newydd, Karin McCracken ac Eleanor Bishop. Wrth ddatblygu'r cynhyrchiad a gweithio gyda'r cyfranogwyr ifanc ar draws y wlad, derbyniodd y cwmni hyfforddiant a chefnogaeth ymgynghorol gan y mudiad Brook Cymru, elusen iechyd rhywiol i bobl ifanc.

Theatr Genedlaethol Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

Gwobrau

Yn 2024/25, enillodd y cwmni wobr Ragoriaeth Mewn Teithio (*Excellence in Touring*) yng Ngwobrau UK Theatre ar gyfer cynhyrchiad Parti Priodas. Dyma'r tro cyntaf yn hanes y gwobrau i gwmni theatr Cymraeg ennill.

Ffrydio a Darlledu Cynyrchiadau: Partneriaeth gydag S4C

Yn dilyn sefydlu partneriaeth gyda S4C yn 2023, dangoswyd gynyrchiadau Parti Priodas a Rhinoseros blatfformau S4C yn ystod 2024/25. Darlledwyd Parti Priodas ar y brif sianel ddiwedd Tachwedd 2024 ac roedd ar gael ar blatfformau digidol (S4C ac iPlayer) am 150 diwrnod. Roedd Rhinoseros hefyd ar gael ar blatfformau digidol (S4C ac iPlayer). Roedd dros 7000 o bobl wedi gwylio Parti Priodas, a bron i 1700 o wyliadau i Rhinoseros. Roedd y darllediadau yma yn cynnig cyfle i gynulleidfaoedd weld cynyrchiadau wnaethon nhw golli pan ar daith, neu ail-wylio cynhyrchiad – i gyd yn rhad ac am ddim a gyda is-deitlau ar gyfer hygyrchedd a mynediad iaith.

Er mwyn adeiladu cynulleidfa a chodi ymwybyddiaeth o frand a gwaith Theatr Cymru ymhlith pobl ifanc, fe wnaethom hefyd gydweithio gyda Hansh i rhannu darnau o gynhyrchiad Ie ie ie ar blatfformau digidol, yn cynnwys YouTube.

Rydym yn parhau i drafod gyda Phenaethiaid S4C er mwyn ystyried pa fodel sydd mwyaf effeithiol i ddyfodol y bartneriaeth.

Datblygu Talent a Sgiliau

Mae'r cwmni wedi ymrwymo i ddatblygu talent yn y sector theatr yng Nghymru, boed hynny'n ddramodwyr, cyfarwyddwyr, gwneuthurwyr theatr, cynllunwyr, actorion neu unrhyw ymarferwyr disgyblaeth theatr arall, yn arbennig ymysg siaradwyr Cymraeg. Mae'n elfen bwysig o waith y cwmni er mwyn diogelu ei ddyfodol, ac er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth theatr a chelfyddydau Cymraeg eu hiaith yng Nghymru.

- **Grŵp Dramodwyr:** Er mwyn cefnogi a datblygu sgwennwyr theatr Cymru, fe wnaethom ymgynnull grŵp o 15 dramodydd i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu i'r theatr dan arweiniad John Yorke. Cynhaliwyd diwrnod o weithdy ym mis Mehefin gyda John Yorke er mwyn atgyfnerthu dealltwriaeth y dramodwyr o elfennau sylfaenol dweud stori, archwilio'r glasbrint naratif sy'n ffurfio sylfaen pob drama, ynghyd â chynnig technegau ymarferol i gefnogi'r broses ddatblygu ac ysgrifennu. Roedd y gweithdy wedi ei gynllunio i atgoffa ac adfywio'r grefft ar gyfer sgwennwyr mwy profiadol ac fel cyflwyniad i'r rhai sy'n newydd i greu stori. Yn dilyn y gweithdy, roedd cyfle i'r dramodwyr i gydweithio, cwblhau ymarferion ymarferol a derbyn adborth pellach. Darparwyd hyfforddiant hefyd i'r dramodwyr ar gynhyrchiad Ha/Ha.
- **Interniaethau Cefn Llwyfan:** Llwyddwyd i sicrhau nawdd ychwanegol, o Gronfa Her ARFOR, er mwyn ariannu Interniaethau Cefn Llwyfan. Roedd yr Interniaethau Cefn Llwyfan yn brosiect a arweiniwyd gan Theatr Cymru, mewn partneriaeth â Pontio, a gyda chefnogaeth gan CULT Cymru. Nod y cynllun oedd ceisio mynd fynd i'r afael â'r prinder sgiliau allweddol yn sector celfyddydau a digwyddiadau byw Cymru, yn enwedig yng nghyd-destun y Gymraeg. Roedd y fenter beilot chwe mis hon yn anelu at ddatblygu gweithlu theatr dechnegol yng nghefn gwlad Cymru drwy brofiad ymarferol, mentora, a hyfforddiant ffurfiol. Cymerodd pedwar intern ran, gan dderbyn lleoliadau chwe mis gyda Theatr Cymru a Pontio. Roedd y lleoliadau hyn yn rhoi cyfle i'r interniaid weithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol profiadol mewn amgylcheddau theatr bywiog.
  Mae'r adborth a gasglwyd gan yr interniaid yn nodi'r canlynol:
  - 183% o gynnydd yn eu hasesiad eu hunain o'u sgiliau technegol
  - 45% o gynnydd yn eu hasesiad eu hunain o'u sgiliau datrys problemau
  - 125% o gynnydd yn eu lefelau hyder yn gwneud cais am swyddi yn y diwydiant
  - 60% o gynnydd yn eu lefelau hyder yn rhwydweithio gyda gweithwyr proffesiynol

- **Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC)** – Sefydlwyd memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda CBCDC er mwyn darparu cyfleoedd i'w myfyrwyr i ddod at Theatr Cymru am leoliadau gwaith ac i gysgodi cynllunwyr sy'n gweithio ar gynyrchiadau'r cwmni. Cynhaliwyd gweithdai yng ngwyl Tafwyl, oedd yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc i greu pypedau dan ofal pypedwyr CBCDC a Cydlynydd Cyfranogi Theatr Cymru.
- **Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau a Eurodram** – sefydlwyd prosiect newydd gyda Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau yn ffocysu ar gyfieithu dramâu a rhannu ymarfer. Cyd-sefydlwyd panel Eurodram am y tro cyntaf yng Nghymru a chyflwynwyd 3 drama i'w cyfieithu. Cyhoeddwyd galwad agored i adnabod dramodwyr a/neu cyfieithwyr y gallem gydweithio â hwy. Gwahoddwyd 8 i fynychu gweithdy cyfieithu dramâu, a gynlluniwyd ar y cyd efo Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau, yn yr Egin ym Medi 2024. Yn dilyn y gweithdy, mae'r dramâu wedi eu cyfieithu i'r Saesneg ac wedi eu rhannu gyda rhwydwaith Eurodram.
- **Newid Diwylliant:** O ganlyniad i grant gan Lywodraeth Cymru, o Gronfa Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon Cymru Gwrth-hiliol, sefydlwyd prosiect Newid Diwylliant | Culture Change yn 2023. Roedd y prosiect yn bartneriaeth rhwng y cwmnïau celfyddydol cenedlaethol, gyda Theatr Cymru yn bartner ariannol arweiniol. Nod y prosiect oedd i drawsnewid y sector gelfyddydol Gymreig wneud yn wirioneddol gynrychioliadol o'r Gymru gyfoes. Roedd Newid Diwylliant | Culture Change yn cynnig fframwaith i drawsnewid y cwmnïau sy'n rhan o'r cynllun i fod mewn sefyllfa well i ddenu a recriwtio pobl o'r mwyafrif byd-eang ar bob lefel ac i allu darparu gweithleoedd a diwylliant sefydliadol cynhwysol – a hynny drwy rhaglen o hyfforddiant a datblygiad sefydliadol. Darparwyd rhaglen o hyfforddiant, yn cynnwys hyfforddiant gwrth-hiliaeth, i 22 o sefydliadau celfyddydol dros gyfnod o 9 mis yn 2024.
  Cynhaliwyd cwrs preswyl wythnos o hyd yng Nghanolfan Mileniwm ym mis Tachwedd 2024, i ddarpar arweinwyr o'r mwyafrif byd eang. Cafwyd ystod eang o sesiynau a hwyluswyr, yn cynnwys Richie Turner, Chantelle Clark o'r Financial Times, Sophie Howe (cyn-Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol), Inclusive Employers, a Matt Waite – arbenigwr iaith gorfforol.
  Daeth y cynllun i ben yn ffurfiol ar ddiwedd Rhagfyr 2024.

Comisiynu a Datblygu Artistig

- **Comisiynau:** mae'n flaenoriaeth i ni fel cwmni i ddatblygu gwaith gan leisiau newydd a lleisiau wedi eu tangynrychioli felly mae gennym darged flynyddol o o leiaf 25% o gomisiynau 2024/25 yn mynd i artistiaid o grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli – yn cynnwys artistiaid o'r mwyafrif byd-eang, o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel, ac artistiaid anabl, Byddar a/neu niwroamrywiol. Llwyddwyd i gyrraedd canran uwch na'r targed yn 2024/25 gyda 27% o'r comisiynau wedi eu dyfarnu i artistiaid o'r grwpiau a rhestrir uchod.
- **Datblygu Artistig:** Rhan bwysig o'r gwaith datblygu artistig yw cynnal gweithdai a chyfnodau ymchwil a datblygu er mwyn rhoi cyfle i artistiaid brofi eu gwaith yn cael ei berfformio. Cynhaliwyd nifer o weithdai yn ystod 2024/25 gydag artistiaid sydd o dan gomisiwn.

Cydweithio a Phartneriaethau

Rhan bwysig o waith y cwmni yw gweithio mewn partneriaeth gyda chwmnïau ac unigolion o fewn y sector, gan gynnig cefnogaeth ac arweiniad, ac adnabod a manteisio ar gyfleoedd i weithio ar draws sectorau gwahanol er mwyn dangos budd ac effaith gadarnhaol y celfyddydau.

- **Cynyrchiadau mewn Partneriaeth:** Yn ogystal â chreu a chyflwyno rhaglen o'i gynyrchiadau ei hun, mae'r cwmni'n darparu cefnogaeth i gynyrchiadau gan gwmnïau eraill, sy'n gydnaws â gweledigaeth,

cenhadaeth a gwerthoedd y cwmni. Yn ystod 2024/25 rhoddwyd cefnogaeth i gwmnïau theatr eraill fel a ganlyn:

- **Dal Gafael | Hold On** - Cydweithiwyd gyda Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a Fio (cwmni theatr mwyafrif byd-eang) ar gynhyrchiad blynyddol Theatr Ieuenctid Cymru. Cyd-gomisiwn drama newydd gan Mared Llywelyn a Steven Kavuma oedd yn trafod hanes teuluoedd amrywiol a'r argyfwng hinsawdd. Cyflwynwyd y cynhyrchiad yn Theatr y Sherman a Galeri Caernarfon ac fe wnaeth 21 o bobl ifanc gymryd rhan.
- **Hugan Fach Goch, cynhyrchiad Theatr y Sherman gyda chefnogaeth Theatr Cymru** – Cefnogwyd sioe Nadolig y Sherman ar gyfer plant dan 7, gyda chyfraniad ariannol gan Theatr Cymru er mwyn cyflogi Cyfarwyddwr Cynorthwyol. Mae hyn yn rhan o ymrwymiad y cwmni i ddatblygu cyfarwyddwyr. Y bwriad yw y bydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol o 2024 yn cyfarwyddo'r sioe Nadolig yn 2025.
- **Olion, cynhyrchiad Frân Wen mewn cydweithrediad â Pontio, Bangor gyda chefnogaeth GISDA a Storiel.** Darparwyd interniaid cefn llwyfan i weithio ar y cynhyrchiad hwn, oedd yn fuddsoddiad sylweddol, mewn da. Roedd Olion yn drioleg ar ffurf sioe theatr ar lwyfan, theatr awyr agored ar strydoedd Bangor, a ffilm fer.
- **Mewn Cymeriad: Betty Campbell** (cynhyrchiad Mewn Cymeriad, gyda chefnogaeth gan Theatr Genedlaethol Cymru a Butetown Arts & Culture Association) – Datblygwyd a llwyfannwyd y cynhyrchiad yma yn wreiddiol yn 2022/23 ond mae'r sioe dal i fod ar gael i ysgolion ar gais, felly llwyfannwyd nifer o berfformiadau yn ystod 2024/25. Cefnogwyd y cynhyrchiad yma er mwyn dod â hanes Betty Campbell - prifathrawes Ddu gyntaf Cymru - i blant ledled Cymru. Darparwyd cefnogaeth i Gyfarwyddwr y sioe a chydweithiwyd gyda Mewn Cymeriad i greu pecyn addysg. Mae Theatr Cymru yn darparu gweithdai i ysgolion i gyd-fynd â pherfformiadau, ar y cyd gyda Mewn Cymeriad.

- **Yr Eisteddfod Genedlaethol -** Mae'r cwmni wedi gweithio mewn partneriaeth ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru ers nifer o flynyddoedd i gefnogi gweithgaredd theatr fel rhan o arlwy'r brifwyl. 2023 oedd y flwyddyn gyntaf i'r trefniant newydd ar gyfer cyflwyno theatr ar y Maes. Penderfynwyd hepgor Theatr y Maes am y tro, a chyflwyno arlwy theatr mewn nifer o leoliadau ar draws y Maes, yn cynnwys Caffi Maes B, Y Babell Lên, a'r Pentref Plant. Ehangwyd hefyd ar y ddarpariaeth theatr stryd gyda nifer o berfformiadau yn digwydd yn yr awyr agored. Cafwyd ymateb gadarnhaol gan gynulleidfaoedd i'r newid hwn ac felly parhawyd gyda'r trefniant yma yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf yn 2024, gyda cynyrchiadau theatr yn cael eu cyflwyno yn Caffi Maes B ac yng nghanolfan YMa yng nghanol Pontypridd, oedd yn un o leoliadau swyddogol yr Eisteddfod.
  Mae Theatr Cymru yn aelod o gonsortiwm o gwmnïau theatr Cymreig sy'n gweithio gyda'r Eisteddfod i lunio cystadleuaeth newydd ar gyfer 2025, sef Medal y Dramodydd.
- **Llyfr Agored | Open Book** – Roedd hon yn bartneriaeth newydd rhwng Theatr Clwyd, Theatr y Sherman, Theatr y Torch, Theatr Genedlaethol Cymru a Chelfyddydau Pontio Bangor. Roedd y cynllun yn rhoi cyfle i 10 weithiwr llawrydd i wario 15 diwrnod (gyda thâl) yn cysgodi Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Uwch Dimau Arwain. Daeth 2 weithiwr llawrydd i gysgodi Cyfarwyddwr Gweithredol Theatr Cymru yn ystod 2024/25. Darparwyd cyfleoedd amrywiol iddynt, yn cynnwys ymuno â chyfarfod Pwyllgor Cyllid a Materion Gweithredol a cyfarfodydd Tîm Rheoli.

Cyfranogi

Mae gwaith cyfranogi'r cwmni yn ffordd holl bwysig o ymwneud â chynulleidfaoedd mewn modd gwahanol, ond hefyd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bobl gymryd rhan yn y celfyddydau - i fwynhau, magu hyder a

datblygu sgiliau. Mae'r ymwneud â'r celfyddydau hefyd yn gallu cefnogi adferiad a gwella iechyd a lles. Yn aml yn y gwaith yma daw pŵer y celfyddydau i'r amlwg.

Mae gwaith ymgyfranogi'r cwmni yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgaredd theatr, yn cynnwys gweithdai i grwpiau gwahanol (e.e. disgyblion a myfyrwyr, ac artistiaid ar eu prifiant), sgyrsiau cyn ac ar ôl sioeau, a sesiynau i ddysgwyr. Mae'n cynnwys gweithgareddau sy'n datblygu cynulleidfa ar gyfer cynyrchiadau, a gweithgareddau sy'n ymateb i alw gan gymunedau amrywiol, boed yn grŵp cymunedol, yn fusnes neu'n sefydliad mewn sector arall.

Yn 2024/25, roedd ein gwaith cyfranogi yn cynnwys:

- **ASHTAR Theatre × Theatr Cymru** - Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth Theatr Cymru mewn partneriaeth â Theatr Ashtar o Balesteina gyflwyno prosiect rhyngwladol ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed. Cynhaliwyd cyfres o weithdai ar-lein lle rhannodd cyfranogwyr eu profiadau a'u straeon, gan weithio ar draws tair iaith – Arabeg, Cymraeg a Saesneg. Arweiniwyd y sesiynau gan y beirdd Alice S. Yousef a Nia Morais, gyda chefnogaeth Llenyddiaeth Cymru. Daeth y prosiect i ben gyda chreu cerdd tair-ieithog a ffilm fer, gan feithrin sgiliau creadigol, hyder a chydweithio, a chryfhau cysylltiadau diwylliannol rhwng Cymru a Phalesteina.
- **Clybiau Drama:** Parhawyd i gynnal Clybiau Drama yng Nghaerfyrddin ar ddechrau 2024/25 (yn nhymor yr haf), mewn partneriaeth gyda Menter Gorllewin Sir Gâr (MGSG). Roedd Clwb Joio Drama ar gyfer plant cynradd Blwyddyn 1-3, a Chlwb Drama i blant cynradd Blwyddyn 4-6. Adolygwyd yr arlwy dros yr haf, o ganlyniad i gynnydd mewn clybiau drama ac ysgolion perfformio yn lleol. Penderfynwyd, ar y cyd gyda MGSG, i beidio ail-ddechrau sesiynau'r Clwb Drama ym mis Medi 2024 ond cytunwyd i adolygu'r galw ac angen am y math yma ddarpariaeth yn rheolaidd.
- **Ar y Dibyn:** Mae prosiect Ar y Dibyn, a sefydlwyd yn 2019, brosiect celfyddydol a ddarperir gyda chefnogaeth sefydliadau celfyddydol, iechyd a lles a trydydd sector er mwyn grymuso pobl ledled Cymru sydd wedi'u heffeithio gan ddibyniaeth. Yn 2023, cyrhaeddwyd record newydd o farwolaethau oherwydd dibyniaeth alcohol (Iechyd Cyhoeddus Cymru), felly mae'r angen yn fwy nag erioed. Darperir gweithdai creadigol, diogel, cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd difreintiedig, gyda chefnogaeth cwnselwyr Cymraeg, cyfieithwyr a phartneriaid. Hyfforddir artistiaid, cefnogir cyfranogwyr i ddod yn artistiaid a chynhigir llwyfannau i rannu gwaith creadigol mewn sesiynau un wrth un, grwp a chyhoeddus er mwyn dathlu gwytnwch a dad-stigmateiddio dibyniaeth. Yn ystod 2024-25, cynhaliwyd sesiynau gydag ymgyfranogwyr yn Nghaernarfon, Maesgeirchen, Blaenau Ffestiniog, Pwllheli, Llangefni, Aberystwyth ac ar-lein. Roedd partneriaid gweithredol y prosiect yn cynnwys Iola Ynyr; Llenyddiaeth Cymru; Uned Camddefnyddio Sylweddau Rhanbarthol Cyngor Gwynedd; Cronfa Grymuso Gwynedd Menter Môn; Meddwl.org; Adra; Cyngor Ynys Môn; Canolfan Celfyddydau Aberystwyth a Galeri Caernarfon. Derbyniwyd nawdd gan Gronfa Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Gwynedd, Adra a meddwl.org i gynnal y prosiect yn 2024/25.
- **Urdd Gobaith Cymru ac Y Cwmni** – Cydweithiwyd gydag Y Cwmni (cwmni theatr yr Urdd) ar brosiect cyfranogol gyda'r nod o ennyn diddordeb myfyrwyr 15 oed a hŷn mewn ysgolion i fod yn rhan o griw Y Cwmni y flwyddyn olynol. Gweithiwyd gyda grŵp o bobl ifanc i greu darn theatrig codi'r llen (*curtain raiser*) a berfformiwyd cyn prif sioe Y Cwmni yng Nghastell Aberteifi a neuadd Cymunedol Casnewydd. Gwahoddwyd enillwyr prif gystadlaethau Eisteddfod yr Urdd i ystafell ymarfer Dawns y Ceirw a chafwyd sesiwn holi ac ateb gyda'n Cyfarwyddwr Artistig ynglŷn â gyrfau yn y sector gelfyddydol.
- **Dysgwyr:** Darparwyd amrywiaeth o weithdai i ddysgwyr mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws Cymru. Cydweithiwyd unwaith eto gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gefnogi'r cwricwlwm.

- **Criw Creu:** Prosiect cenedlaethol sy'n darparu mynediad i'r celfyddydau i bobl ifanc sydd ddim fel arfer yn cael mynediad, megis disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a throseddwyr ifanc. Arweinwir y prosiect gan Theatr Cymru gyda chefnogaeth gan Lenyddiaeth Cymru. Mae'r prosiect, wnaeth ddechrau yn 2020, yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i bobl ifanc, i weithio gydag artistiaid i greu gwaith creadigol gwreiddiol. Yn 2024/25, gweithiwyd gyda grŵp o droseddwyr ifanc rhwng 14 a 18 oed o **Garchar y Parc** ger Penybont-ar-Ogwr. Cynhaliwyd sesiynau wedi eu harwain gan ein Cydlynydd Cyfranogi, Sian Elin James, a Bardd Plant Cymru, Nia Morais. Yn y sesiynau yma fe wnaeth y bobl ifanc gyd-greu cerdd, a rhannwyd y gerdd yn rhan o wal arddangos a grëwyd gan y bobl ifanc, ynghyd â lluniau o'r gweithdai, er mwyn ei ddangos i'w teuluoedd.
- **Dramodydd Preswyl Ifanc**: Alys Hedd Jones oedd Dramodydd Preswyl 2024 ar ôl ennill cystadleuaeth Medal Ddrama'r Urdd yn Eisteddfod Maldwyn 2024. Darparwyd pecyn o gefnogaeth iddi, yn cynnwys cyfarfodydd gyda'r tîm creadigol a chyfleoedd i gysgodi, mynychu cyfarfodydd datblygu creadigol, a mynychu perfformiadau'r cwmni.
- **Casgliad Dysgu:** Mae'r cwmni yn parhau i gynnig adnoddau addysg ar lein trwy Casgliad Dysgu. Mae Casgliad Dysgu yn rhoi cyfle i ddarlithwyr, athrawon, myfyrwyr, disgyblion, addysgwyr a dysgwyr i wylio, astudio a mwynhau theatr Gymraeg. Mae capsiynau caeedig Cymraeg a Saesneg ar gael ar bob cynhyrchiad yn y casgliad.

Cydweithiwyd gydag ystod eang o bartneriaid er mwyn darparu cyfleoedd i ymgyfranogi yn y celfyddydau, gan gynnwys, Urdd Gobaith Cymru, S4C, Llenyddiaeth Cymru, Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gwynedd ac Ynys Môn, Meddwl, Adra, Cyngor Ynys Mon, Galeri, Canolfan Celfyddydau Aberystwyth, Cwmni Theatr Ashtar, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Menter Gorllewin Sir Gâr, a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Roedd cefnogaeth y partneriaid hyn yn allweddol i lwyddiant y gwaith.

3. CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD

Trosolwg o Brif Weithgaredd y Flwyddyn:

Cyrhaeddiad	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25
Theatr Byw – Mynychwyr	**16,399**	**0**	**7,046**	**10,639**	**16,412**	**19,249**
Cyflwyniadau Theatr Ddigidol – Gwyliadau	**0**	**73,427**	**27,799**	**447**	**0**	**8,923**
Cyfranogwyr – Plant a Phobl Ifanc	3,979	5,762	2,126	2,655	3,371	3,534
Cyfranogwyr – Cyffredinol	1,462	99	185	917	972	699
Sgyrsiau a Sesiynau Holi ac Ateb	1,174	622	2,098	574	472	883
Cyfanswm Cyfranogwyr	**6,615**	**6,483**	**4,409**	**4,773**	**4,815**	**5,116**
Cyfanswm y Mynychwyr a'r Cyfranogwyr	**23,014**	**79,910**	**39,254**	**15,450**	**21,227**	**33,288**

Adborth Cynulleidfa

Er mwyn sicrhau ein bod yn gwasanaethu'n cynulleidfaoedd a'n rhanddeiliaid mor effeithiol â phosib, rydym yn holi am adborth gan gynulleidfaoedd trwy nifer o ddulliau gwahanol. Casglwyd adborth ar gynyrchiadau oedd yn pontio blynyddoedd ariannol 2024-25 a 2025-26 trwy holiadur ar lein. O'r ymatebion, roedd:

- 81% wedi gweld cynhyrchiad Theatr Gen o'r blaen
- 67% wedi rhoi adolygiad 4 neu 5 seren i Dawns y Ceirw a Byth Bythoedd Amen.
- 65% o'r ymatebwyr yn dod o Wynedd
- 40% wedi clywed am y cynyrchiadau trwy'r cyfryngau cymdeithasol a 17% o'u canolfan leol
- 18% o'r ymatebwyr rhwng 18 a 34 oed a 52% yn 55+

Cynaliadwyedd

Mae'r cwmni wedi ymrwymo i leihau effaith ein cynyrchiadau ar yr amgylchedd ac roedd yn darged ar gyfer 2024/25 i barhau i weithredu methodoleg y Llyfr Gwyrdd Theatr ar bob cynhyrchiad, gan gyrraedd lefel sylfaenol ar bob cynhyrchiad, a chyrraedd lefel canolradd ar o leiaf un cynhyrchiad. Llwyddwyd i gyflawni'r targed yma, gyda pob cynhyrchiad yn cyrraedd lefel sylfaenol, a chynhyrchiad Byth Bythoedd Amen yn cyrraedd lefel canolradd.

4. ADOLYGIAD ARIANNOL

Tra bod y cyfan o wariant y cwmni yn gysylltiedig mewn rhyw fodd â gwasanaethau'r cwmni, mae gwariant uniongyrchol ar brif weithgareddau'r cwmni, fel y disgrifir hwy uchod, yn cynrychioli'r rhan helaethaf o wariant blynyddol y cwmni. Mae'r rhan helaethaf o gostau cyflwyno cynyrchiadau theatraidd yn gysylltiedig â gwaith artistiaid llawrydd wrth greu'r gwaith, ac â staffio'r cynyrchiadau. Er mwyn cynnal y safonau artistig uchaf posibl, mae'r cwmni'n cyflogi naill ai'r artistiaid mwyaf profiadol neu'r mwyaf cymwys, ac yn gweithredu taliadau yn unol â chanllawiau a chytundebau UK Theatre, sef y sefydliad ambarél y mae'r cwmni'n aelod ohono. Mae'r taliadau hynny, yn eu tro, yn seiliedig ar gytundebau'r sefydliad hwnnw gydag undebau llafur y diwydiannau creadigol a'r sector ddiwylliannol.

Mae gwerthoedd cynhyrchu uchel y cwmni – yn unol â disgwyliadau'r gynulleidfa wrth ystyried gwaith cwmni theatr cenedlaethol, a nodau ac amcanion y cwmni – yn golygu bod rhan sylweddol o gyllideb pob cynhyrchiad yn gysylltiedig â chostau cynhyrchu (e.e. cynllunio a chreu neu ddarparu set a gwisgoedd, cynlluniau sain a goleuo, rheoli llwyfan, ac ati, ac yn achos cynyrchiadau digidol, gwaith camera a golygu, a chostau ffrydio).

Sicrhau Gwerth am Arian

Ym mhob agwedd o'i waith, mae'r cwmni'n ymdrechu bob amser i sicrhau gwerth am arian, gan ofalu ei fod yn sicrhau prisiau cystadleuol wrth, e.e. brynu offer, archebu llety a chostau eraill yn gysylltiedig â chreu cynyrchiadau theatr. Mae gan y cwmni bolisi caffael sy'n nodi'r isod:

Cost	Gofyniad
Hyd at £5,000	Dyfynbrisiau – Isafswm o 1
£5,000 i £25,000	Dyfynbrisiau – Isafswm o 3
£25,000 i £75,000	Proses dendro gaeedig – gwahodd 4–6 (angen derbyn o leiaf 2)
Uwch na £75,000	Proses dendro agored (angen derbyn o leiaf 2)

Pennir cyflogau staff parhaol yn seiliedig ar arolwg o gyflogau cyfatebol yn y sector ac yn lleol, er mwyn sicrhau gwerth am arian, tra ar yr un pryd yn cynnal safonau disgwyliedig.

Derbyniwyd cyfanswm o £1,545,063 o incwm yn ystod y flwyddyn (2023/24: £1,455,808). Ar ôl cynnwys incwm rhyddhad treth o £135,313 (2023/24: £153,606), cyfanswm y cronfeydd ar ddiwedd y flwyddyn oedd £915,484 (2023/24: £828,862). Cyfanswm y cronfeydd cyfyngedig oedd £54,228 (2023/24: £50,750) a chyfanswm y cronfeydd anghyfyngedig oedd £861,256 (2023/24: 778,112).

Polisi Cronfeydd

Cedwir swm o £225,000 wrth gefn (y swm i'w adolygu'n flynyddol) ar gyfer amgylchiadau eithriadol na ellir eu rhagweld. Cynyddwyd y swm o £195,000 i £225,000 ym mis Mawrth 2023 oherwydd y cynnydd mewn costau yn gyffredinol.

Symudodd y cwmni ei bencadlys i'r Egin yng Nghaerfyrddin ar ddechrau 2023. Gan nad oes gofod ymarfer yn y pencadlys newydd (yn wahanol i gartref blaenorol y cwmni – Y Llwyfan yng Nghaerfyrddin) neilltuwyd £58,337 i gronfa benodol ar gyfer costau adeilad. Neilltuwyd y swm yma ar gyfer unrhyw drefniant a gytunir ar gyfer gofod ymarfer ar gyfer y blynyddoedd nesaf, ac unrhyw ofod cwmni arall.

Mae gan y cwmni ddwy gronfa gyfalaf - un gyfyngedig, o ganlyniad i dderbyn cymhelliant ariannol wrth leoli'r cwmni yn ei leoliad presennol, ac un anghyfyngedig. Roedd gwariant cyfalaf yn ystod 2024/25 yn cael ei ariannu yn gyntaf allan o'r gronfa gyfyngedig tan i'r gronfa hynny ddod i ben, cafodd gweddill o'r gwariant cyfalaf ei ariannu o'r gronfa anghyfyngedig. Ni wnaethpwyd cyfraniad i'r gronfa anghyfyngedig yn 2024/25 ond mae'r Bwrdd yn adolygu'r swm sydd yn y gronfa honno yn flynyddol.

Cytunwyd ym mis Mawrth 2023 i neilltuo swm yn y Gronfa Anghyfyngedig i gefnogi'r strategaeth incwm, sydd yn ddibynnol ar gyllid o ymddiriedolaethau a grantiau. Caiff y gronfa ei defnyddio i sicrhau nad oes diffyg yng nghyllideb y cwmni os nad oes modd cyrraedd y targed llawn mewn unrhyw flwyddyn. Nid oedd angen defnyddio unrhyw gyllid o'r gronfa hon yn 2024/25.

Mae'r ymddiriedolwyr yn anelu cynnal cronfeydd rhydd gwerth oddeutu 3 - 6 mis o wariant cyffredinol. Cyfanswm y gronfa rydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn unol â therminoleg statudol (SORP) oedd £422,496 (2023/24: £336,754), oedd yn digoni polisi'r ymddiriedolwyr. Mae cyfanswm y gronfa rydd a ddangosir yn nodyn 22 yn cynnwys asedau sefydlog gwerth £15,148 (2024; £8,574). Y strategaeth hirdymor yw parhau i gynyddu'r cronfeydd rhydd yn y dyfodol trwy greu gweddill blynyddol ar weithgareddau.

Nawdd Cyhoeddus

Mae Theatr Cymru yn un o'r sefydliadau sy'n derbyn cyllid aml-flwyddyn gan Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC), ac mae'r statws hwnnw'n rhoi sicrwydd cymharol o gyllid am gyfnod penodol - 3 blynedd yn y man cyntaf, gyda phosibilrwydd o dair arall (6 mlynedd i gyd). Cynhaliwyd proses Adolygiad Buddsoddi gan CCC yn 2023 ac fe hysbyswyd y cwmni ym mis Medi 2023 fod y cais wedi bod yn llwyddiannus, ar sail yr un lefel ariannu. Cychwynnodd y cyfnod ariannu presennol ym mis Ebrill 2024, ac felly bydd yr adolygiad interim yn digwydd yn 2027.

Mae'r cwmni'n cyfarfod a thrafod yn gyson gyda CCC, y prif noddwr. Mae'r cwmni'n falch iawn o dderbyn cyllid aml-flwyddyn gan CCC, ac mae gennym berthynas adeiladol gyda'n prif noddwr. Mae'r cwmni'n adrodd yn ôl yn gyson i CCC, ac yn cyflawni'r holl orchwylion a'r gofynion sydd ynghlwm â derbyn y nawdd hwn.

Mae nawdd gan CCC yn cynrychioli canran helaeth o incwm blynyddol y cwmni. Er mwyn lleihau'r risg o fod mor ddibynnol ar un ffynhonnell, mae wedi bod yn flaenoriaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gynyddu'r incwm o ffynonellau eraill, ac felly lleihau'r canran o'r incwm sy'n dod gan CCC. Yn 2018, gosodwyd targed i leihau cyllid CCC fel canran o incwm y cwmni i 75% erbyn 2022/23. Er gwaethaf effaith y pandemig, fe lwyddwyd i leihau'r ddibyniaeth i 75% yn 2022/23, ac yn 2023/24 fe lwyddwyd i ostwng y ganran ymhellach i

73%. Y targed a osodwyd yn wreiddiol ar gyfer 2024/25, wrth osod y gyllideb flynyddol, oedd 72% ond llwyddwyd i gyrraedd 67%.

	2022/23	2023/24	2024/25
Cyllid CCC	£1,067,069	£1,056,505	£1,034,511
Cyfanswm Incwm	£1,424,727	£1,455,808	£1,538,065
Cyllid CCC fel %	75%	73%	67%

Staff a Gweithwyr Llawrydd

- Yn ystod 2024/25 roedd staff craidd y cwmni'n cynnwys 16 aelod o staff llawn amser (2023/24:10) a 3 aelod o staff rhan amser (2023/24:4), ar gyfartaledd. Roedd hyn yn cynnwys 4 intern llawn amser am gyfnod o 6 mis.
- Mae'r nifer o bobl sy'n gweithio i'r cwmni'n cynyddu'n sylweddol wrth gyflogi artistiaid a gweithwyr llawrydd mewn perthynas â phrosiectau penodol drwy gydol y flwyddyn. Dyfarnwyd 188 o gytundebau i 147 o weithwyr llawrydd ar gynyrchiadau, darlleniadau, gweithdai a gweithgaredd cyfranogi. Roedd y cytundebau yma yn 1580 o ddyddiau o waith oedd gwerth £309,128.
- Gan nad oes proses gwerthuso blynyddol gyda gweithwyr llawrydd, cylchredir arolwg i weithwyr llawrydd ar ôl iddynt weithio gyda'r cwmni er mwyn casglu adborth. Yn 2024/25, fe wnaeth 96% o'r gweithwyr llawrydd wnaeth ymateb nodi eu bod yn 'Cytuno'n gryf' eu bod wedi mwynhau gweithio i Theatr Cymru, gyda'r 6% arall yn cytuno gyda'r datganiad. Roedd 100% hefyd yn 'Cytuno' neu 'Cytuno'n gryf' fod eu hiechyd a lles yn bwysig i Theatr Cymru.
- Ry'n ni fel cwmni yn ymrwymedig i sichrau fod ein gweithlu yn gynrychioladol, a bod ein cyfleoedd yn agored i bawb, ac felly ry'n ni'n casglu data monitro am y rhai sy'n gweithio gyda ni. O'r 147 gweithiwr llawrydd a gyflogwyd, roedd:
    - 13% yn anabl
    - 10% o'r mwyafrif byd-eang
    - 11% dros 50 oed
    - 8% rhwng 16-25 oed
    - 58% yn fenywod, 35% yn ddynion a 6% yn rhywedd arall
    - 15% yn lesbiaid, hoyw neu deurywiol
- Mae holl staff parhaol y cwmni'n siarad Cymraeg, ac felly hefyd y rhan helaethaf o'r gweithwyr a'r artistiaid a gyflogir ar gytundebau tymor byr.

Cartref y Cwmni

Ers mis Ionawr 2023, mae pencadlys y cwmni yn Yr Egin, sy'n rhan o gampws Prifysgol y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin. Cyn symud i'r Egin, roedd pencadlys y cwmni mewn adeilad cyfagos ar y campws – Y Llwyfan – ers 2008. Yn Yr Egin, mae gan y cwmni un swyddfa cynllun-agored.

Er nad oes trefniant penodol mewn lle bellach ar gyfer yr ystafell ymarfer yn Y Llwyfan, mae modd i'r cwmni i logi'r gofod yn ôl y galw.

Mae gan y cwmni storfa ychwanegol ar safle y tu allan i dref Caerfyrddin. Mae'r gofodau a amlinellir yn caniatáu i'r cwmni weithredu'n effeithiol.

Adnoddau Technegol

Er mwyn darparu ei wasanaethau, mae'n ofynnol i'r cwmni logi offer technegol o bryd i'w gilydd, a thro arall ei bwrcasu. Dros y blynyddoedd, mae'r cwmni wedi cronni casgliad sylweddol o offer technegol a ddefnyddir

wrth i'r cwmni greu a theithio prosiectau theatr. Mae'r casgliad hwn o offer technegol hefyd yn fodd o gefnogi'r sector a chreu partneriaethau gyda chwmnïau eraill, lle mae modd i sefydliadau eraill elwa o'r adnoddau hyn. Mae gan y cwmni restr gynhwysfawr o'i holl offer, ynghyd â gweithdrefnau er mwyn caniatáu rannu'r offer pan fo hynny'n briodol neu'n fanteisiol iddo.

Adnoddau Eraill

Mae gan y cwmni hefyd nifer o adnoddau eraill, megis cerbydau ac offer swyddfa, sy'n caniatáu iddo weithredu'n effeithiol a chost-effeithiol. Derbyniwyd grant cyfalaf tuag at brynu'r cerbydau presennol yn ystod 2017/18.

5. CYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Theatr Genedlaethol Cymru i bwrpasau cyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau cyllid yn unol â'r gyfraith berthnasol o Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ôl y ddeddf ar gyfer cwmnïau, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, a'r rheiny'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y cwmni yn ystod y cyfnod dan sylw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u gweithredu'n gyson;
- arsylwi ar y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau;
- dyfarnu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn ddoeth;
- paratoi'r cyfrifon ar y sail y bydd y cwmni'n parhau i weithredu, os nad yw'n amhriodol i dybio hyn.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu addas sy'n datgelu sefyllfa ariannol y cwmni'n gymharol gywir ar unrhyw adeg, ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau cyllidol yn unol â Deddf Cwmnïau 2006. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb dros warchod asedau'r cwmni a chymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll neu afreoleidd-dra arall.

Cyn belled ag y mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:

- nid oes gwybodaeth archwiliad perthnasol nad yw'n wybyddus i archwilwyr y cwmni elusennol;
- mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam angenrheidiol i'w gwneud yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliad perthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Trwy orchymyn y Bwrdd

.....

Cadeirydd: Yr Athro Jerry Hunter

Dyddiad:

10 Rhagfyr 2025

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

Barn

Archwiliwyd cyfrifon Theatr Genedlaethol Cymru (y 'cwmni elusennol') am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025; maent yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau Ariannol, y Fantolen a'r nodiadau perthnasol. Paratowyd y cyfrifon yn unol â'r polisïau cyfrifo a nodir yn y cyfrifon. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.

Yn ein barn ni:

- Mae'r cyfrifon yn rhoi adlewyrchiad cywir a theg o gyflwr ariannol y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2025 a'r adnoddau a ddefnyddiwyd am y flwyddyn ariannol;
- Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â'r gyfraith berthnasol o Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifo Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.
- Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Cwmnïau 2006;

Sail ein Barn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) ("ISA's (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan ISAs (DU) ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol o'nn hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r elusen gofrestredig yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, sy'n cynnwys Safon Foesegol yr FRC, a'r darpariaethau ar gyfer endidau bach, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen i'n barn ni.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r cyfrifon, rydym o'r farn bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

Gwybodaeth arall

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac Aadroddiad ar yr Archwilwyr Annibynnol.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn sylweddol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos eu bod wedi'i camddatgan yn sylweddol. Os byddwn yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau ymddangosiadol sylweddol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Materion yr ydym yn rwymedig i adrodd drwy eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r eitemau canlynol lle mae'r Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 yn gofyn i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw berthynas materol â'r datganiadau cyllid; neu

- bod y cwmni elusennol heb gadw cofnodion cyfrifo derbynniol; neu

- bod y datganiadau cyllid ddim yn cyd fynd â'r cofnodion cyfrifo a ffurflenni statudol: neu

- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau anghenrheidiol i gyflawni ein archwiliad.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw fater ynghylch defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddynt ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol

Rydym wedi'n penodi'n archwilwyr o dan Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n cael effaith o dan y Ddeddf honno.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn ei cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi Adroddiad gan yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyfan, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra. Amcanion ein harchwiliad yw cael digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfynu ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol, cyflawni gweithdrefnau archwilio er mwyn helpu nodi achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau eraill a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol, ac i ymateb yn briodol i ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

O ran twyll, amcanion ein harchwiliad yw nodi ac asesu'r risg o gamddatganiad sylweddol o'r datganiadau ariannol oherwydd twyll, casglu digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch y risgiau aseswyd o gamddatganiad sylweddol trwy dwyll gan ddylunio a gweithredu ymatebion priodol ac ymateb yn briodol i dwyll neu dwyll tybiedig a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

Fodd bynnag, prif gyfrifoldeb y rheolwyr, gyda goruchwyliaeth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yw sicrhau bod gweithrediadau'r endid yn cael eu cynnal yn unol â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau ac ar gyfer atal a chanfod twyll.

Wrth asesu a nodi'r risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, fe wnaeth y tîm archwilio:

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025

- gael dealltwriaeth o natur y diwydiant a'r sector, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r elusen yn gweithredu ynddo a sut mae'n cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol;
- holi'r rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, am eu hasesiad a chydnabyddiaeth eu hunain o beryglon afreoleidd-dra, gan gynnwys unrhyw achosion gwirioneddol, tybiedig neu honedig o dwyll;
- drafod materion ynghylch peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a sut y gallai twyll ddigwydd gan gynnwys asesu sut a ble y gallai'r datganiadau ariannol fod yn agored i dwyll.B2

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, rydym yn ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw SoRP Elusennau, FRS 102, Deddf Cwmnïau 2006 a Deddf Elusennau 2011. Gwnaethom gynnal gweithdrefnau archwilio i ganfod diffyg cydymffurfio a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol a oedd yn cynnwys adolygu'r datgeliadau yn y cyfrifon.

Nododd y tîm archwilio mai'r risg mwyaf i gamddatganiad sylweddol trwy dwyll fyddai o ganlyniad i'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau mewnol. Roedd y gweithdrefnau archwilio a berfformiwyd yn cynnwys ond nid oeddent wedi'u cyfyngu i brofi cyfnodolion ac addasiadau eraill a gwerthuso'r rhesymeg fusnes mewn perthynas ag unrhyw drafodion sylweddol, anarferol a wnaed y tu allan i gwrs busnes arferol.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilwyr annibynnol.

Defnyddio'r adroddiad hwn

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer ymddiriedolwyr y cwmni elusennol yn unig, fel corff yn unol a Rhan 4 o'r Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008. Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel y gallem ddatgan i ymddiriedolwyr y cwmni elusennol y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r cwmni elusennol ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi'i ffurfio.

Ashmole & Co

Ashmole & Co (Archwilydd Statudol)
Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig & Archwilwyr Cofrestredig
Yn gymwys i weithredu fel archwilwyr yn unol ag adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006
3 Stryd y Farchnad
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6AH

Dyddiad: 19/12/2025

Datganiad o Weithgareddau Ariannol (gan gynnwys Y Cyfrif Incwm a Gwariant) ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2025

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	31.3.25 Cyfanswm Cronfeydd £	31.3.24 Cyfanswm Cronfeydd £
Incwm a gwaddolion drwy:					
Rhoddion a chymynroddion	2	1,018,766	-	1,018,766	1,056,505
Gweithgareddau elusennol	3	114,636	261,554	376,190	231,235
Incwm geithgareddau masnachol	4	6,762	-	6,762	9,311
Buddsoddiadau	5	7,242	-	7,242	4,695
Incwm arall	6	136,103	-	136,103	154,063
Cyfanswm incwm a gwaddolion		1,283,509	261,554	1,545,063	1,455,809
Adnoddau a wariwyd					
Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol	7	6,012	-	6,012	5,937
Gweithgareddau elusennol	8	1,194,352	258,077	1,452,429	1,440,601
Cyfanswm adnoddau a wariwyd		1,200,364	258,077	1,458,441	1,446,538
Incwm/ (Gwariant) am y flwyddyn		83,144	3,478	86,622	9,271
Cysoni cronfeydd					
Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen		778,112	50,750	828,862	819,591
Cyfanswm cronfeydd a gariwyd ymlaen	22	861,256	54,228	915,484	828,862

Ni pharatowyd datganiad ar wahân o incwm a gwariant

Mae'r nodiadau ar dudalennau 24 i 38 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

Mantolen ar 31 Mawrth 2025

	Nodyn	31.3.2025 £	31.3.2024 £
ASEDAU SEFYDLOG			
Asedau anniriaethol	14	-	-
Asedau diriaethol	15	15,147	8,574
		15,147	8,574
ASEDAU CYFREDOL			
Dyledwyr	16	390,315	425,797
Arian parod yn y banc ac mewn llaw		608,881	491,613
		999,196	917,410
CREDYDWYR			
Symiau fydd yn ddyledus o fewn un flwyddyn	17	(98,859)	(97,122)
ASEDAU CYFREDOL NET		900,337	820,288
ASEDAU NET		915,484	828,862
Cronfeydd yr elusen:			
Cronfeydd Anghyfyngedig		861,256	778,112
Cronfeydd Cyfyngedig		54,228	50,750
	22	915,484	828,862

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 roedd hawl gan y cwmni elusennol i gael eithriad o'r gofyniad am archwiliad statudol dan adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Nid yw'r aelodau wedi ei gwneud yn ofynnol i'r cwmni gael archwiliad o'i gyfrifon ar gyfer y flwyddyn dan sylw yn unol ag adran 476 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod eu cyfrifoldebau dros y canolynol:
a) sicrhau bod y cwmni'n cydymffurfio ag adrannau 386 a 387 o Ddeddf Cwmnïau 2006 o ran cofnodion cyfrifydda;
b) paratoi datganiadau ariannol sy'n cynnig darlun clir a theg o asedau, atebolrwydd, safle ariannol ac elw ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol yn unol â gofynion adrannau 394 a 395 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae'r cyfrifon hyn wedi eu harchwilio dan ofynion adran 144 o'r Ddeddf Elusen 2011.

Paratowyd y cyfrifon yn unol â darpariaethau arbennig Rhan 15 Deddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau bychain (effeithiol Ionawr 2019).

Arwyddwyd y cyfrifon ar ran y Bwrdd gan:

..... (**Cade**irydd)
Yr Athro Jerry Hunter
Dyddiad: 10/12/2025

Datganiad llif arian am y flwyddyn i 31 Mawrth 2025

	Nodyn	31.3.2025 £	31.3.2024 £
Llif Arian o weithgareddau gweithredu			
Arian a gynhyrchwyd o weithgareddau	1	140,247	(114,799)
Rhyddhad treth		(12,919)	(62,474)
Arian net a ddarparwyd gan weithgareddau gweithredu		127,328	(177,273)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi:			
Pryniant asedau sefydlog diriaethol		(18,091)	(9,262)
Llog a dderbynniwyd		8,032	5,151
Arian net a ddarparwyd gan weithgareddau buddsoddi		(10,059)	(4,111)
Newid yn arian a cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod adrodd		117,269	(181,384)
Arian a cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd		491,612	672,996
Arian a cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd	2	608,881	491,612

Nodiadau i'r Datganiad Llif arian ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2025

1 Cyfamodi incwm net i llif arian net o weithgareddau gweithredu

	31.3.2025	31.3.2024
	£	£
Incwm net ar gyfer y flwyddyn (yn unol a'r datganiad o weithgareddau ariannol)	86,622	9,271
Addasiadau ar gyfer:		
Dibrisiant	11,516	21,942
Llog a dderbyniwyd	(8,032)	(5,151)
Gostyngiad/ (cynnydd) yn y dyledwyr	48,401	(56,599)
(Gostyngiad)/ cynnydd yn y credydwyr	1,740	(84,262)
Arian net a ddarparwyd gan weithgareddau gweithredu	140,247	(114,799)

2 Dadansoddiad o newidiadau mewn cronfeydd net

	Ar 1.4.24	Llif Arian	Ar 31.3.2025
	£	£	£
Arian net			
Arian cyfwerth ag arian parod	491,612	117,269	608,881
Cyfanswm	491,612	117,269	608,881

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2025

1 Polisïau cyfrifyddu

Sail y paratoi

Cafodd datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sydd hefyd yn endid er budd cyhoeddus o dan FRS 102, eu paratoi dan y confensiwn prisio hanesyddol ac yn unol â'r Datganiadau o Arferion Cymeradwy: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau (SORP) sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â Safon Adrodd Gyllidol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) (effeithiol o 1 Ionawr 2019) a Deddf Cwmnïau 2006.

Incwm - Grantiau

Cynhwysir incwm yn y datganiad o symudiadau ariannol pan fo'r elusen â hawl i gronfa, pan fo'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn, a phan fydd y swm yn medru cael ei fesur yn ddibynadwy.

Caiff incwm cyfyngedig ei gynnwys mewn cronfa gyfyngedig a'i gyfatebu i'r gwariant. Caiff grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy eu cynnwys mewn cronfa gyfyngedig sy'n lleihau yn flynyddol yn unol â dibrisiant yr asedau.

Incwm - Adnoddau i'w derbyn o weithgareddau elusennol

Cynhwysir adnoddau i'w derbyn o weithgareddau elusennol pan yn ddyledus. Mae'r incwm yn cynnwys gwerthiant tocynnau am berfformiadau o'r cynyrchiadau yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â grantiau ar gyfer prosiectau penodol yn unol ag amcanion yr elusen.

Adnoddau a ddefnyddiwyd

Cydnabuwyd costau a threuliau yn y cyfnod pan wnaeth y weithgaredd ddigwydd. Mae costau'n cynnwys TAW lle nad yw'n bosibl ei hawlio. Mae costau trefn lywodraethu'n cynrychioli'r gost o weinyddu'r elusen a chwrdd â gofynion cyfansoddiadol a statudol. Mae'r gost o gynhyrchu incwm gwirfoddol yn cynrychioli'r gost o gwrdd â gofynion Cyngor Celfyddydau Cymru.

Asedau anniriaethol

Cynhwysir asedau anniriaethol ar eu cost, net o amortdeiddiad ag unrhyw darpariaeth ar gyfer amhariadau. Mae'r asedau anniriaethol wedi eu hamorteiddio dros eu bywyd defnyddiol a thros gyfnod y prosiect penodol o 3 mlynedd

Asedau sefydlog

Cynhwysir asedau sefydlol ar eu cost, net o dibrisiant. Mae'r asedau sefydlog wedi eu dibrisio dros eu bywyd defnyddiol ar y cyfraddau canlynol:

Cerbydau	25%
Cyfrifiaduron ac offer	33.33%

Dyledwyr

Cydnabyddir dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill ar yr swm y mae disgwyl i'w dalu.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2025

Arian yn y banc ac mewn llaw
Mae arian yn y banc ac arian mewn llaw yn cynnwys arian parod a buddsoddiadau byr rhybudd hylifol iawn gydag aeddfedrwydd byr o dri mis neu lai o'r dyddiad caffael neu agor y cyfrif cadw neu debyg.

Credydwyr
Mae credydwyr a darpariaethau yn cael eu cydnabod pan fydd gan yr elusen rwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a fydd yn ôl pob tebyg yn arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti ac mae'r swm sy'n ddyledus i setlo'r rhwymedigaeth yn cael ei fesur neu amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer, mae credydwyr ac unrhyw ddarpariaethau eraill yn cael eu cydnabod fel y swm setliad ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ostyngiadau dyledus.

Cronfeydd
Mae Cronfeydd Cyffredinol yn cynnwys rhoddion ac incwm i'w derbyn, neu a gynhyrchwyd am amcanion yr elusen heb bwrpas arbennig arall ac felly ar gael fel cronfa gyffredinol. Ni osodir amodau allanol ar gronfeydd cyffredinol, ac maent i'w gwario gan yr elusen yn ôl eu hamcanion/bwriadau neu i'w neilltuo tuag at bwrpasau priodol mewnol.

Mae Cronfeydd Cyfyngedig yn cynnwys arian a roddir i'w defnyddio ar gyfer pwrpas penodol, ac mae eu defnydd yn gyfyngedig i'r pwrpas hwnnw.

Mae'r cronfeydd penodol yn cynrychioli incwm anghyfyngedig lle mae'r ymddiriedolwyr yn ôl eu disgresiwn, wedi ei roi o'r neilltu i'w ddefnyddio at ddiben penodol. Mae'r cronfeydd penodol yn cynnwys cronfa wrth gefn, cronfa adeilad, cronfa gyfalaf a chronfa strategaeth incwm.

Costau cefnogi
Costau cynnal yw'r costau hynny sy'n cynorthwyo gwaith yr elusen ond nid ydynt yn uniongyrchol yn ymgymryd â gweithgareddau elusennol. Maent yn cynnwys costau swyddfa, cyllid, cyflogau a llywodraethu sy'n cefnogi gwaith yr elusen.

Polisi pensiwn
Mae'r cwmni elusennol yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Mae'r cyfraniadau i'r cynllun pensiwn y cwmni elusennol yn cael ei ddangos ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y cyfnod y maent yn ddyledus. Mae'r cynllun pensiwn wedi ei rheoli yn annibynnol ac mae'r elusen yn cyfranu 5% o gyflog pensiynadwy.

Offerynnau ariannol
Dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Mae offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu cydnabod ar werth trafodiad ac wedyn mesur ar eu gwerth aheddiad.

Treth
Mae Theatr Cymru yn elusen gofrestredig ac felly nid yw'n gorfod talu treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2025

2 Rhoddion a Chymynroddion

	31.3.25 Cronfeydd Anghyfyngedig	31.3.25 Cronfeydd Cyfyngedig	31.3.25 Cyfanswm Cronfeydd	31.3.24 Cyfanswm Cronfeydd
	£	£	£	£
Grant CCC	1,018,761	-	1,018,761	1,044,883
Grant costau byw	-	-	-	11,622
Rhoddion	5	-	5	-
	1,018,766	-	1,018,766	1,056,505

3 Incwm o weithgareddau elusennol

	31.3.25 Cronfeydd Anghyfyngedig	31.3.25 Cronfeydd Cyfyngedig	31.3.25 Cyfanswm Cronfeydd	31.3.24 Cyfanswm Cronfeydd
	£	£	£	£
Swyddfa docynnau	32,778	-	32,778	33,329
Nawdd/Cyd-gynhyrchu	15,033	-	15,033	15,857
Incwm o bartneriaethau	-	43,000	43,000	21,200
Incwm cyfranogi	-	-	-	367
Incwm gwerthiant rhaglenni	153	-	153	-
Grant ARWAP	-	58,739	58,739	61,016
Ar y Dibyn	-	38,500	38,500	48,750
ARFOR - Cronfa Her a Chymunedau Mentrus	-	74,316	74,316	15,000
Ewch i Weld	-	-	-	346
Ad-daliad rhent	-	-	-	6,117
Sibrwd	-	-	-	29,253
Incwm trwydded S4C	66,673	-	66,673	-
Dawns y Ceirw	-	47,000	47,000	-
	114,636	261,554	376,190	231,235

4 Incwm arall a dderbynnir o weithgareddau masnachol

	31.3.25 Cronfeydd Anghyfyngedig	31.3.25 Cronfeydd Cyfyngedig	31.3.25 Cyfanswm Cronfeydd	31.3.24 Cyfanswm Cronfeydd
	£	£	£	£
Arall	1,520	-	1,520	2,849
Elw ar werthu asedau	-	-	-	500
Incwm llogi offer	5,242	-	5,242	5,962
	6,762	-	6,762	9,311

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2025

5 Incwm o fuddsoddiadau

	31.3.25 Cronfeydd Anghyfyngedig	31.3.25 Cronfeydd Cyfyngedig	31.3.25 Cyfanswm Cronfeydd	31.3.24 Cyfanswm Cronfeydd
	£	£	£	£
Llog i'w dderbyn	7,242	-	7,242	4,695
	7,242	-	7,242	4,695

6 Incwm arall

	31.3.25 Cronfeydd Anghyfyngedig	31.3.25 Cronfeydd Cyfyngedig	31.3.25 Cyfanswm Cronfeydd	31.3.24 Cyfanswm Cronfeydd
	£	£	£	£
Rhyddhad treth	135,313	-	135,313	153,606
Llog HMRC	790	-	790	456
	136,103	-	136,103	154,063

7 Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol

	31.3.25 Cronfeydd Anghyfyngedig £	31.3.25 Cronfeydd Cyfyngedig £	31.3.25 Cyfanswm Cronfeydd £	31.3.24 Cyfanswm Cronfeydd £
Cyflogau ac yswiriant gwladol (nodyn 9)	6,012	-	6,012	5,937
	6,012	-	6,012	5,937

8 Costau gweithgareddau elusennol

	31.3.25 Cronfeydd Anghyfyngedig £	31.3.25 Cronfeydd Cyfyngedig £	31.3.25 Cyfanswm Cronfeydd £	31.3.24 Cyfanswm Cronfeydd £
Costau uniongyrchol				
Cynyrchiadau	209,338	67,664	277,002	321,288
Marchnata a chyfathrebu	60,747	8,553	69,300	69,330
Ffioedd cynyrchiadau	231,731	-	231,731	255,365
Teithio a chynhaliaeth cynyrchiadau	88,574	4,842	93,416	94,331
Costau proffesiynnol	-	47,056	47,056	19,650
Cyflogau ac yswiriant gwladol (nodyn 11)	461,789	-	461,789	414,271
Costau pensiwn	13,280	-	13,280	12,689
Costau cynnal (Nodyn 9)	128,893	129,961	258,854	253,676
	1,194,352	258,077	1,452,429	1,440,601

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2025

9 Costau Cynnal

Y Flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025

	Rheolaeth	Trefn Llywodraethu	Cyllid	Cyfanswm
	£	£	£	£
Cyflogau ac yswiriant gwladol (nodyn 11)	108,658	6,012	-	114,670
Costau pensiwn	4,736	-	-	4,736
Teithio a chynhaliaeth cwmni	12,827	-	-	12,827
Costau cyfrifwyr	-	1,824	-	1,824
Costau archwilio	-	7,500	-	7,500
Costau'r bwrdd	-	1,556	-	1,556
Hyfforddiant	18,609	-	-	18,609
Costau'r adeilad	25,083	-	-	25,083
Costau'r swyddfa	27,812	-	-	27,812
Technoleg gwybodaeth	22,368	-	-	22,368
Costau proffesiynol	10,075	-	-	10,075
Costau banc a manion	-	-	278	278
Dibrisio - cerbydau ac offer	11,517	-	-	11,517
	241,685	16,892	278	258,854

Cymhariaeth

Y Flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

	Rheolaeth	Trefn Llywodraethu	Cyllid	Cyfanswm
	£	£	£	£
Cyflogau ac yswiriant gwladol (nodyn 11)	83,364	5,937	-	89,301
Costau pensiwn	4,017	-	-	4,017
Teithio a chynhaliaeth cwmni	8,989	-	-	8,989
Costau cyfrifwyr	-	9,013	-	9,013
Costau archwilio	-	4,600	-	4,600
Costau'r bwrdd	-	1,204	-	1,204
Hyfforddiant	4,808	-	-	4,808
Costau'r adeilad	41,006	-	-	41,006
Costau'r swyddfa	20,723	-	-	20,723
Technoleg gwybodaeth	25,288	-	-	25,288
Costau proffesiynol	19,389	3,114	-	22,503
Amorteiddio - gwefan	6,957	-	-	6,957
Costau banc a manion	-	-	283	283
Dibrisio - cerbydau ac offer	6,648	-	-	6,648
Dibrisio - prydles	8,337	-	-	8,337
	229,526	23,867	283	253,676

10 Rhyddhad treth

	31.3.25 Cronfeydd Anghyfyngedig £	31.3.25 Cronfeydd Cyfyngedig £	31.3.25 Cyfanswm Cronfeydd £	31.3.24 Cyfanswm Cronfeydd £
Rhyddhad treth	135,313	-	135,313	153,606
	135,313	-	135,313	153,606

Cyfanswm hawliad rhyddhad treth ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025 yw £144,494. O'r swm yma, mae £12,402 yn ddyledus i gyd-gynhyrchwyr gan adael cyfanswm net i Theatr Genedlaethol Cymru o £132,092. Mae'r cyfanswm hefyd yn cynnwys cywiriad ac ychwanegiad o £3,221 yn ymwneud â hawliad y flwyddyn flaenorol.

11 Costau staff craidd

	31.3.2025 £	31.3.2024 £
Cyflogau gros	533,941	467,485
Yswiriant gwladol y cyflogwr	48,530	42,024
Costau pensiwn y cyflogwr	18,016	16,706
	600,488	526,215

Ar gyfartaledd, cyflogwyd 13 aelod o staff craidd llawn amser (2023/24: 10) a 3 aelod o staff rhan amser (2023/24: 4) yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth 2 aelod o staff ennill rhwng £60,000 a £70,000 (2024: dim). Gwnaeth y cwmni elusennol gyfraniadau pensiwn cyflogwr ar gyfer 2 aelod o staff £5,975 (2024: dim). Mae'r ffigyrau yma yn seiliedig ar gyflog gros.

Costau staff allweddol

Y staff allweddol sy'n gyfrifol am reoli gweithgareddau'r Elusen yw'r Prif Weithredwyr. Isod mae cyfanswm y taliadau wnaethpwyd i'r Prif Weithredwyr.

	31.3.2025 £	31.3.2024 £
Cyflog gros	120,628	119,018
Yswiriant gwladol cyflogwr	14,033	13,782
	134,661	132,800

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2025

12 Incwm/(gwariant)net

Dangosir incwm/(gwariant) net ar ôl cyfrif am:

	31.3.2025	31.3.2024
Costau archwilio	7,500	4,600
Costau cyfrifwyr	1,824	9,013
Dibrisiant asedau sefydlog diriaethol	11,517	14,985
Amorteiddio asedau anniriaethol	-	6,957

Nid yw'r costau cyfriwfyr uchod yn cynnwys unrhyw gostau sy'n ymwneud â'r archwiliad.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2025

13 Cymhariaeth ar gyfer y Datganiad o Weithgareddau Ariannol

		31.3.2024 Cronfeydd Anghyfyngedig £	31.03.2024 Cronfeydd Cyfynedig £	31.03.2024 Cyfanswm £
Incwm a gwaddolion				
Incwm gwirfoddol a chymynroddion	2	1,056,505	-	1,056,505
Gweithgareddau elusennol	3	57,870	173,365	231,235
Incwm geithgareddau masnachol	4	9,311	-	9,311
Buddsoddiadau	5	4,695	-	4,695
Incwm arall	6	154,063	-	154,063
Cyfanswm adnoddau a dderbynnir		1,282,444	173,365	1,455,809
Adnoddau a wariwyd				
Costau cynhyrchu incwm gwirforddol	7	5,937	-	5,937
Gweithgareddau elusennol	8	1,313,372	127,228	1,440,601
Cyfanswm adnoddau a wariwyd		1,319,309	127,228	1,446,538
Incwm/ (Gwariant am y flwyddyn		(36,865)	46,137	9,271
Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen		814,978	4,613	819,591
Cyfanswm cronfeydd a gariwyd ymlaen		778,113	50,750	828,862

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2025

14 Asedau anniriaethol

	Gwefan £
Cost	
Ar 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025	20,867
Amorteiddiad	
Ar 1 Ebrill 2024	20,867
Cost y flwyddyn	-
Ar 31 Mawrth 2025	20,867
Llyfrwerth net	
Ar 31 Mawrth 2025	-
Ar 31 Mawrth 2024	-

15 Asedau sefydlog diriaethol

	Cerbydau	Offer a Dodrefn	Offer Cyfrifiadurol a System Ffôn £	Offer Technegol £	Cyfanswm £
Cost					
Ar 1 Ebrill 2024	50,356	146,242	20,810	22,247	239,655
Ychwanegiadau	-	-	2,106	15,986	18,092
Gwaredwyd	-	-	(2,198)	-	(2,198)
Ar 31 Mawrth 2025	50,356	146,242	20,718	38,233	255,549
Dibrisio					
Ar 1 Ebrill 2024	50,356	144,208	16,729	19,790	231,083
Cost y flwyddyn	-	1,605	3,354	6,558	11,517
Gwaredwyd	-	-	(2,198)	-	(2,198)
Ar 31 Mawrth 2025	50,356	145,813	17,885	26,348	240,402
Llyfrwerth net					
Ar 31 Mawrth 2025	-	429	2,833	11,885	15,147
Ar 31 Mawrth 2024	-	2,034	4,081	2,459	8,574

Defnyddiwyd yr holl asedau gan yr elusen ar gyfer gweithgareddau elusennol parhaol.

16 Dyledwyr

	31.3.2025	31.3.2024
	£	£
Dyledwyr masnachol	78,456	85,557
Taliadau ymlaen llawn	8,357	13,046
TAW	-	3,460
Rhyddhad Treth	303,502	290,583
Dyledwyr eraill	-	33,151
	390,315	425,797

17 Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn

	31.3.2025	31.3.2024
	£	£
Credydwyr masnachol	33,770	25,414
Croniadau	21,322	26,821
Trethi ac Yswiriant Gwladol	12,299	11,584
Credydwyr eraill	29,476	33,303
TAW	1,992	-
	98,859	97,122

18 Treth

Mae'r elusen yn rhydd o dalu treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

19 Taliadau a budd-daliadau'r ymddiriedolwyr

Derbyniodd dau Ymddiriedolwr tâl a budd-daliadau treuliau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, fel y caniateir gan ddogfen lywodraethol yr elusen. Derbyniodd Mr Steffan Donnelly gyflog o £60,509 (2024 £59,374) yn sgîl ei swydd fel Cyfarwyddwr Artistig yr elusen a chyfrannodd y Theatr £3,006 (2024: £2,969) i'r Gronfa Bensiwn ar ei ran. Hefyd, derbyniodd £390 (2024: £270) fel rhan o gynllun costau llety'r elusen. Ni dderbyniodd unrhyw dâl yn sgîl ei rôl fel Ymddiriedolwr. Derbyniodd Mrs Angharad Jones-Leefe gyflog o £60,119 (2024: £59,374) yn sgîl ei swydd fel Prif Weithredwr yr elusen a chyfrannodd y Theatr £2,969 (2024: £2,921) i'r Gronfa Bensiwn ar ei ran. Ni dderbyniodd unrhyw dâl yn sgîl ei rôl fel Ymddiriedolwr.

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2025

20 Treuliau'r ymddiriedolwyr

Derbyniodd Ymddiriedolwyr ad-daliadau treuliau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 o £524 (2024: £430) Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025, yn ogystal a'r ad-daliadau, fe dalwyd am llety ar gyfer dau Ymddiredolwyr £133 (2024:£226). Roedd yr ad-daliadau i ddigolledu'r Ymddiriedolwyr am eu costau teithio, cynhaliaeth, llety a chostau eraill yn ymwneud â mynychu cyfarfodydd yr elusen.

21 Dadansoddiad o'r cronfeydd

	Cronfeydd Anghyfynedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2025 £	Cyfanswm 2024 £
Asedau sefydlog	10,480	4,667	15,147	8,574
Asedau cyfredol	949,635	49,561	999,196	917,410
Credydwyr	(98,859)	-	(98,859)	(97,122)
	861,256	54,228	915,484	828,862

22 Symudiadau mewn cronfeydd

Cronfeydd	Ar 1.4.24	Symudiadau yn y cronfeydd	Rhyddhad Treth	Trosglwyddo	Ar 31.3.25
Cronfeydd Cyfyngedig					
Cronfa Gyfalaf	-	4,667	-	-	4,667
Cronfa Refeniw	50,750	(46,189)	-	-	4,561
Dawns y Ceirw Japan	-	45,000	-	-	45,000
	50,750	3,478	-	-	54,228
Cronfeydd Anghyfyngedig					
Cronfa Wrth Gefn	225,000	-	-	-	225,000
Cronfa Adeilad	58,337	-	-	-	58,337
Cronfa Gyfalaf	80,691	(9,172)	-	-	71,519
Cronfa Strategaeth Incwm	68,756	-	-	-	68,756
Cronfa Rydd	345,328	(42,997)	135,313	-	437,644
	778,112	(52,169)	135,313	-	861,256
Cyfanswm Cronfeydd	828,862	(48,691)	135,313	-	915,484

Symudiadau net mewn cronfeydd, yn gynwysedig yn y ffigyrau uchod mae'r canlynol:

	Adnoddau a dderbyniwyd	Adnoddau a wariwyd	Symudiadau yn y cronfeydd
Cronfeydd Cyfyngedig			
Cronfa Gyfalaf	7,000	(2,333)	4,667
Cronfa Refeniw	209,555	(255,744)	(46,189)
Dawns y Ceirw Japan	45,000	-	45,000
	261,555	(258,077)	3,478
Cronfeydd Anghyfyngedig			
Cronfa Adeilad	-	-	-
Cronfa Gyfalaf	-	(9,172)	(9,172)
Cronfa Rydd	1,148,196	(1,191,193)	(42,997)
	1,148,196	(1,200,365)	(52,169)
Cyfanswm symudiadau yn y cronfeydd	1,409,751	(1,458,442)	(48,691)

22 Symudiadau mewn cronfeydd - parhad

Ffigyrau symudiadau mewn cronfeydd ar gyfer y flwyddyn gymharol (h.y. y flwyddyn yn darfod 31 Mawrth 2024)

Cronfeydd	Ar 1.4.23	Symudiadau yn y cronfeydd	Rhyddhad Treth	Trosglwyddo	Ar 31.3.24
Cronfeydd Cyfyngedig					
Cronfa Gyfalaf	4,613	(4,613)	-	-	-
Cronfa Refeniw	-	50,750	-	-	50,750
	4,613	46,137	-	-	50,750
Cronfeydd Anghyfyngedig					
Cronfa Wrth Gefn	225,000	-	-	-	225,000
Cronfa Adeilad	58,337	(8,337)	-	8,337	58,337
Cronfa Gyfalaf	89,632	(8,941)	-	-	80,691
Cronfa Strategaeth Incwm	68,756	-	-	-	68,756
Cronfa Rydd	373,253	(173,194)	153,606	(8,337)	345,328
	814,978	(190,472)	153,606	-	778,112
Cyfanswm Cronfeydd	819,591	(144,335)	153,606	-	828,862

Symudiadau yn y cronfeydd

	Adnoddau a dderbyniwyd	Adnoddau a wariwyd	Symudiadau yn y cronfeydd
Cronfeydd Cyfyngedig			
Cronfa Gyfalaf	2	(4,615)	(4,613)
Cronfa Refeniw	173,363	(122,613)	50,750
	173,365	(127,228)	46,137
Cronfeydd Anghyfyngedig			
Cronfa Adeilad	-	(8,337)	(8,337)
Cronfa Gyfalaf	-	(8,941)	(8,941)
Cronfa Rydd	1,128,837	(1,302,031)	(173,194)
	1,128,837	(1,319,309)	(190,472)
Cyfanswm symudiadau yn y cronfeydd	1,302,202	(1,446,537)	(144,335)

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2025

23 Polisi Cronfeydd wrth Gefn

Cedwir swm o £225,000 wrth gefn (y swm i'w adolygu'n flynyddol) ar gyfer amgylchiadau eithriadol na ellir eu rhagweld. Cynyddwyd y swm o £195,000 i £225,000 ym mis Mawrth 2023 oherwydd y cynnydd mewn costau yn gyffredinol.

Symudodd y cwmni ei bencadlys i'r Egin yng Nghaerfyrddin ar ddechrau 2023. Gan nad oes gofod ymarfer yn y pencadlys newydd (yn wahanol i gartref blaenorol y cwmni – Y Llwyfan) neilltuwyd £58,337 i gronfa benodol ar gyfer costau adeilad. Neilltuwyd y swm yma ar gyfer unrhyw drefniant a gytunir ar gyfer gofod ymarfer ar gyfer y blynyddoedd nesaf, ac unrhyw ofod cwmni arall.

Mae gan y cwmni ddwy gronfa gyfalaf - un gyfyngedig, o ganlyniad i dderbyn cymhelliant ariannol wrth leoli'r cwmni yn ei leoliad presennol, ac un anghyfyngedig. Roedd gwariant cyfalaf yn ystod 2024/25 yn cael ei ariannu yn gyntaf allan o'r gronfa gyfyngedig tan i'r gronfa hynny ddod i ben, cafodd gweddill o'r gwariant cyfalaf ei ariannu o'r gronfa anghyfyngedig. Ni wnaethpwyd cyfraniad i'r gronfa anghyfyngedig yn 2024/25 ond mae'r Bwrdd yn adolygu'r swm sydd yn y gronfa honno yn flynyddol.

Cytunwyd ym mis Mawrth 2023 i neilltuo swm yn y Gronfa Anghyfyngedig i gefnogi'r strategaeth incwm, sydd yn ddibynnol ar gyllid o ymddiriedolaethau a grantiau. Caiff y gronfa ei defnyddio i sicrhau nad oes diffyg yng nghyllideb y cwmni os nad oes modd cyrraedd y targed llawn mewn unrhyw flwyddyn. Nid oedd angen defnyddio unrhyw gyllid o'r gronfa hon yn 2024/25.

24 Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen

Ym mis Mawrth 2025 hysbyswyd y cwmni gan Gyngor Celfyddydau Cymru y byddai cynnydd o 3.5% i'r grant refeniw ar gyfer 2025/26. Mae'r cynnydd hwn wedi darparu rhywfaint o gymorth tuag at y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chynnydd yn nghyfraniadau cyflogwyr i Yswiriant Cenedlaethol.

Yn dilyn y wybodaeth hon, mae'r ymddiriedolwyr yn hyderus ynghylch sefyllfa ariannol y cwmni dros y flwyddyn i ddod ac yn ystyried bod y cynlluniau arfaethedig yn gwneud defnydd priodol o'r cyllid craidd. Mae rhaglen artistig ehangach ac uchelgeisiol wedi'i chynllunio ar gyfer 2025/26, gan adlewyrchu hyder y Bwrdd yn narpariaeth greadigol a chynaliadwyedd y sefydliad.

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau eraill ar ôl 31 Mawrth 2025 sydd, yn ôl barn yr ymddiriedolwyr, yn cael effaith sylweddol ar y cwmni na'r cyfrifon ariannol.

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

England & Wales - Charity number 1106032

Accounts

RHIF CWMNI COFRESTREDIG: 04784488
RHIF ELUSEN COFRESTREDIG 1106032

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

(Cwmni Cyfyngedig trwy Warant)

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AC ADRODDIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

Ashmole & Co
3 Stryd y Farchnad
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6AH

FRIDAY
ADIDAØIB
A23 20/12/2024 #147
COMPANIES HOUSE

Theatr Genedlaethol Cymru

Cynnwys y Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	1 i 14
Adroddiad yr archwilydd annibynnol	15 i 18
Datganiad o weithgareddau ariannol	19
Mantolen	20
Datganiad llif arian	21
Nodiadau i'r datganiad llif arian	22
Nodiadau i'r datganiadau ariannol	23 i 34

Theatr Genedlaethol Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyflwyno'u hadroddiad, ynghyd â'r cyfrifon wedi eu harchwilio, am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024.

Rhif Elusen gofrestredig	1106032
Rhif Cwmni cofrestredig	04784488

Cyfeirnod a Manylion Gweinyddol yr Elusen, ei Hymddiriedolwyr a'i Hymgynghorwyr

Swyddfa gofrestredig	Yr Egin Heol y Coleg Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 3EQ
Banc	HSBC 15 Heol Awst Caerfyrddin SA31 3AQ
Cyfreithwyr	Morgan La Roche Bay House Phoenix Way Swansea SA7 9YT
Archwilydd Anibynnol	Ashmole & Co 3 Stryd y Farchnad Llandeilo Sir Gaerfyrddin SA19 6AH
Cyd-Brif Weithredwyr	Angharad Jones Leefe a Steffan Donnelly

Theatr Genedlaethol Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

Aelodau'r Bwrdd

O dan y Ddeddf Cwmnïau mae gan aelodau'r Bwrdd yr un cyfrifoldebau a chyfarwyddwyr.

Yr aelodau a wasanaethodd yn ystod y cyfnod yw:

Dr N N Edwards-Behi	
Mr J D Ellis	Ymddiswyddodd 09/02/2024
Mr S W Fôn	
Mr E Jones	Ymddiswyddodd 29/06/2024
Miss F A Phillips	
Mrs C M L Rees	
Mr R M Thomas	
Mr M R Williams	
Mr G Williams	
Mr W G Jones	
Mrs H A Jones Leefe	
Mr S Donnelly (Cyfarwyddwr Artistig)	
Mrs E P Fouladi	Penodwyd 08/07/2023
Mr T G Hunter (Cadeirydd)	Penodwyd 08/07/2023
Mr D G Jones	Penodwyd 08/07/2023 / Ymddiswyddodd 29/06/2024

Ysgrifennydd Mrs H A Jones Leefe

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2024

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen ar gyfer dibenion y Ddeddf Cwmnïau 2006, yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau cyllid yr elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau Datganiadau o Arferion Cymeradwy: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Gyllidol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) (effeithiol o 1 Ionawr 2015).

1. STATWS, STRWYTHUR, TREFN LYWODRAETHU A RHEOLAETH

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd heb unrhyw gyfalaf cyfrannau. Caiff y cwmni ei lywodraethu gan ei amcanion elusennol a'r Memorandwm Cymdeithasiad a'r Erthyglau Cymdeithasiad. Mae aelodau'r bwrdd llywodraethol (Bwrdd Ymddiriedolwyr Theatr Genedlaethol Cymru) yn Ymddiriedolwyr yr elusen ac yn gyfarwyddwyr y cwmni. Penodir Ymddiriedolwyr drwy broses agored, gan ddiogelu'r sgiliau gofynnol ac allweddol.

Mae pob aelod newydd yn mynd trwy gyfnod o gynefino, ac yn derbyn gwybodaeth am ei rôl fel Ymddiriedolwr ac fel cyfarwyddwr y cwmni. Mae'r aelodau newydd hefyd yn derbyn pecyn cynefino sy'n cynnwys Erthyglau Cymdeithasiad y cwmni, cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Bwrdd, copi diweddar o gyfrifon rheolaeth y cwmni, a chopi o gynllun busnes cyfredol y cwmni. Anogir aelodau newydd i gwrdd â staff y cwmni, ac i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi a ddarperir ar gyfer Ymddiriedolwyr gan fudiadau megis Celf a Busnes Cymru ac UK Theatre. Mae'r ymddiriedolwyr yn cael cynnig i fynychu nifer o gyrsiau hyfforddiant ar lywodraethu a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr, yn cynnwys cwrs 'Ar Fwrdd' A&B Cymru, a chyrsiau'r CGCG (WCVA). Mae ymddiriedolwyr hefyd yn derbyn hyfforddiant ar iechyd a diogelwch, a chydraddoldeb a chynhwysiant.

Theatr Genedlaethol Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyfarfod fel Bwrdd o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am osod cyfeiriad strategol y cwmni, ac i'r perwyl hwnnw mae'n cymeradwyo'r polisïau allweddol hynny sy'n llywio'r cyfeiriad strategol, ac yn cymeradwyo gweithdrefnau strategol a chynlluniau hirdymor y cwmni. Mae'r Bwrdd hefyd yn monitro gweithrediad y cwmni a pherfformiad y Prif Weithredwyr. Mae'n gyfrifol am hydaledd ariannol y cwmni, ond yn dirprwyo'r rheolaeth o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwyr a'u swyddogion.

Mae gan y Bwrdd ddau Bwyllgor:

- Pwyllgor Cyllid a Materion Gweithredol;
- Pwyllgor Cynnwys a Chynulleidfaoedd.

Mae'r ddau Bwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd; maent yn atebol i'r Bwrdd, ac yn cyflwyno argymhellion iddo.

Rheoli Risg

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r ffaith bod yr elusen yn agored i amrywiol beryglon posibl. Caiff y Gofrestr Risg ei monitro'n rheolaidd, a rhoddwyd systemau ar waith i leihau'r peryglon hyn. Cydnabyddir fod Cyllid, ynghyd â materion Iechyd a Diogelwch, ymhlith y prif beryglon posibl.

Cyflawnir asesiadau risg Iechyd a Diogelwch ar bob gweithgaredd neu brosiect unigol, yn unol â pholisi Iechyd a Diogelwch y cwmni. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud â pheryglon, hyfforddiant staff a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch.

Archwilir y cyfrifon yn fanwl yn rheolaidd, gan sicrhau bod unrhyw orwariant neu darged incwm nas cyrhaeddir yn cael ei wrthweithio.

Cadeirydd

Yn dilyn ymddiswyddiad Efa Gruffudd Jones ym mis Hydref 2022, penodwyd Elwyn Jones yn Gadeirydd dros dro, tra fod proses recriwtio yn cael ei gynnal. Ym mis Gorffennaf 2023 penodwyd Yr Athro Jerry Hunter yn Gadeirydd y Bwrdd. Penodwyd Elwyn Jones yn Ddirprwy Gadeirydd er mwyn cefnogi'r Cadeirydd newydd.

Prif Swyddogion

Penodwyd Steffan Donnelly yn Gyfarwyddwr Artistig ym mis Mehefin 2022, ac mae e a'r Cyfarwyddwr Gweithredol, Angharad Jones Leefe, yn gyfrifol ar y cyd am reoli materion yr elusen o ddydd i ddydd ac am weithredu polisïau y cytunwyd arnynt gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r Prif Weithredwyr hefyd yn ymddiriedolwyr yn rhinwedd eu swyddi (ex-officio).

Polisi cyflogi

Y Pwyllgor Cyllid a Materion Gweithredol sy'n gwneud argymhelliad i'r Bwrdd ar dâl a chydnabyddiaeth ariannol y Tîm Rheoli yn seiliedig ar y ffactorau allweddol canlynol; amodau a gofynion presennol y farchnad, fforddiadwyedd, cyfraddau cyflog mewnol cyfredol a meincnodi gyda sefydliadau tebyg eraill.

Theatr Genedlaethol Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

2. AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Fel rhan o'r broses o gyflwyno cais i Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi, lluniwyd Cynllun Strategol newydd ym mis Mawrth 2023, ac fe ddiweddarwyd gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd y cwmni.

Ein Gweledigaeth: Creu theatr Gymraeg fel man i ddod ynghyd, i gysylltu'r adnabyddus a'r annisgwyl, Cymreictod a'r byd, i drafod yn ddwys ac i godi'r galon.

Ein Cenhadaeth: Theatr deithiol yn rhoi Cymru a'i phobl ar y map, yn agored ac yn groesawgar i bawb, gan sicrhau dyfodol disglair i'n hiaith a'n diwylliant.

Ein Gwerthoedd:

Cymraeg: Rydym yn defnyddio ein statws fel cwmni teithiol cenedlaethol i roi'r Gymraeg, Cymru a'i phobl ar y map. Rydyn ni'n dathlu ein hiaith unigryw, yn denu pobl ato, ac yn rhoi hwb i hyder yn ei defnydd. Cymraeg yw iaith y cwmni, ac mae sicrhau ei dyfodol yn treiddio i bopeth a wnawn.

Dyfeisgar: Rydym yn ddyfeisgar, yn feiddgar ac yn uchelgeisiol yn y ffordd rydym yn comisiynu ac yn creu gwaith, gan chwilio am straeon sydd angen eu hadrodd a chwarae gyda ffurfiau cyffrous. Rydym yn diddanu ac yn ysbrydoli ein cynulleidfaoedd gyda gwaith sy'n berthnasol ac yn hawdd uniaethu ag e.

Cynhwysol: Mae ein gwaith yn adlewyrchu ystod o hunaniaethau a safbwyntiau, gan herio'r cysyniad o hunaniaeth Gymreig sefydlog. Rydym yn gweithredu'n dryloyw ac yn cynnig gweithle croesawgar, sy'n meithrin ac yn cefnogi pawb.

Cydweithredol: Rydym yn cydweithio'n ystyrlon â chymunedau ac artistiaid, yn meithrin partneriaethau cryf, ac yn defnyddio ein statws fel cwmni cenedlaethol i gefnogi eraill a chynnig cyfleoedd datblygu yn yr iaith Gymraeg.

Ymwybodol: Rydym yn sefydliad sy'n cwestiynu ac yn hunan-fyfyrio, sy'n gweithredu'n gynaliadwy ac yn gyfrifol. Rydym yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn sbarduno sgyrsiau ynghylch cyfiawnder cymdeithasol a'r argyfwng hinsawdd, gan gymryd agwedd ystwyth wrth ymateb i'r byd o'n cwmpas.

Y Cwmni

Sefydlwyd ac ymgorfforwyd Theatr Genedlaethol Cymru yn 2003, ac mae'r cwmni wedi ei leoli yng Nghaerfyrddin.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'u dyletswydd dan adran 17 (5) o Ddeddf Elusennau 2011 o ran arweiniad cyffredinol y Comisiwn Elusennau er budd cyhoeddus wrth adolygu'r Elusen ac amcanion wrth gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol.

Mae'r cwmni yn gwmni theatr teithiol sy'n cynhyrchu dramâu prif lwyfan, cynyrchiadau mewn lleoliadau arbennig, a chynyrchiadau yng nghalon cymunedau Cymru. Ei fwriad yw creu rhaglen gytbwys o waith theatr sy'n adloniannol, arloesol ac uchelgeisiol, ac sy'n cynrychioli diwylliant deinamig Cymru.

Prif Swyddogaethau'r Cwmni:

- Cynyddu'r ddarpariaeth ddiwylliannol a chelfyddydol yn y Gymraeg.
- Dathlu, herio a datblygu hunaniaeth genedlaethol trwy gyfrwng theatr.
- Datblygu theatr fel cyfrwng celfyddydol yng nghyd-destun y diwylliant Cymraeg.
- Datblygu sgiliau a hyder gweithwyr theatr, rhanddeiliaid, mynychwyr a chyfranogwyr theatr trwy gyfrwng y Gymraeg.

Theatr Genedlaethol Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

Ar gyfartaledd, mae'r cwmni'n llwyfannu pedwar cynhyrchiad y flwyddyn, a'r rheiny'n amrywio o ddramâu clasurol Cymraeg, addasiadau llwyfan o glasuron llenyddol Cymraeg, trosiadau o glasuron theatr ryngwladol, ysgrifennu newydd, theatr i blant a phobl ifanc, prosiectau cymunedol, cynyrchiadau safle-benodol, theatr ddawns a theatr gerddorol. Crëir cynyrchiadau ar gyfer eu teithio i ganolfannau celfyddydol ar draws Cymru, yn brif lwyfannau a chanolfannau graddfa ganolig, bychan a chymunedol, a hefyd teithio'n achlysurol y tu hwnt i Gymru yn y DU ac yn rhyngwladol.

Mae'n cynhyrchu rhaglen gynhwysfawr o waith cyfranogol, yn cynnwys gweithdai a sgyrsiau i ysgolion a grwpiau cymunedol o bob oed. Mae'n cydweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau ar draws y celfyddydau a thu hwnt i gynnig y ddarpariaeth hon.

Mae gwaith y cwmni wedi'i anelu'n bennaf at siaradwyr Cymraeg, ond anelir hefyd at gyrraedd dysgwyr y Gymraeg a'r di-Gymraeg yng Nghymru. Mae'r cwmni'n cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn cefnogi mynediad i ddysgwyr ac yn trefnu sgyrsiau cyn-sioe a gweithdai i ddysgwyr, ac mae'r Ganolfan yn paratoi pecynnau i ddysgwyr a modiwlau cyfoes o amgylch y cynyrchiadau. Mae darpariaeth ar gyfer dysgwyr a'r rhai sydd ddim yn medru'r Gymraeg ar bob un o gynyrchiadau theatr byw y cwmni, p'un ai bod hynny yn uwchdeitlau neu'n ddefnydd o ap Sibrwd. Darperir is-deitlau Cymraeg a Saesneg ar unrhyw gynnwys fideo a gaiff ei rhyddhau'n ddigidol, er mwyn ei wneud yn hygyrch i ddysgwyr a'r di-Gymraeg, yn ogystal â phobl fyddar a trwm eu clyw.

Er bod gwaith y cwmni wedi'i wreiddio yng Nghymru, mae wedi ymrwymo i godi proffil Cymru, y Gymraeg, a theatr trwy gyfrwng y Gymraeg y tu hwnt i Gymru, o fewn y Deyrnas Unedig yn ehangach, ac yn rhyngwladol.

Cynllun Strategol

Ym mis Ionawr i Mawrth 2023, cynhaliwyd proses cynllunio strategol manwl, yn ymateb i'r ffaith fod y cwmni wedi penodi Cyfarwyddwr Artistig newydd a bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnal proses Adolygu Buddsoddi i edrych ar sut y maen nhw'n ariannu'r celfyddydau yng Nghymru. Crëwyd cynllun strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2023-27 i gyd-fynd a'r cais a gyflwynwyd i'r Adolygiad Buddsoddi.

Y tri phrif nod strategol ar gyfer y cyfnod 2023-27 yw:

1. Galluogi pobl Cymru, pwy bynnag neu ble bynnag y maen nhw, i deimlo'n hyderus wrth ymwneud â theatr, y celfyddydau a diwylliant Cymraeg.
2. Cyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas a'r byd o'n cwmpas ac annog ffordd foesegol o fyw a gweithio.
3. Diwallu anghenion pobl Cymru yn y presennol ac yn y dyfodol, drwy sicrhau gwytnwch a hyblygrwydd y cwmni a chyfrannu at yr ecosystem gelfyddydol Gymraeg.

Prif Weithgareddau'r Cwmni

Yn unol â'i genhadaeth, mae'r cwmni'n cynnig amrywiaeth o brofiadau theatr Cymraeg eang eu hapêl, sy'n cynnwys perfformiadau o'i gynyrchiadau ac amrywiaeth o gyfleoedd i ymgyfranogi yn y celfyddydau.

Yn ystod 2023/24 roedd gweithgaredd y cwmni yn cynnwys:

Cynyrchiadau:

- **Parti Priodas** – Llwyfannwyd Parti Priodas yng Nghaffi Maes B yn ystod Eisteddfod Genedlaethol 2023, i ganmoliaeth uchel. Dyma ddrama gomedi gan Gruffudd Owen, a ddatblygwyd yn wreiddiol drwy'r

rhaglen Grŵp Dramodwyr Newydd yn 2019. Mae'r ddrama'n dilyn hynt a helynt dau brif gymeriad (a chriw o gymeriadau ychwanegol sy'n cael eu chwarae gan y ddau actor) sy'n westeion ar ddiwrnod priodas ym Mhen Llŷn. Roedd gan y darn hwn apêl eang gyda gwreiddiau gwleidyddol, yn archwilio tlodi gwledig a'r argyfwng tai haf yn yr ardal. Yn dilyn llwyddiant y perfformiadau yn yr Eisteddfod, trefnwyd taith genedlaethol ar gyfer 2024.

- **Yr Hogyn Pren** – Cyflwynwyd Yr Hogyn Pren am y tro cyntaf yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd. Roedd hon yn sioe bypedau fyw oedd yn cael ei pherfformio sawl gwaith y dydd mewn gwahanol leoliadau ar draws y Maes. Roedd y cynhyrchiad hwn yn antur hudolus i'r teulu i gyd, wedi'i hysbrydoli gan gerdd I.D.Hooson. Crëwyd y pyped Broc gan Theatr Byd Bach, allan o froc môr.
- **Rŵan Nawr** - Cyd-gynhyrchiad gyda Theatr Clwyd a gyflwynwyd yn y Cwt Cabaret ar faes Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd. Roedd y cynhyrchiad yn cynnwys 5 drama fer newydd gan 5 dramodydd gwahanol, yn ymateb i newyddion a storïau cyfredol.
- **Rhyngom** - Cyflwynwyd perfformiad o ddwy fonolog dyner - Adferiad ac Er Fy Mwyn Fy Hun, yn y Babell Len yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd. Roedd y monologau wedi'u haddasu i'r llwyfan o gyfrol **Rhyngom** gan Sioned Erin Hughes, enillydd Medal Ryddiaith Eisteddfod Genedlaethol 2022
- **Rhinoseros -** Cynhyrchiad o gampwaith absŵrd Eugene Ionesco, gyda'r addasiad cyntaf i'r Gymraeg gan Manon Steffan Ros. Yn llawn hiwmor annisgwyl a thensiwn hunllefus, mae Rhinoseros yn sylwebu ar gymdeithas, eithafiaeth a sut y gall casineb ledaenu fel feirws. Teithiwyd y cynhyrchiad yn genedlaethol a chyflwynwyd 13 o berfformiadau mewn 8 canolfan. Enwyd y cynhyrchiad ar restr *The Stage Top 50 Plays 2023*, *Wales Arts Review's Best of Welsh Theatre 2023* ac ar Uchafbwynt Celfyddydol 2023 Nation Cymru a BBC Radio Cymru.
- **Swyn** – Yn cyfuno'r Gymraeg ac Iaith Arwyddion Prydain (BSL), roedd Swyn yn gynhyrchiad i blant, oedd yn cyfuno stori a dawns, ac yn seiliedig ar y llyfr 'Whimsy' gan Krystal S. Lowe. Yn ogystal ag awdur o'r mwyafrif byd-eang, roedd y perfformwyr i gyd yn bobl o'r mwyafrif byd-eang, yn ogystal â nifer o'r tîm creadigol. Roedd cynrychiolaeth a gweledded artistiaid o'r mwyafrif byd-eang ac artistiaid byddar yn rhan bwysig o'r cynhyrchiad hwn. Teithiwyd y sioe yn genedlaethol a chyrhaeddwyd cynulleidfaoedd o dros 2400 ar draws 28 perfformiad mewn 9 lleoliad.
- **Ie ie ie -** Roedd y cynhyrchiad hwn yn archwilio perthnasau iach, chwant a chaniatâd mewn ffordd feddylgar a chwareus. Roedd y sioe yn cynnwys perfformiad unigol arbennig gan y comediwr Eleri Morgan a chyfweliadau gonest gyda phobl ifanc Cymru, yn ogystal â chyfle i'r gynulleidfa gyfrannu at y drafodaeth. Wedi ei dargedu yn bennaf at bobl ifanc, roedd y sioe yn addasiad Cymraeg o Yes Yes Yes; sioe fyw arobryn gan y gwneuthurwyr theatr o Aotearoa/Seland Newydd, Karin McCracken ac Eleanor Bishop. Yn ogystal â 13 o berfformiadau mewn 8 canolfan, cynhaliwyd perfformiadau mewn 7 ysgol - nifer ohonynt wedi cymryd rhan yn y broses o greu'r sioe. Wrth ddatblygu'r cynhyrchiad a gweithio gyda'r cyfranogwyr ifanc ar draws y wlad, derbyniodd y cwmni hyfforddiant a chefnogaeth ymgynghorol gan y mudiad Brook Cymru, elusen iechyd rhywiol i bobl ifanc.

Yn 2023/24, enwebwyd y cwmni ar gyfer gwobr Cynhyrchydd y Flwyddyn yng Ngwobrau'r Stage ac enwyd y Cyd-Brif Withredwyr yn *The Stage 100*, sef rhestr o gant person mwyaf dylanwadol ym myd y theatr.

Theatr Genedlaethol Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

Datblygu Talent a Sgiliau

Mae'r cwmni wedi ymrwymo i ddatblygu talent yn y sector theatr yng Nghymru, boed hynny'n ddramodwyr, cyfarwyddwyr, gwneuthurwyr theatr, cynllunwyr, actorion neu unrhyw ymarferwyr disgyblaeth theatr arall, yn arbennig ymysg siaradwyr Cymraeg. Mae'n elfen bwysig o waith y cwmni er mwyn diogelu ei ddyfodol, ac er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth theatr a chelfyddydau Cymraeg eu hiaith yng Nghymru.

- **Prosiect 40°C:** Mae Prosiect 40°C yn brosiect hirdymor ac uchelgeisiol gan Theatr Genedlaethol Cymru sy'n ymateb i'r foment dyngedfennol yma yn yr argyfwng hinsawdd. Ym mis Awst 2023, cychwynnodd Prosiect 40°C gyda chyfnod preswyl Gwreiddioli, gyda chefnogaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Dan ofal yr artist arweiniol a'r curadur Dylan Huw, daeth 5 artist at ei gilydd yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen ger Machynlleth i wrando, herio, cyd-ddychmygu a datblygu syniadau creadigol. Yn ystod 4 diwrnod y cyfnod preswyl, cafodd yr artistiaid - Leo Drayton, Richard Huw Morgan, Steffan Phillips, clare e. potter a Talulah Thomas - eu sbarduno i ystyried safbwyntiau amrywiol ar groestoriadau'r argyfwng hinsawdd gyda phob dim arall sy'n diffinio bywyd heddiw.
- **Chwilio'r Chwedl:** Roedd Theatr Genedlaethol Cymru yn falch iawn o fod yn rhan o Chwilio'r Chwedl, ar y cyd ag Eisteddfod yr Urdd. Perfformiwyd canlyniad y prosiect - Chwilio'r Chwedl - ar faes Eisteddfod yr Urdd ar 28 Mai 2023, gyda disgyblion ysgol gynradd Sir Gâr yn perfformio fel rhan o'r digwyddiad. Fel rhan o'r prosiect, comisiynodd Theatr Gen chwech dramodydd ifanc i gyfansoddi sgriptiau deg munud o hyd yn seiliedig ar chwedl neu stori o ardal Sir Gâr. Y dramodwyr wnaeth gymryd rhan oedd Del Evans (Merched Beca), Martha Ifan (Gwenllian Cydweli), Mirain Jones (Twm Sion Cati), Mared Roberts (Drefach Felindre), Hefin Robinson (Yr Hen Dderwen a Dewin Myrddin), Rhiannon Williams (Gwiber Emlyn). Fel rhan o'r prosiect, cafodd y dramodwyr fentoriaeth gan ddramatwrg proffesiynol - Sarah Bickerton - er mwyn cael cyfleoedd datblygu a chynyddu dealltwriaeth yn y maes. Roedd sgriptiau'r dramodwyr ifanc uchod ymysg gwaith gan nifer o ddramodwyr eraill, yn cynnwys Fflur Dafydd. Fe wnaeth bron i 1000 o blant a phobl ifanc o Sir Gâr gymryd rhan yn y perfformiad, oedd yn rhan ffurfio seremoni agoriadol yr Ŵyl, o dan gyfarwyddyd Carys Edwards a Nia Clwyd.

Comisiynu a Datblygu Artistig

- **Comisiynau:** Yn 2023/24 roedd yn flaenoriaeth i ddatblygu gwaith gan leisiau newydd a lleisiau wedi eu tangynrychioli. Gosodwyd targed – o leiaf 25% o gomisiynau 2023/24 yn mynd i artistiaid o grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli – yn cynnwys artistiaid o'r mwyafrif byd-eang, o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel, ac artistiaid anabl, Byddar a/neu niwroamrywiol. Llwyddwyd i gyrraedd canran uwch na'r targed gyda 50% o'r comisiynau wedi eu dyfarnu i artistiaid o'r grwpiau a rhestrir uchod. O'r 15 comisiwn a ddyfarnwyd, roedd:
    - 5 comisiwn i ddramodwyr o'r mwyafrif byd eang
    - 3 comisiwn i ddramodwyr anabl
    - Dros 50% o'r artistiaid dderbyniodd gomisiwn yn bobl LDHTC+, gyda 2 gomisiwn yn mynd i ddramodwyr traws
    - 66% o'r artistiaid a dderbyniodd gomisiwn yn fenywod
- **Datblygu Artistig:** Rhan bwysig o'r gwaith datblygu artistig yw cynnal gweithdai a chyfnodau ymchwil a datblygu er mwyn rhoi cyfle i artistiaid brofi eu gwaith yn cael ei berfformio. Cynhaliwyd nifer o weithdai yn ystod 2023/24 gydag artistiaid sydd o dan gomisiwn, yn cynnwys wythnos o ymchwil a datblygu gyda Chymuned Ddawnsfa Cymru (Welsh Ballroom Community) ar brosiect Kiki Cymraeg. Mae'r prosiect hwn yn cyfuno Dawnsfa a Theatr ac yn archwilio chwedlau Cymreig a hunaniaeth cwiar. Ar ddiwedd y cyfnod cynhaliwyd perfformiad sgratsh yn Theatr y Sherman, Caerdydd.

Theatr Genedlaethol Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

Cydweithio a Phartneriaethau

Rhan bwysig o waith y cwmni yw gweithio mewn partneriaeth gyda chwmnïau ac unigolion o fewn y sector, gan gynnig cefnogaeth ac arweiniad, ac adnabod a manteisio ar gyfleoedd i weithio ar draws sectorau gwahanol er mwyn dangos budd ac effaith gadarnhaol y celfyddydau.

- **Cynyrchiadau mewn Partneriaeth:** Yn ogystal â chreu a chyflwyno rhaglen o'i gynyrchiadau ei hun, mae'r cwmni'n darparu cefnogaeth i gynyrchiadau gan gwmnïau eraill, sy'n gydnaws â gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd y cwmni. Yn ystod 2023/24 rhoddwyd cefnogaeth i gwmnïau theatr eraill fel a ganlyn:
    - **Mewn Cymeriad: Betty Campbell** (cynhyrchiad Mewn Cymeriad, gyda chefnogaeth gan Theatr Genedlaethol Cymru a Butetown Arts & Culture Association) – Datblygwyd a llwyfannwyd y cynhyrchiad yma yn wreiddiol yn 2022/23 ond mae'r sioe dal i fod ar gael i ysgolion ar gais, felly llwyfannwyd nifer o berfformiadau yn ystod 2023/24. Cefnogwyd y cynhyrchiad yma er mwyn dod â hanes Betty Campbell - prifathrawes Ddu gyntaf Cymru - i blant ledled Cymru. Darparwyd cefnogaeth i Gyfarwyddwr y sioe a chydweithiwyd gyda Mewn Cymeriad i greu pecyn addysg. Mae Theatr Gen yn darparu gweithdai i ysgolion i gyd-fynd â pherfformiadau, ar y cyd gyda Mewn Cymeriad.
    - **Parama2: Tic Toc** – Cynhyrchiad Parama2 mewn cydweithrediad â Chapter a Theatr Genedlaethol Cymru. Drama gerdd wreiddiol oedd hon, yn archwilio rôl merched mewn gweithleoedd diwydiannol yng Nghymru yn ystod yr 1950au, yr 1960 a'r 1970au. Cyflwynwyd am y tro cyntaf yn 2019 a chefnogwyd y cynhyrchiad unwaith eto yn 2023.
    - **Theatrau Sir Gâr: Golygfeydd o'r Pla Du** - Cynhyrchiad Theatrau Sir Gâr gyda chefnogaeth gan Theatr Genedlaethol Cymru. Comedi direidus, tywyll am argyfwng a llygredd wedi'i hysgrifennu a'i chyfarwyddo gan Chris Harris. Teithiwyd y cynhyrchiad yn genedlaethol i 12 canolfan. Darparwyd ap Sibrwd fel rhan o'r pecyn o gefnogaeth, er mwyn ehangu mynediad.
    - **Frân Wen a'r Eisteddfod Genedlaethol: Popeth ar y Ddaear -** Cynhyrchiad Frân Wen ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru, gyda chefnogaeth Llenyddiaeth Cymru, Theatr Genedlaethol Cymru a Phrifysgol De Cymru. Yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd fe drawsnewidiwyd Maes B yn llwyfan theatr byw am un noson. Roedd cynhyrchiad Popeth ar y Ddaear yn gwahodd cynulleidfa i gamu mewn i fyd yn y dyfodol agos ble mae trychineb catastroffig wedi boddi cymunedau. Darparwyd cefnogaeth dramatwrgol a chreadigol i'r cynhyrchiad hwn.
- **Yr Eisteddfod Genedlaethol -** Mae'r cwmni wedi gweithio mewn partneriaeth ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru ers nifer o flynyddoedd i gefnogi gweithgaredd theatr fel rhan o arlwy'r brifwyl. 2023 oedd y flwyddyn gyntaf i'r trefniant newydd ar gyfer cyflwyno theatr ar y Maes. Penderfynwyd hepgor Theatr y Maes am y tro, a chyflwyno arlwy theatr mewn nifer o leoliadau ar draws y Maes, yn cynnwys Caffi Maes B, Y Babell Lên, a'r Pentref Plant. Ehangwyd hefyd ar y ddarpariaeth theatr stryd gyda nifer o berfformiadau yn digwydd yn yr awyr agored. Cafwyd ymateb gadarnhaol gan gynulleidfaoedd i'r newid hwn a chroesawyd cynulleidfaoedd sylweddol o 3,677 (chwe gwaith niferoedd 2022).

Cyfranogi

Mae gwaith cyfranogi'r cwmni yn ffordd holl bwysig o ymwneud â chynulleidfaoedd mewn modd gwahanol, ond hefyd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bobl gymryd rhan yn y celfyddydau - i fwynhau, magu hyder a datblygu sgiliau. Mae'r ymwneud â'r celfyddydau hefyd yn gallu cefnogi adferiad a gwella iechyd a lles. Yn aml yn y gwaith yma daw pŵer y celfyddydau i'r amlwg.

Theatr Genedlaethol Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

Mae gwaith ymgyfranogi'r cwmni yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgaredd theatr, yn cynnwys gweithdai i grwpiau gwahanol (e.e. disgyblion a myfyrwyr, ac artistiaid ar eu prifiant), sgyrsiau cyn ac ar ôl sioeau, a sesiynau i ddysgwyr. Mae'n cynnwys gweithgareddau sy'n datblygu cynulleidfa ar gyfer cynyrchiadau, a gweithgareddau sy'n ymateb i alw gan gymunedau amrywiol, boed yn grŵp cymunedol, yn fusnes neu'n sefydliad mewn sector arall.

- **Clybiau Drama:** Parhawyd i gynnal Clybiau Drama yng Nghaerfyrddin yn ystod 2023/24, mewn partneriaeth gyda Menter Gorllewin Sir Gâr. Yng Nghaerfyrddin, roedd Clwb Joio Drama ar gyfer plant cynradd Blwyddyn 1-3, a Chlwb Drama i blant cynradd Blwyddyn 4-6.
- **Ar y Dibyn:** Mae prosiect Ar y Dibyn, a sefydlwyd yn 2019, yn rhoi cyfle i bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan ddibyniaeth - boed hynny'n bobl sy'n byw gyda dibyniaeth neu sy'n cefnogi pobl eraill gyda'u dibyniaeth - i ddod at ei gilydd a rhannu'r straeon hynny mewn ffordd greadigol. Yn ystod 2023/24 cynhaliwyd sesiynau gydag ymgyfranogwyr wyneb-yn-wyneb ac yn ddigidol. Cynhaliwyd sesiynau gydag Ymgyfranogwyr ym Mangor, Caernarfon, Pwllheli, Maesgeirchen, Llangefni a Biwmares. Derbyniwyd cefnogaeth ariannol ar gyfer y prosiect yn 2023/24 gan Wasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gwynedd ac Ynys Môn. Cydweithiwyd gyda Llenyddiaeth Cymru a Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gwynedd ac Ynys Môn i gynnal y prosiect.
- **Dramodydd Preswyl Ifanc**: Elain Roberts oedd Dramodydd Preswyl 2023 ar ôl ennill cystadleuaeth Medal Ddrama'r Urdd yn Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023. Darparwyd pecyn o gefnogaeth iddi, yn cynnwys cyfarfodydd gyda'r tîm creadigol a chyfleoedd i gysgodi, mynychu cyfarfodydd datblygu creadigol, a mynychu perfformiadau'r cwmni.
- **Dysgwyr:** Darparwyd amrywiaeth o weithdai i ddysgwyr mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws Cymru. Cydweithiwyd unwaith eto gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gefnogi'r cwricwlwm.
- **Criw Creu:** Prosiect cenedlaethol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yw Criw Creu sy'n cael ei arwain gan Theatr Genedlaethol Cymru gyda chefnogaeth gan Lenyddiaeth Cymru ac Urdd Gobaith Cymru. Mae'r prosiect, wnaeth ddechrau yn 2020, yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion, sydd fel arfer ddim yn cael llawer o ymwneud gyda'r celfyddydau, i weithio gydag artistiaid i greu gwaith creadigol gwreiddiol. Yn 2023/24, gweithiwyd gyda grwpiau o ddwy ysgol yn Sir Gâr, sef Ysgol Bro Myrddin ac Ysgol Uwchradd Y Frenhines Elisabeth. Fe wnaeth yr awdur Elinor Wyn Reynolds a'r cyfansoddwr Dan Lawrence gefnogi'r disgyblion i ysgrifennu cerdd a chyfansoddi cerddoriaeth. Crëwyd ffilm o'r disgyblion yn perfformio'r gwaith a dangoswyd y ffilm yn Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr,
- **Ymgynghorwyr Ifanc**: Sefydlwyd grŵp o ymgynghorwyr ifanc yn 2022 ac mae 15 person ifanc yn cyfarfod o leiaf 4 gwaith y flwyddyn, yn rhithiol. Mae'n gyfle iddynt gynnig barn ac adborth a chael mewnbwn i waith y cwmni. Ar ddechrau 2023/24 cafodd y grŵp sesiwn gyda'n Cyfarwyddwr Artistig, Steffan Donnelly yn trafod rhaglen y cwmni. Cafodd y grŵp hefyd y cyfle i fewnbynnu i ymgyrch farchnata Ie ie ie.
- **Casgliad Dysgu:** Mae'r cwmni yn parhau i gynnig adnoddau addysg ar lein trwy Casgliad Dysgu. Mae Casgliad Dysgu yn rhoi cyfle i ddarlithwyr, athrawon, myfyrwyr, disgyblion, addysgwyr a dysgwyr i wylio, astudio a mwynhau theatr Gymraeg. Mae capsiynau caeedig Cymraeg a Saesneg ar gael ar bob cynhyrchiad yn y casgliad.

Cydweithiwyd gydag ystod eang o bartneriaid er mwyn darparu cyfleoedd i ymgyfranogi yn y celfyddydau, gan gynnwys, Urdd Gobaith Cymru, S4C, Llenyddiaeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gwynedd ac Ynys Môn, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Menter Gorllewin Sir Gâr, a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Roedd cefnogaeth y partneriaid hyn yn allweddol i lwyddiant y gwaith.

3. CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD

Trosolwg o Brif Weithgaredd y Flwyddyn:

Cyrhaeddiad	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Theatr Byw – Mynychwyr	**16,399**	**0**	**7,046**	**10,639**	**16,412**
Cyflwyniadau Theatr Ddigidol – Gwyliadau	**0**	**73,427**	**27,799**	**447**	**0**
Cyfranogwyr – Plant a Phobl Ifanc	3,979	5,762	**2,126**	**2,655**	**3,371**
Cyfranogwyr – Cyffredinol	1,462	99	**185**	**917**	**972**
Sgyrsiau a Sesiynau Holi ac Ateb	1,174	622	**2,098**	**574**	**472**
Cyfanswm Cyfranogwyr	**6,615**	**6,483**	**4,409**	**4,773**	**4,815**
Cyfanswm y Mynychwyr a'r Cyfranogwyr	**23,014**	**79,910**	**39,254**	**15,450**	**21,227**

Adborth Cynulleidfa

Er mwyn sicrhau ein bod yn gwasanaethu'n cynulleidfaoedd a'n rhanddeiliaid mor effeithiol â phosib, rydym yn holi am adborth gan gynulleidfaoedd trwy nifer o ddulliau gwahanol. Casglwyd adborth ar gynyrchiadau 2023-24 trwy holiadur ar lein. O'r ymatebion, roedd:

- 78% wedi gweld cynhyrchiad Theatr Gen o'r blaen
- 73% wedi gweld Rhinoseros
- 80% wedi rhoi adolygiad 4 neu 5 seren i Rhinoseros, Parti Priodas, Swyn ac Ie ie ie
- 63% o'r ymatebwyr yn dod o Gaerdydd, Ceredigion a Gwynedd
- 10% yn dysgu Cymraeg
- 65% wedi clywed am y cynyrchiadau trwy'r cyfryngau cymdeithasol a 24% o'u canolfan leol
- 24% o'r ymatebwyr rhwng 18 a 34 oed a 36% yn 55+

Mae'r dyfyniad isod a dderbyniwyd gan aelod o'r gynulleidfa yn crynhoi'n wych yr hyn ni'n ceisio ei gyflawni:

"Dwi bellach yn gwybod nad ydy theatr llwyfan yn beth diflas i bobl crand, mae'n gallu bod yn noson allan wych sy'n llawn hwyl a chwerthin, yn gallu herio'ch meddwl a meddylfryd, ac ddim yn rhywbeth sydd jysd ar gyfer y crachach! Diolch am agor drysau newydd i mi."

4. ADOLYGIAD ARIANNOL

Tra bod y cyfan o wariant y cwmni yn gysylltiedig mewn rhyw fodd â gwasanaethau'r cwmni, mae gwariant uniongyrchol ar brif weithgareddau'r cwmni, fel y disgrifir hwy uchod, yn cynrychioli'r rhan helaethaf o wariant blynyddol y cwmni. Mae'r rhan helaethaf o gostau cyflwyno cynyrchiadau theatraidd yn gysylltiedig â gwaith artistiaid llawrydd wrth greu'r gwaith, ac â staffio'r cynyrchiadau. Er mwyn cynnal y safonau artistig uchaf posibl, mae'r cwmni'n cyflogi naill ai'r artistiaid mwyaf profiadol neu'r mwyaf cymwys, ac yn gweithredu taliadau yn unol â chanllawiau a chytundebau UK Theatre, sef y sefydliad ambarél y mae'r cwmni'n aelod ohono. Mae'r taliadau hynny, yn eu tro, yn seiliedig ar gytundebau'r sefydliad hwnnw gydag undebau llafur y diwydiannau creadigol a'r sector ddiwylliannol.

Theatr Genedlaethol Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

Mae gwerthoedd cynhyrchu uchel y cwmni – yn unol â disgwyliadau'r gynulleidfa wrth ystyried gwaith cwmni theatr cenedlaethol, a nodau ac amcanion y cwmni – yn golygu bod rhan sylweddol o gyllideb pob cynhyrchiad yn gysylltiedig â chostau cynhyrchu (e.e. cynllunio a chreu neu ddarparu set a gwisgoedd, cynlluniau sain a goleuo, rheoli llwyfan, ac ati, ac yn achos cynyrchiadau digidol, gwaith camera a golygu, a chostau ffrydio).

Sicrhau Gwerth am Arian

Ym mhob agwedd o'i waith, mae'r cwmni'n ymdrechu bob amser i sicrhau gwerth am arian, gan ofalu ei fod yn sicrhau prisiau cystadleuol wrth, e.e. brynu offer, archebu llety a chostau eraill yn gysylltiedig â chreu cynyrchiadau theatr. Mae gan y cwmni bolisi caffael sy'n nodi'r isod:

Cost	Gofyniad
Hyd at £5,000	Dyfynbrisiau – Isafswm o 1
£5,000 i £25,000	Dyfynbrisiau – Isafswm o 3
£25,000 i £75,000	Proses dendro gaeedig – gwahodd 4–6 (angen derbyn o leiaf 2)
Uwch na £75,000	Proses dendro agored (angen derbyn o leiaf 2)

Pennir cyflogau staff parhaol yn seiliedig ar arolwg o gyflogau cyfatebol yn y sector ac yn lleol, er mwyn sicrhau gwerth am arian, tra ar yr un pryd yn cynnal safonau disgwyliedig.

Derbyniwyd cyfanswm o £1,302,202 o incwm yn ystod y flwyddyn (2022/23: £1,269,538). Ar ôl cynnwys incwm rhyddhad treth o £153,606 (2022/23: £155,189), cyfanswm y cronfeydd ar ddiwedd y flwyddyn oedd £828,862 (2022/23: £819,591). Cyfanswm y cronfeydd cyfyngedig oedd £50,751 (2022/23: £4,613) a chyfanswm y cronfeydd anghyfyngedig oedd £778,112 (2022/23: £814,978).

Polisi Cronfeydd

Cedwir swm o £225,000 wrth gefn (y swm i'w adolygu'n flynyddol) ar gyfer amgylchiadau eithriadol na ellir eu rhagweld. Cynyddwyd y swm o £195,000 i £225,000 ym mis Mawrth 2023 oherwydd y cynnydd mewn costau yn gyffredinol.

Arwyddwyd prydles ar ran o adeilad Y Llwyfan (sef pencadlys y cwmni) ym mis Hydref 2018. Prydles 10 mlynedd oedd y cytundeb, gyda chymal torri ar ôl 5 mlynedd. Cytunwyd i ddirwyn y brydles i ben yn gynnar yn 2023 ac felly cytunwyd i leihau'r swm sydd wedi ei neilltuo ar gyfer costau adeilad i £58,337. Neilltuir y swm yma ar gyfer unrhyw drefniant a gytunir ar gyfer gofod ymarfer ar gyfer y blynyddoedd nesaf, ac unrhyw ofod cwmni arall.

Mae gan y cwmni ddwy gronfa gyfalaf - un gyfyngedig, o ganlyniad i dderbyn cymhelliant ariannol wrth leoli'r cwmni yn ei leoliad presennol, ac un anghyfyngedig. Roedd gwariant cyfalaf yn ystod 2023/24 yn cael ei ariannu yn gyntaf allan o'r gronfa gyfyngedig tan i'r gronfa hynny ddod i ben, cafodd gweddill o'r gwariant cyfalaf ei ariannu o'r gronfa anghyfyngedig. Ni wnaethpwyd cyfraniad i'r gronfa anghyfyngedig yn 2023/24 ond mae'r Bwrdd yn adolygu'r swm sydd yn y gronfa honno yn flynyddol.

Cytunwyd ym mis Mawrth 2023 i neilltuo swm yn y Gronfa Anghyfyngedig i gefnogi'r strategaeth incwm, sydd yn ddibynnol ar gyllid o ymddiriedolaethau a grantiau. Caiff y gronfa ei defnyddio i sicrhau nad oes diffyg yng nghyllideb y cwmni os nad oes modd cyrraedd y targed llawn mewn unrhyw flwyddyn. Nid oedd angen defnyddio unrhyw gyllid o'r gronfa hon yn 2023/24.

Mae'r ymddiriedolwyr yn anelu cynnal cronfeydd rhydd gwerth oddeutu 3 - 6 mis o wariant cyffredinol. Cyfanswm y gronfa rydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oedd £345,328 (2022/23: £373,253), oedd yn digoni polisi'r ymddiriedolwyr. Y strategaeth hirdymor yw parhau i gynyddu'r cronfeydd rhydd yn y dyfodol trwy greu gweddill blynyddol ar weithgareddau.

Theatr Genedlaethol Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

Nawdd Cyhoeddus

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC), ac mae'r statws hwnnw'n rhoi sicrwydd cymharol o gyllid am gyfnod penodol - yn y gorffennol am bum mlynedd. Cynhaliwyd proses Adolygiad Buddsoddi gan CCC yn 2023 ac fe hysbyswyd y cwmni ym mis Medi 2023 fod y cais wedi bod yn llwyddiannus, ar sail yr un lefel ariannu. O 2024/25 ymlaen, ni fydd y casgliad o sefydliadau sy'n cael ei ariannu'n flynyddol yn cael eu cyfeirio atynt fel y 'Portffolio Celfyddydol', ond yn hytrach fel sefydliadau sy'n derbyn cyllid aml-flwyddyn. Mae'r cyfnod ariannu wedi newid o 5 mlynedd ar y tro i 3 blynedd yn y man cyntaf, gyda phosibilrwydd o dair arall (6 mlynedd i gyd).

Mae'r cwmni'n cyfarfod a thrafod yn gyson gyda CCC, ei brif noddwr. Mae'r cwmni'n falch iawn o barhau i fod yn aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru CCC, ac mae ganddo berthynas adeiladol gyda'i brif noddwr. Mae'r cwmni'n adrodd yn ôl yn gyson i CCC, ac yn cyflawni'r holl orchwylion a'r gofynion sydd ynghlwm â derbyn y nawdd hwn.

Mae nawdd gan CCC yn cynrychioli canran helaeth o incwm blynyddol y cwmni. Er mwyn lleihau'r risg o fod mor ddibynnol ar un ffynhonnell, mae wedi bod yn flaenoriaeth yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf i gynyddu'r incwm o ffynonellau eraill, ac felly lleihau'r canran o'r incwm sy'n dod gan CCC. Yn 2018, gosodwyd targed i leihau cyllid CCC fel canran o incwm y cwmni i 75%. Cyn y pandemig, roedd y cwmni ar y trywydd iawn i leihau'r ddibyniaeth, yn unol â'r targedau a osodwyd ond yn sgil COVID-19, cynyddodd y lefel ddibyniaeth yn sylweddol unwaith eto, gyda chyllid CCC yn cynrychioli 97% o holl incwm y cwmni.

Er gwaethaf effaith y pandemig, fe lwyddwyd i leihau'r ddibyniaeth i 75% yn 2022/23, sef y targed gwreiddiol a osodwyd yn 2018, ac yn 2023/24 fe lwyddwyd i ostwng y ganran ymhellach i 73%.

	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Cyllid CCC	£1,054,495	£1,072,566	£1,052,142	£1,067,069	£1,056,505
Cyfanswm Incwm	£1,364,196	£1,103,316	£1,280,037	£1,424,727	£1,455,808
Cyllid CCC fel %	77%	97%	82%	75%	73%

Staff

- Yn ystod 2023/24 roedd staff craidd y cwmni'n cynnwys 10 aelod o staff llawn amser (2022/23:9) a 4 aelod o staff rhan amser (2022/23:7), ar gyfartaledd.
- Mae'r nifer o bobl sy'n gweithio i'r cwmni'n cynyddu'n sylweddol wrth gyflogi artistiaid a gweithwyr llawrydd mewn perthynas â phrosiectau penodol drwy gydol y flwyddyn. Dyfarnwyd 171 o gytundebau i weithwyr llawrydd ar gynyrchiadau, darlleniadau, gweithdai a gweithgaredd cyfranogi. Roedd y cytundebau yma yn 1690 o ddyddiau o waith oedd gwerth tua £252,798.
- Mae holl staff parhaol y cwmni'n siarad Cymraeg, ac felly hefyd y rhan helaethaf o'r gweithwyr a'r artistiaid a gyflogir ar gytundebau tymor byr.

Theatr Genedlaethol Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

Cartref y Cwmni

Ers mis Ionawr 2023, mae pencadlys y cwmni yn Yr Egin, sy'n rhan o gampws Prifysgol y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin. Cyn symud i'r Egin, roedd pencadlys y cwmni mewn adeilad cyfagos ar y campws – Y Llwyfan – ers 2008. Yn Yr Egin, mae gan y cwmni un swyddfa cynllun-agored.

Er nad oes trefniant penodol mewn lle bellach ar gyfer yr ystafell ymarfer yn Y Llwyfan, mae modd i'r cwmni i logi'r gofod yn ôl y galw.

Mae gan y cwmni storfa ychwanegol ar safle y tu allan i dref Caerfyrddin. Mae'r gofodau a amlinellir yn caniatáu i'r cwmni weithredu'n effeithiol.

Adnoddau Technegol

Er mwyn darparu ei wasanaethau, mae'n ofynnol i'r cwmni logi offer technegol o bryd i'w gilydd, a thro arall ei bwrcasu. Dros y blynyddoedd, mae'r cwmni wedi cronni casgliad sylweddol o offer technegol a ddefnyddir wrth i'r cwmni greu a theithio prosiectau theatr. Mae'r casgliad hwn o offer technegol hefyd yn fodd o gefnogi'r sector a chreu partneriaethau gyda chwmnïau eraill, lle mae modd i sefydliadau eraill elwa o'r adnoddau hyn. Mae gan y cwmni restr gynhwysfawr o'i holl offer, ynghyd â gweithdrefnau mwyn caniatáu rannu'r offer pan fo hynny'n briodol neu'n fanteisiol iddo.

Adnoddau Eraill

Mae gan y cwmni hefyd nifer o adnoddau eraill, megis cerbydau ac offer swyddfa, sy'n caniatáu iddo weithredu'n effeithiol a chost-effeithiol. Derbyniwyd grant cyfalaf tuag at brynu'r cerbydau presennol yn ystod 2017/18.

Theatr Genedlaethol Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

5. CYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Theatr Genedlaethol Cymru i bwrpasau cyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau cyllid yn unol â'r gyfraith berthnasol o Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ôl y ddeddf ar gyfer cwmnïau, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, a'r rheiny'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y cwmni yn ystod y cyfnod dan sylw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u gweithredu'n gyson;
- arsylwi ar y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau;
- dyfarnu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn ddoeth;
- paratoi'r cyfrifon ar y sail y bydd y cwmni'n parhau i weithredu, os nad yw'n amhriodol i dybio hyn.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu addas sy'n datgelu sefyllfa ariannol y cwmni'n gymharol gywir ar unrhyw adeg, ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau cyllidol yn unol â Deddf Cwmnïau 2006. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb dros warchod asedau'r cwmni a chymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll neu afreoleidd-dra arall.

Cyn belled ag y mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:

- nid oes gwybodaeth archwiliad perthnasol nad yw'n wybyddus i archwilwyr y cwmni elusennol;
- mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam angenrheidiol i'w gwneud yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliad perthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Trwy orchymyn y Bwrdd

.....

Cadeirydd: Yr Athro Jerry Hunter

Dyddiad: 11/12/2024

.....

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Ymddiriedolwyr Theatr Genedlaethol Cymru

Barn

Archwiliwyd cyfrifon Theatr Genedlaethol Cymru (y 'cwmni elusennol') am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024; maent yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau Ariannol, y Fantolen a'r nodiadau perthnasol. Paratowyd y cyfrifon yn unol â'r polisïau cyfrifo a nodir yn y cyfrifon. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.

Yn ein barn ni:

- Mae'r cyfrifon yn rhoi adlewyrchiad cywir a theg o gyflwr ariannol y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2024 a'r adnoddau a ddefnyddiwyd am y flwyddyn ariannol;
- Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â'r gyfraith berthnasol o Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifo Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.
- Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Cwmnïau 2006;

Sail ein Barn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) ("ISA's (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan ISAs (DU) ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol o'nn hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r elusen gofrestredig yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, sy'n cynnwys Safon Foesegol yr FRC, a'r darpariaethau ar gyfer endidau bach, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen i'n barn ni.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r cyfrifon, rydym o'r farn bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Ymddiriedolwyr
Theatr Genedlaethol Cymru

Gwybodaeth arall

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac Aadroddiad ar yr Archwilwyr Annibynnol.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn sylweddol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos eu bod wedi'i camddatgan yn sylweddol. Os byddwn yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau ymddangosiadol sylweddol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Materion yr ydym yn rwymedig i adrodd drwy eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r eitemau canlynol lle mae'r Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 yn gofyn i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw berthynas materol â'r datganiadau cyllid; neu

- bod y cwmni elusennol heb gadw cofnodion cyfrifo derbynniol; neu

- bod y datganiadau cyllid ddim yn cyd fynd â'r cofnodion cyfrifo a ffurflenni statudol: neu

- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau anghenrheidiol i gyflawni ein archwiliad.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Ymddiriedolwyr Theatr Genedlaethol Cymru

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw fater ynghylch defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddynt ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol

Rydym wedi'n penodi'n archwilwyr o dan Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n cael effaith o dan y Ddeddf honno.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn ei cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi Adroddiad gan yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyfan, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra. Amcanion ein harchwiliad yw cael digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfynu ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol, cyflawni gweithdrefnau archwilio er mwyn helpu nodi achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau eraill a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol, ac i ymateb yn briodol i ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

O ran twyll, amcanion ein harchwiliad yw nodi ac asesu'r risg o gamddatganiad sylweddol o'r datganiadau ariannol oherwydd twyll, casglu digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch y risgiau aseswyd o gamddatganiad sylweddol trwy dwyll gan ddylunio a gweithredu ymatebion priodol ac ymateb yn briodol i dwyll neu dwyll tybiedig a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

Fodd bynnag, prif gyfrifoldeb y rheolwyr, gyda goruchwyliaeth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yw sicrhau bod gweithrediadau'r endid yn cael eu cynnal yn unol â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau ac ar gyfer atal a chanfod twyll.

Wrth asesu a nodi'r risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, fe wnaeth y tîm archwilio:

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Ymddiriedolwyr
Theatr Genedlaethol Cymru

- gael dealltwriaeth o natur y diwydiant a'r sector, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r elusen yn gweithredu ynddo a sut mae'n cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol;
- holi'r rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, am eu hasesiad a chydnabyddiaeth eu hunain o beryglon afreoleidd-dra, gan gynnwys unrhyw achosion gwirioneddol, tybiedig neu honedig o dwyll;
- drafod materion ynghylch peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a sut y gallai twyll ddigwydd gan gynnwys asesu sut a ble y gallai'r datganiadau ariannol fod yn agored i dwyll.B2

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, rydym yn ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw SoRP Elusennau, FRS 102, Deddf Cwmnïau 2006 a Deddf Elusennau 2011. Gwnaethom gynnal gweithdrefnau archwilio i ganfod diffyg cydymffurfio a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol a oedd yn cynnwys adolygu'r datgeliadau yn y cyfrifon.

Nododd y tîm archwilio mai'r risg mwyaf i gamddatganiad sylweddol trwy dwyll fyddai o ganlyniad i'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau mewnol. Roedd y gweithdrefnau archwilio a berfformiwyd yn cynnwys ond nid oeddent wedi'u cyfyngu i brofi cyfnodolion ac addasiadau eraill a gwerthuso'r rhesymeg fusnes mewn perthynas ag unrhyw drafodion sylweddol, anarferol a wnaed y tu allan i gwrs busnes arferol.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilwyr annibynnol.

Defnyddio'r adroddiad hwn

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer ymddiriedolwyr y cwmni elusennol yn unig, fel corff yn unol a Rhan 4 o'r Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008. Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel y gallem ddatgan i ymddiriedolwyr y cwmni elusennol y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r cwmni elusennol ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi'i ffurfio.

Ashmole & Co

Ashmole & Co (Archwilydd Statudol)
Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig & Archwilwyr Cofrestredig
Yn gymwys i weithredu fel archwilwyr yn unol ag adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006
3 Stryd y Farchnad
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6AH

Dyddiad: 28/12/2024

Theatr Genedlaethol Cymru

Datganiad o Weithgareddau Ariannol (gan gynnwys Y Cyfrif Incwm a Gwariant) ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2024

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	31.3.24 Cyfanswm Cronfeydd £	31.3.23 Cyfanswm Cronfeydd £
INCWM A GWADDOLION DRWY:					
Rhoddion a chymynroddion	2	1,056,505	-	1,056,505	1,067,169
Gweithgareddau elusennol	3	57,870	173,365	231,235	196,380
Incwm geithgareddau masnachol	4	9,311	-	9,311	2,612
Buddsoddiadau - llog		5,151	-	5,151	3,377
Cyfanswm incwm a gwaddolion		1,128,837	173,365	1,302,202	1,269,538
Adnoddau a wariwyd					
Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol	5	5,937	-	5,937	5,905
Gweithgareddau elusennol	6	1,313,372	127,228	1,440,601	1,493,898
Cyfanswm adnoddau a wariwyd		1,319,309	127,228	1,446,538	1,499,803
Incwm/ (Gwariant) am y flwyddyn - net cyn treth a throsglwyddiadau		(190,472)	46,137	(144,335)	(230,265)
Rhyddhad Treth	8	153,606	-	153,606	155,189
Incwm/ (Gwariant) am y flwyddyn - net ar ôl treth		(36,866)	46,137	9,271	(75,076)
Cysoni cronfeydd					
Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen		814,978	4,613	819,591	894,667
Cyfanswm cronfeydd a gariwyd ymlaen	20	778,112	50,750	828,862	819,591

Ni pharatowyd datganiad ar wahân o incwm a gwariant

Mae'r nodiadau ar dudalennau 17 i 24 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

Theatr Genedlaethol Cymru

Mantolen ar 31 Mawrth 2024

	Nodyn	31.3.2024 £	31.3.2023 £
ASEDAU SEFYDLOG			
Asedau anniriaethol	12	-	6,957
Asedau diriaethol	13	8,574	14,297
		8,574	21,254
ASEDAU CYFREDOL			
Dyledwyr	14	425,797	306,724
Arian parod yn y banc ac mewn llaw		491,613	672,996
		917,410	979,720
CREDYDWYR			
Symiau fydd yn ddyledus o fewn un flwyddyn	15	(97,122)	(181,383)
ASEDAU CYFREDOL NET		820,288	798,337
ASEDAU NET		828,862	819,591
Cronfeydd yr elusen:			
Cronfeydd Anghyfyngedig		778,112	814,978
Cronfeydd Cyfyngedig		50,750	4,613
	20	828,862	819,591

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 roedd hawl gan y cwmni elusennol i gael eithriad o'r gofyniad am archwiliad statudol dan adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Nid yw'r aelodau wedi ei gwneud yn ofynnol i'r cwmni gael archwiliad o'i gyfrifon ar gyfer y flwyddyn dan sylw yn unol ag adran 476 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod eu cyfrifoldebau dros y canolynol:
a) sicrhau bod y cwmni'n cydymffurfio ag adrannau 386 a 387 o Ddeddf Cwmnïau 2006 o ran cofnodion cyfrifydda;
b) paratoi datganiadau ariannol sy'n cynnig darlun clir a theg o asedau, atebolrwydd, safle ariannol ac elw ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol yn unol â gofynion adrannau 394 a 395 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae'r cyfrifon hyn wedi eu harchwilio dan ofynion adran 144 o'r Ddeddf Elusen 2011.

Paratowyd y cyfrifon yn unol â darpariaethau arbennig Rhan 15 Deddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau bychain (effeithiol Ionawr 2015).

Arwyddwyd y cyfrifon ar ran y Bwrdd gan:

..... (Cadeirydd)

Yr Athro Jerry Hunter

Dyddiad: 11/12/2024

Theatr Genedlaethol Cymru

Datganiad llif arian am y flwyddyn i 31 Mawrth 2024

	Nodyn	31.3.2024 £	31.3.2023 £
Llif Arian o weithgareddau gweithredu			
Arian a gynhyrchwyd o weithgareddau	1	(114,799)	(185,020)
Rhyddhad treth		(62,474)	(181,595)
Arian net a ddarparwyd gan weithgareddau gweithredu		(177,273)	(366,615)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi:			
Pryniant asedau sefydlog diriaethol		(9,262)	(7,161)
Gwerthiant asedau sefydlog diriaethol		-	83,375
Llog a dderbynniwyd		5,151	3,377
Arian net a ddarparwyd gan weithgareddau buddsoddi		(4,111)	79,591
Newid yn arian a cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod adrodd		(181,384)	(287,024)
Arian a cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd		672,996	960,020
Arian a cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd	2	491,612	672,996

Theatr Genedlaethol Cymru

Nodiadau i'r Datganiad Llif arian ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2024

1 Cyfamodi incwm net i llif arian net o weithgareddau gweithredu

	31.3.2024	31.3.2023
	£	£
Incwm net ar gyfer y flwyddyn (yn unol a'r datganiad o weithgareddau ariannol)	9,271	(75,076)
Addasiadau ar gyfer:		
Dibrisiant	21,942	32,244
Llog a dderbyniwyd	(5,151)	(3,377)
Gostyngiad/ (cynnydd) yn y dyledwyr	(56,599)	(25,403)
(Gostyngiad)/ cynnydd yn y credydwyr	(84,262)	(113,408)
Arian net a ddarparwyd gan weithgareddau gweithredu	(114,799)	(185,020)

2 Dadansoddiad o newidiadau mewn cronfeydd net

	Ar 1.4.23	Llif Arian	Ar 31.3.2024
	£	£	£
Arian net			
Arian cyfwerth ag arian parod	672,996	(181,384)	491,612
	672,996	(181,384)	491,612

Theatr Genedlaethol Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2024

1 Polisïau cyfrifyddu
Sail y paratoi

Cafodd datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sydd hefyd yn endid er budd cyhoeddus o dan FRS 102, eu paratoi dan y confensiwn prisio hanesyddol ac yn unol â'r Datganiadau o Arferion Cymeradwy: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau (SORP) sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â Safon Adrodd Gyllidol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) (effeithiol o 1 Ionawr 2015) a Deddf Cwmnïau 2006.

Incwm - Gwirfoddol

Cynhwysir incwm yn y datganiad o symudiadau ariannol pan fo'r elusen â hawl i gronfa, pan fo'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn, a phan fydd y swm yn medru cael ei fesur yn ddibynadwy.

Caiff incwm cyfyngedig ei gynnwys mewn cronfa gyfyngedig a'i gyfatebu i'r gwariant. Caiff grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy eu trin fel credydwyr hirdymor, a'u cynnwys mewn cronfa gyfyngedig sy'n cael ei dibrisio i ffwrdd yn unol â dibrisiant yr asedau.

Incwm - Adnoddau i'w derbyn o weithgareddau elusennol

Cynhwysir adnoddau i'w derbyn o weithgareddau elusennol pan yn ddyledus. Mae'r incwm yn cynnwys gwerthiant tocynnau am berfformiadau o'r cynyrchiadau yn ystod y flwyddyn.

Adnoddau a ddefnyddiwyd

Cydnabuwyd costau a threuliau yn y cyfnod pan wnaeth y weithgaredd ddigwydd. Mae costau'n cynnwys TAW lle nad yw'n bosibl ei hawlio. Mae costau trefn lywodraethu'n cynrychioli'r gost o weinyddu'r elusen a chwrdd â gofynion cyfansoddiadol a statudol. Mae'r gost o gynhyrchu incwm gwirfoddol yn cynrychioli'r gost o gwrdd â gofynion Cyngor Celfyddydau Cymru.

Asedau anniriaethol

Mae'r asedau anniriaethol wedi eu hamorteiddio dros eu bywyd defnyddiol a thros gyfnod y prosiect penodol o 3 mlynedd

Asedau sefydlog

Mae'r asedau sefydlog wedi eu dibrisio dros eu bywyd defnyddiol ar y cyfraddau canlynol

Adeiladau prydles	Dros gyfnod y les
Cerbydau	25%
Cyfrifiaduron ac offer	33.33%

Theatr Genedlaethol Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2024

Les Gweithredol

Ymrwymwyd i brydles newydd ar y Llwyfan o ddechrau Hydref 2018, am gyfnod o 10 mlynedd. Cyfanswm gwerth y les yw £166,750. Talwyd y swm am y 5 mlynedd gyntaf ar ddechrau'r les, o gronfa brydles y cwmni. Roedd yr ail daliad yn ddyledus ym mis Hydref 2023 ond cytunwyd i ddirwyn y brydles i ben ym mis Medi 2023 heb unrhyw daliad ychwanegol. Yn 2023/24 derbyniwyd ad-daliad o £6,117 am y rhent a dalwyd am y cyfnod o ddiwedd Ionawr 2024 i ddiwedd Medi 2024.

Fe wnaeth y cwmni gymryd swyddfa yn Yr Egin o fis Ionawr 2023 a'r swyddfa honno yw pencadlys y cwmni bellach. Mae'r cwmni yn rhentu'r swyddfa yn yr Egin ar gytundeb 3 blynedd, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol. Mae rhent a'r tâl gwasanaeth yn cael eu talu'n gwarterol.

Cronfeydd Cyffredinol

Mae Cronfeydd Cyffredinol yn cynnwys rhoddion ac incwm i'w derbyn, neu a gynhyrchwyd am amcanion yr elusen heb bwrpas arbennig arall ac felly ar gael fel cronfa gyffredinol. Ni osodir amodau allanol ar gronfeydd cyffredinol, ac maent i'w gwario gan yr elusen yn ôl eu hamcanion/bwriadau neu i'w neilltuo tuag at bwrpasau priodol mewnol.

Polisi pensiwn

Mae'r cwmni elusennol yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Mae'r cyfraniadau i'r cynllun pensiwn y cwmni elusennol yn cael ei ddangos ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y cyfnod y maent yn ymwneud ag.

Theatr Genedlaethol Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2024

2 Rhoddion a Chymynroddion

	31.3.24 Cronfeydd Anghyfyngedig	31.3.24 Cronfeydd Cyfyngedig	31.3.24 Cyfanswm Cronfeydd	31.3.23 Cyfanswm Cronfeydd
	£	£	£	£
Grant CCC	1,044,883	-	1,044,883	1,067,069
Grant costau byw	11,622	-	11,622	-
Rhoddion	-	-	-	100
	1,056,505	-	1,056,505	1,067,169

3 Incwm o weithgareddau elusennol

	31.3.24 Cronfeydd Anghyfyngedig	31.3.24 Cronfeydd Cyfyngedig	31.3.24 Cyfanswm Cronfeydd	31.3.23 Cyfanswm Cronfeydd
	£	£	£	£
Swyddfa docynnau	33,329	-	33,329	44,770
Nawdd/Cyd-gynhyrchu	15,857	-	15,857	100,000
Incwm o bartneriaethau	2,200	19,000	21,200	7,416
Incwm cyfranogi	367	-	367	-
Grant ARWAP	-	61,016	61,016	18,504
Cyfraniad at gostau CINARS	-	-	-	3,000
Ar y Dibyn	-	48,750	48,750	22,690
Arfor	-	15,000	15,000	-
Ewch i Weld	-	346	346	-
Ad-daliad rent	6,117	-	6,117	-
Sibrwd	-	29,253	29,253	
	57,870	173,365	231,235	196,380

4 Incwm arall a dderbynnir o weithgareddau masnachol

	31.3.24 Cronfeydd Anghyfyngedig	31.3.24 Cronfeydd Cyfyngedig	31.3.24 Cyfanswm Cronfeydd	31.3.23 Cyfanswm Cronfeydd
	£	£	£	£
Arall	2,849	-	2,849	1,952
Elw ar werthu asedau	500	-	500	-
Incwm llogi offer	5,962	-	5,962	660
	9,311	-	9,311	2,612

5 Costau o gynhyrchu incwm gwirfoddol

	31.3.24 Cronfeydd Anghyfyngedig	31.3.24 Cronfeydd Cyfyngedig	31.3.24 Cyfanswm Cronfeydd	31.3.23 Cyfanswm Cronfeydd
	£	£	£	£
Cyflogau (Nodyn 9)	5,937	-	5,937	5,905
	5,937	-	5,937	5,905

6 Costau gweithgareddau elusennol

	31.3.24 Cronfeydd Anghyfyngedig	31.3.24 Cronfeydd Cyfyngedig	31.3.24 Cyfanswm Cronfeydd	31.3.23 Cyfanswm Cronfeydd
	£	£	£	£
Costau uniongyrchol				
Cynyrchiadau	225,820	95,469	321,288	375,920
Marchnata a chyfathrebu	69,163	167	69,330	49,008
Ffioedd cynyrchiadau	255,365	-	255,365	269,305
Teithio a chynhaliaeth cynyrchiadau	94,300	31	94,331	82,085
Costau proffesiynnol	-	19,650	19,650	-
Cyflogau (Nodyn 9)	414,271	-	414,271	378,937
Costau pensiwn	12,689	-	12,689	13,216
Costau cynnal (Nodyn 7)	241,765	11,911	253,676	325,427
	1,313,372	127,228	1,440,601	1,493,898

Theatr Genedlaethol Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2024

7 Costau Cynnal

Y Flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

	Rheolaeth	Trefn Llywodraethu	Cyllid	Cyfanswm
	£	£	£	£
Cyflogau (Nodyn 9)	83,364	5,937	-	89,301
Costau pensiwn	4,017	-	-	4,017
Teithio a chynhaliaeth cwmni	8,989	-	-	8,989
Costau cyfrifwyr	9,013	-	-	9,013
Costau archwilio	-	4,600	-	4,600
Costau'r bwrdd	1,204	-	-	1,204
Hyfforddiant	4,808	-	-	4,808
Costau'r adeilad	41,006	-	-	41,006
Costau'r swyddfa	20,723	-	-	20,723
Technoleg gwybodaeth	25,288	-	-	25,288
Costau proffesiynol	19,389	3,114	-	22,503
Amorteiddio - gwefan	6,957	-	-	6,957
Costau banc a manion	-	-	283	283
Dibrisio - cerbydau ac offer	6,648	-	-	6,648
Dibrisio - prydles	8,337	-	-	8,337
	239,743	13,651	283	253,676

Cymhariaeth

Y Flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023

	Rheolaeth	Trefn Llywodraethu	Cyllid	Cyfanswm
	£	£	£	£
Cyflogau (Nodyn 9)	134,311	-	-	134,311
Costau pensiwn	4,889	-	-	4,889
Teithio a chynhaliaeth cwmni	18,438	-	-	18,438
Costau archwilio	-	4,350	-	4,350
Costau'r bwrdd	1,279	-	-	1,279
Hyfforddiant	3,687	-	-	3,687
Costau'r adeilad	42,753	-	-	42,753
Costau'r swyddfa	41,399	-	-	41,399
Costau proffesiynol	41,820	-	-	41,820
Amorteiddio - gwefan	6,955	-	-	6,955
Costau banc a manion	-	-	257	257
Dibrisio - cerbydau ac offer	8,614	-	-	8,614
Dibrisio - prydles	16,675	-	-	16,675
	320,819	4,350	257	325,427

8 Rhyddhad treth

	31.3.24 Cronfeydd Anghyfyngedig £	31.3.24 Cronfeydd Cyfyngedig £	31.3.24 Cyfanswm Cronfeydd £	31.3.23 Cyfanswm Cronfeydd £
Rhyddhad treth	153,606	-	153,606	155,189
	153,606	-	153,606	155,189

Cyfanswm hawliad rhyddhad treth ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024 yw £154,997. O'r swm yma, roedd £3,698 yn ddyledus i gyd-gynhyrchwyr gan adael cyfanswm net i Theatr Genedlaethol Cymru o £151,299. Mae'r swm rhyddhad treth hefyd yn cynnwys £2,307 wrth cyd-gynhyrchwyr ar gyfer siar Theatr Genedlaethol Cymru o'i hawliadau.

9 Costau staff craidd

	31.3.2024 £	31.3.2023 £
Staff craidd	467,485	475,888
Yswiriant Gwladol y Cyflogwr	42,024	43,265
Costau pensiwn staff craidd	16,706	18,105
	526,215	537,258

Ar gyfartaledd, cyflogwyd 10 aelod o staff craidd llawn amser (2022/23: 9) a 4 aelod o staff rhan amser (2022/23:7) yn ystod y flwyddyn.

Ni enillodd yr un aelod o staff cyflogedig fwy na £60,000 yn y blynyddoedd 2023/24 na 2022/23.

10 Incwm/(gwariant)net

Dangosir incwm/(gwariant) net ar ôl cyfrif am:

	31.3.2024	31.3.2023
Costau archwilio	4,600	4,350
Dibrisiant asedau sefydlog diriaethol	14,985	25,289
Amorteiddio asedau anniriaethol	6,957	6,955
	26,542	36,594

Theatr Genedlaethol Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2024

11 Cymhariaeth ar gyfer y Datganiad o Weithgareddau Ariannol

		31.3.2023 Cronfeydd Anghyfyngedig £	31.03.2023 Cronfeydd Cyfyngedig £	31.03.2023 Cyfanswm £
Incwm a gwaddolion				
Incwm gwirfoddol a chymynroddion	2	1,067,169	22,690	1,089,859
Gweithgareddau elusennol	3	155,186	18,504	173,690
Incwm arall a dderbynnir o weithgareddau masnachol	4	2,612	-	2,612
Buddsoddiadau - Llog banc		3,377	-	3,377
Cyfanswm adnoddau a dderbynnir		1,228,344	41,194	1,269,538
Adnoddau a wariwyd				
Costau cynhyrchu incwm gwirforddol	5	5,905	-	5,905
Gweithgareddau elusennol	6	1,428,008	65,890	1,493,898
Cyfanswm adnoddau a wariwyd		1,433,913	65,890	1,499,803
Incwm/ (Gwariant am y flwyddyn - net cyn treth		(205,569)	(24,696)	(230,265)
Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd Rhyddhad Treth	7	155,189	-	155,189
Incwm/ (Gwariant am y flwyddyn - net ar ol treth		(50,380)	(24,696)	(75,076)
Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen		865,358	29,309	894,667
Cyfanswm cronfeydd a gariwyd ymlaen		814,978	4,613	819,591

12 Asedau anniriaethol

	Gwefan £
Cost	
Ar 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024	20,867
Amorteiddiad	
Ar 1 Ebrill 2023	13,910
Cost y flwyddyn	6,957
Ar 31 Mawrth 2024	20,867
Llyfrwerth net	
Ar 31 Mawrth 2024	-
Ar 31 Mawrth 2023	6,957

13 Asedau sefydlog diriaethol

	Eiddo ar les byr	Cerbydau	Offer a Dodrefn	Offer Cyfrifiadurol a System Ffôn £	Offer Technegol £	Cyfanswm £
Cost						
Ar 1 Ebrill 2023	83,375	50,356	144,955	48,656	18,560	345,902
Ychwanegiadau	-	-	1,287	4,287	3,688	9,262
Gwaredwyd	(83,375)	-	-	(32,133)	-	(115,508)
Ar 31 Mawrth 2024	-	50,356	146,242	20,810	22,248	239,656
Dibrisio						
Ar 1 Ebrill 2023	75,038	50,356	142,603	45,075	18,533	331,605
Cost y flwyddyn	8,337	-	1,605	3,786	1,257	14,985
Gwaredwyd	(83,375)	-	-	(32,133)	-	(115,508)
Ar 31 Mawrth 2024	-	50,356	144,208	16,728	19,790	231,082
Llyfrwerth net						
Ar 31 Mawrth 2024	-	-	2,034	4,082	2,458	8,574
Ar 31 Mawrth 2023	8,337	-	2,352	3,581	27	14,297

Defnyddiwyd yr holl asedau gan yr elusen ar gyfer gweithgareddau elusennol parhaol.

Theatr Genedlaethol Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2024

14 Dyledwyr

	31.3.2024	31.3.2023
	£	£
Dyledwyr masnachol	85,557	49,586
Taliadau ymlaen llawn	13,046	21,155
TAW	3,460	7,574
Rhyddhad Treth	290,583	228,109
Dyledwyr eraill	33,151	300
	425,797	306,724

15 Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn

	31.3.2024	31.3.2023
	£	£
Credydwyr masnachol	25,414	78,248
Croniadau	26,821	51,365
Trethi ac Yswiriant Gwladol	11,584	16,170
Credydwyr eraill	33,303	35,600
	97,122	181,383

16 Treth

Mae'r elusen yn rhydd o dalu treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

17 Taliadau a budd-daliadau'r ymddiriedolwyr

Derbyniodd dau Ymddiriedolwr tâl a budd-daliadau treuliau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, fel y caniateir gan ddogfen lywodraethol yr elusen. Derbyniodd Mr Steffan Donnelly gyflog o £59,374 (2022/23 £49,669) yn sgîl ei swydd fel Cyfarwyddwr Artistig yr elusen a chyfrannodd y Theatr £2,969 (2022/23: £2,399) i'r Gronfa Bensiwn ar ei ran. Hefyd, derbyniodd £270 fel rhan o gynllun costau llety yr elusen. Ni dderbyniodd unrhyw dâl yn sgîl ei rôl fel Ymddiriedolwr. Derbyniodd Mrs Angharad Jones Leefe gyflog o £59,374 (2022/23: £58,681) yn sgîl ei swydd fel Prif Weithredwr yr elusen a chyfrannodd y Theatr £2,921 (2022/23: £2,855) i'r Gronfa Bensiwn ar ei ran. Ni dderbyniodd unrhyw dâl yn sgîl ei rôl fel Ymddiriedolwr.

18 Treuliau'r ymddiriedolwyr

Derbyniodd Ymddiriedolwyr ad-daliadau treuliau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 o £430 (2022/23: £0) Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, yn ogystal a'r ad-daliadau, fe dalwyd am llety ar gyfer tri Ymddiredolwyr £226 (2022/23:0). Roedd yr ad-daliadau i ddigolledu'r Ymddiriedolwyr am eu costau teithio, cynhaliaeth, llety a chostau eraill yn ymwneud â mynychu cyfarfodydd yr elusen.

19 Dadansoddiad o'r cronfeydd

	Cronfeydd Anghyfynedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm 2024	Cyfanswm 2023
	£	£	£	£
Asedau sefydlog	8,574	-	8,574	21,254
Asedau cyfredol	866,660	50,750	917,410	979,720
Credydwyr	(97,122)	-	(97,122)	(181,383)
	778,112	50,750	828,862	819,591

Theatr Genedlaethol Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2024

20a Cronfeydd

	Ar 1.4.23	Symudiadau yn y cronfeydd	Rhyddhad Treth	Trosglwyddo	Ar 31.3.24
Cronfeydd Cyfyngedig					
Cronfa Gyfalaf	4,613	(4,613)	-	-	-
Cronfa Refeniw	-	50,750	-	-	50,750
	4,613	46,137	-	-	50,750
Cronfeydd Anghyfyngedig					
Cronfa Wrth Gefn	225,000	-	-	-	225,000
Cronfa Adeilad	58,337	(8,337)	-	8,337	58,337
Cronfa Gyfalaf	89,632	(8,941)	-	-	80,691
Cronfa Strategaeth Incwm	68,756	-	-	-	68,756
Cronfa Rydd	373,253	(173,194)	153,606	(8,337)	345,328
	814,978	(190,472)	153,606	-	778,112
Cyfanswm Cronfeydd	819,591	(144,335)	153,606	-	828,862

20b Symudiadau yn y cronfeydd

	Adnoddau a dderbyniwyd	Adnoddau a wariwyd	Symudiadau yn y cronfeydd
Cronfeydd Cyfyngedig			
Cronfa Gyfalaf	2	(4,615)	(4,613)
Cronfa Refeniw	173,363	(122,613)	50,750
	173,365	(127,228)	46,137
Cronfeydd Anghyfyngedig			
Cronfa Adeilad	-	(8,337)	(8,337)
Cronfa Gyfalaf	-	(8,941)	(8,941)
Cronfa Rydd	1,128,837	(1,302,031)	(173,194)
	1,128,837	(1,319,309)	(190,472)
Cyfanswm symudiadau yn y cronfeydd	1,302,202	(1,446,537)	(144,335)

Theatr Genedlaethol Cymru

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2024

21 Polisi Cronfeydd wrth Gefn

Cedwir swm o £225,000 wrth gefn (y swm i'w adolygu'n flynyddol) ar gyfer amgylchiadau eithriadol na ellir eu rhagweld. Cynyddwyd y swm o £195,000 i £225,000 ym mis Mawrth 2023 oherwydd y cynnydd mewn costau yn gyffredinol.

Arwyddwyd prydles ar ran o adeilad Y Llwyfan (sef pencadlys y cwmni) ym mis Hydref 2018. Prydles 10 mlynedd oedd y cytundeb, gyda chymal torri ar ôl 5 mlynedd. Cytunwyd i ddirwyn y brydles i ben yn gynnar yn 2023 ac felly cytunwyd i leihau'r swm sydd wedi ei neilltuo ar gyfer costau adeilad i £58,337. Neilltuir y swm yma ar gyfer unrhyw drefniant a gytunir ar gyfer gofod ymarfer ar gyfer y blynyddoedd nesaf, ac unrhyw ofod cwmni arall.

Mae gan y cwmni ddwy gronfa gyfalaf - un gyfyngedig, o ganlyniad i dderbyn cymhelliant ariannol wrth leoli'r cwmni yn ei leoliad presennol, ac un anghyfyngedig. Roedd gwariant cyfalaf yn ystod 2023/24 yn cael ei ariannu yn gyntaf allan o'r gronfa gyfyngedig tan i'r gronfa hynny ddod i ben, cafodd gweddill o'r gwariant cyfalaf ei ariannu o'r gronfa anghyfyngedig. Ni wnaethpwyd cyfraniad i'r gronfa anghyfyngedig yn 2023/24 ond mae'r Bwrdd yn adolygu'r swm sydd yn y gronfa honno yn flynyddol.

Cytunwyd ym mis Mawrth 2023 i neilltuo swm yn y Gronfa Anghyfyngedig i gefnogi'r strategaeth incwm, sydd yn ddibynnol ar gyllid o ymddiriedolaethau a grantiau. Caiff y gronfa ei defnyddio i sicrhau nad oes diffyg yng nghyllideb y cwmni os nad oes modd cyrraedd y targed llawn mewn unrhyw flwyddyn. Nid oedd angen defnyddio unrhyw gyllid o'r gronfa hon yn 2023/24.

22 Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen

Ym mis Mawrth 2023 fe wnaeth y cwmni gais i Gyngor Celfyddydau Cymru i barhau i fod yn sefydliad sy'n cael ei ariannu'n flynyddol gan y Cyngor o Ebrill 2024 ymlaen, fel rhan o'r broses Adolygiad Buddsoddi. Hysbyswyd y cwmni ym mis Medi 2023 fod y cais wedi bod yn llwyddiannus, ar sail yr un lefel ariannu.

Ym mis Chwefror 2024, yn dilyn toriad o 10% i'r cyllid a dderbynir gan Gyngor Celfyddydau Cymru oddi wrth Llywodraeth Cymru, cadarnhwyd gostyngiad o 2.5% i'r grant refeniw blynyddol i'r cwmni yn 2024/25 (2.5% o ostyngiad ar y grant a dderbyniwyd yn 2023/24 o £1,044,883).

Serch hynny, mae'r Bwrdd yn ffyddiog fod y cynllun sydd mewn lle ar gyfer y flwyddyn 2024/25 yn ateb gofynion y grant craidd. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd o'r farn fod y cronfeydd wrth gefn yn diogelu dyfodol yr elusen am gyfnod o 12 mis wedi dyddiad y cyfarfod blynyddol.

Ym mis Tachwedd 2024, mae'r cwmni wedi cwblhau proses o ail-frandio ac, yn ogystal â hunaniaeth weledol newydd, mae'r cwmni bellach yn defnyddio Theatr Cymru fel yr enw masnachu. Theatr Genedlaethol Cymru yw enw cyfreithiol y cwmni o hyd a dyma'r enw sydd wedi ei gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau.

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

England & Wales - Charity number 1106032

Accounts

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

(Cwmni Cyfyngedig trwy Warant)

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AC ADRODDIADAU ARIANNOL

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

(Rhif y Cwmni 04784488)
(Rhif Elusen 1106032)

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

CWMNI CYFYNGEDIG TRWY WARANT

Cynnwys **Tudalen**

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	2–11
Adroddiad yr Archwilwyr	12–14
Datganiad o Symudiadau	15–16
Mantolen	17–18
Nodiadau ar y Cyfrifon	19–29

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyflwyno'u hadroddiad, ynghyd â'r cyfrifon wedi eu harchwilio, am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023.

Prif weithgaredd ac adolygiad

Prif weithgaredd y cwmni yw cynhyrchu gweithgaredd theatraidd Cymraeg.

Cyfeirnod a Manylion Gweinyddol yr Elusen, ei Hymddiriedolwyr a'i Hymgynghorwyr

Rhif Cofrestru:	04784488
Rhif Elusen Gofrestredig:	1106032
Swyddfa Gofrestredig:	Yr Egin Heol y Coleg Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 3EQ
Bancwyr:	HSBC 15 Heol Awst Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 3AQ
Archwilwyr:	Ashmole & Co. 3 Stryd y Farchnad Llandeilo Sir Gaerfyrddin SA19 6AH
Cyd-Brif Weithredwyr:	Angharad Jones Leefe a Steffan Donnelly

Aelodau'r Bwrdd

Dan y Ddeddf Cwmnïau, mae gan aelodau'r Bwrdd yr un cyfrifoldebau â chyfarwyddwyr. Yr aelodau a wasanaethodd yn ystod y cyfnod dan sylw yw:

Dr N N Edwards-Behi
Mr J D Ellis
Ms E P Fouladi (apwyntiwyd 08/07/2023 – ar ôl dyddiad y fantolen)
Mr S W Fôn
Mr A G Griffiths (Ymddiswyddodd 06/05/2022)
Mrs E Gruffudd Jones (Ymddiswyddodd 17/10/2022)
Yr Athro G T Hunter (apwyntiwyd 08/07/2023 – ar ôl dyddiad y fantolen)
Mr D G Jones (apwyntiwyd 08/07/2023 – ar ôl dyddiad y fantolen)
Mr E Jones
Mr W G Jones
Miss F A Phillips
Mrs C M L Rees
Mr R M Thomas
Mr M R Williams
Mr G Williams
Mrs H A Jones Leefe (apwyntiwyd 25/06/2022)
Mr S Donnelly (apwyntiwyd 04/10/2022)

Ysgrifennydd

Mrs H A Jones Leefe

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen ar gyfer dibenion y Ddeddf Cwmnïau 2006, yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau cyllid yr elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau Datganiadau o Arferion Cymeradwy: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Gyllidol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) (effeithiol o 1 Ionawr 2015).

1. STATWS, STRWYTHUR, TREFN LYWODRAETHU A RHEOLAETH

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd heb unrhyw gyfalaf cyfrannau. Caiff y cwmni ei lywodraethu gan ei amcanion elusennol a'r Memorandwm Cymdeithasiad a'r Erthyglau Cymdeithasiad. Mae aelodau'r bwrdd llywodraethol (Bwrdd Ymddiriedolwyr Theatr Genedlaethol Cymru) yn Ymddiriedolwyr yr elusen ac yn gyfarwyddwyr y cwmni. Penodir Ymddiriedolwyr drwy broses agored, gan ddiogelu'r sgiliau gofynnol ac allweddol.

Mae pob aelod newydd yn mynd trwy gyfnod o gynefino, ac yn derbyn gwybodaeth am ei rôl fel Ymddiriedolwr ac fel cyfarwyddwr y cwmni. Mae'r aelodau newydd hefyd yn derbyn pecyn cynefino sy'n cynnwys Erthyglau Cymdeithasiad y cwmni, cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Bwrdd, copi diweddar o gyfrifon rheolaeth y cwmni, a chopi o gynllun busnes cyfredol y cwmni. Anogir aelodau newydd i gwrdd â staff y cwmni, ac i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi a ddarperir ar gyfer Ymddiriedolwyr gan fudiadau megis Celf a Busnes Cymru ac UK Theatre.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyfarfod fel Bwrdd o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am osod cyfeiriad strategol y cwmni, ac i'r perwyl hwnnw mae'n cymeradwyo'r polisïau allweddol hynny sy'n llywio'r cyfeiriad strategol, ac yn cymeradwyo gweithdrefnau strategol a chynlluniau hirdymor y cwmni. Mae'r Bwrdd hefyd yn monitro gweithrediad y cwmni a pherfformiad y Prif Weithredwyr. Mae'n gyfrifol am hydaledd ariannol y cwmni, ond yn dirprwyo'r rheolaeth o ddydd i ddydd i'r Cyfarwyddwr Artistig a'u swyddogion.

Mae gan y Bwrdd ddau Bwyllgor:

- Pwyllgor Cyllid a Materion Gweithredol;
- Pwyllgor Cynnwys a Chynulleidfaoedd.

Mae'r ddau Bwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd; maent yn atebol i'r Bwrdd, ac yn cyflwyno argymhellion iddo.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol iawn o'r ffaith bod y cwmni wedi'i sefydlu er budd y cyhoedd yn gyfan gwbl; maent yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod y cyfan o'r nawdd cyhoeddus a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i'r perwyl hwnnw, a bod lles y cyhoedd yn gyfan gwbl yn ystyriaeth sy'n rhedeg drwy holl weithgaredd y cwmni.

Rheoli Risg
Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r ffaith bod yr elusen yn agored i amrywiol beryglon posibl. Caiff y Gofrestr Risg ei monitro'n rheolaidd, a rhoddwyd systemau ar waith i leihau'r peryglon hyn. Cydnabyddir fod Cyllid, ynghyd â materion Iechyd a Diogelwch, ymhlith y prif beryglon posibl.

Cyflawnir asesiadau risg Iechyd a Diogelwch ar bob gweithgaredd neu brosiect unigol, yn unol â pholisi Iechyd a Diogelwch y cwmni. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud â pheryglon, hyfforddiant staff a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch.

Archwilir y cyfrifon yn fanwl yn rheolaidd, gan sicrhau bod unrhyw orwariant neu darged incwm nas cyrhaeddir yn cael ei wrthweithio.

Cadeirydd
Ym mis Hydref 2022 bu rhaid i'r Cadeirydd, Efa Gruffudd Jones, ymddiswyddo o'i rôl am iddi gael ei phenodi yn Gomisiynydd y Gymraeg. Penodwyd Elwyn Jones yn Gadeirydd dros dro ac fe ymgymerwyd â phroses recriwtio i ddod o hyd i Gadeirydd newydd, a 2 ymddiriedolwr, ar ddechrau 2023.

Prif Swyddogion
Ym mis Mai 2022, daeth cyfnod Arwel Gruffydd fel Cyfarwyddwr Artistig a Phrif Weithredwr i ben. Yn dilyn hynny, newidiwyd strwythur staffio'r cwmni i fodel cydarweinyddiaeth, gyda'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr

Gweithredol yn Gyd-Brif Weithredwyr. Mae'r Prif Weithredwyr hefyd yn ymddiriedolwyr yn rhinwedd eu swyddi (*ex-officio*). Penodwyd Steffan Donnelly yn Gyfarwyddwr Artistig ym mis Mehefin 2022, ac mae e a'r Cyfarwyddwr Gweithredol, Angharad Jones Leefe, yn gyfrifol ar y cyd am reoli materion yr elusen o ddydd i ddydd ac am weithredu polisïau y cytunwyd arnynt gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

2. AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Fel rhan o'r broses o gyflwyno cais i Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi, lluniwyd Cynllun Strategol newydd ym mis Mawrth 2023, ac fe ddiweddarwyd gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd y cwmni.

Ein Gweledigaeth: Creu theatr Gymraeg fel man i ddod ynghyd, i gysylltu'r adnabyddus a'r annisgwyl, Cymreictod a'r byd, i drafod yn ddwys ac i godi'r galon.

Ein Cenhadaeth: Theatr deithiol yn rhoi Cymru a'i phobl ar y map, yn agored ac yn groesawgar i bawb, gan sicrhau dyfodol disglair i'n hiaith a'n diwylliant.

Ein Gwerthoedd:

Cymraeg: Rydym yn defnyddio ein statws fel cwmni teithiol cenedlaethol i roi'r Gymraeg, Cymru a'i phobl ar y map. Rydyn ni'n dathlu ein hiaith unigryw, yn denu pobl ato, ac yn rhoi hwb i hyder yn ei defnydd. Cymraeg yw iaith y cwmni, ac mae sicrhau ei dyfodol yn treiddio i bopeth a wnawn.

Dyfeisgar: Rydym yn ddyfeisgar, yn feiddgar ac yn uchelgeisiol yn y ffordd rydym yn comisiynu ac yn creu gwaith, gan chwilio am straeon sydd angen eu hadrodd a chwarae gyda ffurfiau cyffrous. Rydym yn diddanu ac yn ysbrydoli ein cynulleidfaoedd gyda gwaith sy'n berthnasol ac yn hawdd i uniaethu â hwy.

Cynhwysol: Mae ein gwaith yn adlewyrchu ystod o hunaniaethau a safbwyntiau, gan herio'r cysyniad o hunaniaeth Gymreig sefydlog. Rydym yn gweithredu'n dryloyw ac yn cynnig gweithle croesawgar, sy'n meithrin ac yn cefnogi pawb.

Cydweithredol: Rydym yn cydweithio'n ystyrlon â chymunedau ac artistiaid, yn meithrin partneriaethau cryf, ac yn defnyddio ein statws fel cwmni cenedlaethol i gefnogi eraill a chynnig cyfleoedd datblygu yn yr iaith Gymraeg.

Ymwybodol: Rydym yn sefydliad sy'n cwestiynu ac yn hunan-fyfyrio, sy'n gweithredu'n gynaliadwy ac yn gyfrifol. Rydym yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn sbarduno sgyrsiau ynghylch cyfiawnder cymdeithasol a'r argyfwng hinsawdd, gan gymryd agwedd ystwyth wrth ymateb i'r byd o'n cwmpas.

Y Cwmni

Sefydlwyd ac ymgorfforwyd Theatr Genedlaethol Cymru yn 2003, ac mae'r cwmni wedi ei leoli yng Nghaerfyrddin.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'u dyletswydd dan adran 17 (5) o Ddeddf Elusennau 2011 o ran arweiniad cyffredinol y Comisiwn Elusennau er budd cyhoeddus wrth adolygu'r Elusen ac amcanion wrth gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol.

Mae'r cwmni yn gwmni theatr teithiol sy'n cynhyrchu dramâu prif lwyfan, cynyrchiadau mewn lleoliadau arbennig, a chynyrchiadau yng nghalon cymunedau Cymru. Ei fwriad yw creu rhaglen gytbwys o waith theatr sy'n adloniannol, arloesol ac uchelgeisiol, ac sy'n cynrychioli diwylliant deinamig Cymru.

Prif Swyddogaethau'r Cwmni:

- Cynyddu'r ddarpariaeth ddiwylliannol a chelfyddydol yn y Gymraeg.
- Dathlu, herio a datblygu hunaniaeth genedlaethol trwy gyfrwng theatr.
- Datblygu theatr fel cyfrwng celfyddydol yng nghyd-destun y diwylliant Cymraeg.
- Datblygu sgiliau a hyder gweithwyr theatr, rhanddeiliaid, mynychwyr a chyfranogwyr theatr trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn 2021/22 fe wnaeth y cwmni ddychwelyd i gyflwyno theatr byw, yn dilyn cyfnod o gyfyngiadau yn sgil COVID-19. Ar gyfartaledd, mae'r cwmni'n llwyfannu tri chynhyrchiad y flwyddyn, a'r rheiny'n amrywio o ddramâu clasurol Cymraeg, addasiadau llwyfan o glasuron llenyddol Cymraeg, trosiadau o glasuron theatr ryngwladol, ysgrifennu newydd, theatr i blant a phobl ifanc, prosiectau cymunedol, cynyrchiadau safle-benodol, theatr ddawns a theatr gerddorol. Crëir cynyrchiadau ar gyfer eu teithio i ganolfannau celfyddydol ar draws Cymru, yn brif lwyfannau a chanolfannau graddfa ganolig, bychan a chymunedol, a hefyd teithio'n achlysurol y tu hwnt i Gymru yn y DU ac yn rhyngwladol.

Mae'n cynhyrchu rhaglen gynhwysfawr o waith cyfranogol, yn cynnwys gweithdai a sgyrsiau i ysgolion a grwpiau cymunedol o bob oed. Mae'n cydweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau ar draws y celfyddydau a thu hwnt i gynnig y ddarpariaeth hon.

Mae gwaith y cwmni wedi'i anelu'n bennaf at siaradwyr Cymraeg, ond anelir hefyd at gyrraedd dysgwyr y Gymraeg a'r di-Gymraeg yng Nghymru. Mae'r cwmni'n cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn cefnogi mynediad i ddysgwyr ac yn trefnu sgyrsiau cyn-sioe a gweithdai i ddysgwyr, ac mae'r Ganolfan yn paratoi pecynnau i ddysgwyr a modiwlau cyfoes o amgylch y cynyrchiadau. Mae darpariaeth ar gyfer dysgwyr a'r rhai sydd ddim yn medru'r Gymraeg ar bob un o gynyrchiadau theatr byw y cwmni, p'un ai bod hynny yn uwchdeitlau neu'n ddefnydd o ap Sibrwd. Darperir is-deitlau Cymraeg a Saesneg ar unrhyw gynnwys fideo a gaiff ei rhyddhau'n ddigidol, er mwyn ei wneud yn hygyrch i ddysgwyr a'r di-Gymraeg, yn ogystal â phobl fyddar a trwm eu clyw.

Er bod gwaith y cwmni wedi'i wreiddio yng Nghymru, mae wedi ymrwymo i godi proffil Cymru, y Gymraeg, a theatr trwy gyfrwng y Gymraeg y tu hwnt i Gymru, o fewn y Deyrnas Unedig yn ehangach, ac yn rhyngwladol.

Cynllun Strategol

Yn ystod 2022/23 roedd y cwmni yn parhau i weithio ar y blaenoriaethau yr adnabuwyd yn 2021, sef:

1. Cynyddu cynulleidfaoedd
2. Arallgyfeirio ein ffrydiau incwm
3. Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant
4. Datblygu gwaith marchnata a chyfathrebu'r cwmni
5. Lleihau effaith y cwmni ar yr amgylchedd

Ym mis Ionawr i Mawrth 2023, cynhaliwyd proses cynllunio strategol manwl, yn ymateb i'r ffaith fod y cwmni wedi penodi Cyfarwyddwr Artistig newydd a bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnal proses Adolygu Buddsoddi i edrych ar sut y maen nhw'n ariannu'r celfyddydau yng Nghymru. Crëwyd cynllun strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2023-27 i gyd-fynd a'r cais a gyflwynwyd i'r Adolygiad Buddsoddi.

Y tri phrif nod strategol ar gyfer y cyfnod 2023-27 yw:

1. Galluogi pobl Cymru, pwy bynnag neu ble bynnag y maen nhw, i deimlo'n hyderus wrth ymwneud â theatr, y celfyddydau a diwylliant Cymraeg.
2. Cyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas a'r byd o'n cwmpas ac annog ffordd foesegol o fyw a gweithio.
3. Diwallu anghenion pobl Cymru yn y presennol ac yn y dyfodol, drwy sicrhau gwytnwch a hyblygrwydd y cwmni a chyfrannu at yr ecosystem gelfyddydol Gymraeg.

Prif Weithgareddau'r Cwmni

Yn unol â'i genhadaeth, mae'r cwmni'n cynnig amrywiaeth o brofiadau theatr Cymraeg eang eu hapêl, sy'n cynnwys perfformiadau o'i gynyrchiadau ac amrywiaeth o gyfleoedd i ymgyfranogi yn y celfyddydau.

Yn ystod 2022/23 roedd gweithgaredd y cwmni yn cynnwys:

Cynyrchiadau:

- **Gwlad yr Asyn** – Cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru ac Os Nad Nawr o ddrama wreiddiol newydd gan Wyn Mason. Yn gyfuniad o ddychan, cerddoriaeth fyw ac alegori, mae'r ddrama'n adrodd stori asyn benywaidd tra gwahanol, sydd wedi ei magu mewn byngalo ac yn mwynhau yfed pop a gwylio'r teledu! Ond y tu ôl i'r hiwmor, mae stori deimladwy am alar, camdriniaeth a chyfle i archwilio a chwestiynu ein perthynas ni gydag anifeiliaid a byd natur a hefyd sefyllfa wleidyddol Cymru. Cyflwynwyd y cynhyrchiad hwn am y tro cyntaf yn 2021, mewn lleoliadau oedd yn bennaf awyr agored. Yn 2022, llwyfannwyd y cynhyrchiad yn Theatr y Maes yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion yn Nhregaron.
- **Tylwyth** - Yn ddilyniant i'r ddrama glodwiw ac arloesol *Llwyth*, llwyfannwyd Tylwyth yn wreiddiol ym mis Mawrth 2020 ond oherwydd y rheoliadau a ddaeth i rym yn sgil COVID-19, bu'n rhaid canslo'r perfformiadau a fwriadwyd ar gyfer canolfannau eraill ledled Cymru yn dilyn y perfformiadau yng Nghaerdydd. Daw prif gymeriadau *Llwyth* ynghyd eto mewn drama dyner a direidus gan Daf James. Gan daflu golwg grafog ar gariad, teulu a chyfeillgarwch,

mae Tylwyth yn cynnig sylwebaeth feiddgar a phryfoclyd ar y Gymru gyfoes. Yn 2022, perfformiwyd y cynhyrchiad unwaith eto yn Theatr y Sherman (oedd hefyd yn gyd-gynhyrchydd y sioe) a theithiwyd y sioe i saith canolfan arall ledled Cymru.

- **Pijin | Pigeon** - Cyd-gynhyrchiad gyda Theatr Iolo. Wedi'i lleoli yng nghysgod chwareli'r gogledd yn y '90au cynnar, mae Pijin yn stori afaelgar am dyfu i fyny, am bŵer geiriau, cyfeillgarwch a pha mor bell mae pobl yn fodlon mynd yn enw cariad. Yn seiliedig ar y nofel lwyddiannus 'Pigeon' gan Alys Conran ac wedi'i haddasu i'r llwyfan gan Bethan Marlow, llwyfannwyd y cynhyrchiad dwyieithog hwn ym mis Chwefror a Mawrth 2023, gyda'r perfformiadau agoriadol yn Pontio, Bangor. Teithiwyd y sioe yn genedlaethol, gyda deunaw o berfformiadau mewn chwe canolfan, a chyrhaeddwyd dros 3000 o gynulleidfa.
- **Betty Campbell** (cynhyrchiad Mewn Cymeriad, gyda chefnogaeth gan Theatr Genedlaethol Cymru a Butetown Arts & Culture Association) - Cefnogwyd y cynhyrchiad yma er mwyn dod â hanes Betty Campbell - prifathrawes Ddu gyntaf Cymru - i blant ledled Cymru. Darparwyd cefnogaeth i Gyfarwyddwr y sioe, cydweithiwyd gyda Mewn Cymeriad i greu pecyn addysg, a darparwyd gweithdai i ysgolion i gyd-fynd â pherfformiadau.

Arlwy digidol

- **Tremolo -** Drama bodlediad yw Tremolo wedi'i chynhyrchu gan **Theatr Illumine** mewn partneriaeth â Pharc Geneteg Cymru a Theatr Genedlaethol Cymru, gyda chefnogaeth y Gymdeithas Geneteg. Mae'r ddrama yn cael ei hadrodd trwy lygaid Harry, bachgen gofalgar yn ei arddegau, sy'n llawn cyffro at ei ddyfodol nes caiff ei fyd gael ei drôn ben i waered pan gaiff ei fam ddiagnosis o eFAD - Alzheimer's Cychwyn Cynnar Teuluol. Dyma ddrama bodlediad pwerus sy'n archwilio effaith y cyflwr creulon hwn ar berthnasoedd teuluol, y pwysau ariannol, y newidiadau i fywyd bob dydd, a cheisio cadw'r gobaith wrth edrych i'r dyfodol. Rhannwyd y podlediad ar Spotify, Apple ac AM, a chrëwyd pecyn addysg pwrpasol i gyd-fynd â'r podlediad. Perfformiwyd y brif ran gan Gareth Elis, a enillodd Wobr Marc Beeby yng Ngwobrau Drama Sain y BBC 2023 am ei berfformiad.
- **Podlediad Ar y Dibyn:** Yn 2022 bu'r artistiaid Mari Elen ac Iola Ynyr yn cynnig gweithdai creadigol penodol ar gyfer merched Cymraeg eu hiaith sy'n byw gyda chamddefnyddio sylweddau yn ardal Gwynedd a Môn. Yn dilyn y sesiynau, cynhyrchiwyd podlediad arbennig sy'n trafod effaith y prosiect, a phrofiadau gwahanol y cyfranogwyr. O ddarlleniadau o waith creadigol, i gyfle i gymryd rhan mewn rhai o'r gweithgareddau o gysur eich cartref eich hun, mae'r podlediad yn cynnig mewnwelediad unigryw i'r prosiect.

Yr Eisteddfod Genedlaethol a Theatr y Maes

- Mae'r cwmni wedi gweithio mewn partneriaeth ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru ers nifer o flynyddoedd i gefnogi gweithgaredd theatr fel rhan o arlwy'r brifwyl. Prif gyfraniad y cwmni yn y fenter hon yw darparu adnoddau a staff technegol ar gyfer Theatr y Maes, sy'n ofod ar gyfer cyflwyniadau theatrig ar faes yr Eisteddfod. Yn Eisteddfod Ceredigion 2022, yn Nhregaron, perfformiwyd y cynhyrchiad Gwlad yr Asyn yn Theatr y Maes, ynghyd â darlleniad o'r ddrama fuddugol o gystadleuaeth Medal Ddrama Eisteddfod AmGen 2021. Yn ogystal â chyflwyniadau'r cwmni, cefnogwyd 25 o gyflwyniadau theatrig gan gwmnïau eraill – cwmnïau proffesiynol ac amatur – a nifer o sgyrsiau yn trafod byd y theatr yng Nghymru.
  Mae'r cwmni hefyd yn darparu pecyn o gefnogaeth wedi'i deilwra i'r Dramodydd Buddugol yng nghystadleuaeth Medal Ddrama'r Eisteddfod Genedlaethol.

Datblygu Talent a Sgiliau

Mae'r cwmni wedi ymrwymo i ddatblygu talent yn y sector theatr yng Nghymru, boed hynny'n ddramodwyr, cyfarwyddwyr, gwneuthurwyr theatr, cynllunwyr, actorion neu unrhyw ymarferwyr disgyblaeth theatr arall, yn arbennig ymysg siaradwyr Cymraeg. Mae'n elfen bwysig o waith y cwmni er mwyn diogelu ei ddyfodol, ac er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth theatr a chelfyddydau Cymraeg eu hiaith yng Nghymru.

- **PAIR:** Lansiwyd y cynllun ym mis Mawrth 2022, mewn partneriaeth gydag S4C. Nod y cynllun oedd datblygu artistiaid i archwilio ffyrdd dyfeisiedig / cydweithredol o greu gwaith newydd a darganfod straeon a fframwaith ar gyfer prosiectau. Fe wnaeth 12 artist gymryd rhan yn y cynllun, a chafwyd dau gyfnod preswyl er mwyn i'r artistiaid ddysgu mwy am ddyfeisio a chydweithio i ddatblygu syniadau ar gyfer cynyrchiadau theatr neu gynyrchiadau aml-blatfform.
- **Am Ddrama:** Parhawyd i gydweithio gyda Theatr Clwyd a National Theatre Wales i ddod o hyd i sgriptiau a dramâu newydd a chyffrous gan ddramodwyr sydd yn hanu o Gymru ac/neu wedi eu lleoli yng Nghymru. Trwy gynllun Am Ddrama roedd modd i ddramodwyr anfon eu sgriptiau a'u dramâu sydd heb eu cyhoeddi yn ddienw at banel eiddgar o ddarllenwyr i gael adborth gwerthfawr. Roedd posibilrwydd i'r sgriptiau mwyaf addawol gael

eu datblygu, gan baru'r sgript a'r dramodydd gydag un o'r tri sefydliad oedd mwyaf addas i'w datblygu, ei chomisiynu a'i chynhyrchu. Roedd y darllenwyr ar y panel yn newid bob 6 mis ac yn cael eu dewis drwy broses ymgeisio. Er mwyn gallu darparu adborth cynhwysfawr a defnyddiol i'r dramodwyr, roedd y darllenwyr yn derbyn sesiynau hyfforddi gan ddramatwrg profiadol. Ni fydd y cwmni yn parhau i fod yn rhan o'r prosiect hwn ar ôl diwedd 2022/23 gan mai nifer bach iawn o sgriptiau Cymraeg eu hiaith a dderbyniwyd.

Cyfranogi

Mae gwaith cyfranogi'r cwmni yn ffordd holl bwysig o ymwneud â chynulleidfaoedd mewn modd gwahanol, ond hefyd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bobl gymryd rhan yn y celfyddydau - i fwynhau, magu hyder a datblygu sgiliau. Mae'r ymwneud â'r celfyddydau hefyd yn gallu cefnogi adferiad a gwella iechyd a lles. Yn aml yn y gwaith yma daw pŵer y celfyddydau i'r amlwg.

Mae gwaith ymgyfranogi'r cwmni yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgaredd theatr, yn cynnwys gweithdai i grwpiau gwahanol (e.e. disgyblion a myfyrwyr, ac artistiaid ar eu prifiant), sgyrsiau cyn ac ar ôl sioeau, a sesiynau i ddysgwyr. Mae'n cynnwys gweithgareddau sy'n datblygu cynulleidfa ar gyfer cynyrchiadau, a gweithgareddau sy'n ymateb i alw gan gymunedau amrywiol, boed yn grŵp cymunedol, yn fusnes neu'n sefydliad mewn sector arall.

- **Clybiau Drama:** Mae'r cwmni yn parhau i gynnal 3 clwb drama yn Ne Orllewin Cymru mewn partneriaeth gyda Mentrau Iaith lleol. Yng Nghaerfyrddin, mae Clwb Joio Drama ar gyfer plant cynradd Blwyddyn 1-3, a Chlwb Drama i blant cynradd Blwyddyn 4-6 – y ddau mewn partneriaeth gyda Menter Gorllewin Sir Gâr.
- **Ar y Dibyn:** Mae prosiect Ar y Dibyn, a sefydlwyd yn 2019, yn rhoi cyfle i bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan ddibyniaeth - boed hynny'n bobl sy'n byw gyda dibyniaeth neu sy'n cefnogi pobl eraill gyda'u dibyniaeth - i ddod at ei gilydd a rhannu'r straeon hynny mewn ffordd greadigol. Yn ystod 2022/23 cynhaliwyd sesiynau gydag ymgyfranogwyr wyneb-yn-wyneb ac yn ddigidol. Ymestynnwyd y prosiect i ardaloedd Maesgeirchen a Phwllheli yng Ngwynedd. Datblygwyd strand penodol i'r prosiect yn ffocysu ar brofiadau menywod â dibyniaeth a chrëwyd bodlediad gan Mari Elen ac Iola Ynyr - Merched ar y Dibyn. Derbyniwyd cefnogaeth ariannol ar gyfer y prosiect yn 2022/23 gan raglen Iechyd, y Celfyddydau, Ymchwil Pobl (HARP) NESTA, Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gwynedd ac Ynys Môn a Phrifysgol Caerdydd. Cydweithiwr gyda Llenyddiaeth Cymru a Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gwynedd ac Ynys Môn i gynnal y prosiect.
- **Cynllun Dramodwyr Ifanc a'r Dramodydd Preswyl Ifanc**: Osian Wynn Davies oedd Dramodydd Preswyl 2022 ar ôl ennill cystadleuaeth Medal Ddrama'r Urdd ym mis Mehefin. Darparwyd pecyn o gefnogaeth wedi ei deilwra iddo, yn cynnwys cyfarfodydd gyda'r tîm creadigol a chyfleoedd i gysgodi, mynychu cyfarfodydd datblygu creadigol, a mynychu perfformiadau'r cwmni.
  Diwygiwyd y Cynllun Dramodwyr Ifanc a chynhigiwyd cyfle i gyn-enillwyr Medal Ddrama'r Urdd a chyn-fynychwyr y Cynllun Dramodwyr Ifanc i greu sgriptiau 10 munud ar gyfer sioe'r Urdd yn Eisteddfod yr Urdd Llanymddyfri 2023. Cafodd y dramodwyr ifanc eu mentora gan Sarah Bickerton.
- **Academi Leeway:** Parhawyd i gefnogi prosiect a arweiniwyd gan Leeway Productions, gyda chefnogaeth hefyd gan Theatr Soar, Merthyr Tudful, a oedd yn datblygu sgiliau artistiaid ifanc yn y gymuned yn ardaloedd Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd Port Talbot, Caerffili ac ardaloedd cyfagos. Dan arweiniad artistiaid proffesiynol, roedd yr ensemble o artistiaid ifanc yn creu ac yn cyflwyno'n ddigidol eu sioeau cerdd gwreiddiol eu hunain.
- **Dysgwyr:** Darparwyd amrywiaeth o weithdai i ddysgwyr mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws Cymru. Cydweithiwyd unwaith eto gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gefnogi'r cwricwlwm.
- **Criw Creu:** Prosiect cenedlaethol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yw Criw Creu sy'n cael ei arwain gan Theatr Genedlaethol Cymru gyda chefnogaeth gan Lenyddiaeth Cymru ac Urdd Gobaith Cymru. Mae disgyblion pedair ysgol uwchradd yn rhan o'r prosiect, sef Ysgol Bro Pedr, Criw Hwb Ysgol Tryfan Bangor, disgyblion Sgiliau Bywyd Ysgol Penweddig Aberystwyth a chriw o Ysgol Plasmawr, Caerdydd. Dyma'r tro cyntaf i nifer o'r disgyblion gael y cyfle i gydweithio gydag artistiaid a pherfformwyr proffesiynol. Cafwyd gweithdai drama gan Sian Elin, Cydlynydd Cyfranogi Theatr Genedlaethol Cymru. Daeth Casi Wyn, Bardd Plant Cymru, i gydweithio â'r disgyblion a chreu darnau gwreiddiol o farddoniaeth. Cafwyd gweithdai animeiddio gyda Sioned Medi Evans o gwmni SMEI a hefyd recordio cerddoriaeth gyda cherddorion a swyddogion yr Urdd, Marged Gwenllian, Osian Rhys, Caryl Griffiths, Seimon Thomas a Lewys Wyn Jones. Roedd y gwaith gyda'r grwpiau yma yn pontio dwy flwyddyn ariannol – 2021/22 a 2022/23.
- **Ymgynghorwyr Ifanc**: Sefydlwyd grŵp o ymgynghorwyr ifanc ac mae'r aelodau wedi deillio o'r Cynllun Dramodwyr Ifanc, Academi Leeway a grwpiau ymgynghori Petula. Mae 15 person ifanc yn cyfarfod o leiaf 4 gwaith

y flwyddyn, yn rhithiol. Mae'n gyfle iddynt gynnig barn ac adborth a chael mewnbwn i waith y cwmni. Mae'n fwriad i weithio gyda'r bobl ifanc i adnabod sgiliau a chyfleoedd yr hoffent nhw gael. Fe wnaeth y grŵp gyfarfod am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2023 a rhoi adborth gwerthfawr ar gynhyrchiad Pijin | Pigeon.

- **Casgliad Dysgu:** Mae'r cwmni yn parhau i gynnig adnoddau addysg ar lein trwy Casgliad Dysgu. Mae Casgliad Dysgu yn rhoi cyfle i ddarlithwyr, athrawon, myfyrwyr, disgyblion, addysgwyr a dysgwyr i wylio, astudio a mwynhau theatr Gymraeg. Mae capsiynau caeedig Cymraeg a Saesneg ar gael ar bob cynhyrchiad yn y casgliad.

Cydweithiwyd gydag ystod eang o bartneriaid er mwyn darparu cyfleoedd i ymgyfranogi yn y celfyddydau, gan gynnwys Mentrau Iaith Cymru, Urdd Gobaith Cymru, S4C, Llenyddiaeth Cymru, Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gwynedd ac Ynys Môn, Cynyrchiadau Leeway, Theatr Soar, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Menter Gorllewin Sir Gâr, a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Roedd cefnogaeth y partneriaid hyn yn allweddol i lwyddiant y gwaith.

3. CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD

Trosolwg o Brif Weithgaredd y Flwyddyn:

Targedau a chyrhaeddiad	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Theatr Byw – Mynychwyr	**16,399**	**0**	**7,046**	**10,677**
Cyflwyniadau Theatr Ddigidol – Gwyliadau	**0**	**73,427**	**27,799**	**447**
Cyfranogwyr – Plant a Phobl Ifanc	3,979	5,762	**2,126**	**2,655**
Cyfranogwyr – Cyffredinol	1,462	99	**185**	**917**
Sgyrsiau a Sesiynau Holi ac Ateb	1,174	622	**2,098**	**574**
Cyfanswm Cyfranogwyr	**6,615**	**6,483**	**4,409**	**4,773**
Cyfanswm y Mynychwyr a'r Cyfranogwyr	**23,014**	**79,910**	**39,254**	**15,450**

4. ADOLYGIAD ARIANNOL

Tra bod y cyfan o wariant y cwmni yn gysylltiedig mewn rhyw fodd â gwasanaethau'r cwmni, mae gwariant uniongyrchol ar brif weithgareddau'r cwmni, fel y disgrifir hwy uchod, yn cynrychioli'r rhan helaethaf o wariant blynyddol y cwmni. Mae'r rhan helaethaf o gostau cyflwyno cynyrchiadau theatraidd yn gysylltiedig â gwaith artistiaid llawrydd wrth greu'r gwaith, ac â staffio'r cynyrchiadau. Er mwyn cynnal y safonau artistig uchaf posibl, mae'r cwmni'n cyflogi naill ai'r artistiaid mwyaf profiadol neu'r mwyaf cymwys, ac yn gweithredu taliadau yn unol â chanllawiau a chytundebau UK Theatre, sef y sefydliad ambarél y mae'r cwmni'n aelod ohono. Mae'r taliadau hynny, yn eu tro, yn seiliedig ar gytundebau'r sefydliad hwnnw gydag undebau llafur y diwydiannau creadigol a'r sector ddiwylliannol.

Mae gwerthoedd cynhyrchu uchel y cwmni – yn unol â disgwyliadau'r gynulleidfa wrth ystyried gwaith cwmni theatr cenedlaethol, a nodau ac amcanion y cwmni – yn golygu bod rhan sylweddol o gyllideb pob cynhyrchiad yn gysylltiedig â chostau cynhyrchu (e.e. cynllunio a chreu neu ddarparu set a gwisgoedd, cynlluniau sain a goleuo, rheoli llwyfan, ac ati, ac yn achos cynyrchiadau digidol, gwaith camera a golygu, a chostau ffrydio).

Sicrhau Gwerth am Arian

Ym mhob agwedd o'i waith, mae'r cwmni'n ymdrechu bob amser i sicrhau gwerth am arian, gan ofalu ei fod yn sicrhau prisiau cystadleuol wrth, e.e. brynu offer, archebu llety a chostau eraill yn gysylltiedig â chreu cynyrchiadau theatr. Mae gan y cwmni bolisi caffael sy'n nodi'r isod:

Cost	Gofyniad
Hyd at £5,000	Dyfynbrisiau – Isafswm o 1
£5,000 i £25,000	Dyfynbrisiau – Isafswm o 3
£25,000 i £75,000	Proses dendro gaeedig – gwahodd 4–6 (angen derbyn o leiaf 2)
Uwch na £75,000	Proses dendro agored (angen derbyn o leiaf 2)

Pennir cyflogau staff parhaol yn seiliedig ar arolwg o gyflogau cyfatebol yn y sector ac yn lleol, er mwyn sicrhau gwerth am arian, tra ar yr un pryd yn cynnal safonau disgwyliedig.

Polisi Cronfeydd

Cedwir swm o £225,000 wrth gefn (y swm i'w adolygu'n flynyddol) ar gyfer amgylchiadau eithriadol na ellir eu rhagweld. Cynyddwyd y swm o £195,000 i £225,000 ym mis Mawrth 2023 oherwydd y cynnydd mewn costau yn gyffredinol.

Arwyddwyd prydles newydd ar ran o adeilad Y Llwyfan (sef pencadlys y cwmni) ym mis Hydref 2018. Prydles 10 mlynedd oedd y cytundeb, gyda chymal torri ar ôl 5 mlynedd. Cytunwyd i ddirwyn y brydles i ben yn gynnar ac felly cytunwyd i leihau'r swm sydd wedi ei neilltuo ar gyfer costau adeilad i £58,337. Neilltuir y swm yma ar gyfer unrhyw drefniant a gytunir ar gyfer gofod ymarfer ar gyfer y blynyddoedd nesaf, ac unrhyw ofod cwmni arall.

Mae gan y cwmni ddwy gronfa gyfalaf – un gyfyngedig, o ganlyniad i dderbyn cymhelliant ariannol wrth leoli'r cwmni yn ei leoliad presennol, ac un anghyfyngedig. Mae unrhyw wariant cyfalaf ar offer yn cael ei wneud o'r gronfa gyfyngedig ar hyn o bryd, nes i'r gronfa honno ddod i ben. Cynyddwyd y swm yn y Gronfa Cyfalaf Anghyfyngedig i £89,632 drwy drosglwyddo swm o'r gronfa adeiladau (cronfa brydles gynt).

Cytunwyd ym mis Mawrth 2023 i neilltuo swm yn y Gronfa Anghyfyngedig i gefnogi'r strategaeth incwm, sydd yn ddibynnol ar gyllid o ymddiriedolaethau a grantiau. Caiff y gronfa ei defnyddio i sicrhau nad oes diffyg yng nghyllideb y cwmni os nad oes modd cyrraedd y targed llawn mewn unrhyw flwyddyn.

Nawdd Cyhoeddus

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC), ac mae'r statws hwnnw'n rhoi sicrwydd cymharol o gyllid am gyfnod penodol – yn y gorffennol am bum mlynedd. Bydd CCC yn cynnal Adolygiad Buddsoddiad o'i Bortffolio yn 2023, a'r disgwyliad yw y bydd y Portffolio o sefydliadau a ariennir yn flynyddol (yn cychwyn o Ebrill 2024) yn cael ei gadarnhau ym mis Medi 2023.

Mae'r cwmni'n cyfarfod a thrafod yn gyson gyda CCC, ei brif noddwr. Mae'r cwmni'n falch iawn o barhau i fod yn aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru CCC, ac mae ganddo berthynas adeiladol gyda'i brif noddwr. Mae'r cwmni'n adrodd yn ôl yn gyson i CCC, ac yn cyflawni'r holl orchwylion a'r gofynion sydd ynghlwm â derbyn y nawdd hwn.

Yn hanesyddol, mae Theatr Genedlaethol Cymru wedi dibynnu'n drwm ar gyllid gan CCC. Mae hyn yn cynrychioli risg i'r cwmni oherwydd y pwysau cynyddol sydd ar arian cyhoeddus. Un o'n prif nodau ar gyfer cyfnod cynllun busnes 2018–22 oedd lleihau'r ddibyniaeth ar arian CCC trwy gynyddu incwm o ffynonellau eraill. Yn 2019/20 llwyddwyd i ostwng ein lefel dibyniaeth ar arian CCC y tu hwnt i'r targed a osodwyd, ac roedd y gostyngiad yn 10% o'r flwyddyn flaenorol (2018/19). Y nod oedd lleihau'r ddibyniaeth ymhellach dros y blynyddoedd nesaf, ac erbyn 2022 byddai cyllid CCC yn cynrychioli 75% o gyfanswm incwm y cwmni.

	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Cyllid CCC	£1,054,495	£1,072,566	£1,052,142	£1,067,069
Cyfanswm Incwm	£1,364,196	£1,103,316	£1,280,037	£1,424,727
Cyllid CCC fel %	77%	97%	82%	75%

Yn sgil COVID-19, cynyddodd y lefel ddibyniaeth yn sylweddol unwaith eto, gyda chyllid CCC yn cynrychioli 97% o holl incwm y cwmni. Roedd hyn yn bennaf oherwydd nad oedd modd cynhyrchu incwm o werthiant tocynnau i berfformiadau, na denu incwm partneriaeth i gynyrchiadau. Yn 2021/22 llwyddwyd i leihau'r ddibyniaeth i 82% ac yn 2022/23 mae'r ganran wedi gostwng ymhellach i 75%, sef y targed gwreiddiol a osodwyd yn 2018.

Staff

- Yn ystod 2022/23 roedd staff craidd y cwmni'n cynnwys 9 aelod o staff llawn amser (2021/22:9) a 7 aelod o staff rhan amser (2021/22:7), ar gyfartaledd.
- Mae'r nifer o bobl sy'n gweithio i'r cwmni'n cynyddu'n sylweddol wrth gyflogi artistiaid a gweithwyr llawrydd mewn perthynas â phrosiectau penodol drwy gydol y flwyddyn. Cyflogwyd 158 o weithwyr llawrydd yn 2022/23, gyda nifer ohonynt yn derbyn mwy nag 1 cytundeb.
- Mae holl staff parhaol y cwmni'n siarad Cymraeg, ac felly hefyd y rhan helaethaf o'r gweithwyr a'r artistiaid a gyflogir ar gytundebau tymor byr.

Cartref y Cwmni
Ers 2008, mae pencadlys y cwmni wedi ei leoli yn adeilad Y Llwyfan ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin. Yno, roedd gan y cwmni swyddfeydd, storfeydd ac ystafell gyfarfod. Fel rhan o'r cytundeb prydles presennol roedd hefyd gan y cwmni ddefnydd o ystafell ymarfer ac ystafelloedd newid pwrpasol am 12 wythnos y flwyddyn. Yn ystod 2022/23, oherwydd y cynnydd mewn gweithio hybrid a'r newid yn anghenion y cwmni ar ôl cyfnod Covid-19, penderfynwyd i ddod a'r brydles yn y Llwyfan i ben yn gynnar a symud prif swyddfa'r cwmni i adeilad Yr Egin, sydd hefyd yn rhan o gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin. Symudwyd swyddfa'r cwmni i'r Egin ym mis Ionawr 2023.
Er nad oes trefniant penodol mewn lle bellach ar gyfer yr ystafell ymarfer yn Y Llwyfan, mae modd i'r cwmni i logi'r gofod yn ôl y galw.
Mae gan y cwmni storfa ychwanegol ar safle y tu allan i dref Caerfyrddin. Mae'r gofodau a amlinellir yn caniatáu i'r cwmni weithredu'n effeithiol.

Adnoddau Technegol
Er mwyn darparu ei wasanaethau, mae'n ofynnol i'r cwmni logi offer technegol o bryd i'w gilydd, a thro arall ei bwrcasu. Dros y blynyddoedd, mae'r cwmni wedi cronni casgliad sylweddol o offer technegol a ddefnyddir wrth i'r cwmni greu a theithio prosiectau theatr. Mae'r casgliad hwn o offer technegol hefyd yn fodd o gefnogi'r sector a chreu partneriaethau gyda chwmnïau eraill, lle mae modd i sefydliadau eraill elwa o'r adnoddau hyn. Mae gan y cwmni restr gynhwysfawr o'i holl offer, ynghyd â gweithdrefnau mwyn caniatáu rannu'r offer pan fo hynny'n briodol neu'n fanteisiol iddo.

Adnoddau Eraill
Mae gan y cwmni hefyd nifer o adnoddau eraill, megis cerbydau ac offer swyddfa, sy'n caniatáu iddo weithredu'n effeithiol a chost-effeithiol. Derbyniwyd grant cyfalaf tuag at brynu cerbydau newydd yn ystod 2017/18.

COVID-19
Bu modd dychwelyd i gyflwyno perfformiadau byw yn ystod 2021/22, ond roedd COVID-19 yn parhau i gael effaith sylweddol ar waith y cwmni. Roedd rheoli risg yn broses feichus a chyson. Lluniwyd Cofrestr Risg COVID-19 er mwyn cynorthwyo'r Bwrdd a'r swyddogion i adnabod risgiau penodol yn ymwneud â'r pandemig ac i gytuno ar drefniadau rheoli priodol.

Yn ystod 2022/23, roedd effaith Covid-19 yn sylweddol llai ond serch hynny bu rhaid canslo 1 perfformiad o Tylwyth oherwydd salwch Covid-19. Roedd effaith Covid-19, ac effaith y cyfyngiadau a gyflwynwyd yn sgil hynny, i'w gweld o hyd ar gynulleidfaoedd yn 2022/23. Mae ail-adeiladu cynulleidfaoedd mewn byd ôl-COVID yn profi i fod yn heriol ar draws y celfyddydau ac mae'n debygol y bydd effaith y pandemig ar gynulleidfaoedd i'w weld am gyfnod hir.

Mae'r cwmni wedi dangos yn y blynyddoedd diwethaf ei fod yn gallu gweithredu mewn modd hyblyg ac ymateb yn gyflym i heriau sy'n codi. Bydd y cwmni yn parhau i weithio yn y modd yma ac mae'r ymddiriedolwyr a'r staff yn monitro sefyllfa ariannol y cwmni yn gyson gan sicrhau fod unrhyw gyllid a gronnwyd yn ystod y cyfnodau clo yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgaredd fydd yn cefnogi nodau strategol y cwmni ac adferiad y sector.

5. CYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Theatr Genedlaethol Cymru i bwrpasau cyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau cyllid yn unol â'r gyfraith berthnasol o Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ôl y ddeddf ar gyfer cwmnïau, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, a'r rheiny'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y cwmni yn ystod y cyfnod dan sylw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u gweithredu'n gyson;
- arsylwi ar y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau;
- dyfarnu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn ddoeth;
- paratoi'r cyfrifon ar y sail y bydd y cwmni'n parhau i weithredu, os nad yw'n amhriodol i dybio hyn.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu addas sy'n datgelu sefyllfa ariannol y cwmni'n gymharol gywir ar unrhyw adeg, ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau cyllidol yn unol â Deddf Cwmnïau 2006. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb dros warchod asedau'r cwmni a chymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll neu afreoleidd-dra arall.

Cyn belled ag y mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:

- nid oes gwybodaeth archwiliad perthnasol nad yw'n wybyddus i archwilwyr y cwmni elusennol;
- mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam angenrheidiol i'w gwneud yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliad perthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Trwy orchymyn y Bwrdd

.....

Cadeirydd: Yr Athro Jerry Hunter

Dyddiad:

12/12/2023

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

Barn

Archwiliwyd cyfrifon Theatr Genedlaethol Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023; maent yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau Ariannol, y Fantolen a'r nodiadau perthnasol. Paratowyd y cyfrifon yn unol â'r polisïau cyfrifo a nodir yn y cyfrifon. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.

Yn ein barn ni:

- Mae'r cyfrifon yn rhoi adlewyrchiad cywir a theg o gyflwr ariannol y cwmni ar 31 Mawrth 2023 a'r adnoddau a ddefnyddiwyd am y flwyddyn ariannol;
- Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â'r gyfraith berthnasol o Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifo Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.
- Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Cwmnïau 2006;

Sail ein Barn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) ("ISA's (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan ISAs (DU) ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol o'nn hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r elusen gofrestredig yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, sy'n cynnwys Safon Foesegol yr FRC, a'r darpariaethau ar gyfer endidau bach, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen i'n barn ni.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r cyfrifon, rydym o'r farn bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac Aadroddiad ar yr Archwilwyr Annibynnol.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn sylweddol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos eu bod wedi'i camddatgan yn sylweddol. Os byddwn yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau ymddangosiadol sylweddol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym

wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Materion yr ydym yn rwymedig i adrodd drwy eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r eitemau canlynol lle mae'r Ddeddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw berthynas materol â'r datganiadau cyllid; neu
- bod y cwmni elusennol heb gadw cofnodion cyfrifo derbynniol; neu
- bod y datganiadau cyllid ddim yn cyd fynd â'r cofnodion cyfrifo a ffurflenni statudol: neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau anghenrheidiol i gyflawni ein archwiliad.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw fater ynghylch defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddynt ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol

Rydym wedi'n penodi'n archwilwyr o dan Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n cael effaith o dan y Ddeddf honno.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn ei cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi Adroddiad gan yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyfan, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra. Amcanion ein harchwiliad yw cael digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfynu ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol, cyflawni gweithdrefnau archwilio er mwyn helpu nodi achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau eraill a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol, ac i ymateb yn briodol i ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

O ran twyll, amcanion ein harchwiliad yw nodi ac asesu'r risg o gamddatganiad sylweddol o'r datganiadau ariannol oherwydd twyll, casglu digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch y risgiau aseswyd o gamddatganiad sylweddol trwy dwyll gan ddylunio a gweithredu ymatebion priodol ac ymateb yn briodol i dwyll neu dwyll tybiedig a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

Fodd bynnag, prif gyfrifoldeb y rheolwyr, gyda goruchwyliaeth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yw sicrhau bod gweithrediadau'r endid yn cael eu cynnal yn unol â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau ac ar gyfer atal a chanfod twyll.

Wrth asesu a nodi'r risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, fe wnaeth y tîm archwilio:

- gael dealltwriaeth o natur y diwydiant a'r sector, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r elusen yn gweithredu ynddo a sut mae'n cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol;
- holi'r rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, am eu hasesiad a chydnabyddiaeth eu hunain o beryglon afreoleidd-dra, gan gynnwys unrhyw achosion gwirioneddol, tybiedig neu honedig o dwyll;
- drafod materion ynghylch peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a sut y gallai twyll ddigwydd gan gynnwys asesu sut a ble y gallai'r datganiadau ariannol fod yn agored i dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, rydym yn ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw SoRP Elusennau, FRS 102, Deddf Cwmnïau 2006 a Deddf Elusennau 2011. Gwnaethom gynnal gweithdrefnau archwilio i ganfod diffyg cydymffurfio a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol a oedd yn cynnwys adolygu'r datgeliadau yn y cyfrifon.

Nododd y tîm archwilio mai'r risg mwyaf i gamddatganiad sylweddol trwy dwyll fyddai o ganlyniad i'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau mewnol. Roedd y gweithdrefnau archwilio a berfformiwyd yn cynnwys ond nid oeddent wedi'u cyfyngu i brofi cyfnodolion ac addasiadau eraill a gwerthuso'r rhesymeg fusnes mewn perthynas ag unrhyw drafodion sylweddol, anarferol a wnaed y tu allan i gwrs busnes arferol.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilwyr annibynnol.

Defnyddio'r adroddiad hwn

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer ymddiriedolwyr y cwmni elusennol yn unig, fel corff yn unol ag Adran 144 Deddf Elusennau 2011 a rheoleiddiadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno (Rhan 4 o'r Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Rheoliadau 2008). Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel y gallem ddatgan i ymddiriedolwyr y cwmni elusennol y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r cwmni elusennol ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi'i ffurfio.

Ashmole & Co

Ashmole & Co (Archwilydd Statudol)
Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig & Archwilwyr Cofrestredig
Yn gymwys i weithredu fel archwilwyr yn unol ag adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006
3 Stryd y Farchnad
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6AH

Dyddiad: 21/12/2023

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

DATGANIAD O SYMUDIADAU ARIANNOL (Incwm a Gwariant)

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

	Nodyn	Cronfa Gyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm 2023 £	Cyfanswm 2022 £
INCWM A GWADDOLION					
Incwm gwirfoddol a chymynroddion	2	22,690	1,067,169	1,089,859	1,109,443
Gweithgareddau elusennol	3	18,504	155,186	173,690	127,904
Incwm arall a dderbynnir o weithgareddau masnachol	4	-	2,612	2,612	1,086
Buddsoddiadau – Llog		-	3,377	3,377	326
Cyfanswm Adnoddau a dderbynnir		41,194	1,228,344	1,269,538	1,238,759
ADNODDAU A WARIWYD					
Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol	5	-	5,905	5,905	5,342
Gweithgareddau elusennol	6	65,890	1,428,008	1,493,898	1,369,014
Cyfanswm adnoddau a wariwyd		65,890	1,433,913	1,499,803	1,374,356
Incwm / (Gwariant) am y flwyddyn – net cyn treth a throslwyddiadau		(24,696)	(205,569)	(230,265)	(135,597)
Rhyddhad Treth	7	-	155,189	155,189	41,278
Incwm / (Gwariant) am y flwyddyn – net ar ol treth		(24,696)	(50,380)	(75,076)	(94,319)
Cronfa – dygwyd ymlaen		29,309	865,358	894,667	988,986
Cronfa – cariwyd ymlaen		4,613	814,978	819,591	894,667

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

DATGANIAD O SYMUDIADAU ARIANNOL (Incwm a Gwariant)

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023 – parhad

Ni pharatowyd datganiad ar wahân o incwm a gwariant.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 19 i 29 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2023

	Nodyn		2023 £		2022 £
ASEDAU SEFYDLOG					
Asedau anniriaethol	**11**		6,957		13,912
Asedau Gweladwy a ddefnyddir gan yr elusen	**12**		14,297		115,800
			21,254		129,712
ASEDAU CYFREDOL					
Dyledwyr	**13**	306,724		99,726	
Arian yn y banc ac mewn llaw		672,996		960,020	
		979,720		1,059,746	
CREDYDWYR – symiau'n daladwy o fewn blwyddyn	**14**	181,383		211,416	
ASEDAU CYFREDOL NET			798,337		848,330
CYFANSWM ASEDAU LLAI CREDYDWYR CYFREDOL NET			819,591		978,042
CREDYDWYR – Symiau'n daladwy mewn dros blwyddyn	**14**		-		83,375
ASEDAU NET			**819,591**		**894,667**
			£		£
CRONFEYDD	**19**				
Cronfeydd Anghyfyngedig			814,978		865,358
Cronfeydd Cyfyngedig			4,613		29,309
			819,591		**894,667**

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2023

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 roedd hawl gan y cwmni elusennol i gael eithriad o'r gofyniad am archwiliad statudol dan adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Nid yw'r aelodau wedi ei gwneud yn ofynnol i'r cwmni gael archwiliad o'i gyfrifon ar gyfer y flwyddyn dan sylw yn unol ag adran 476 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod eu cyfrifoldebau dros y canlynol:

a) sicrhau bod y cwmni'n cydymffurfio ag adrannau 386 a 387 o Ddeddf Cwmnïau 2006 o ran cofnodion cyfrifydda;

b) paratoi datganiadau ariannol sy'n cynnig darlun clir a theg o asedau, atebolrwydd, safle ariannol ac elw ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol yn unol â gofynion adrannau 394 a 395 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae'r cyfrifon hyn wedi eu harchwilio dan ofynion adran 144 o'r Ddeddf Elusen 2011.

Paratowyd y cyfrifon yn unol â darpariaethau arbennig Rhan 15 Deddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau bychain (effeithiol Ionawr 2015).

Arwyddwyd y cyfrifon ar ran y Bwrdd gan:

..... (Cadeirydd)

Yr Athro Jerry Hunter

Dyddiad: 12/12/2023

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

NODIADAU AR Y CYFRIFON – 31 MAWRTH 2023

1. Polisïau Cyfrifo

a) Sail Cyfrifo

Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi dan y confensiwn prisio hanesyddol ac yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau (SORP FRSSE) a gyhoeddwyd yn Ionawr 2015, y Safon Adrodd Ariannol ar gyfer Endidau Llai (yn effeithiol o Ionawr 2015) a Deddf Cwmnïau 2006.

b) Incwm – Gwirfoddol

Cynhwysir incwm yn y datganiad o symudiadau ariannol pan fo'r elusen â hawl i gronfa, pan fo'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn, a phan fydd y swm yn medru cael ei fesur yn ddibynadwy.

Caiff incwm cyfyngedig ei gynnwys mewn cronfa gyfyngedig a'i gyfatebu i'r gwariant. Caiff grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy eu trin fel credydwyr hirdymor, a'u cynnwys mewn cronfa gyfyngedig sy'n cael ei dibrisio i ffwrdd yn unol â dibrisiant yr asedau.

Incwm – Adnoddau i'w derbyn o weithgareddau elusennol

Cynhwysir adnoddau i'w derbyn o weithgareddau elusennol pan yn ddyledus. Mae'r incwm yn cynnwys gwerthiant tocynnau am berfformiadau o'r cynyrchiadau yn ystod y flwyddyn.

c) Adnoddau a ddefnyddiwyd

Cydnabuwyd costau a threuliau yn y cyfnod pan yn ddyledus. Mae costau'n cynnwys TAW lle nad yw'n bosibl ei hawlio. Mae costau trefn lywodraethu'n cynrychioli'r gost o weinyddu'r elusen a chwrdd â gofynion cyfansoddiadol a statudol. Mae'r gost o gynhyrchu incwm gwirfoddol yn cynrychioli'r gost o gwrdd â gofynion Cyngor Celfyddydau Cymru.

ch) Asedau anniriaethol

Mae'r asedau anniriaethol wedi eu hamorteiddio dros eu bywyd defnyddiol a thros gyfnod y prosiect penodol o 3 mlynedd.

d) Asedau sefydlog

Mae'r asedau sefydlog wedi eu dibrisio dros eu bywyd defnyddiol ar y cyfraddau canlynol:

Adeiladau prydles	– Dros gyfnod y les
Cerbydau	– 25%
Cyfrifiaduron ac offer	– 33%

dd) Les Gweithredol

Ymrwymwyd i brydles newydd ar y Llwyfan o ddechrau Hydref 2018, am gyfnod o 10 mlynedd. Cyfanswm gwerth y les yw £166,750. Talwyd y swm am y 5 mlynedd gyntaf ar ddechrau'r les, o gronfa brydles y cwmni. Roedd yr ail daliad yn ddyledus ym mis Hydref 2023 ond cytunwyd i ddirwyn y brydles i ben ym mis Medi 2023 heb unrhyw daliad ychwanegol.

e) Cronfeydd Cyffredinol

Mae Cronfeydd Cyffredinol yn cynnwys rhoddion ac incwm i'w derbyn, neu a gynhyrchwyd am amcanion yr elusen heb bwrpas arbennig arall ac felly ar gael fel cronfa gyffredinol. Ni osodir amodau allanol ar gronfeydd

cyffredinol, ac maent i'w gwario gan yr elusen yn ôl eu hamcanion/bwriadau neu i'w neilltuo tuag at bwrpasau priodol mewnol.

(f) Polisi pensiwn

Mae'r cwmni elusennol yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Mae'r cyfraniadau i'r cynllun pensiwn y cwmni elusennol yn cael ei ddangos ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y cyfnod y maent yn ymwneud ag.

2. INCWM GWIRFODDOL A CHYMYNRODDION

	Cronfa Gyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm 2023 £	Cyfanswm 2022 £
Grant CCC	-	1,067,069	1,067,069	1,040,892
Grantiau prosiect eraill CCC	-	-	-	11,250
Grantiau eraill	22,690	-	22,690	57,274
Rhoddion	-	100	100	27
	22,690	1,067,169	1,089,859	1,109,443

3. GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

Swyddfa docynnau	-	44,770	44,770	45,896
Nawdd/Cyd-gynhyrchu	-	100,000	100,000	64,245
Incwm o bartneriaethau	-	7,416	7,416	15,819
Incwm cyfranogi	-	-	-	1,944
Grant ARWAP	18,504	-	18,504	-
Cyfraniad at gostau CINARS	-	3,000	3,000	-
	18,504	155,186	173,690	127,904

4. INCWM ARALL A DDERBYNNIR O WEITHGAREDDAU MASNACHOL

Arall	-	1,952	1,952	448
Elw ar werthu asedau	-	-	-	375
Incwm llogi offer	-	660	660	263
	-	2,612	2,612	1,086

5. COSTAU O GYNHYRCHU INCWM GWIRFODDOL

	Cronfa Gyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm 2023 £	Cyfanswm 2022 £
Cyflogau (Nodyn 8)	-	5,905	5,905	5,342
	-	5,905	5,905	5,342

6. COSTAU GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

	Cronfa Gyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm 2023 £	Cyfanswm 2022 £
Cynyrchiadau	37,677	338,243	375,920	434,276
Marchnata a chyfathrebu	-	49,008	49,008	72,348
Ffioedd cynyrchiadau	-	269,305	269,305	113,680
Teithio a chynhaliaeth cynyrchiadau	-	82,085	82,085	47,776
Costau cynnal (Nodyn 8)	28,213	689,367	717,580	700,934
	65,890	1,428,008	1,493,898	1,369,014

7. RHYDDHAD TRETH

	Cronfa Gyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm 2023 £	Cyfanswm 2022 £
Rhyddhad treth	-	155,189	155,189	41,278

Cyfanswm hawliad rhyddhad treth ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023 yw £135,129. O'r swm yma, roedd £26,306 yn ddyledus i gyd-gynhyrchwyr gan adael cyfanswm net i Theatr Genedlaethol Cymru o £108,823. Mae'r swm rhyddhad treth hefyd yn cynnwys £46,366 sy'n ddyledus wrth gyd-gynhyrchwyr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023.

8. COSTAU CYNNAL

	Cronfa Gyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm 2023 £	Cyfanswm 2022 £
Cyflogau cwmni	-	519,152	519,152	557,413
Costau pensiwn	-	18,105	18,105	20,101
Teithio a chynhaliaeth cwmni	-	18,438	18,438	2,390
Costau archwilio	-	4,350	4,350	4,050
Costau'r bwrdd	-	1,279	1,279	167
Hyfforddiant	-	3.687	3.687	1,132
Costau'r adeilad	-	42,754	42,754	41,310
Costau'r swyddfa	-	41,399	41,399	35,612
Costau proffesiynol	18,504	23,316	41,820	13,175
Amorteiddio – gwefan	3,489	3,466	6,955	6,955
Costau banc a manion	-	257	257	412
Dibrisio – cerbydau ac offer	6,220	2,394	8,614	6,884
Dibrisio - prydles	-	16,675	16,675	16,675
	28,213	695,272	723,485	706,276

9. COSTAU STAFF CRAIDD

Costau Cyflogau

	2023 £	2022 £
Staff craidd	475,888	519,793
Yswiriant Gwladol y Cyflogwr	43,265	37,620
Costau pensiwn staff craidd	18,105	20,101
	537,258	577,514

Ar gyfartaledd, cyflogwyd 9 aelod o staff craidd llawn amser (2022: 9) a 7 aelod o staff rhan amser (2022:7) yn ystod y flwyddyn.

Ni enillodd yr un aelod o staff cyflogedig fwy na £60,000 yn y blynyddoedd 2022/23 na 2021/22.

10. Cymhariaeth ar gyfer Datganiad o Weithgareddau Ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022

	Nodyn	Cronfa Gyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm £
INCWM A GWADDOLION				
Incwm gwirfoddol a chymynroddion	2	68,524	1,040,919	1,109,443
Gweithgareddau elusennol	3	-	127,904	127,904
Incwm arall a dderbynnir o weithgareddau masnachol	4	-	1,086	1,086
Buddsoddiadau – Llog banc		-	326	326
Cyfanswm Adnoddau a dderbynnir		68,524	1,170,235	1,238,759
ADNODDAU A WARIWYD				
Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol	5	-	5,342	5,342
Gweithgareddau elusennol	6	67,537	1,301,477	1,369,014
Cyfanswm adnoddau a wariwyd		67,537	1,306,819	1,374,356
Incwm / (Gwariant) am y flwyddyn – net cyn treth		987	(136,584)	(135,597)
Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd		-	-	-
Rhyddhad Treth	7	-	41,278	41,278
Incwm / (Gwariant) am y flwyddyn – net ar ol treth		987	(95,306)	(94,319)
Cronfa – dygwyd ymlaen		28,322	960,664	988,986
Cronfa – cariwyd ymlaen		29,309	865,358	894,667

11. ASEDAU ANNIRIAETHOL

	Gwefan	Cyfanswm
	£	£
Cost		
Balans a ddygwyd ymlaen	20,867	20,867
Ychwanegiadau	-	-
Gwaredwyd	-	-
Balans a gariwyd ymlaen	20,867	20,867
Amorteiddio		
Balans a ddygwyd ymlaen	6,955	6,955
Cost y flwyddyn	6,955	6,955
Gwaredwyd	-	-
Balans a gariwyd ymlaen	13,910	13,910
Gwerth yn y llyfrau		
31 Mawrth 2023	6,957	6,957
31 Mawrth 2022	13,912	13,912

12. ASEDAU SEFYDLOG

	Eiddo ar les byr	Cerbydau	Offer a Dodrefn	Offer Cyfrifiadurol a System Ffôn	Offer Technegol	Cyfanswm
	£	£	£	£	£	£
Cost						
Balans a ddygwyd ymlaen	166,750	50,356	160,352	45,023	18,560	441,042
Ychwanegiadau	-	-	3,528	3,633	-	7,161
Gwaredwyd	(83,375)	-	(18,925)	-	-	(102,300)
Balans a gariwyd ymlaen	83,375	50,356	144,955	48,656	18,560	345,903
Dibrisio						
Balans a ddygwyd ymlaen	58,363	50,356	160,352	40,293	15,878	325,242
Cost y flwyddyn	16,675	-	1,176	4,782	2,656	25,289
Gwaredwyd	-	-	(18,925)	-	-	(18,925)
Balans a gariwyd ymlaen	75,038	50,356	142,603	45,075	18,534	331,606
Gwerth yn y llyfrau						
31 Mawrth 2023	8,337	-	2,352	3,581	26	14,297
31 Mawrth 2022	108,387	-	-	4,730	2,683	115,800

Defnyddiwyd yr holl asedau gan yr elusen ar gyfer gweithgareddau elusennol parhaol.

13. DYLEDWYR

	2023 £	2022 £
Dyledwyr masnachol	49,586	26,938
Taliadau ymlaen llaw	21,155	26,274
TAW	7,574	-
Rhyddhad Treth	228,109	46,514
Dyledwyr eraill	300	-
	306,724	99,726

14. CREDYDWYR – Symiau'n daladwy ymhen blwyddyn

	2023 £	2022 £
Credydwyr masnachol	78,247	142,023
Croniadau	51,366	36,412
Trethi ac yswiriant gwladol	16,170	9,416
TAW	-	4,085
Credydwyr eraill	35,600	19,480
	181,383	211,416

14. CREDYDWYR – Symiau'n daladwy ar ol 12 mis

	2023 £	2022 £
Les	-	83,375

15. TRETH

Mae'r elusen yn rhydd o dalu treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

16. TALIADAU A BUDD-DALIADAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Derbyniodd tri Ymddiriedolwr tâl a budd-daliadau treuliau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, fel y caniateir gan ddogfen lywodraethol yr elusen. Derbyniodd Mr Steffan Donnelly gyflog o £49,669 yn sgil ei swydd fel Cyfarwyddwr Artistig yr elusen sy'n cynnwys taliad un-tro o £650 tuag at gostau byw a chyfrannodd y Theatr £2,399 i'r Gronfa Bensiwn ar ei ran. Ni dderbyniodd unrhyw dâl yn sgil ei rôl fel Ymddiriedolwr. Derbyniodd Mrs Angharad Jones-Leefe gyflog o £58,681 yn sgil ei swydd fel Prif Weithredwr yr elusen sy'n cynnwys taliad un-tro o £650 tuag at gostau byw a chyfrannodd y Theatr £2,855 i'r Gronfa Bensiwn ar ei rhan. Ni dderbyniodd unrhyw dâl yn sgil ei rôl fel Ymddiriedolwr. Derbyniodd Mr Arwel Gruffydd

gyflog o £15,383 yn sgil ei swydd fel Cyfarwyddwr Artistig yr elusen a chyfrannodd y Theatr £319 i'r Gronfa Bensiwn ar ei ran. Ni dderbyniodd unrhyw dâl yn sgil ei rôl fel Ymddiriedolwr.

17. TREULIAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Ni dderbyniodd Ymddiriedolwyr ad-daliadau treuliau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.(2022: £103). Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022, yn ogystal a'r ad-daliadau, fe dalwyd am llety ar gyfer un Ymddiriedolwr (2022:£57). Roedd yr ad-daliadau i ddigolledu'r Ymddiriedolwyr am eu costau teithio, cynhaliaeth, llety a chostau eraill yn ymwneud â mynychu cyfarfodydd yr elusen.

18. DATGANIAD O'R ASEDAU NET RHWNG Y CRONFEYDD

	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm 2023 £	Cyfanswm 2022 £
Asedau Sefydlog	(9,155)	30,409	21,254	129,712
Asedau Cyfredol	15,639	964,081	979,720	1,059,746
Credydwyr	(1,871)	(179,512)	(181,383)	(211,416)
Credydwyr hir dymor	-	-	-	(83,375)
	4,613	814,978	819,591	894,667

19. SYMUDIADAU YN Y CRONFEYDD

	Balans d/y 01/04/22 £	Adnoddau a dderbyniwyd £	Adnoddau a Wariwyd £	Rhyddhad Treth £	Trosglwyddo £	Balans c/y 31/03/23 £
Cronfeydd Cyfyngedig						
- Cronfa Gyfalaf	14,322	-	(9,709)	-	-	4,613
- Cronfa Refeniw	14,987	41,194	(56,181)	-	-	-
Cronfeydd Anghyfyngedig						
- Cronfa Wrth Gefn	195,000	-	-	-	30,000	225,000
- Cronfa Adeilad	212,461	-	(16,675)	-	(137,449)	58,337
- Cronfa Gyfalaf	75,485	-	(5,853)	-	20,000	89,632
- Cronfa Strategaeth Incwm	-	-	-	-	68,756	68,756
- Cronfa Rydd	382,412	1,228,344	(1,411,385)	155,189	18,693	373,253
	894,667	1,269,538	(1,499,803)	155,189	-	819,591

Polisi Cronfeydd wrth Gefn

Cytunodd yr ymddiriedolwyr i gynyddu'r gronfa wrth gefn i £225,000 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oherwydd y cynnydd mewn costau yn gyffredinol. (2022: £195,000).

Gan fod y brydles ar Y Llwyfan wedi ei ddirwyn i ben ym mis Medi 2022, mae'r Gronfa Anghyfyngedig yn cynnwys swm o £58,337 a glustnodwyd ar gyfer unrhyw drefniant a gytunir ar gyfer gofod ymarfer ar gyfer y

blynyddoedd nesaf, ac unrhyw ofod cwmni arall. Mae'r Gronfa Anghyfyngedig hefyd yn cynnwys swm o £89,632 sydd wedi ei neilltuo ar gyfer gwariant cyfalaf yn y dyfodol.

Mae gan y cwmni ddwy gronfa gyfalaf – un gyfyngedig, o ganlyniad i dderbyn cymhelliant ariannol wrth leoli'r cwmni yn ei leoliad presennol, ac un anghyfyngedig. Mae unrhyw wariant cyfalaf ar offer yn cael ei wneud o'r gronfa gyfyngedig ar hyn o bryd, nes i'r gronfa honno ddod i ben. Cytunodd yr Ymddiriedolwyr i beidio neilltuo unrhyw arian ychwanegol i'r gronfa anghyfyngedig blwyddyn yma (2022:£0).

Cytunwyd ym mis Mawrth 2023 i neilltuo swm yn y Gronfa Anghyfyngedig i gefnogi'r strategaeth incwm, sydd yn ddibynnol ar gyllid o ymddiriedolaethau a grantiau. Caiff y gronfa ei defnyddio i sicrhau nad oes diffyg yng nghyllideb y cwmni os nad oes modd cyrraedd y targed llawn mewn unrhyw flwyddyn.

20. DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Er nad yw Covid-19 yn effeithio yn uniongyrchol ar weithgareddau Theatr Genedlaethol Cymru bellach, mae sgil effeithiau'r cyfyngiadau dal i'w gweld yn y sector ac ar gynulleidfaoedd ar ôl dyddiad y fantolen. Serch hynny, mae'r Bwrdd yn ffyddiog fod y cynllun sydd mewn lle ar gyfer y flwyddyn 2023/24 yn ateb gofynion y grant craidd. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn ffyddiog na fydd Covid-19 yn effeithio ar werth net asedau a chredydwyr ar 31 Mawrth 2023, ac maent o'r farn fod y cronfeydd wrth gefn yn diogelu dyfodol yr elusen am gyfnod o 12 mis wedi dyddiad y cyfarfod blynyddol.

Ar yr 8fed o Orffennaf 2023, ar ôl dyddiad y fantolen, penodwyd tri ymddiriedolwr newydd – Yr Athro Jerry Hunter, Elin Parisa Fouladi a Dafydd Jones. Penodwyd yr Athro Jerry Hunter yn Gadeirydd, a phenodwyd Elwyn Jones yn Is-Gadeirydd.

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

England & Wales - Charity number 1106032

Accounts

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

(Cwmni Cyfyngedig trwy Warant)

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AC ADRODDIADAU ARIANNOL

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

(Rhif y Cwmni 04784488)
(Rhif Elusen 1106032)

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

CWMNI CYFYNGEDIG TRWY WARANT

Cynnwys **Tudalen**

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	2–13
Adroddiad yr Archwilwyr	14–16
Datganiad o Symudiadau	17–18
Mantolen	19–20
Nodiadau ar y Cyfrifon	21–30

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyflwyno'u hadroddiad, ynghyd â'r cyfrifon wedi eu harchwilio, am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022.

Prif weithgaredd ac adolygiad

Prif weithgaredd y cwmni yw cynhyrchu gweithgaredd theatraidd Cymraeg.

Cyfeirnod a Manylion Gweinyddol yr Elusen, ei Hymddiriedolwyr a'i Hymgynghorwyr

Rhif Cofrestru:	04784488
Rhif Elusen Gofrestredig:	1106032
Swyddfa Gofrestredig:	Y Llwyfan Heol y Coleg Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 3EQ
Bancwyr:	HSBC 15 Heol Awst Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 3AQ
Archwilwyr:	Ashmole & Co. 3 Stryd y Farchnad Llandeilo Sir Gaerfyrddin SA19 6AH
Cyfarwyddwr Artistig (Prif Weithredwr):	Arwel Gruffydd

Aelodau'r Bwrdd

Dan y Ddeddf Cwmnïau, mae gan aelodau'r Bwrdd yr un cyfrifoldebau â chyfarwyddwyr. Yr aelodau a wasanaethodd yn ystod y cyfnod dan sylw yw:

Dr N N Edwards-Behi
Mr J D Ellis
Mr S W Fôn
Mr A G Griffiths
Mrs E Gruffudd Jones
Mr E Jones
Miss F A Phillips
Mrs C M L Rees
Mr R M Thomas
Mr M R Williams
Mr G Williams
Mr W G Jones

Ysgrifennydd
Mrs H A Jones Leefe

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen ar gyfer dibenion y Ddeddf Cwmnïau 2006, yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau cyllid yr elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau Datganiadau o Arferion Cymeradwy: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Gyllidol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) (effeithiol o 1 Ionawr 2015).

1. STATWS, STRWYTHUR, TREFN LYWODRAETHU A RHEOLAETH

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd heb unrhyw gyfalaf cyfrannau. Caiff y cwmni ei lywodraethu gan ei amcanion elusennol a'r Memorandwm Cymdeithasiad a'r Erthyglau Cymdeithasiad. Mae aelodau'r bwrdd llywodraethol (Bwrdd Ymddiriedolwyr Theatr Genedlaethol Cymru) yn Ymddiriedolwyr yr elusen ac yn gyfarwyddwyr y cwmni. Penodir Ymddiriedolwyr drwy broses agored, gan ddiogelu'r sgiliau gofynnol ac allweddol.

Mae pob aelod newydd yn mynd trwy gyfnod o gynefino, ac yn derbyn gwybodaeth am ei rôl fel Ymddiriedolwr ac fel cyfarwyddwr y cwmni. Mae'r aelodau newydd hefyd yn derbyn pecyn cynefino sy'n cynnwys Erthyglau Cymdeithasiad y cwmni, cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Bwrdd, copi diweddar o gyfrifon rheolaeth y cwmni, a chopi o gynllun busnes cyfredol y cwmni. Anogir aelodau newydd i gwrdd â staff y cwmni, ac i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi a ddarperir ar gyfer Ymddiriedolwyr gan fudiadau megis Celf a Busnes Cymru ac UK Theatre.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyfarfod fel Bwrdd o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am osod cyfeiriad strategol y cwmni, ac i'r perwyl hwnnw mae'n cymeradwyo'r polisïau allweddol hynny sy'n llywio'r cyfeiriad strategol, ac yn cymeradwyo gweithdrefnau strategol a chynlluniau hirdymor y cwmni. Mae'r Bwrdd hefyd yn monitro gweithrediad y cwmni a pherfformiad y Cyfarwyddwr Artistig, a pherfformiad y Cyfarwyddwr Gweithredol o fis Mai 2022. Mae'n gyfrifol am hydaledd ariannol y cwmni, ond yn dirprwyo'r rheolaeth o ddydd i ddydd i'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol a'u swyddogion.

Mae gan y Bwrdd ddau Bwyllgor:

- Pwyllgor Cyllid a Materion Gweithredol;
- Pwyllgor Cynnwys a Chynulleidfaoedd.

Mae'r ddau Bwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd; maent yn atebol i'r Bwrdd, ac yn cyflwyno argymhellion iddo.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol iawn o'r ffaith bod y cwmni wedi'i sefydlu er budd y cyhoedd yn gyfan gwbl; maent yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod y cyfan o'r nawdd cyhoeddus a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i'r perwyl hwnnw, a bod lles y cyhoedd yn gyfan gwbl yn ystyriaeth sy'n rhedeg drwy holl weithgaredd y cwmni.

Rheoli Risg

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r ffaith bod yr elusen yn agored i amrywiol beryglon posibl. Caiff y Gofrestr Risg Strategol a'u Gofrestr Risg Weithredol eu monitro'n rheolaidd, a rhoddwyd systemau ar waith i leihau'r peryglon hyn. Cydnabyddir fod Cyllid, ynghyd â materion Iechyd a Diogelwch, ymhlith y prif beryglon posibl.

Cyflawnir asesiadau risg Iechyd a Diogelwch ar bob gweithgaredd neu brosiect creadigol unigol, yn unol â pholisi Iechyd a Diogelwch y cwmni. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol neu'r Pennaeth Cynhyrchu yn adrodd

yn rheolaidd i'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud â pheryglon, hyfforddiant staff a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch.

Archwilir y cyfrifon yn fanwl yn rheolaidd, gan sicrhau bod unrhyw orwariant neu darged incwm nas cyrhaeddir yn cael ei wrthweithio.

Crëwyd cofrestr risg benodol ar gyfer COVID-19 ac mae honno'n cael eu monitro a diweddaru'r rheolaidd.

2. AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Ein Gweledigaeth
Creu theatr Cymraeg eithriadol i bawb

Ein Cenhadaeth
Creu a chyflwyno profiadau theatr Cymraeg sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at fywydau pobl Cymru a thu hwnt.

Ein Gwerthoedd:

- **Cymraeg:** Ry'n ni'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws ein holl weithgareddau, ac yn defnyddio pob cyfle i ddefnyddio, hybu a dathlu'n hiaith arbennig.
- **Cynhwysol:** Ry'n ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i gynnwys pawb yn ein gwaith mewn ffordd ystyrlon.
- **Creadigol:** Ry'n ni'n ddyfeisgar, yn feiddgar ac yn uchelgeisiol yn y modd yr ydym yn comisiynu a chreu gwaith, gyda'r nod o ddiddanu ac ysbrydoli ein cynulleidfaoedd.
- **Cynaliadwy:** Ry'n ni'n ceisio'r gwerth gorau am arian a sicrhau'r incwm mwyaf posibl o'n gweithgareddau, a ry'n ni'n ymdrechu'n gyson i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd.
- **Perthnasol:** Ry'n ni'n gwmni theatr cyfoes sy'n cynnig arlwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n berthnasol i fywydau pobl yng Nghymru heddiw.

<u>Y Cwmni</u>

Sefydlwyd ac ymgorfforwyd Theatr Genedlaethol Cymru yn 2003.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'u dyletswydd dan adran 17 (5) o Ddeddf Elusennau 2011 o ran arweiniad cyffredinol y Comisiwn Elusennau er budd cyhoeddus wrth adolygu'r Elusen ac amcanion wrth gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol.

Mae'r cwmni yn gwmni theatr teithiol sy'n cynhyrchu dramâu prif lwyfan, cynyrchiadau mewn lleoliadau arbennig, a chynyrchiadau yng nghalon cymunedau Cymru. Ei fwriad yw creu rhaglen gytbwys o waith theatr sy'n adloniannol, arloesol ac uchelgeisiol, ac sy'n cynrychioli diwylliant deinamig Cymru.

Prif Swyddogaethau'r Cwmni:

- Cynyddu'r ddarpariaeth ddiwylliannol a chelfyddydol yn y Gymraeg.
- Datblygu hunaniaeth genedlaethol trwy gyfrwng theatr.
- Datblygu theatr fel cyfrwng celfyddydol yng nghyd-destun y diwylliant Cymraeg.
- Datblygu sgiliau a hyder gweithwyr theatr, rhanddeiliaid, mynychwyr a chyfranogwyr theatr trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y cyfnod cyn COVID-19, arfer y cwmni – a leolir yng Nghaerfyrddin – oedd cyflwyno lleiafswm o bedwar cynhyrchiad theatr y flwyddyn, a'r rheiny'n amrywio o ddramâu clasurol Cymraeg, addasiadau llwyfan o glasuron llenyddol Cymraeg, trosiadau o glasuron theatr ryngwladol, ysgrifennu newydd, theatr i blant a phobl ifanc, prosiectau cymunedol, cynyrchiadau safle-benodol, theatr ddawns a theatr gerddorol. Yr arfer oedd creu cynyrchiadau ar gyfer eu teithio i ganolfannau celfyddydol ar draws Cymru, yn brif lwyfannau a

chanolfannau graddfa ganolig, bychan a chymunedol, a hefyd teithio'n achlysurol y tu hwnt i Gymru yn y DU ac yn rhyngwladol. Oherwydd cyfyngiadau sylweddol ar weithrediadau arferol y cwmni, ar y sector theatr yn gyffredinol ac ar gymdeithas yn ehangach, yn arbennig felly'r ffaith bod Llywodraeth Cymru – fel rhan o'u mesurau i warchod iechyd y cyhoedd a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol – wedi gorfodi theatrau a chanolfannau celfyddydol i gau eu drysau am y cyfan o'r flwyddyn ariannol 2020/21, bu'n rhaid i'r cwmni newid dros nos y modd yr oedd yn gweithio, a'r gwasanaeth yr oedd yn ei ddarparu i'r cyhoedd.

Mae'r cwmni, mewn cyfnod arferol, yn creu prosiectau ar gyfer cynulleidfaoedd o bob oed, ac ar gyfer cymunedau amrywiol, yn gymunedau diwydiannol, gwledig a dinesig. Mae'n gweithio mewn partneriaeth â chanolfannau i gynhyrchu prosiectau theatr, yn ogystal ag i lwyfannu ei waith, ac i ddatblygu cynulleidfaoedd ym mhob cwr o Gymru. Ffocws 2021/22 oedd dychwelyd i gyflwyno perfformiadau byw, a gwnaethpwyd hynny'n llwyddiannus, gan fanteisio ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau amrywiol ar draws y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, a sefydliadau eraill y tu hwnt.

Parhaodd y cwmni i gyflwyno rhaglen amrywiol o waith cyfranogol, yn cynnwys gweithdai a sgyrsiau i ysgolion a grwpiau cymunedol o bob oed, gan barhau hefyd i weithio'n gyson gydag asiantaethau a sefydliadau eraill ar y ddarpariaeth hon.

Mae gwaith y cwmni wedi'i anelu'n bennaf at siaradwyr Cymraeg, ond anelir hefyd at gyrraedd dysgwyr y Gymraeg a'r di-Gymraeg yng Nghymru. Mae'r cwmni'n creu pecynnau addysg a phecynnau ar gyfer dysgwyr sy'n cyd-fynd â'i gynyrchiadau. Er mwyn darparu mynediad i gynyrchiadau'r cwmni i'r rhai sydd dim yn medru'r Gymraeg, defnyddir cyfuniad o ap Sibrwd a chapsiynau, yn dibynnu ar ba opsiwn sydd fwyaf addas ar gyfer y cynhyrchiad. Gyda chynnwys digidol y cwmni, darperir capsiynau Cymraeg a Saesneg.

Er bod gwaith y cwmni wedi'i wreiddio yng Nghymru, mae wedi ymrwymo i godi proffil Cymru, y Gymraeg, a theatr trwy gyfrwng y Gymraeg y tu hwnt i Gymru, o fewn y Deyrnas Unedig yn ehangach, ac yn rhyngwladol.

Cynllun Strategol 2021-25

Yn wyneb COVID, newidiodd blaenoriaethau'r cwmni yn sydyn iawn a doedd dim modd cyflawni'r targedau a nodwyd uchod. Gosodwyd blaenoriaethau dros dro, mewn ymateb i'r sefyllfa ar y pryd, a chrëwyd cynllun gweithredu tymor byr yn 2020. Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu yna oedd:

1. Amrywiaeth a Chynhwysiant
2. Marchnata a Chyfathrebu
3. Datblygu Sgiliau a Chefnogi'r Sector
4. Cefnogi Canolfannau Celfyddydol
5. Cynnal Diddordeb Cynulleidfaoedd
6. Datblygu Gwaith Newydd ar gyfer y Dyfodol

Yn 2021, yn dilyn adolygiad o waith y cwmni a'r cyd-destun gweithredu presennol, adnabuwyd y blaenoriaethau isod ar gyfer y cyfnod 2021-2025:

1. Cynyddu cynulleidfaoedd
2. Arallgyfeirio ein ffrydiau incwm
3. Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant
4. Datblygu gwaith marchnata a chyfathrebu'r cwmni
5. Lleihau effaith y cwmni ar yr amgylchedd

Cytunwyd ar dargedau yn ymwneud â phob un o'r blaenoriaethau ar gyfer 2022/23 ymlaen.

Prif Weithgareddau'r Cwmni

Yn unol â'i genhadaeth, mae'r cwmni'n cynnig amrywiaeth o brofiadau theatr Cymraeg eang eu hapêl, sy'n cynnwys perfformiadau o'i gynyrchiadau ac amrywiaeth o gyfleoedd i ymgyfranogi yn y celfyddydau.

Ar ddechrau 2021/22 roedd theatrau yn parhau i fod ar gau oherwydd cyfyngiadau COVID-19 a doedd dim modd cynnal perfformiadau byw felly roedd yr arlwy yn ystod misoedd cyntaf 2021/22 yn arlwy digidol. Llaciwyd y cyfyngiadau yn haf 2021, a chroesawom y cyfle i ddychwelyd i gynnal perfformiadau a digwyddiadau byw.

Yn ystod 2021/22 roedd gweithgaredd y cwmni yn cynnwys:

Cynyrchiadau:

- **Pryd mae'r haf? (digidol)** – Trosiad newydd i'r Gymraeg gan Gwawr Loader o ddrama Chloë Moss, *Christmas is Miles Away*, wedi'i gosod yng nghymoedd y de ar ddiwedd y 1980au. Dyma ddrama dyner am gyfeillgarwch, gobeithion ac ofnau pobl ifanc ym mhob oes. Llwyfannwyd y cynhyrchiad hwn yn wreiddiol ym mis Chwefror 2020 gyda pherfformiadau yn Theatr Soar, Merthyr Tudful, a The Other Room yng Nghaerdydd. Yn sgil COVID-19, bu raid canslo gweddill y daith genedlaethol oedd i ddilyn ym mis Ebrill 2020. Perfformiwyd a ffilmiwyd y cynhyrchiad yn fyw yng Nghanolfan S4C yr Egin y mis Mai 2021, heb gynulleidfa fyw oherwydd cyfyngiadau COVID. Ffrydiwyd y gwaith yn ddigidol ar blatfform TicketCo gyda dau ffrydiad digidol o berfformiadau byw, a tri ffrydiad digidol o recordiad gyda chapsiynau Cymraeg a Saesneg a BSL. Roedd hwn yn gyd-gynhyrchiad gyda chwmni theatr Criw Brwd, mewn partneriaeth â Chanolfan Soar a The Other Room.
- **Faust + Greta** - Cynhyrchiad wedi'i ddyfeisio a'i berfformio gan ensemble o 13 o bobl ifanc rhwng 17 a 25, wrth ddod allan o'r cyfnod clo. Ysbrydolwyd y cynhyrchiad gan drosiad Cymraeg T. Gwynn Jones o waith gwreiddiol Goethe, a chydweithiodd yr ensemble ifanc gyda thîm o artistiaid proffesiynol i greu'r gwaith. Llwyfannwyd y cynhyrchiad mewn theatr wag yn Pontio a ffrydiwyd pedwar perfformiad byw yn ddigidol, yn ogystal â thri ffrydiad digidol ar-alw gyda chapsiynau Cymraeg a Saesneg a BSL. Cyd-gynhyrchiad Frân Wen, Theatr Genedlaethol Cymru a Pontio.
- **Gwlad yr Asyn** – Cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru ac Os Nad Nawr o ddrama wreiddiol newydd gan Wyn Mason. Yn gyfuniad o ddychan, cerddoriaeth fyw ac alegori, mae'r ddrama'n adrodd stori asyn benywaidd tra gwahanol, sydd wedi ei magu mewn byngalo ac yn mwynhau yfed pop a gwylio'r teledu! Ond y tu ôl i'r hiwmor, mae stori deimladwy am alar, camdriniaeth a chyfle i archwilio a chwestiynu ein perthynas ni gydag anifeiliaid a byd natur a hefyd sefyllfa wleidyddol Cymru. Hwn oedd y cynhyrchiad cyntaf i'r cwmni gyflwyno i gynulleidfaoedd byw ers dechrau COVID. Cyflwynwyd 11 perfformiad byw mewn 6 lleoliad gwahanol – yn gymysgedd o awyr agored a dan do mewn ymateb i COVID.
- **Anfamol** - Drama newydd, ddoniol a thyner gan Rhiannon Boyle am hunaniaeth, colled, cariad a pherthyn, ac am fod yn fam ac yn rhiant sengl yn y byd sydd ohoni. Hon oedd y daith genedlaethol gyntaf ers COVID gyda 15 perfformiad mewn 8 canolfan. Dewiswyd y cynhyrchiad hwn yn fwriadol am ei bod yn sioe fonolog gydag un actor, er mwyn rheoli risg COVID. Er bod cyfyngiadau COVID wedi eu llacio'n sylweddol erbyn i'r cwmni deithio'r cynhyrchiad hwn, roedd nifer o ganolfannau yn parhau i weithredu gydag ymbellhau cymdeithasol mewn lle. Cafwyd ymateb anhygoel gan y gynulleidfa i'r cynhyrchiad, gyda thocynnau wedi gwerthu allan ar gyfer nifer o berfformiadau.
- **Llygoden yr Eira** - Cyd-gynhyrchiad gyda Theatr Iolo. Penderfynwyd teithio'r sioe hon unwaith eto, ar ôl llwyddiant y daith yn 2019 ac mewn ymateb i'r galw am arlwy theatr i blant ar ôl y cyfnodau clo. Cynhyrchiad twymgalon a hudolus ar gyfer plant dan 5 oed a'u teuluoedd; stori aeafol swynol, yn llawn cerddoriaeth, pypedwaith a chwarae. Roed hon yn daith genedlaethol gyda 42 o berfformiadau mewn 10 canolfan.
- **Petula** - Cyd-gynhyrchiad gyda National Theatre Wales ac August 012. Cynhyrchiad newydd o ddrama wreiddiol gan Fabrice Melquiot, gyda sgript amlieithog gan Daf James ac wedi ei gyfarwyddo gan Mathilde Lopez. Mae'r ddrama yn gyfuniad tywyll a swreal o gomedi ac antur, ac yn adrodd stori bachgen yn ei arddegau sydd wedi cael llond bol ar ei rieni, a'r holl bwysau o fod yn berson ifanc yn y

byd. Mae'n dianc ar antur i'r gofod, i chwilio am atebion ac i geisio dod o hyd i'w gyfnither goll, Petula. Mae'r cynnwys yn cyffwrdd â nifer o'r heriau sy'n wynebu pobl ifanc ledled y byd – byw mewn teuluoedd cymysg, cartrefi dwyieithog, delwedd y corff a pherthnasoedd. Teithiwyd y sioe yn genedlaethol, gyda'r bwriad gwreiddiol o gyflwyno 17 perfformiad mewn 7 canolfan. Canslwyd nifer o berfformiadau o ganlyniad i COVID ac felly, yn y pen draw, fe gyflwynwyd 10 perfformiad mewn 5 canolfan. Roedd effaith COVID ar y cynhyrchiad hwn yn sylweddol – yn uniongyrchol oherwydd salwch, ond hefyd oherwydd ansicrwydd cynulleidfaoedd ar ôl y cyfnod clo mewn ymateb i amrywiad Omicron.

Arlwy digidol

Yn 2020/21 fe aethpwyd ati i greu a rhannu ystod eang o arlwy theatrig digidol er mwyn cynnal diddordeb ein cynulleidfaoedd yn ystod y cyfnodau clo ac ar adegau lle nad oedd modd cynnal perfformiadau byw. Fel parhad i'r gwaith yna, chrëwyd a rhannwyd yr arlwy ddigidol isod yn ystod 2021/22:

- **Enfys** gan Melangell Dolma - Yn dilyn llwyddiant y ddrama ddigidol **Enfys** gan Melangell Dolma, cynhyrchwyd 3 pennod ddigidol newydd yn adrodd hanes Nick, wnaeth ddechrau dysgu Cymraeg yn y cyfnod clo cyntaf, a'i berthynas gyda'i athrawes Gymraeg - Enfys. Roedd hwn yn gyd-gynhyrchiad rhwng Theatr Genedlaethol Cymru a BBC Cymru Fyw ac fe rannwyd y pedair drama fer ddigidol ar Facebook a YouTube, yn ystod Wythnos Dathlu Dysgwyr Cymraeg Radio Cymru.
- Cynyrchiadau o ddramâu buddugol Cystadleuaeth Medal Ddrama'r Urdd 2020 - Cyd-gynhyrchwyd tair drama fer ddigidol gyda Hansh, ac mewn partneriaeth gyda'r Urdd. Y tair drama yma ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth Medal Ddrama'r Urdd Eisteddfod T 2020 - **Help(u)**, **Dan Orfod**, **Gwydr**. Rhannwyd y dramâu digidol ar gyfrifon Facebook a YouTube Theatr Genedlaethol Cymru a Hansh.
- **Theatr Gen Eto: cyflwyniadau ar-lein o recordiadau rhai o gyn-gynyrchiadau'r cwmni** - Yn 2020/21 rhannwyd nifer o recordiadau o gynyrchiadau'r cwmni o'r gorffennol yn rhad ac am ddim i wylwyr ar-lein. Roedd y tair olaf yn y casgliad hwn ar gael i'w gwylio yn ystod misoedd cyntaf 2021/22**:**
    - **Macbeth**
      Cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru mewn partneriaeth â Cadw a gyda chefnogaeth gan Chapter. Dyma gynhyrchiad o glasur William Shakespeare mewn trosiad i'r Gymraeg gan Gwyn Thomas, a gyflwynwyd yn wreiddiol ar leoliad yng Nghastell Caerffili ac mewn darllediad byw trwy gyfrwng lloeren i ganolfannau ledled Cymru yn 2017.
    - **Blodeuwedd**
      Cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru, gyda chefnogaeth gan Cadw, o glasur Saunders Lewis, a gyflwynwyd yn wreiddiol ar leoliad ar safle Tomen y Mur yng Ngwynedd ym mis Gorffennaf 2013.
    - **Y Tŵr**
      Cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru a Music Theatre Wales mewn partneriaeth â Pontio. Dyma gynhyrchiad o opera wreiddiol gan Guto Puw, gyda libreto gan Gwyneth Glyn, yn seiliedig ar ddrama wreiddiol Gwenlyn Parry. Cyflwynwyd y cynhyrchiad yn wreiddiol fel rhan o Ŵyl Bro Morgannwg, gyda chefnogaeth gan Theatr y Sherman, ac yna ar daith ledled Cymru yn 2017.

Datblygu Talent a Sgiliau

Mae'r cwmni wedi ymrwymo i ddatblygu talent yn y sector theatr yng Nghymru, boed hynny'n ddramodwyr, cyfarwyddwyr, gwneuthurwyr theatr, cynllunwyr, actorion neu unrhyw ymarferwyr disgyblaeth theatr arall, yn arbennig ymysg siaradwyr Cymraeg. Mae'n elfen bwysig o waith y cwmni er mwyn diogelu ei ddyfodol, ac er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth theatr a chelfyddydau Cymraeg eu hiaith yng Nghymru.

- **Bwrsariaethau** – Yn 2020/21 fe ddyrannodd y cwmni 6 Bwrsari Datblygu Syniad, sef cynllun bwrsariaeth yn benodol ar gyfer artistiaid anabl ac artistiaid o gefndiroedd ethnig amrywiol. Roedd y bwrsariaethau hyn yn rhoi cyfle i'r artistiaid ddatblygu eu syniadau ar gyfer prosiect theatraidd gyda chefnogaeth y

cwmni. Dyrannwyd 5 bwrsari arall o'r enw Bwrsari Artist a Chymuned. Roedd y cynllun hwn yn annog artistiaid i ddatblygu gwaith gyda chymuned benodol, boed honno'n gymuned ddaearyddol, broffesiynol, ar-lein neu'n gymuned sy'n rhannu nodweddion neilltuol. Yn 2021/22, derbyniodd nifer o'r artistiaid gomisiwn datblygu er mwyn datblygu eu syniadau ymhellach ac fe dderbyniodd tri artist gomisiwn llawn er mwyn datblygu eu syniadau yn ddramâu llawn.

- **Cymraeg Gwaith: Hybu Hyder:** Yn ystod 2020/21 fe ddaeth i'r amlwg fod diffyg hyder yn y Gymraeg yn rhwystr i rai artistiaid a gweithwyr theatr rhag eu cyflwyno eu hunain i'r cwmni ar gyfer darpar gyflogaeth, neu gynnig syniadau creadigol iddo. Oherwydd hynny, bu'r cwmni'n cydweithio gyda CCC a Chanolfan Nant Gwrtheyrn ar gynllun peilot i roi cyfleoedd i weithwyr llawrydd ym maes y celfyddydau perfformio i fynychu cyrsiau datblygu sgiliau iaith, a hynny fel rhan o gynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Estynnwyd y cynllun am rownd arall yn 2021/22 a chyflwynwyd adroddiad i CCC ar ail rownd y peilot. Mae CCC bellach wedi penodi Cydlynydd Dysgu Cymraeg i ymgymryd â'r gwaith yma.
- **Awenau:** Yn 2018 sefydlwyd Cynllun Awenau i hyfforddi a chefnogi egin gyfarwyddwyr. Fel gwaddol i'r cynllun yna penderfynwyd i gynnig cyfleoedd datblygu i gyfarwyddwr ar gynyrchiadau'r cwmni. Cyflogwyd Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar bob cynhyrchiad yn 2021/22.
- **PAIR:** Lansiwyd y cynllun ym mis Mawrth 2022, mewn partneriaeth gydag S4C, ac mae'n gynllun sy'n rhoi cyfle i artistiaid cyfle i gyd-greu drwy ddyfeisio mewn gofod creadigol. Rhoddwyd cyfle i weithwyr llawrydd celfyddydol i ymgeisio i fod yn un o ddeuddeg o bobl i dderbyn hyfforddiant a chymryd rhan mewn gweithdai er mwyn dysgu sgiliau ymchwil, dulliau dyfeisio, a sgiliau creu ar y cyd. Y gobaith yw y bydd rhai o'r syniadau a gyflwynir yn arwain at gomisiynau gan Theatr Gen i greu cynyrchiadau theatr byw dyfeisiedig, a allai gynnwys elfennau digidol hefyd. Bydd hefyd yn fodd i artistiaid a chrewyr cynnwys dramataidd o bob math ddatblygu perthynas greadigol a phroffesiynol gyda Theatr Genedlaethol Cymru ac S4C. Cadarnhawyd yr artistiaid llwyddiannus ym mis Ebrill 2022 a chychwynnwyd y sesiynau hyfforddi a chydweithio ym mis Mai 2022, sydd tu hwnt i'r cyfnod sy'n ffocws i'r adroddiad hwn.
- **Am Ddrama:** Mae Am Ddrama / Play On yn gynllun ar y cyd rhwng Theatr Genedlaethol Cymru, Theatr Clwyd a National Theatre Wales i ddod o hyd i sgriptiau a dramâu newydd a chyffrous gan ddramodwyr sydd yn hanu o Gymru ac / neu wedi eu lleoli yng Nghymru. Mae Am Ddrama yn galluogi dramodwyr i anfon eu sgriptiau a'u dramâu sydd heb eu cyhoeddi yn ddienw at banel eiddgar o ddarllenwyr i gael adborth gwerthfawr. Mae'n bosibl y bydd cyfle i'r sgriptiau mwyaf addawol gael eu datblygu, gan baru'r sgript a'r dramodydd gydag un o'r tri sefydliad sy'n fwyaf addas i'w datblygu, ei chomisiynu a'i chynhyrchu. Mae'r darllenwyr ar y panel yn newid bob 6 mis ac yn cael eu dewis drwy broses ymgeisio. Er mwyn gallu darparu adborth cynhwysfawr a defnyddiol i'r dramodwyr, mae'r darllenwyr yn derbyn sesiynau hyfforddi gan ddramatwrg profiadol.

Cyfranogi

Mae ein gwaith cyfranogi yn ffordd holl bwysig o ymwneud a'n cynulleidfaoedd mewn modd gwahanol, ond hefyd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bobl gymryd rhan yn y celfyddydau – i fwynhau, magu hyder a datblygu sgiliau. Mae'r ymwneud â'r celfyddydau hefyd yn gallu cefnogi adferiad a gwella iechyd a lles. Yn aml yn y gwaith yma daw pŵer y celfyddydau i'r amlwg.

Mae gwaith ymgyfranogi'r cwmni yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgaredd theatr, yn cynnwys gweithdai i grwpiau gwahanol (e.e. disgyblion a myfyrwyr, ac artistiaid ar eu prifiant), sgyrsiau cyn ac ar ôl sioeau, a sesiynau i ddysgwyr. Mae'n cynnwys gweithgareddau sy'n datblygu cynulleidfa ar gyfer cynyrchiadau, a gweithgareddau sy'n ymateb i alw gan gymunedau amrywiol, boed yn grŵp cymunedol, yn fusnes neu'n sefydliad mewn sector arall.

- **Clybiau Drama:** Yn ystod Haf 2021, cynhaliwyd sesiynau pellach o Glwb Theatr Cymru yn rhithiol, ar y cyd gyda Mentrau Iaith Cymru. Mae'r cwmni yn parhau i gynnal 3 clwb drama yn Ne Orllewin Cymru mewn partneriaeth gyda Mentrau Iaith lleol. Yng Nghaerfyrddin, mae Clwb Joio Drama ar gyfer plant cynradd Blwyddyn 1-3, a Chlwb Drama i blant cynradd Blwyddyn 4-6 – y ddau mewn partneriaeth gyda

Menter Gorllewin Sir Gâr. Yn Sir Benfro, mae Clwb Drama i blant cynradd mewn partneriaeth gyda Menter Sir Benfro, a chynhelir y sesiynau ym Maenclochog. Llwyddwyd i ddychwelyd i gynnal sesiynau wyneb yn wyneb i'r clybiau yn 2021/22 ar ôl cynnal sesiynau digidol yn ystod y cyfnod clo.

- **Ar y Dibyn:** Mae prosiect Ar y Dibyn yn rhoi cyfle i bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan ddibyniaeth – boed hynny'n bobl sy'n byw gyda dibyniaeth neu sy'n cefnogi pobl eraill gyda'u dibyniaeth – i ddod at ei gilydd a rhannu'r straeon hynny mewn ffordd greadigol. Yn ystod y cyfnodau clo cynhaliwyd sesiynau gydag ymgyfranogwyr yn ddigidol, ond yn ystod 2021/22, fe lwyddwyd i gynnal sesiynau wyneb yn wyneb yn ogystal â rhai digidol. Derbyniwyd cefnogaeth ariannol ar gyfer y prosiect yn 2021/22 gan raglen Iechyd, y Celfyddydau, Ymchwil Pobl (HARP) NESTA, Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gwynedd ac Ynys Môn a Chymdeithas Tai Adra. Cydweithiwr gyda Llenyddiaeth Cymru a Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gwynedd ac Ynys Môn i gynnal y prosiect.
- **Cynllun Dramodwyr Ifanc a'r Dramodydd Preswyl Ifanc**: Bu'r cwmni'n cydweithio gyda'r Urdd, S4C, ac am y tro cyntaf - BBC Studio, i ddarparu cynllun datblygu a hyfforddi ar gyfer dramodwyr ifanc (16-25 oed). Yn debyg i 2020/21, cyflwynwyd rhaglen o ddosbarthiadau meistr a gweithdai gyda dramodwyr proffesiynol er mwyn cefnogi'r bobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu, gyda'r nod o annog cystadleuwyr i gyflwyno gwaith ar gyfer Medal Ddrama Eisteddfod T 2022. Daeth Rhiannon Williams i'r brig yng nghystadlaethau Medal Ddrama'r Urdd yn 2021 ac felly hi oedd Dramodydd Preswyl Ifanc cyntaf Theatr Genedlaethol Cymru. Fel y Dramodydd Preswyl Ifanc, mae Rhiannon wedi derbyn pecyn o gefnogaeth cyn cynnwys mentora a chyfle i gysgodi aelodau o staff y cwmni mewn cyfarfodydd.
- **Faust + Greta:** Rhoddwyd cyfle i ensemble o bobl ifanc rhwng 18 a 25 i gydweithio gydag artistiaid proffesiynol i greu'r cynhyrchiad Faust + Greta. Derbyniodd yr artistiaid ifanc o'r gymuned arweiniad ac anogaeth, a chyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, yn arbennig o ran sgiliau actio, gwaith llais, theatr gorfforol a dyfeisio theatr, yn ogystal ag elfennau o greu gwaith digidol a dylunio. Pen llanw'r cynllun oedd y cyfle i berfformio'r cynhyrchiad yn theatr Bryn Terfel yn Pontio a ffrydiwyd y perfformiad yn fyw yn ddigidol.
- **Academi Leeway:** Darparwyd cefnogaeth unwaith eto yn 2021/22 i brosiect a arweiniwyd gan Leeway Productions, gyda chefnogaeth hefyd gan Theatr Soar, Merthyr Tudful, a oedd yn datblygu sgiliau artistiaid ifanc yn y gymuned yn ardaloedd Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd Port Talbot, Caerffili ac ardaloedd cyfagos. Dan arweiniad artistiaid proffesiynol, roedd yr artistiaid ifanc yn creu ac yn cyflwyno'n ddigidol eu sioeau cerdd gwreiddiol eu hunain.
- **Dysgwyr:** Darparwyd amrywiaeth o weithdai i ddysgwyr mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws Cymru. Cydweithiwyd unwaith eto gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gefnogi'r cwricwlwm.
- **Prosiect Ysgol Bro Pedr:** Trwy gefnogaeth ariannol gan Western Power, cynhaliwyd gweithdai creadigol gyda disgyblion sy'n rhan o adran anghenion addysg ychwanegol Ysgol Bro Pedr. Y nod oedd rhoi'r cyfle i ddisgyblion, sydd ddim fel arfer yn cael mynediad i'r celfyddydau, i weithio gydag artist proffesiynol i greu murlun wedi'i ysbrydoli gan eu hardal leol.
- **Criw Creu:** Mae'r prosiect hwn yn barhad i'r cynllun a ddechreuwyd yn Ysgol Bro Pedr. Prosiect cenedlaethol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yw Criw Creu sy'n cael ei arwain gan Theatr Genedlaethol Cymru gyda chefnogaeth gan Lenyddiaeth Cymru ac Urdd Gobaith Cymru. Mae disgyblion pedair ysgol uwchradd yn rhan o'r prosiect, sef Ysgol Bro Pedr, Criw Hwb Ysgol Tryfan Bangor, disgyblion Sgiliau Bywyd Ysgol Penweddig Aberystwyth a chriw o Ysgol Plasmawr, Caerdydd. Dyma'r tro cyntaf i nifer o'r disgyblion gael y cyfle i gydweithio gydag artistiaid a pherfformwyr proffesiynol. Cafwyd gweithdai drama gan Sian Elin, Cydlynydd Cyfranogi Theatr Genedlaethol Cymru. Daeth Casi Wyn, Bardd Plant Cymru, i gydweithio â'r disgyblion a chreu darnau gwreiddiol o farddoniaeth. Cafwyd gweithdai animeiddio gyda Sioned Medi Evans o gwmni SMEI a hefyd recordio cerddoriaeth gyda cherddorion a swyddogion yr Urdd, Marged Gwenllian, Osian Rhys, Caryl Griffiths, Seimon Thomas a Lewys Wyn Jones.
- **Petula - Ymgynghorwyr Ifanc**: Gweithiwyd gyda National Theatre Wales ac August012 i ymgynnull 2 grŵp o bobl ifanc fel ymgynghorwyr ar Petula - cyd-gynhyrchiad rhwng y 3 cwmni. Roedd 1 grŵp o bobl ifanc o amryw o leoliadau ar draws Cymru yn cyfarfod yn rhithiol i roi adborth ar farchnata, a grŵp arall

yn cyfarfod wyneb yn wyneb yn Theatr Sherman i fod yn rhan o greu'r cynhyrchiad a mynychu ymarferion.

- **Casgliad Dysgu:** Mae'r cwmni yn parhau i gynnig adnoddau addysg ar lein trwy Casgliad Dysgu. Mae Casgliad Dysgu yn rhoi cyfle i ddarlithwyr, athrawon, myfyrwyr, disgyblion, addysgwyr a dysgwyr i wylio, astudio a mwynhau theatr Gymraeg. Mae capsiynau caeedig Cymraeg a Saesneg ar gael ar bob cynhyrchiad yn y casgliad.

Cydweithiwyd gydag ystod eang o bartneriaid er mwyn darparu cyfleoedd i ymgyfranogi yn y celfyddydau, gan gynnwys Mentrau Iaith Cymru, Urdd Gobaith Cymru, S4C, BBC Studio, Cymdeithas Tai Adra, Llenyddiaeth Cymru, Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gwynedd ac Ynys Môn, Frân Wen, Pontio, Cynyrchiadau Leeway, Theatr Soar, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, National Theatre Wales, August012, Menter Gorllewin Sir Gâr, Menter Iaith Sir Benfro, Menter Iaith Cered, a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Roedd cefnogaeth y partneriaid hyn yn allweddol i lwyddiant y gwaith.

3. CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD

Trosolwg o Brif Weithgaredd y Flwyddyn:

Targedau a chyrhaeddiad	2019/20	2020/21	2021/22
Theatr Byw – Mynychwyr	**16,399**	**0**	**7,046**
Cyflwyniadau Theatr Ddigidol – Gwyliadau	**0**	**73,427**	**27,799**
Cyfranogwyr – Plant a Phobl Ifanc	3,979	5,762	**2,126**
Cyfranogwyr – Cyffredinol	1,462	99	**185**
Sgyrsiau a Sesiynau Holi ac Ateb	1,174	622	**2,098**
Cyfanswm Cyfranogwyr	**6,615**	**6,483**	**4,409**
Cyfanswm y Mynychwyr a'r Cyfranogwyr	**23,014**	**79,910**	**39,254**

4. ADOLYGIAD ARIANNOL

Tra bod y cyfan o wariant y cwmni yn gysylltiedig mewn rhyw fodd â gwasanaethau'r cwmni, mae gwariant uniongyrchol ar brif weithgareddau'r cwmni, fel y disgrifir hwy uchod, yn cynrychioli'r rhan helaethaf o wariant blynyddol y cwmni. Mae'r rhan helaethaf o gostau cyflwyno cynyrchiadau theatraidd yn gysylltiedig â gwaith artistiaid llawrydd wrth greu'r gwaith, ac â staffio'r cynyrchiadau. Er mwyn cynnal y safonau artistig uchaf posibl, mae'r cwmni'n cyflogi naill ai'r artistiaid mwyaf profiadol neu'r mwyaf cymwys, ac yn gweithredu taliadau yn unol â chanllawiau a chytundebau UK Theatre, sef y sefydliad ambarél y mae'r cwmni'n aelod ohono. Mae'r taliadau hynny, yn eu tro, yn seiliedig ar gytundebau'r sefydliad hwnnw gydag undebau llafur y diwydiannau creadigol a'r sector ddiwylliannol.

Mae gwerthoedd cynhyrchu uchel y cwmni – yn unol â disgwyliadau'r gynulleidfa wrth ystyried gwaith cwmni theatr cenedlaethol, a nodau ac amcanion y cwmni – yn golygu bod rhan sylweddol o gyllideb pob cynhyrchiad yn gysylltiedig â chostau cynhyrchu (e.e. cynllunio a chreu neu ddarparu set a gwisgoedd, cynlluniau sain a goleuo, rheoli llwyfan, ac ati, ac yn achos cynyrchiadau digidol, gwaith camera a golygu, a chostau ffrydio).

Sicrhau Gwerth am Arian

Ym mhob agwedd o'i waith, mae'r cwmni'n ymdrechu bob amser i sicrhau gwerth am arian, gan ofalu ei fod yn sicrhau prisiau cystadleuol wrth, e.e. brynu offer, archebu llety a chostau eraill yn gysylltiedig â chreu cynyrchiadau theatr. Mae gan y cwmni bolisi caffael sy'n nodi'r isod:

Cost	Gofyniad
Hyd at £5,000	Dyfynbrisiau – Isafswm o 1
£5,000 i £25,000	Dyfynbrisiau – Isafswm o 3
£25,000 i £75,000	Proses dendro gaeedig – gwahodd 4–6 (angen derbyn o leiaf 2)
Uwch na £75,000	Proses dendro agored (angen derbyn o leiaf 2)

Pennir cyflogau staff parhaol yn seiliedig ar arolwg o gyflogau cyfatebol yn y sector ac yn lleol, er mwyn sicrhau gwerth am arian, tra ar yr un pryd yn cynnal safonau disgwyliedig.

Polisi Cronfeydd

Cedwir swm o £195,000 wrth gefn (y swm i'w adolygu'n flynyddol) ar gyfer amgylchiadau eithriadol na ellir eu rhagweld.

Arwyddwyd prydles newydd ar ran o adeilad Y Llwyfan (sef pencadlys y cwmni) ym mis Hydref 2018. Prydles 10 mlynedd yw'r cytundeb presennol, gyda chymal torri ar ôl 5 mlynedd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r cwmni wedi bod yn neilltuo swm yn flynyddol tuag at y brydles newydd, a defnyddiwyd y gronfa hon i dalu cost y brydles am y 5 mlynedd gyntaf. Cytunodd y Bwrdd y dylid neilltuo £37,000 yn 2018/19 a £35,000 am y 4 blynedd nesaf ar gyfer taliad nesaf y brydles (h.y. y 5 mlynedd sy'n weddill).

Ers nifer o flynyddoedd mae'r cwmni wedi bod yn neilltuo swm o £10,000 yn flynyddol i gronfa gyfalaf, er mwyn adnewyddu offer presennol y cwmni, yn cynnwys cerbydau, a buddsoddi mewn offer sy'n lleihau costau refeniw'r cwmni. Yn 2021/22 penderfynodd y Bwrdd i beidio neilltuo'r £10,000 am fod y swm iach wedi ei adeiladu yn y gronfa bellach. Bydd y Bwrdd yn adolygu'r polisi hwn yn flynyddol.

Nawdd Cyhoeddus

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC), ac mae'r statws hwnnw'n rhoi sicrwydd cymharol o gyllid am gyfnod penodol o bum mlynedd. Bydd CCC yn cynnal Adolygiad Buddsoddiad o'i Bortffolio yn 2023, a'r disgwyliad yw y bydd y Portffolio o sefydliadau a ariennir yn flynyddol (yn cychwyn am gyfnod o bum mlynedd o Ebrill 2024) yn cael ei gadarnhau ym mis Medi 2023.

Mae'r cwmni'n cyfarfod a thrafod yn gyson gyda CCC, ei brif noddwr. Mae'r cwmni'n falch iawn o barhau i fod yn aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru CCC, ac mae ganddo berthynas adeiladol gyda'i brif noddwr. Mae'r cwmni'n adrodd yn ôl yn gyson i CCC, ac yn cyflawni'r holl orchwylion a'r gofynion sydd ynghlwm â derbyn y nawdd hwn.

Yn hanesyddol, mae Theatr Genedlaethol Cymru wedi dibynnu'n drwm ar gyllid gan CCC. Mae hyn yn gosod risg sylweddol i'r cwmni oherwydd y pwysau cynyddol sydd ar arian cyhoeddus. Un o'n prif nodau ar gyfer cyfnod cynllun busnes 2018–22 oedd lleihau'r ddibyniaeth ar arian CCC trwy gynyddu incwm o ffynonellau eraill. Yn 2019/20 llwyddwyd i ostwng ein lefel dibyniaeth ar arian CCC y tu hwnt i'r targed a osodwyd, ac roedd y gostyngiad yn 10% o'r flwyddyn flaenorol (2018/19). Y nod oedd lleihau'r ddibyniaeth ymhellach dros y blynyddoedd nesaf, ac erbyn 2022 byddai cyllid CCC yn cynrychioli 75% o gyfanswm incwm y cwmni.

	2019/20	2020/21	2021/22
Cyllid CCC	£1,054,495	£1,072,566	£1,052,142
Cyfanswm Incwm	£1,364,196	£1,103,316	£1,280,037
Cyllid CCC fel %	77%	97%	82%

Yn sgil COVID-19, cynyddodd y lefel ddibyniaeth yn sylweddol unwaith eto, gyda chyllid CCC yn cynrychioli 97% o holl incwm y cwmni. Roedd hyn yn bennaf oherwydd nad oedd modd cynhyrchu incwm o werthiant

tocynnau i berfformiadau, na denu incwm partneriaeth i gynyrchiadau. Yn 2021/22 llwyddwyd i leihau'r ddibyniaeth i 82% a byddwn yn parhau i geisio lleihau'r lefel ddibyniaeth ymhellach.

Staff

- Yn ystod 2020/21 roedd staff craidd y cwmni'n cynnwys 9 aelod o staff llawn amser (2020/21:10) a 7 aelod o staff rhan amser (2020/21:5), ar gyfartaledd.
- Mae staff y cwmni'n cynyddu'n sylweddol wrth gyflogi artistiaid a gweithwyr llawrydd mewn perthynas â phrosiectau penodol drwy gydol y flwyddyn. Cyflogwyd 205 o weithwyr llawrydd yn 2021/22, gyda nifer ohonynt yn derbyn mwy nag 1 cytundeb.
- Mae holl staff parhaol y cwmni'n siarad Cymraeg, ac felly hefyd y rhan helaethaf o'r gweithwyr a'r artistiaid a gyflogir ar gytundebau tymor byr.

Cartref y Cwmni

Lleolir pencadlys y cwmni yn adeilad Y Llwyfan ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin. Yno, mae gan y cwmni swyddfeydd, storfeydd ac ystafell gyfarfod. Fel rhan o'r cytundeb prydles presennol mae gan y cwmni ddefnydd o ystafell ymarfer ac ystafelloedd newid pwrpasol am 12 wythnos y flwyddyn. Mae gan y cwmni storfa ychwanegol ar safle y tu allan i'r dref. Mae'r adnoddau hyn yn caniatáu i'r cwmni weithredu'n effeithiol. Mae'r cytundeb presennol yn Y Llwyfan yn para hyd ddiwedd Medi 2028, gydag opsiwn i dorri'r les yn 2023.

Adnoddau Technegol

Er mwyn darparu ei wasanaethau, mae'n ofynnol i'r cwmni logi offer technegol o bryd i'w gilydd, a thro arall ei bwrcasu. Dros y blynyddoedd, mae'r cwmni wedi cronni casgliad sylweddol o offer technegol a ddefnyddir wrth i'r cwmni greu a theithio prosiectau theatr. Mae'r casgliad hwn o offer technegol hefyd yn fodd o gefnogi'r sector a chreu partneriaethau gyda chwmnïau eraill, lle mae modd i sefydliadau eraill elwa o'r adnoddau hyn. Mae gan y cwmni restr gynhwysfawr o'i holl offer, ynghyd â gweithdrefnau mwyn caniatáu rannu'r offer pan fo hynny'n briodol neu'n fanteisiol iddo.

Adnoddau Eraill

Mae gan y cwmni hefyd nifer o adnoddau eraill, megis cerbydau ac offer swyddfa, sy'n caniatáu iddo weithredu'n effeithiol a chost-effeithiol. Derbyniwyd grant cyfalaf tuag at brynu cerbydau newydd yn ystod 2017/18.

COVID-19

Er y bu modd i ddychwelyd i gyflwyno perfformiadau byw yn ystod 2021/22, roedd COVID-19 yn parhau i gael effaith sylweddol ar waith y cwmni. Roedd rheoli risg yn broses feichus a chyson. Lluniwyd Cofrestr Risg COVID-19 er mwyn cynorthwyo'r Bwrdd a'r swyddogion i adnabod risgiau penodol yn ymwneud â'r pandemig ac i gytuno ar drefniadau rheoli priodol.

Rhoddwyd nifer o weithdrefnau mewn lle i geisio rheoli effaith COVID-19 ar waith y cwmni, yn cynnwys gweithdrefnau iechyd a diogelwch trylwyr iawn mewn sefyllfaoedd lle oedd pobl yn ymgynnull, a chyflogi eilyddion ar gynyrchiadau. Serch hynny, bu rhaid canslo nifer o berfformiadau o gynhyrchiad Petula oherwydd salwch, ac roedd effaith COVID hefyd i'w weld yn awydd cynulleidfa i fynychu perfformiadau yn ail hanner y flwyddyn. Mae ail-adeiladu cynulleidfaoedd mewn byd ôl-COVID yn profi i fod yn heriol ar draws y celfyddydau ac mae'n debygol y bydd effaith y pandemig ar gynulleidfaoedd i'w weld am gyfnod hir.

Mae'r cwmni wedi dangos yn y blynyddoedd diwethaf ei fod yn gallu gweithredu mewn modd hyblyg ac ymateb yn gyflym i heriau sy'n codi. Bydd y cwmni yn parhau i weithio yn y modd yma ac mae'r ymddiriedolwyr a'r staff yn monitro sefyllfa ariannol y cwmni yn gyson gan sicrhau fod unrhyw gyllid a gronnwyd yn ystod y cyfnodau clo yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgaredd fydd yn cefnogi nodau strategol y cwmni ac adferiad y sector.

5. CYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Theatr Genedlaethol Cymru i bwrpasau cyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau cyllid yn unol â'r gyfraith berthnasol o Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ôl y ddeddf ar gyfer cwmnïau, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, a'r rheiny'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y cwmni yn ystod y cyfnod dan sylw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u gweithredu'n gyson;
- arsylwi ar y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau;
- dyfarnu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn ddoeth;
- paratoi'r cyfrifon ar y sail y bydd y cwmni'n parhau i weithredu, os nad yw'n amhriodol i dybio hyn.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu addas sy'n datgelu sefyllfa ariannol y cwmni'n gymharol gywir ar unrhyw adeg, ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau cyllidol yn unol â Deddf Cwmnïau 2006. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb dros warchod asedau'r cwmni a chymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll neu afreoleidd-dra arall.

Cyn belled ag y mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:

- nid oes gwybodaeth archwiliad perthnasol nad yw'n wybyddus i archwilwyr y cwmni elusennol;
- mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam angenrheidiol i'w gwneud yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliad perthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Trwy orchymyn y Bwrdd



.....

Cadeirydd: Elwyn Jones

Dyddiad:

08.12.2022

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

Barn

Archwiliwyd cyfrifon Theatr Genedlaethol Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022; maent yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau Ariannol, y Fantolen a'r nodiadau perthnasol. Paratowyd y cyfrifon yn unol â'r polisïau cyfrifo a nodir yn y cyfrifon. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.

Yn ein barn ni:

- Mae'r cyfrifon yn rhoi adlewyrchiad cywir a theg o gyflwr ariannol y cwmni ar 31 Mawrth 2022 a'r adnoddau a ddefnyddiwyd am y flwyddyn ariannol;
- Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â'r gyfraith berthnasol o Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifo Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.
- Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Cwmnïau 2006;

Sail ein Barn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) ("ISA's (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan ISAs (DU) ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol o'nn hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r elusen gofrestredig yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, sy'n cynnwys Safon Foesegol yr FRC, a'r darpariaethau ar gyfer endidau bach, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen i'n barn ni.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r cyfrifon, rydym o'r farn bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac Aadroddiad ar yr Archwilwyr Annibynnol.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn sylweddol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos eu bod wedi'i camddatgan yn sylweddol. Os byddwn yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau ymddangosiadol sylweddol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym

wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Materion yr ydym yn rwymedig i adrodd drwy eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r eitemau canlynol lle mae'r Ddeddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw berthynas materol â'r datganiadau cyllid; neu
- bod y cwmni elusennol heb gadw cofnodion cyfrifo derbynniol; neu
- bod y datganiadau cyllid ddim yn cyd fynd â'r cofnodion cyfrifo a ffurflenni statudol: neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau anghenrheidiol i gyflawni ein archwiliad.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw fater ynghylch defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddynt ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol

Rydym wedi'n penodi'n archwilwyr o dan Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n cael effaith o dan y Ddeddf honno.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn ei cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi Adroddiad gan yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyfan, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra. Amcanion ein harchwiliad yw cael digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfynu ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol, cyflawni gweithdrefnau archwilio er mwyn helpu nodi achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau eraill a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol, ac i ymateb yn briodol i ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

O ran twyll, amcanion ein harchwiliad yw nodi ac asesu'r risg o gamddatganiad sylweddol o'r datganiadau ariannol oherwydd twyll, casglu digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch y risgiau aseswyd o gamddatganiad sylweddol trwy dwyll gan ddylunio a gweithredu ymatebion priodol ac ymateb yn briodol i dwyll neu dwyll tybiedig a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

Fodd bynnag, prif gyfrifoldeb y rheolwyr, gyda goruchwyliaeth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yw sicrhau bod gweithrediadau'r endid yn cael eu cynnal yn unol â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau ac ar gyfer atal a chanfod twyll.

Wrth asesu a nodi'r risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, fe wnaeth y tîm archwilio:

- gael dealltwriaeth o natur y diwydiant a'r sector, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r elusen yn gweithredu ynddo a sut mae'n cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol;
- holi'r rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, am eu hasesiad a chydnabyddiaeth eu hunain o beryglon afreoleidd-dra, gan gynnwys unrhyw achosion gwirioneddol, tybiedig neu honedig o dwyll;
- drafod materion ynghylch peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a sut y gallai twyll ddigwydd gan gynnwys asesu sut a ble y gallai'r datganiadau ariannol fod yn agored i dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, rydym yn ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw SoRP Elusennau, FRS 102, Deddf Cwmnïau 2006 a Deddf Elusennau 2011. Gwnaethom gynnal gweithdrefnau archwilio i ganfod diffyg cydymffurfio a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol a oedd yn cynnwys adolygu'r datgeliadau yn y cyfrifon.

Nododd y tîm archwilio mai'r risg mwyaf i gamddatganiad sylweddol trwy dwyll fyddai o ganlyniad i'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau mewnol. Roedd y gweithdrefnau archwilio a berfformiwyd yn cynnwys ond nid oeddent wedi'u cyfyngu i brofi cyfnodolion ac addasiadau eraill a gwerthuso'r rhesymeg fusnes mewn perthynas ag unrhyw drafodion sylweddol, anarferol a wnaed y tu allan i gwrs busnes arferol.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilwyr annibynnol.

Defnyddio'r adroddiad hwn

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer ymddiriedolwyr y cwmni elusennol yn unig, fel corff yn unol ag Adran 144 Deddf Elusennau 2011 a rheoleiddiadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno (Rhan 4 o'r Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Rheoliadau 2008). Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel y gallem ddatgan i ymddiriedolwyr y cwmni elusennol y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r cwmni elusennol ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi'i ffurfio.

Ashmole & Co

Ashmole & Co (Archwilydd Statudol)
Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig & Archwilwyr Cofrestredig
Yn gymwys i weithredu fel archwilwyr yn unol ag adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006
3 Stryd y Farchnad
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6AH

Dyddiad: 20/12/2022

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

DATGANIAD O SYMUDIADAU ARIANNOL (Incwm a Gwariant)

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

	Nodyn	Cronfa Gyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm 2022 £	Cyfanswm 2021 £
INCWM A GWADDOLION					
Incwm gwirfoddol a chymynroddion	2	68,524	1,040,919	1,109,443	1,088,507
Gweithgareddau elusennol	3	-	127,904	127,904	11,171
Incwm arall a dderbynnir o weithgareddau masnachol	4	-	1,086	1,086	2,879
Buddsoddiadau – Llog		-	326	326	759
Cyfanswm Adnoddau a dderbynnir		68,524	1,170,235	1,238,759	1,103,316
ADNODDAU A WARIWYD					
Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol	5	-	5,342	5,342	4,242
Gweithgareddau elusennol	6	67,537	1,301,477	1.369,014	875,257
Cyfanswm adnoddau a wariwyd		67,537	1,306,819	1,374,356	879,499
Incwm / (Gwariant) am y flwyddyn - net cyn treth a throsglwyddiadau		987	(136,584)	(135,597)	223,817
Rhyddhad Treth	7	-	41,278	41,278	-
Incwm / (Gwariant) am y flwyddyn - net ar ôl treth		987	(95,306)	(94,319)	223,817
Cronfa – dygwyd ymlaen		28,322	960,664	988,986	765,169
Cronfa – cariwyd ymlaen		29,309	865,358	894,667	988,986

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

DATGANIAD O SYMUDIADAU ARIANNOL (Incwm a Gwariant)

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022 – parhad

Ni pharatowyd datganiad ar wahân o incwm a gwariant.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 17 i 24 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2022

	Nodyn		2022		2021
			£		£
ASEDAU SEFYDLOG					
Asedau anniriaethol	**11**		13,912		-
Asedau Gweladwy a ddefnyddir gan yr elusen	**12**		115,800		135,989
			129,712		135,989
ASEDAU CYFREDOL					
Dyledwyr	**13**	99,726		142,892	
Arian yn y banc ac mewn llaw		960,020		874,757	
		1,059,746		1,017,649	
CREDYDWYR – symiau'n daladwy o fewn blwyddyn	**14**	211,416		81,277	
ASEDAU CYFREDOL NET			848,330		936,372
CYFANSWM ASEDAU LLAI CREDYDWYR CYFREDOL NET			978,042		1,072,361
CREDYDWYR - Symiau'n daladwy mewn dros flwyddyn	**14**		83,375		83,375
ASEDAU NET			**894,667**		**988,986**
			£		£
CRONFEYDD	**19**				
Cronfeydd Anghyfyngedig			865,358		960,664
Cronfeydd Cyfyngedig			29,309		28,322
			894,667		**988,986**

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2022

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 roedd hawl gan y cwmni elusennol i gael eithriad o'r gofyniad am archwiliad statudol dan adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Nid yw'r aelodau wedi ei gwneud yn ofynnol i'r cwmni gael archwiliad o'i gyfrifon ar gyfer y flwyddyn dan sylw yn unol ag adran 476 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod eu cyfrifoldebau dros y canlynol:

a) sicrhau bod y cwmni'n cydymffurfio ag adrannau 386 a 387 o Ddeddf Cwmnïau 2006 o ran cofnodion cyfrifydda;

b) paratoi datganiadau ariannol sy'n cynnig darlun clir a theg o asedau, atebolrwydd, safle ariannol ac elw ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol yn unol â gofynion adrannau 394 a 395 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae'r cyfrifon hyn wedi eu harchwilio dan ofynion adran 144 o'r Ddeddf Elusen 2011.

Paratowyd y cyfrifon yn unol â darpariaethau arbennig Rhan 15 Deddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau bychain (effeithiol Ionawr 2015).

Arwyddwyd y cyfrifon ar ran y Bwrdd gan:



..... (Cadeirydd)

Elwyn Jones

Dyddiad: 08.12.2022

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

NODIADAU AR Y CYFRIFON – 31 MAWRTH 2022

1. Polisïau Cyfrifo

a) Sail Cyfrifo

Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi dan y confensiwn prisio hanesyddol ac yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau (SORP FRSSE) a gyhoeddwyd yn Ionawr 2015, y Safon Adrodd Ariannol ar gyfer Endidau Llai (yn effeithiol o Ionawr 2015) a Deddf Cwmnïau 2006.

b) Incwm – Gwirfoddol

Cynhwysir incwm yn y datganiad o symudiadau ariannol pan fo'r elusen â hawl i gronfa, pan fo'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn, a phan fydd y swm yn medru cael ei fesur yn ddibynadwy.

Caiff incwm cyfyngedig ei gynnwys mewn cronfa gyfyngedig a'i gyfatebu i'r gwariant. Caiff grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy eu trin fel credydwyr hirdymor, a'u cynnwys mewn cronfa gyfyngedig sy'n cael ei dibrisio i ffwrdd yn unol â dibrisiant yr asedau.

Incwm – Adnoddau i'w derbyn o weithgareddau elusennol

Cynhwysir adnoddau i'w derbyn o weithgareddau elusennol pan yn ddyledus. Mae'r incwm yn cynnwys gwerthiant tocynnau am berfformiadau o'r cynyrchiadau yn ystod y flwyddyn.

c) Adnoddau a ddefnyddiwyd

Cydnabuwyd costau a threuliau yn y cyfnod pan yn ddyledus. Mae costau'n cynnwys TAW lle nad yw'n bosibl ei hawlio. Mae costau trefn lywodraethu'n cynrychioli'r gost o weinyddu'r elusen a chwrdd â gofynion cyfansoddiadol a statudol. Mae'r gost o gynhyrchu incwm gwirfoddol yn cynrychioli'r gost o gwrdd â gofynion Cyngor Celfyddydau Cymru.

ch) Asedau anniriaethol

Mae'r asedau anniriaethol wedi eu hamorteiddio dros eu bywyd defnyddiol a thros gyfnod y prosiect penodol o 3 mlynedd.

d) Asedau sefydlog

Mae'r asedau sefydlog wedi eu dibrisio dros eu bywyd defnyddiol ar y cyfraddau canlynol:

Adeiladau prydles	– Dros gyfnod y les
Cerbydau	– 25%
Cyfrifiaduron ac offer	– 33%

dd) Les Gweithredol

Ymrwymwyd i brydles newydd ar y Llwyfan o ddechrau Hydref 2018, am gyfnod o 10 mlynedd. Cyfanswm gwerth y les yw £166,750. Talwyd y swm am y 5 mlynedd gyntaf ar ddechrau'r les, o gronfa brydles y cwmni, ac fe fydd yr ail daliad yn ddyledus ym mis Hydref 2023.

e) Cronfeydd Cyffredinol

Mae Cronfeydd Cyffredinol yn cynnwys rhoddion ac incwm i'w derbyn, neu a gynhyrchwyd am amcanion yr elusen heb bwrpas arbennig arall ac felly ar gael fel cronfa gyffredinol. Ni osodir amodau allanol ar gronfeydd cyffredinol, ac maent i'w gwario gan yr elusen yn ôl eu hamcanion/bwriadau neu i'w neilltuo tuag at bwrpasau priodol mewnol.

f) Polisi pensiwn

Mae'r cwmni elusennol yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Mae'r cyfraniadau i'r cynllun pensiwn y cwmni elusennol yn cael ei ddangos ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y cyfnod y maent yn ymwneud ag.

2. INCWM GWIRFODDOL A CHYMYNRODDION

	Cronfa Gyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm 2022 £	Cyfanswm 2021 £
Grant CCC	-	1,040,892	1,040,892	1,040,892
Grantiau prosiect eraill CCC	11,250	-	11,250	31,674
Eraill	57,274	-	57,274	10,038
Rhoddion	-	27	27	5,903
	68,524	1,040,919	1,109,443	1,088,507

3. GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

Swyddfa docynnau	-	45,896	45,896	566
Nawdd/Cyd-gynhyrchu	-	64,245	64,245	6,605
Incwm o bartneriaethau	-	15,819	15,819	1,000
Incwm cyfranogi	-	1,944	1,944	3,000
	-	127,904	127,904	11,171

4. INCWM ARALL A DDERBYNNIR O WEITHGAREDDAU MASNACHOL

Arall	-	448	448	754
Elw ar werthu asedau	-	375	375	750
Incwm llogi offer	-	263	263	1,375
	-	1,086	1,086	2,879

5. COSTAU O GYNHYRCHU INCWM GWIRFODDOL

	Cronfa Gyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm 2022 £	Cyfanswm 2021 £
Cyflogau (Nodyn 8)	-	5,342	5,342	4,242
	-	5,342	5,342	4,242

6. COSTAU GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

	Cronfa Gyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm 2022 £	Cyfanswm 2021 £
Cynyrchiadau	38,274	396,002	434,276	167,103
Marchnata a chyfathrebu	-	72,348	72,348	22,542
Ffioedd cynyrchiadau	-	113,680	113,680	80,432
Teithio a chynhaliaeth cynyrchiadau	-	47,776	47,776	2,069
Costau cynnal (Nodyn 8)	29,263	671,671	700,934	603,111
	67,537	1,301,477	1,369,014	875,257

7. RHYDDHAD TRETH

	Cronfa Gyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm 2022 £	Cyfanswm 2021 £
Rhyddhad treth	-	41,278	41,278	-

Cyfanswm hawliad rhyddhad treth ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 yw £46,514. O'r swm yma, roedd £5,236 yn ddyledus i gyd-gynhyrchwyr gan adael cyfanswm net i Theatr Genedlaethol Cymru o £41,278.

8. COSTAU CYNNAL	**Cronfa Gyfyngedig £**	**Cronfeydd Anghyfyngedig £**	**Cyfanswm 2022 £**	**Cyfanswm 2021 £**
Cyflogau cwmni	18,890	538,523	557,413	418,426
Costau pensiwn	-	20,101	20,101	16,816
Teithio a chynhaliaeth cwmni	-	2,390	2,390	6,028
Costau archwilio	-	4,050	4,050	4,000
Costau'r bwrdd	-	167	167	1,975
Hyfforddiant	-	1,132	1,132	3,079
Costau'r adeilad	-	41,310	41,310	44,053
Costau'r swyddfa	-	35,612	35,612	34,159
Costau proffesiynol	-	13,175	13,175	38,848
Amorteiddio – gwefan	3,489	3,466	6,955	-
Costau banc a manion	-	412	412	473
Dibrisio – cerbydau ac offer	6,884	-	6,884	22,821
Dibrisio - prydles	-	16,675	16,675	16,675
	29,263	677,013	706,276	607,353

9. COSTAU STAFF CRAIDD

Costau Cyflogau

	2022 £	**2021 £**
Staff craidd	519,793	384,953
Yswiriant Gwladol y Cyflogwr	37,620	33,473
Costau pensiwn staff craidd	20,101	16,816
	577,514	435,242

Ar gyfartaledd, cyflogwyd 9 aelod o staff craidd llawn amser (2020/21: 10) a 7 aelod o staff rhan amser (2020/21:5) yn ystod y flwyddyn.

Ni enillodd yr un aelod o staff cyflogedig fwy na £60,000 yn y blynyddoedd 2021/22 na 2020/21.

NODIADAU AR Y CYFRIFON – 31 MAWRTH 2022 – parhad

10. Cymhariaeth ar gyfer Datganiad o Weithgareddau Ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021

	Nodyn	Cronfa Gyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm £
INCWM A GWADDOLION				
Incwm gwirfoddol a chymynroddion	2	40,0388	1,048,469	1,088,507
Gweithgareddau elusennol	3	-	11,171	11,171
Incwm arall a dderbynnir o weithgareddau masnachol	4	-	2,879	2,879
Buddsoddiadau – Llog banc		-	759	759
Cyfanswm Adnoddau a dderbynnir		40,038	1,063,278	1,103,316
ADNODDAU A WARIWYD				
Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol	5	-	4,242	4,242
Gweithgareddau elusennol	6	54,528	820,729	875,257
Cyfanswm adnoddau a wariwyd		54,528	824,971	879,499
Incwm / (Gwariant) am y flwyddyn – net cyn treth		(14,490)	238,307	223,817
Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd		-	-	-
Rhyddhad Treth	7	-	-	-
Incwm / (Gwariant) am y flwyddyn – net ar ol treth		(14,490)	238,307	223,817
Cronfa – dygwyd ymlaen		42,812	722,357	765,169
Cronfa – cariwyd ymlaen		28,322	960,664	988,986

NODIADAU AR Y CYFRIFON – 31 MAWRTH 2022 – parhad

11. ASEDAU ANNIRIAETHOL

	Gwefan	Cyfanswm
	£	£
Cost		
Balans a ddygwyd ymlaen	-	-
Ychwanegiadau	20,867	20,867
Gwaredwyd	-	-
Balans a gariwyd ymlaen	20,867	20,867
Amorteiddio		
Balans a ddygwyd ymlaen	-	-
Cost y flwyddyn	6,955	6,955
Gwaredwyd	-	-
Balans a gariwyd ymlaen	6,955	6,955
Gwerth yn y llyfrau		
31 Mawrth 2022	13,912	13,912
31 Mawrth 2021	-	-

12. ASEDAU SEFYDLOG

	Eiddo ar les byr	Cerbydau	Offer a Dodrefn	Offer Cyfrifiadurol a System Ffôn	Offer Technegol	Cyfanswm
	£	£	£	£	£	£
Cost						
Balans a ddygwyd ymlaen	166,750	50,356	160,352	41,654	18,560	437,672
Ychwanegiadau	-	-	-	3,369	-	3,370
Gwaredwyd	-	-	-	-	-	-
Balans a gariwyd ymlaen	166,750	50,356	160,352	41,654	18,560	441,042
Dibrisio						
Balans a ddygwyd ymlaen	41,688	50,356	160,352	36,309	13,248	301,683
Cost y flwyddyn	16,675	-	-	4,254	2,630	23,559
Gwaredwyd	-	-	-	-	-	-
Balans a gariwyd ymlaen	58,363	50,356	160,352	36,039	13,248	325,242
Gwerth yn y llyfrau						
31 Mawrth 2022	108,387	-	-	4,730	2,683	115,800
31 Mawrth 2021	125,062	-	-	5,615	5,312	135,989

Defnyddiwyd yr holl asedau gan yr elusen ar gyfer gweithgareddau elusennol parhaol.

NODIADAU AR Y CYFRIFON – 31 MAWRTH 2022 – parhad

13. DYLEDWYR

	2022	2021
	£	£
Dyledwyr masnachol	26,938	27,882
Taliadau ymlaen llaw	26,274	20,430
TAW	-	7,538
Rhyddhad Treth	46,514	87,042
	99,726	142,892

14. CREDYDWYR – Symiau'n daladwy ymhen blwyddyn

	2022	2021
	£	£
Credydwyr masnachol	142,023	36,452
Costau wedi cronni	36,412	13,994
Trethi ac yswiriant gwladol	9,416	9,764
TAW	4,085	-
Credydwyr eraill	19,480	15,067
Incwm gohiriedig	-	6,000
	211,416	81,277

14. CREDYDWYR – Symiau'n daladwy ar ol 12 mis

	2022	2021
	£	£
Les	83,375	83,375

15. TRETH

Mae'r elusen yn rhydd o dalu treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

16. TALIADAU A BUDD-DALIADAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Derbyniodd un Ymddiriedolwr, Mr Arwel Gruffydd, dâl a budd-daliadau treuliau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, fel y caniateir gan ddogfen lywodraethol yr elusen. Derbyniodd gyflog o £59,579 yn sgil ei swydd fel Cyfarwyddwr Artistig yr elusen a chyfrannodd y Theatr £2,969 i'r Gronfa Bensiwn ar ei ran. Ni dderbyniodd unrhyw dâl yn sgil ei rôl fel Ymddiriedolwr.

17. TREULIAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Derbyniodd Ymddiriedolwyr ad-daliadau treuliau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 o £103 (2020/21: £0). Yn ogystal â'r ad-daliadau, fe dalwyd am lety ar gyfer un Ymddiriedolwr £57 (2020/21:£0). Roedd yr ad-daliadau i ddigolledu'r Ymddiriedolwyr am eu costau teithio, cynhaliaeth, llety a chostau eraill yn ymwneud â mynychu cyfarfodydd yr elusen. Y nifer o Ymddiriedolwyr a dderbyniodd ad-daliad yn ystod y flwyddyn oedd 2 (2020/21:0).

18. DATGANIAD O'R ASEDAU NET RHWNG Y CRONFEYDD

	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm 2022 £	Cyfanswm 2021 £
Asedau Sefydlog	554	129,158	129,712	135,989
Asedau Cyfredol	30,626	1,029,120	1,059,746	1,017,649
Credydwyr	(1,871)	(209,545)	(211,416)	(81,277)
Credydwyr hir dymor	-	(83,375)	(83,375)	(83,375)
	29,309	865,358	894,667	988,986

19. SYMUDIADAU YN Y CRONFEYDD

	Balans d/y 01/04/21 £	Adnoddau a dderbyniwyd £	Adnoddau a Wariwyd £	Rhyddhad Treth £	Trosglwyddo £	Balans c/y 31/03/22 £
Cronfeydd Cyfyngedig						
- Cronfa Gyfalaf	24,764	-	(10,442)	-	-	14,322
- Cronfa Refeniw	3,558	68,524	(57,095)	-	-	14,987
Cronfeydd Anghyfyngedig						
- Cronfa Wrth Gefn	195,000	-	-	-	-	195,000
- Cronfa Brydles	212,829	-	(16,675)	-	16,307	212,461
- Cronfa Gyfalaf	78,951	-	(3,466)	-	-	75,485
- Cronfa Rydd	473,884	1,170,235	(1,286,678)	41,278	(16,307)	382,412
	988,986	1,238,759	(1,374,356)	41,278	-	894,667

Polisi Cronfa wrth Gefn

Cedwir swm o £195,000 wrth gefn (y swm i'w adolygu'n flynyddol) ar gyfer amgylchiadau eithriadol na ellir eu rhagweld.

Mae'r Gronfa Anghyfyngedig yn cynnwys swm o £212,461 a glustnodwyd ar gyfer talu am brydles newydd yn Y Llwyfan ar ôl diwedd Mawrth 2022. Penderfynodd yr Ymddiriedolwyr i neilltuo £35,000 i'r diben hwn yn 2020/21 a £35,000 y flwyddyn hyd at 2021/22. Mae'r Gronfa Anghyfyngedig hefyd yn cynnwys swm o £75,485 sydd wedi neilltuo ar gyfer gwariant cyfalaf yn y dyfodol.

Mae gan y cwmni ddwy gronfa gyfalaf – un gyfyngedig, o ganlyniad i dderbyn cymhelliant ariannol wrth leoli'r cwmni yn ei leoliad presennol, ac un anghyfyngedig. Mae unrhyw wariant cyfalaf ar offer yn cael ei wneud o'r gronfa gyfyngedig ar hyn o bryd, nes i'r gronfa honno ddod i ben. Cytunodd yr Ymddiriedolwyr i beidio neilltuo unrhyw arian ychwanegol i'r gronfa anghyfyngedig blwyddyn yma (2020/21:£10,000).

20. DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Mae COVID-19 yn parhau i effeithio ar weithgareddau Theatr Genedlaethol Cymru ar ôl dyddiad y fantolen, ond nid i'r un graddau a welwyd yn 2020/21 a 2021/22, ac mae'r Bwrdd yn ffyddiog fod y cynllun sydd mewn lle ar gyfer y flwyddyn 2022/23 yn ateb gofynion y grant craidd.

Er bod y sefyllfa bresennol yn sgil COVID-19 yn dal i beri peth ansicrwydd, mae'r ymddiriedolwyr yn ffyddiog na ddylai hyn effeithio ar werth net asedau a chredydwyr ar 31 Mawrth 2022. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd o'r farn bod y cronfeydd wrth gefn yn diogelu dyfodol yr elusen am gyfnod o 12 mis wedi dyddiad y cyfarfod blynyddol.

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

England & Wales - Charity number 1106032

Accounts

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

(Cwmni Cyfyngedig trwy Warant)

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AC ADRODDIADAU ARIANNOL

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

(Rhif y Cwmni 04784488)
(Rhif Elusen 1106032)

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

CWMNI CYFYNGEDIG TRWY WARANT

Cynnwys **Tudalen**

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	2–17
Adroddiad yr Archwilwyr	18–20
Datganiad o Symudiadau	21–22
Mantolen	23–24
Nodiadau ar y Cyfrifon	25–33

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyflwyno'u hadroddiad, ynghyd â'r cyfrifon wedi eu harchwilio, am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021.

Prif weithgaredd ac adolygiad

Prif weithgaredd y cwmni yw cynhyrchu gweithgaredd theatraidd Cymraeg.

Cyfeirnod a Manylion Gweinyddol yr Elusen, ei Hymddiriedolwyr a'i Hymgynghorwyr

Rhif Cofrestru:	04784488
Rhif Elusen Gofrestredig:	1106032
Swyddfa Gofrestredig:	Y Llwyfan Ffordd y Coleg Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 3EQ
Bancwyr:	HSBC 15 Heol Awst Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 3AQ
Archwilwyr:	Ashmole & Co. 3 Stryd y Farchnad Llandeilo Sir Gaerfyrddin SA19 6AH
Cyfarwyddwr Artistig (Prif Weithredwr):	Arwel Gruffydd

Aelodau'r Bwrdd

Dan y Ddeddf Cwmnïau, mae gan aelodau'r Bwrdd yr un cyfrifoldebau â chyfarwyddwyr. Yr aelodau a wasanaethodd yn ystod y cyfnod dan sylw yw:

Mrs C E Beard (ymddiswyddo 2 Chwefror 2021)
Mr A W Edwards (ymddiswyddo 2 Chwefror 2021)
Mrs G Griffith (ymddiswyddo 2 Chwefror 2021)
Dr N N Edwards-Behi (apwyntiwyd 27.4.21)
Mr J D Ellis (apwyntiwyd 23.2.21)
Mr S W Fôn (apwyntiwyd 23.2.21)
Mr A G Griffiths
Mrs E Gruffudd Jones
Mr E Jones
Miss F A Phillips (apwyntiwyd 23.2.21)
Mrs C M L Rees
Mr R M Thomas (apwyntiwyd 23.2.21)
Mr M R Williams
Mr G Williams
Mr W G Jones

Ysgrifennydd
Mrs H A Jones Leefe

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen ar gyfer dibenion y Ddeddf Cwmnïau 2006, yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau cyllid yr elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau Datganiadau o Arferion Cymeradwy: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Gyllidol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) (effeithiol o 1 Ionawr 2015).

1. STATWS, STRWYTHUR, TREFN LYWODRAETHU A RHEOLAETH

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd heb unrhyw gyfalaf cyfrannau. Caiff y cwmni ei lywodraethu gan ei amcanion elusennol a'r Memorandwm Cymdeithasiad a'r Erthyglau Cymdeithasiad. Mae aelodau'r bwrdd llywodraethol (Bwrdd Ymddiriedolwyr Theatr Genedlaethol Cymru) yn Ymddiriedolwyr yr elusen ac yn gyfarwyddwyr y cwmni. Penodir Ymddiriedolwyr drwy broses agored, gan ddiogelu'r sgiliau gofynnol ac allweddol.

Mae pob aelod newydd yn mynd trwy gyfnod o gynefino, ac yn derbyn gwybodaeth am ei rôl fel Ymddiriedolwr ac fel cyfarwyddwr y cwmni. Mae'r aelodau newydd hefyd yn derbyn pecyn cynefino sy'n cynnwys Erthyglau Cymdeithasiad y cwmni, cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Bwrdd, copi diweddar o gyfrifon rheolaeth y cwmni, a chopi o gynllun busnes cyfredol y cwmni. Anogir aelodau newydd i gwrdd â staff y cwmni, ac i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi a ddarperir ar gyfer Ymddiriedolwyr gan fudiadau megis Celf a Busnes Cymru ac UK Theatre.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyfarfod fel Bwrdd o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am osod cyfeiriad strategol y cwmni, ac i'r perwyl hwnnw mae'n cymeradwyo'r polisïau allweddol hynny sy'n llywio'r cyfeiriad strategol, ac yn cymeradwyo gweithdrefnau strategol a chynlluniau hirdymor y cwmni. Mae'r Bwrdd hefyd yn monitro gweithrediad y cwmni a pherfformiad y Cyfarwyddwr Artistig. Mae'n gyfrifol am hydaledd ariannol y cwmni, ond yn dirprwyo'r rheolaeth o ddydd i ddydd i'r Cyfarwyddwr Artistig a'i swyddogion.

Mae gan y Bwrdd ddau Bwyllgor:

- Pwyllgor Cyllid a Materion Gweithredol;
- Pwyllgor Cynnwys a Chynulleidfaoedd.

Mae'r ddau Bwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd; maent yn atebol i'r Bwrdd, ac yn cyflwyno argymhellion iddo.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol iawn o'r ffaith bod y cwmni wedi'i sefydlu er budd y cyhoedd yn gyfan gwbl; maent yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod y cyfan o'r nawdd cyhoeddus a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i'r perwyl hwnnw, a bod lles y cyhoedd yn gyfan gwbl yn ystyriaeth sy'n rhedeg drwy holl weithgaredd y cwmni.

Rheoli Risg

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r ffaith bod yr elusen yn agored i amrywiol beryglon posibl. Caiff y Gofrestr Risg ei monitro'n rheolaidd, a rhoddwyd systemau ar waith i leihau'r peryglon hyn. Cydnabyddir fod Cyllid, ynghyd â materion Iechyd a Diogelwch, ymhlith y prif beryglon posibl.

Cyflawnir asesiadau risg Iechyd a Diogelwch ar bob gweithgaredd neu brosiect creadigol unigol, yn unol â pholisi Iechyd a Diogelwch y cwmni. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol neu'r Pennaeth Cynhyrchu yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud â pheryglon, hyfforddiant staff a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch.

Archwilir y cyfrifon yn fanwl yn rheolaidd, gan sicrhau bod unrhyw orwariant neu darged incwm nas cyrhaeddir yn cael ei wrthweithio.

2. AMCANION A GWEITHGAREDDAU

EIN GWELEDIGAETH
Rhoi theatr Cymraeg wrth galon Cymru.

EIN CENHADAETH
Cyflwyno amrywiaeth o brofiadau theatr Cymraeg eang eu hapêl sy'n cyfoethogi bywydau pobl ledled Cymru.

EIN GWERTHOEDD

- **CYFRWNG CYMRAEG**
  Rydym yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws ein holl weithgareddau, ac yn defnyddio'r iaith fel ein prif arf wrth greu theatr.
- **CYNHWYSOL**
  Rydym bob amser yn gynhwysol wrth greu a chyflwyno'n gwaith, gan sicrhau nad oes neb yn cael eu heithrio o'n gweithgareddau, a bod ein rhaglen gytbwys o waith yn eang ei hapêl ac yn cyrraedd yr ystod ehangaf posibl o ran cynulleidfaoedd ac ymgyfranogwyr ar draws Cymru.
- **CYDWEITHREDOL**
  Rydym bob amser yn ceisio dysgu gan, a gwneud y mwyaf o, brofiadau, sgiliau ac adnoddau ein cyd-weithwyr, ein cydweithredwyr a'n cyd-artistiaid, ac yn rhannu'n hael y cyfan sydd gennym ninnau i'w gynnig, wrth i ni geisio creu'r gwaith gorau a mwyaf perthnasol.
- **CEFNOGOL**
  Rydym yn manteisio ar bob cyfle i adnabod a meithrin talent ar draws y sector, a chefnogi datblygiad proffesiynol ein staff a'n cyd-weithwyr. Rydym hefyd yn cefnogi sefydliadau, artistiaid a gweithwyr theatr eraill, wrth iddynt geisio gwireddu nodau ac amcanion sy'n gydnaws â'n rhai ninnau, ac sydd er budd y sector theatr yng Nghymru, yn enwedig felly theatr drwy gyfrwng y Gymraeg.
- **CREADIGOL**
  Rydym bob amser yn ddyfeisgar, yn feiddgar ac yn uchelgeisiol yn y modd yr ydym yn . . .
    - comisiynu a chreu gwaith newydd
    - archwilio dulliau newydd o greu theatr
    - diddanu ein cynulleidfaoedd
    - ymgysylltu â'n hymgyfranogwyr
    - ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o weithwyr theatr.
- **CYNALIADWY**
  Rydym bob amser yn ceisio'r gwerth gorau am arian a sicrhau'r incwm gorau posibl o'n gweithgareddau a'n hadnoddau. Rydym yn ymdrechu'n gyson i leihau ein dibyniaeth ar nawdd cyhoeddus a'n heffaith ar yr amgylchedd.

<u>Y Cwmni</u>

Sefydlwyd ac ymgorfforwyd Theatr Genedlaethol Cymru yn 2003.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'u dyletswydd dan adran 17 (5) o Ddeddf Elusennau 2011 o ran arweiniad cyffredinol y Comisiwn Elusennau er budd cyhoeddus wrth adolygu'r Elusen ac amcanion wrth gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol.

Mae'r cwmni yn gwmni theatr teithiol sy'n cynhyrchu dramâu prif lwyfan, cynyrchiadau mewn lleoliadau arbennig, a chynyrchiadau yng nghalon cymunedau Cymru. Ei fwriad yw creu rhaglen gytbwys o waith theatr sy'n adloniannol, arloesol ac uchelgeisiol, ac sy'n cynrychioli diwylliant deinamig Cymru.

Prif Swyddogaethau'r Cwmni:

- Cynyddu'r ddarpariaeth ddiwylliannol a chelfyddydol yn y Gymraeg.
- Datblygu hunaniaeth genedlaethol trwy gyfrwng theatr.
- Datblygu theatr fel cyfrwng celfyddydol yng nghyd-destun y diwylliant Cymraeg.
- Datblygu sgiliau a hyder gweithwyr theatr, rhanddeiliaid, mynychwyr a chyfranogwyr theatr trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y cyfnod cyn Covid-19, arfer y cwmni – a leolir yng Nghaerfyrddin – oedd cyflwyno lleiafswm o bedwar cynhyrchiad theatr y flwyddyn, a'r rheiny'n amrywio o ddramâu clasurol Cymraeg, addasiadau llwyfan o glasuron llenyddol Cymraeg, trosiadau o glasuron theatr ryngwladol, ysgrifennu newydd, theatr i blant a phobl ifanc, prosiectau cymunedol, cynyrchiadau safle-benodol, theatr ddawns a theatr gerddorol. Yr arfer oedd creu cynyrchiadau ar gyfer eu teithio i ganolfannau celfyddydol ar draws Cymru, yn brif lwyfannau a chanolfannau graddfa ganolig, bychan a chymunedol, a hefyd teithio'n achlysurol y tu hwnt i Gymru yn y DU ac yn rhyngwladol. Oherwydd cyfyngiadau sylweddol ar weithrediadau arferol y cwmni, ar y sector theatr yn gyffredinol ac ar gymdeithas yn ehangach, yn arbennig felly'r ffaith bod Llywodraeth Cymru – fel rhan o'u mesurau i warchod iechyd y cyhoedd a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol – wedi gorfodi theatrau a chanolfannau celfyddydol i gau eu drysau am y cyfan o'r flwyddyn ariannol 2020/21, bu'n rhaid i'r cwmni newid dros nos y modd yr oedd yn gweithio, a'r gwasanaeth yr oedd yn ei ddarparu i'r cyhoedd.

Mae'r cwmni, mewn cyfnod arferol, yn creu prosiectau ar gyfer cynulleidfaoedd o bob oed, ac ar gyfer cymunedau amrywiol, yn gymunedau diwydiannol, gwledig a dinesig. Mae'n gweithio mewn partneriaeth â chanolfannau i gynhyrchu prosiectau theatr, yn ogystal ag i lwyfannu ei waith, ac i ddatblygu cynulleidfaoedd ym mhob cwr o Gymru. Yn ystod 2020/21 parhaodd y cwmni i wneud peth o'r gwaith hwn, ac eithrio llwyfannu perfformiadau byw mewn canolfannau, gan fanteisio ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau amrywiol ar draws y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, a sefydliadau eraill y tu hwnt. Addasodd ei allbwn creadigol er mwyn parhau i gyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl, ond trwy wneud defnydd o blatfformau cyfleu a oedd ar gael iddo yn ystod y flwyddyn, gan fod theatrau a chanolfannau celfyddydol ar gau.

Parhaodd y cwmni i gyflwyno rhaglen amrywiol o waith cyfranogol, yn cynnwys gweithdai a sgyrsiau i ysgolion a grwpiau cymunedol o bob oed, gan barhau hefyd i weithio'n gyson gydag asiantaethau a sefydliadau eraill ar y ddarpariaeth hon.

Mae gwaith y cwmni wedi'i anelu'n bennaf at siaradwyr Cymraeg, ond anelir hefyd at gyrraedd dysgwyr y Gymraeg a'r di-Gymraeg yng Nghymru. Mae'r cwmni'n creu pecynnau addysg a phecynnau ar gyfer dysgwyr sy'n cyd-fynd â'i gynyrchiadau. Hefyd, yn ystod y flwyddyn anarferol hon, darparwyd is-deitlau neu gapsiynau Cymraeg a Saesneg ar bron y cyfan o'i gyflwyniadau ar-lein, gyda'r nod o barhau i ddatblygu ei gynulleidfa ddi-Gymraeg, yn ogystal â'i gynulleidfa o blith dysgwyr y Gymraeg. Roedd y ddarpariaeth hon, yn ogystal, yn golygu bod cyflwyniadau ar-lein y cwmni yn hygyrch i bobl byddar a thrwm eu clyw.

Mewn blwyddyn arferol, mae'r cwmni'n defnyddio'r ap mynediad iaith, Sibrwd, a ddatblygwyd yn arbennig ar ei gyfer trwy gydweithrediad â chwmni digidol Galactig (sy'n rhan o gwmni Rondo Media), wrth gyflwyno digwyddiadau byw mewn canolfannau. Mae Sibrwd yn caniatáu i'r cwmni ddarparu mynediad i'r di-Gymraeg a dysgwyr y Gymraeg yn uniongyrchol, heb amharu ar brofiad siaradwyr Cymraeg. Yn ystod 2020/21, gweithiodd y cwmni gyda chwmni Galactig i ddatblygu'r adnodd hwn, a hynny trwy nawdd gan gronfa Ewrop Greadigol yr Undeb Ewropeaidd, fel rhan o gynllun ehangach o'r enw Connect Up.

Er bod gwaith y cwmni wedi'i wreiddio yng Nghymru, mae wedi ymrwymo i godi proffil Cymru, y Gymraeg, a theatr trwy gyfrwng y Gymraeg y tu hwnt i Gymru, o fewn y Deyrnas Unedig yn ehangach, ac yn rhyngwladol.

Cynllun Strategol 2019–23 ac ailosod blaenoriaethau yn sgil COVID-19

Yn 2018, gyda chefnogaeth gan Raglen Wytnwch Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC), lluniwyd cynllun busnes ac iddo gyfeiriad strategol clir ar gyfer y cyfnod 2018–2022. Gan fod y cynllun busnes yn ddogfen fyw ac yn ddogfen weithiol, mae wedi ei ddiweddaru'n flynyddol ers hynny.

Yn 2018, cynhaliwyd arolwg a dadansoddiad manwl o waith y cwmni, gan ffocysu ar ei brif flaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd nesaf – blaenoriaethau a fyddai'n arwain at wneud y cwmni'n fwy gwydn. Rhoddwyd ystyriaeth i gyd-destun gweithredu'r cwmni a'i rôl wrth geisio cyflawni'r amcanion a amlinellir yn Strategaeth y Llywodraeth: Cymraeg 2050; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chynllun Corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru. Drwy'r broses hon adnabuwyd dwy flaenoriaeth strategol ar gyfer y cyfnod dan sylw, sef cynyddu cynulleidfaoedd – boed hynny'n fynychwyr i berfformiadau neu'n ymgyfranogwyr – ac arallgyfeirio ei ffrydiau incwm, a thrwy hynny leihau ei ddibyniaeth ar nawdd gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Y targedau a osodwyd yn 2018 ar gyfer cyfnod y cynllun strategol yw:

- Yn ystod y cyfnod 2018–2022, bydd Theatr Genedlaethol Cymru wedi cyrraedd cyfanswm o 70,000 o bobl – yn fynychwyr ac yn gyfranogwyr
- Yn 2021/22, bydd cyfanswm y bobl y bydd yn eu cyrraedd 30% yn uwch nag yr oedd yn 2018/19.

Erbyn diwedd 2019/20, llwyddodd y cwmni i gyrraedd ei dargedau blynyddol o ran y ddwy flaenoriaeth uchod, ac roedd arwyddion clir ei fod ar y ffordd i gyrraedd y targedau a osodwyd ar gyfer diwedd cyfnod y cynllun strategol hwn.

Wrth adolygu'r cynllun busnes yn 2020, daeth yn amlwg fod angen gosod cyfeiriad clir ar gyfer y cwmni a'i weithgareddau yn wyneb y newid sylweddol i'r cyd-destun gweithredu o ganlyniad i COVID-19, ac mewn ymateb i'r anghyfiawnderau a amlygwyd yn eang yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, yn arbennig, o ran amrywiaeth a chynhwysiant, ac awydd y cwmni i fod yn fwy cynhwysol ac i'w waith fod yn fwy cynrychioliadol o wahanol hunaniaethau a chymunedau Cymru.

Gan nad oedd modd cynnal digwyddiadau theatr byw yn ystod 2020/21, nid oedd yn realistig nac yn ymarferol i'r cwmni barhau i geisio cyrraedd y ddau darged uchod, felly penderfynwyd ym mis Hydref 2020 ar y 6 blaenoriaeth isod ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd 2021.

- Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Marchnata a Chyfathrebu
- Datblygu Sgiliau a Chefnogi'r Sector
- Cefnogi Canolfannau Celfyddydol
- Cynnal Diddordeb Cynulleidfaoedd
- Datblygu Gwaith Newydd ar gyfer y Dyfodol.

Yn ystod 2021, bwriada'r cwmni lunio cynllun strategol newydd a fydd yn ymateb i'r cyd-destun gweithredu tra gwahanol, gan weithredu'r cynllun hwnnw o fis Ionawr 2022 ymlaen.

Prif Weithgareddau'r Cwmni

Yn unol â'i genhadaeth, mae'r cwmni'n cynnig amrywiaeth o brofiadau theatr Cymraeg eang eu hapêl, sy'n cynnwys perfformiadau o'i gynyrchiadau ac amrywiaeth o gyfleoedd i ymgyfranogi yn y celfyddydau.

Yn ystod 2020/21 bu'n rhaid canslo'r cyfan o'r gweithgareddau a fwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer y flwyddyn, gan nad oedd modd eu cyflwyno yn wyneb COVID-19. Aed ati'n gyflym i gynllunio rhaglen o waith a oedd yn ymateb i'r cyd-destun newydd a'r cyfyngiadau yn sgil COVID-19, a chyflwynwyd y rhaglen honno yn ystod y flwyddyn. O fis Hydref 2021, roedd y rhaglen honno hefyd yn ymateb i'r blaenoriaethau newydd a osodwyd ar gyfer gweddill y flwyddyn. Dyma adrodd, felly, ar weithgareddau'r cwmni yn unol â'r blaenoriaethau newydd hynny a osodwyd:

1. Amrywiaeth a Chynhwysiant

Bu i effeithiau cymdeithasol y pandemig ac ymgyrchoedd megis Black Lives Matter a #WeShallNotBeRemoved beri i'r cwmni ailfeddwl sut mae'n sicrhau amrywiaeth a chynhwysiant yn ei waith. Aeth Bwrdd Ymddiriedolwyr y cwmni ati i sefydlu Gweithgor yn benodol i graffu ar y materion hyn – Gweithgor sy'n cynnwys nifer o ymddiriedolwyr, aelodau o staff ac aelodau allanol sy'n dod â phrofiad bywyd sy'n benodol i grwpiau a dangynrychiolwyd yn y celfyddydau. Bu'r Gweithgor yn craffu ar bob agwedd o waith y cwmni er mwyn sicrhau cynrychiolaeth a chynhwysiant ar bob lefel.

- Bwrdd – Penodwyd 4 ymddiriedolwr newydd i'r Bwrdd drwy broses agored a chynhwysol. Lluniwyd pecyn recriwtio gan ddefnyddio cyngor o becyn cymorth gan Weston Jerwood ar sut mae lleihau'r rhwystrau a allai atal pobl rhag ymwneud â'r cwmni. Croesawyd ceisiadau gan unrhyw un, ond yn arbennig gan bobl ifanc, pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill, a phobl anabl. Gosodwyd a chyrhaeddwyd targed i recriwtio o leiaf 2 aelod newydd o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig arall, a/neu'n anabl.
- Staff – Penodwyd i 2 swydd newydd – Cydlynydd Cyfranogi a Swyddog Datblygu Creadigol. Bu'r cwmni'n ffodus i gael ei dderbyn i'r cynllun Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood, sy'n ehangu mynediad i yrfaoedd yn y celfyddydau i bobl o gefndiroedd socio-economaidd is. Drwy'r cynllun Weston Jerwood, derbyniodd y cwmni gefnogaeth datblygiad sefydliadol a oedd yn ffocysu yn y lle cyntaf ar arferion recriwtio cynhwysol. Bu i hyn lywio'r ffordd yr aeth y cwmni ati i recriwtio i'r swyddi uchod, a arweiniodd at wella amrywiaeth o ran ei weithlu. Yn ogystal, cynhaliodd y cwmni adolygiad o'r amodau gweithio i staff, er mwyn sicrhau cynhwysiant.
- Castio a Chyfleoedd Gwaith – Sefydlwyd arferiad newydd, lle rhennir yn gyhoeddus wybodaeth am gyfleoedd llawrydd i weithio gyda'r cwmni, drwy alwadau ar gyfer anghenion penodol – boed hynny'n actorion, criw llwyfan a thechnegol neu dîm artistig. Mae'r cwmni hefyd bellach yn cynnal sesiynau agored rheolaidd, yn gyfuniad o gyfleoedd i staff gyfarfod â gweithwyr llawrydd newydd, ond hefyd i ailgysylltu gydag unigolion sydd wedi gweithio i'r cwmni yn y gorffennol. Lansiwyd cynllun Drws Agored er mwyn cyfathrebu ynglŷn â'r cyfleoedd hyn i gyfarfod â staff y cwmni. Yn ystod 2020/21, cynhaliwyd y rhain yn bennaf ar-lein oherwydd cyfyngiadau Covid, ond hefyd er mwyn hwyluso mynediad i rai nad ydynt yn ei chael yn rhwydd i fynychu mannau penodol, er enghraifft am resymau iechyd neu ariannol. Hefyd, gan i 2020 fod yn flwyddyn heriol i raddedigion newydd ym maes y celfyddydau perfformio, yn dilyn gwahoddiad agored cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd ar-lein i roi cyfle i raddedigion newydd eu cyflwyno eu hunain i staff y cwmni.
- Cynnwys Artistig a Datblygu Sgiliau Proffesiynol – Roedd y cynnydd i'r ddwy elfen hon wedi cyd-redeg, gan i'r cwmni adnabod yn y lle cyntaf bod prinder yn y gwaith y mae'n ei ddatblygu a'i gyflwyno o ran gwaith sy'n berthnasol i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn y celfyddydau'n gyffredinol, neu waith sy'n cynnwys cymeriadau ac iddynt nodweddion gwarchodedig; ac yn ail, bod hyn yn debygol o fod o ganlyniad i ddiffyg yn ei ymwneud gydag artistiaid o'r grwpiau hynny. Fe ddyrannodd y cwmni 6 Bwrsari Datblygu Syniad, sef cynllun bwrsariaeth yn benodol ar gyfer artistiaid anabl ac artistiaid o gefndiroedd ethnig amrywiol. Roedd y bwrsariaethau hyn yn rhoi cyfle i'r artistiaid ddatblygu eu syniadau ar gyfer prosiect theatraidd gyda chefnogaeth y cwmni. Dyrannwyd 5 bwrsari arall o'r enw Bwrsari Artist a Chymuned. Roedd y cynllun hwn yn annog artistiaid i ddatblygu gwaith gyda chymuned benodol, boed honno'n gymuned ddaearyddol, broffesiynol, ar-lein neu'n gymuned sy'n rhannu nodweddion neilltuol. Derbyniodd nifer o'r artistiaid a gafodd Fwrsari Datblygu Syniad gomisiwn i ddatblygu eu gwaith ymhellach. Bwriad y cwmni yw cynnig comisiynau datblygu pellach yn 2021/22 i artistiaid y cynllun Bwrsari Artist a Chymuned.
- Ymgyfranogi – Wrth gynllunio a chyflwyno gweithgareddau ymgyfranogi, sicrhaodd y cwmni fod cynrychiolaeth o ystod eang o bobl ymhlith arweinwyr ac ymgyfranogwyr. Yn ogystal, fe ddarparodd glybiau drama a Chlwb Theatr Cymru ar-lein, tra'n gweithio'n agos gyda'i bartneriaid yn y cynlluniau hyn i sicrhau bod yr arlwy yn hygyrch a chynhwysol.

2. Marchnata a Chyfathrebu

Fel rhan o'r gefnogaeth a dderbyniodd y cwmni drwy Raglen Wytnwch CCC, cafodd grant i gynnal Archwiliad Canfyddiad o'r cwmni, sef y canfyddiad ohono ymysg ei gynulleidfa, partneriaid strategol, artistiaid a rhanddeiliaid ehangach. Cynhaliwyd yr archwiliad hwn yn ystod 2020/21. Un o'r prif bwyntiau a ddaeth i'r amlwg o'r ymchwil oedd bod angen i'r cwmni gryfhau ei negeseuon cyfathrebu. Roedd yr adborth gan y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil yn nodi bod cyfathrebu'r cwmni yn ffocysu'n benodol ar gynyrchiadau, ac nad oedd llawer o gyfathrebu am y gwaith sy'n digwydd y tu hwnt i gynyrchiadau. Teimlai sawl un rhyw ddiffyg hyder wrth roi barn ar waith y cwmni yng nghyd-destun cyfleoedd cyfranogi a gwaith datblygu sgiliau, am nad oeddynt yn ymwybodol o'r gwaith hwnnw neu am nad oeddent yn gwybod digon amdano. Roedd nifer o'r rhai wnaeth ymateb yn nodi awydd i gael mwy o ymdeimlad o berthynas gyda'r cwmni yn y cyfathrebu, a honno'n berthynas gyson. Roedd sawl un hefyd yn awyddus i gael rhagor o wybodaeth am sut y gallent gefnogi'r cwmni a'i waith. Cafwyd peth adborth ar frand y cwmni, gan nodi bod y brand yn un gweddol gyfarwydd, ac wedi bod yn gyson, ond bod ymdeimlad corfforaethol iddo a'i bod yn amser am newid neu adnewyddu. Nododd sawl un fod enw'r cwmni'n ychwanegu at y naws gorfforaethol, a bod 'Theatr Gen' fel enw yn teimlo'n fwy cyfeillgar ac agos atoch.

Fe wnaeth yr uchod atgyfnerthu'r ymdeimlad a oedd eisoes yn bodoli ymhlith staff y cwmni, ac amlygu'r angen i roi pwyslais ar ddatblygu gwaith cyfathrebu a marchnata'r cwmni er mwyn cynnal perthynas gyda'i gynulleidfa a'i gefnogwyr, ac i godi ymwybyddiaeth o'i waith ehangach (y tu hwnt i gynyrchiadau) a fydd, yn y pen draw, gobeithir, yn amlygu budd cyhoeddus y cwmni, ac yn hwyluso'r gwaith o farchnata cynyrchiadau. Cyflwynwyd adroddiad llawn o'r gwaith hwn i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac i staff y cwmni. O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolwg, bwriada'r cwmni ddatblygu gwefan newydd yn ystod 2021/22, ac yna ail-frandio yn 2022/23. Bydd symiau priodol yn cael eu clustnodi yng nghyllidebau'r blynyddoedd hynny ar gyfer y gweithgareddau hyn.

3. Datblygu Sgiliau a Chefnogi'r Sector

Gan fod COVID-19 wedi cael effaith mor niweidiol ar fywoliaeth a chyfleoedd gwaith gweithwyr theatr llawrydd yn y maes celfyddydau perfformio, fe gymerodd y cwmni gamau neilltuol i geisio lliniaru rhywfaint ar effaith y pandemig yn hyn o beth. Roedd y camau hynny'n cyd-fynd â nodau strategol neu flaenoriaethau eraill, e.e. Amrywiaeth a Chynhwysiant, a Chynnal Diddordeb Cynulleidfaoedd. O ran yr olaf o'r rhain, cyflogodd y cwmni weithwyr llawrydd ar nifer fawr o gyflwyniadau digidol yn ystod y flwyddyn, gan nad oedd modd creu digwyddiadau byw yn y ffordd arferol oherwydd COVID-19. Adroddir ar y cyflwyniadau hynny isod (gweler Cynnal Diddordeb Cynulleidfa). Dyrannwyd 347 o gytundebau llawrydd yn ystod y flwyddyn, i 219 o unigolion, a hynny ar brosiectau'n cynnwys gwaith digidol gwreiddiol a gwaith ymgyfranogi, yn ogystal â chyflwyniadau ar-lein o recordiadau o gynyrchiadau'r cwmni o'r gorffennol.

Gan fod y cyd-destun gweithredu wedi golygu nad oedd modd i'r cwmni gyflwyno cynyrchiadau theatr byw, manteisiwyd ar gyfleoedd yn y cyfnod hwn i ddatblygu sgiliau'n gyffredinol yn y sector theatr Gymraeg. Roedd y gweithgareddau hyn yn cysylltu gyda rhai o'i flaenoriaethau eraill. Bwriad y cwmni yw parhau â'r cynlluniau hyn a datblygu cynlluniau pellach yn ystod 2021/22.

- **Faust**

Gweithiodd y cwmni gyda Chwmni'r Frân Wen a Pontio i greu cynhyrchiad theatr i'w gyflwyno yn 2021/22, gan gynnig cyfleoedd yn 2020/21 (sef y cyfnod paratoi ac ymarfer) i 10 o berfformwyr ifanc (18–25 oed) yn y gymuned (nad oeddynt yn weithwyr theatr proffesiynol) yn ardal Glannau'r Fenai, i ddatblygu sgiliau perfformio. Crëwyd ensemble o berfformwyr er mwyn cyflwyno cynhyrchiad ar-lein; trwy weithio gyda thîm creadigol o artistiaid proffesiynol, derbyniodd yr artistiaid ifanc o'r gymuned arweiniad ac anogaeth, a

chyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, yn arbennig o ran sgiliau actio, gwaith llais, theatr gorfforol a dyfeisio theatr, yn ogystal ag elfennau o greu gwaith digidol a dylunio.

- **Academi Leeway**

Bu'r cwmni'n cefnogi prosiect a arweiniwyd gan Leeway Productions, gyda chefnogaeth hefyd gan Theatr Soar, Merthyr Tudful, a oedd yn datblygu sgiliau artistiaid ifanc yn y gymuned yn ardaloedd Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd Port Talbot, Caerffili ac ardaloedd cyfagos. Dan arweiniaid artistiaid proffesiynol, roedd yr artistiaid ifanc hyn yn creu ac yn cyflwyno'n ddigidol eu sioeau cerdd gwreiddiol eu hunain.

- **Pair**

Cychwynnwyd ar y gwaith o ddatblygu'r cynllun newydd hwn a fydd yn cynnig cyfleoedd i wneuthurwyr theatr i ddatblygu eu sgiliau ym maes dyfeisio theatr. Mewn cydweithrediad â Phrifysgol De Cymru, rhoddodd y cwmni gefnogaeth i Dr Rhiannon Williams i'w galluogi i archwilio a datblygu syniadau a fydd yn sail i brosiect y bwriedir ei gyflwyno yn 2021/22. Cefnogir y cynllun hwn gan S4C.

- **Cynllun Dramodwyr Ifanc**

Bu'r cwmni'n cydweithio gyda'r Urdd ac S4C i greu cynllun datblygu a hyfforddi ar gyfer dramodwyr ifanc (16–25 oed). Cyflwynwyd rhaglen o ddosbarthiadau meistr a gweithdai gyda dramodwyr proffesiynol, gyda'r bwriad o annog cystadleuwyr i gyflwyno gwaith ar gyfer Medal Ddrama Eisteddfod T 2021. Y bwriad yw parhau gyda'r cynllun yn 2021/22 trwy gynnig rôl i enillydd y gystadleuaeth fel Dramodydd Preswyl Ifanc Theatr Genedlaethol Cymru.

- **Cyfleoedd ar gyfer egin gyfarwyddwyr**

Fel parhad i gynllun Awenau – sef rhaglen o hyfforddiant, mentoriaeth a chyfleoedd cyflogaeth i gyfarwyddwyr theatr – cyflwynodd y cwmni weithdy terfynol y prosiect, a pharhau hefyd i gefnogi rhai o'r egin gyfarwyddwyr a fu'n rhan o'r cynllun trwy gynnig gwaith cyflogedig iddynt naill ai fel cyfarwyddwyr cynorthwyol neu fel cyfarwyddwyr ar gynyrchiadau digidol yn ystod y flwyddyn.

- **Hybu Hyder – Cymraeg Gwaith**

Daeth i'r amlwg fod diffyg hyder yn y Gymraeg yn rhwystr i rai artistiaid a gweithwyr theatr rhag eu cyflwyno eu hunain i'r cwmni ar gyfer darpar gyflogaeth, neu gynnig syniadau creadigol iddo. Oherwydd hynny, bu'r cwmni'n cydweithio gyda CCC a Chanolfan Nant Gwrtheyrn ar gynllun i roi cyfleoedd i weithwyr llawrydd ym maes y celfyddydau perfformio i fynychu cyrsiau datblygu sgiliau iaith, a hynny fel rhan o gynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

4. Cefnogi Canolfannau Celfyddydol

Wrth ddiwygio'i strategaeth mewn perthynas â chanolfannau a theithio yn sgil COVID-19, cymerodd y cwmni i ystyriaeth yr heriau sylweddol a wynebwyd gan y canolfannau yn sgil y pandemig.

Yn ystod 2020/21, tra bod theatrau a chanolfannau ar gau, a chyfyngiadau sylweddol wedi bod ar greu cynyrchiadau theatr, canolbwyntiodd y cwmni ar weithio gyda chanolfannau i hyrwyddo cynyrchiadau ar-lein (gweler isod – Cynnal Diddordeb Cynulleidfaoedd) ac ar roi trefniadau mewn lle i alluogi'r cwmni i symud yn gyflym i ailddechrau cyflwyno cynyrchiadau mewn canolfannau unwaith y byddai'r cyfyngiadau'n cael eu llacio.

Bwriad y cwmni yn 2021/22 a thu hwnt, pan fydd y cyfyngiadau ar greu a chyflwyno digwyddiadau theatr wedi llacio, yw cynorthwyo canolfannau i ddenu cynulleidfaoedd yn ôl yn dilyn cyfnod mor ddinistriol i'r sector.

5. Cynnal Diddordeb Cynulleidfa

Roedd y cyfyngiadau a osodwyd gan y Llywodraeth mewn ymateb i argyfwng Covid-19 yn golygu bod canolfannau theatr wedi bod ar gau drwy'r flwyddyn gyfan, ac nad oedd modd ymgynnull i greu perfformiadau theatr yn y dull arferol. O ganlyniad, cafodd unigolion a chymunedau ledled Cymru eu hamddifadu'n llwyr o gyfleoedd yn ystod y flwyddyn i brofi ac i ymwneud â theatr byw (yn y fan a'r lle). Felly fe aeth y cwmni ati i symud y cyfan o'i gyflwyniadau a'i weithgareddau ymgyfranogi i blatfformau digidol. Roedd y cyflwyniadau hynny naill ai'n gyflwyniadau a grëwyd o'r newydd, neu'n recordiadau o gynyrchiadau a grëwyd ac a gyflwynwyd eisoes. Roedd y gweithgareddau ymgyfranogi naill ai'n recordiadau o sesiynau wedi eu recordio ymlaen llaw, yn sesiynau wedi eu ffrydio'n fyw lle nad oedd modd rhyngweithio, neu'n sesiynau wedi eu ffrydio'n fyw lle roedd cyfle i ymgyfranogwyr ryngweithio. Er mwyn cyflwyno a hyrwyddo'r gwaith hwn a oedd, i bob pwrpas, yn weithgaredd cwbl newydd i'r cwmni, sefydlwyd is-frandiau o'r newydd, sef Creu Ar-lein, Pawb Ar-lein a Theatr Gen Eto.

Cyflwynwyd y prosiectau a'r cynyrchiadau hyn ar amrywiol blatfformau yn cynnwys YouTube, AM a Facebook, a'r cyfan yn rhad ac am ddim i'r gwylwyr.

- **Creu Ar-lein: cynyrchiadau digidol gwreiddiol**
  - **Comisiynau Digidol Newydd**
    Roedd hwn yn gynllun newydd ac yn bartneriaeth rhwng Theatr Genedlaethol Cymru a National Theatre Wales, gyda chefnogaeth gan BBC Cymru Wales a BBC Arts. Fel rhan o'r cynllun hwn, arweiniodd Theatr Genedlaethol Cymru ar greu a chyflwyno tri chynhyrchiad digidol newydd ac arloesol, sef **Fy Ynys Las** gan yr artist aml-ddisgyblaethol Eddie Ladd (a fu'n aelod o Awenau, cynllun hyfforddi cyfarwyddwyr Theatr Genedlaethol Cymru); **Er Cofid 19** gan ensemble o artistiaid benywaidd ifanc o'r enw Er Cof; ac **O Ben'groes at Droed Amser** gan y bardd Karen Owen. Fe ailryddhawyd y cynyrchiadau hyn yn ystod y flwyddyn fel rhan o raglen Theatr Gen Eto.
  - **Dramâu Micro**
    Roedd y cynllun hwn yn gydweithrediad rhwng Theatr Genedlaethol Cymru, BBC Radio Cymru a BBC Cymru Fyw. Fel rhan o'r cynllun, crëwyd a chyflwynwyd dwy ddrama wreiddiol fer, sef Enfys gan Melangell Dolma, wedi'i chyfarwyddo gan Rhian Blythe (a fu'n aelod o Awenau, cynllun hyfforddi cyfarwyddwyr Theatr Genedlaethol Cymru), a Carys ac Andy gan Elin Gwyn.
  - **Cyflwyniadau Digidol o Ddramâu Newydd**
    Cynhyrchwyd a chyflwynwyd dwy ddrama lawn hyd, y naill yn ddrama fuddugol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2019, sef Sgidie, Sgidie, Sgidie gan Mared Roberts, wedi'i chyfarwyddo gan Gethin Roberts (a fu'n aelod o Awenau, cynllun hyfforddi cyfarwyddwyr Theatr Genedlaethol Cymru) ac a gyflwynwyd mewn partneriaeth ag Eisteddfod yr Urdd; a'r llall yn ddrama fuddugol cystadleuaeth Medal Ddrama Eisteddfod Genedlaethol Cymru, sef Adar Papur gan Gareth Evans Jones, wedi'i chyfarwyddo gan Branwen Davies (a fu'n aelod o Awenau, cynllun hyfforddi cyfarwyddwyr Theatr Genedlaethol Cymru) ac a gyflwynwyd mewn partneriaeth ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru.
  - **Cynnwys digidol byr arall**
    I ddathlu pen-blwydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ym mis Gorffennaf 2020, ac er mwyn dathlu cyfraniad gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd yn gyffredinol (yn arbennig yn ystod cyfnod y pandemig) crëwyd a chyflwynwyd perfformiad digidol o un o'r caneuon a fu'n rhan o gynhyrchiad y cwmni yn 2018 o'r ddrama air-am-air, Nyrsys, sef Switchio Off.

- **Pawb Ar-lein: prosiectau cyfranogi ar-lein**

  Mewn blwyddyn arferol, mae gwaith cyfranogi'r cwmni yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgaredd theatr, yn cynnwys gweithdai i grwpiau gwahanol (e.e. disgyblion ysgol a myfyrwyr, ac artistiaid ar eu prifiant), sgyrsiau cyn ac ar ôl sioeau, a sesiynau i ddysgwyr. Mae'n cynnwys gweithgareddau sy'n datblygu cynulleidfa ar gyfer cynyrchiadau, a gweithgareddau sy'n

ymateb i alw gan gymunedau amrywiol, boed yn grŵp cymunedol, yn fusnes neu'n sefydliad mewn sector arall. Yn wyneb y pandemig, ceisiwyd trosglwyddo cymaint ag y bo modd o'r gwaith i gael eu cynnal yn rhithiol, ar amryw o blatfformau. Hyrwyddwyd y gweithgareddau hyn dan frand Pawb Ar-lein.

- Clybiau Drama: Gan nad oedd modd cynnal sesiynau wyneb yn wyneb, cynhaliwyd sesiynau digidol dros Zoom i aelodau'r clybiau drama a sefydlwyd mewn partneriaeth â Menter Gorllewin Sir Gâr (Caerfyrddin) a Menter Cered a Menter Iaith Sir Benfro (Aberteifi). Adeiladwyd ar lwyddiant y sesiynau yma drwy sefydlu Clwb Theatr Cymru. Dyma'r tro cyntaf i'r cwmni gydweithio gyda holl fentrau iaith Cymru er mwyn cynnal sesiynau digidol i blant oedran cynradd. Cynhaliwyd y sesiynau am y tro cyntaf dros wyliau'r haf 2020, a chynhaliwyd sesiynau pellach dros y gwyliau Nadolig hefyd. Adroddodd nifer o rieni fod eu plant wedi cael cyfle gwerthfawr i greu cysylltiadau, a hynny yn ystod cyfnod oedd yn anodd iawn iddynt oherwydd y cyfnodau clo a'r ysgolion ar gau.
  Yn ogystal â'r clybiau drama i blant oedran cynradd, cynhaliwyd dosbarthiadau meistr i bobl ifanc, oedran ysgol uwchradd, gydag amrywiaeth o artistiaid. Roedd y dosbarthiadau'n gyfle i'r bobl ifanc holi'r artistiaid a derbyn cyngor. Trefnwyd y dosbarthiadau meistr ar y cyd â sawl menter iaith.
- Sgwennu ar y Dibyn / Ar y Dibyn: Sefydlwyd y prosiect hwn yn 2019/20 er mwyn cefnogi pobl yng ngogledd-orllewin Cymru sydd wedi cael eu heffeithio gan ddibyniaeth – boed hynny'n bobl sy'n byw gyda dibyniaeth neu rai sy'n cefnogi pobl eraill gyda'u dibyniaeth – i ddod at ei gilydd a rhannu'r straeon hynny mewn ffordd greadigol. Yn 2020/21, estynnwyd y prosiect i beilota gweithredu ar lefel genedlaethol, a pharhawyd i gynnal sesiynau, ond bellach yn ddigidol. Derbyniwyd cefnogaeth ariannol gan Gymdeithas Tai Adra, a chydweithiwyd gyda Llenyddiaeth Cymru a Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gwynedd ac Ynys Môn i gynnal y prosiect. Cyflwynwyd cais i raglen Iechyd, y Celfyddydau, Ymchwil Pobl (HARP) ar ddiwedd 2020/21, er mwyn ymestyn y prosiect ymhellach yn 2021/22.
- Academi Leeway: Darparwyd cefnogaeth i Academy Leeway, prosiect Cynyrchiadau Leeway mewn partneriaeth â Theatr Soar, sef academi theatr gerdd ar lawr gwlad i bobl ifanc 14–25 oed. Roedd y prosiect yn gyfle i bobl ifanc a chanddynt ddiddordeb mewn creu neu berfformio theatr gerdd i ddatblygu eu sgiliau creadigol. Cymerodd 19 o bobl ifanc ran yn y prosiect, a chydweithiwyd gyda thri chyfansoddwr profiadol – sef Kizzy Crawford, Lynwen Haf Roberts a James Williams – i ddatblygu tri darn o waith dan y teitl Rhyfeloedd y 'Rona.
- Cynllun Dramodwyr Ifanc: Yn 2020/21 daeth Theatr Genedlaethol Cymru, Eisteddfod yr Urdd ac S4C ynghyd i sefydlu partneriaeth newydd sbon, er mwyn rhannu eu sgiliau amrywiol a darparu cyfleoedd hyfforddi a mentora unigryw ar gyfer cenhedlaeth newydd o ddramodwyr ifanc. Cafwyd ymateb gwych i'r Cynllun Dramodwyr Ifanc. Derbyniwyd 45 o geisiadau gan bobl ifanc ledled Cymru, a phob un wedi eu derbyn i fod yn rhan o'r fenter newydd. Roedd cyfle i'r bobl ifanc fynychu gweithdai meistr gyda dramodwyr Cymreig llwyddiannus, arbenigwyr theatr, a rhai sy'n gweithio ym myd y ddrama o fewn sector y cyfryngau, a chawsant eu hannog i gystadlu yng nghystadleuaeth Medal Ddrama Eisteddfod yr Urdd.
- Faust + Greta – Ensemble Ifanc: Fel y nodwyd eisoes, roedd 10 o bobl ifanc yn rhan o ensemble Faust + Greta. Roedd y grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, yn bennaf yn rhithiol, er mwyn cyd-ddatblygu'r gwaith gyda grŵp o artistiaid proffesiynol. Roedd hwn yn gyfle gwych i'r bobl ifanc fagu hyder a datblygu eu sgiliau, yn arbennig o ran sgiliau actio, gwaith llais, theatr gorfforol a dyfeisio theatr, yn ogystal ag elfennau o greu gwaith digidol a dylunio.
- Dysgwyr: Darparwyd amrywiaeth o weithdai rhithiol i ddysgwyr. Cydweithiwyd unwaith eto gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gefnogi'r cwricwlwm.
- Addysg – Casgliad Dysgu: Lansiwyd y Casgliad Dysgu ym mis Chwefror 2021. Bwriad y casgliad hwn yw rhoi cyfle i ddarlithwyr, athrawon, myfyrwyr, disgyblion, addysgwyr a dysgwyr i wylio, astudio a mwynhau theatr Gymraeg. Mae capsiynau caeedig Cymraeg a Saesneg ar gael ar bob cynhyrchiad yn y casgliad.

- Sgyrsiau ar-lein: Cynhaliwyd nifer o sgyrsiau a sesiynau trafod ar-lein. Roedd sawl un yn rhan o rhaglen AmGen yr Eisteddfod Genedlaethol, yn cynnwys sgwrs yn dathlu'r Fedal Ddrama a sgwrs 'Merched Syth a Dynion yn Unig' mewn cydweithrediad â Stonewall a Mas ar y Maes.
- Cynhadledd Ceangal / Dolen – Cynhaliwyd y gynhadledd ym mis Tachwedd 2020, ar blatfform rhithiol. Roedd y cwmni'n bartner yn y gynhadledd, ynghyd ag Ealaín na Gaeltachta, Ollscoil na hÉireann Gaillimh, An Taibhdhearc, a Theatre Gu Leòr. Pwrpas y gynhadledd oedd ennyn trafodaethau rhwng artistiaid, academyddion, cwmnïau theatr a noddwyr sy'n gweithio drwy gyfrwng yr Wyddeleg, Gaeleg yr Alban a Chymraeg, gan eu hannog i gydweithio a meithrin partneriaethau. Roedd y cwmni'n aelod o'r pwyllgor llywio, a chyflwynwyd rhan o'r araith agoriadol gan ein Cyfarwyddwr Artistig.

Cydweithiwyd gydag ystod eang o bartneriaid er mwyn darparu cyfleoedd i ymgyfranogi yn y celfyddydau, gan gynnwys Mentrau Iaith Cymru, Urdd Gobaith Cymru, S4C, Cymdeithas Tai Adra, Llenyddiaeth Cymru, Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gwynedd ac Ynys Mon, Frân Wen, Pontio, Cynyrchiadau Leeway, Theatr Soar, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Menter Gorllewin Sir Gâr, Menter Iaith Sir Benfro, Menter Iaith Cered, a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Roedd cefnogaeth y partneriaid hyn yn allweddol i lwyddiant y gwaith.

Yn ystod 2020/21, llwyddwyd i gyrraedd 6,483 o ymgyfranogwyr, sef bron yr un nifer o ymgyfranogwyr ag a gyrhaeddwyd yn 2019/20. O ystyried ein bod wedi gorfod trawsnewid y ffordd roedd y cwmni'n ymwneud ag ymgyfranogwyr, yn sgil y pandemig rydym yn ystyried bod y cyrhaeddiad hwn yn un llwyddiannus iawn ac rydym yn falch o fod wedi gallu cynnal y berthynas gyda'n hymgyfranogwyr. Byddwn yn parhau i geisio gwneud hynny yn 2021/22, gan ddefnyddio'r hyn rydym wedi ei ddysgu am weithio'n rhithiol/ddigidol wrth i ni ddychwelyd i gynnig gweithgaredd wyneb yn wyneb hefyd.

- **Theatr Gen Eto: cyflwyniadau ar-lein o recordiadau rhai o gyn-gynyrchiadau'r cwmni**
  Bu'r cwmni'n negodi gyda'r undebau perthnasol ar fater cyfraddau a thelerau ar gyfer taliadau hawlfraint i artistiaid a gweithwyr theatr oedd yn gysylltiedig â chynyrchiadau a grëwyd ac a recordiwyd gan y cwmni yn y gorffennol ar gyfer rhyddhau'r recordiadau hynny ar blatfformau digidol. Cytundebwyd y gweithwyr llawrydd hynny a oedd y gysylltiedig â'r cynyrchiadau isod yn unol â'r cyfraddau a'r telerau hynny. Rhyddhawyd recordiadau o'r cynyrchiadau isod yn ystod y flwyddyn, pob un am gyfnodau penodedig, a'r cyfan yn rhad ac am ddim i wylwyr ar-lein.
  - **Llygoden yr Eira**
    Cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr Iolo, yn seiliedig ar y cynhyrchiad gwreiddiol Snow Mouse gan the egg a Travelling Light, gyda chefnogaeth Cymdeithas y Ddrama Gymraeg Abertawe. Dyma gynhyrchiad twymgalon a hudolus ar gyfer plant dan 5 oed a'u teuluoedd; stori aeafol swynol, yn llawn cerddoriaeth, pypedwaith a chwarae, a gyflwynwyd yn wreiddiol mewn canolfannau ledled Cymru ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2019.
  - **Nos Sadwrn o Hyd**
    Cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru mewn cydweithrediad ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Mas ar y Maes, Stonewall Cymru ac OOMFF, gyda chefnogaeth gan Theatr Clwyd. Cyflwynwyd y cynhyrchiad yn wreiddiol ar daith yn 2019, fel rhan o gyflwyniad dwbl a oedd hefyd yn cynnwys y ddrama Merched Caerdydd.
  - **Mrs Reynolds a'r Cena Bach**
    Cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru mewn partneriaeth â Chwmni'r Frân Wen a Galeri Caernarfon. Cynhyrchiad o drosiad i'r Gymraeg gan Meic Povey o ddrama wreiddiol Gary Owen, 'Mrs Reynolds and the Ruffian'. Cyflwynwyd y cynhyrchiad yn wreiddiol ar daith genedlaethol yn 2016.
  - **Bachu**
    Cynhyrchiad Melangell Dolma, Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr Clwyd, gyda chefnogaeth gan Eisteddfod Genedlaethol Cymru drwy Gronfa Gari, a Chanolfan Mileniwm Cymru. Wedi'i datblygu'n

wreiddiol fel rhan o gynllun awduron preswyl Theatr Clwyd, dyma ddrama ysgafn gan Melangell Dolma (a fu'n aelod o gynllun hyfforddi dramodwyr Theatr Genedlaethol Cymru, sef y Grŵp Dramodwyr Newydd) am gariad, cyfeillgarwch a chalonnau dryslyd, a gyflwynwyd yn wreiddiol yng Nghaffi Maes B ar Faes Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019.

- **Estron**
  Cynhyrchiad o ddrama fuddugol cystadleuaeth Medal Ddrama Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy 2016, a gyflwynwyd yn wreiddiol yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017 ac yna ar daith ledled Cymru yn 2018. Mae'r ddrama'n ymdrin â phrofedigaeth dyn ifanc ac yn cynnwys elfennau gwyddonias. Roedd hwn yn gynhyrchiad mewn partneriaeth ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru.
- **Milwr yn y Meddwl**
  Cynhyrchiad o ddrama fuddugol cystadleuaeth Medal Ddrama Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017, a gyflwynwyd yn wreiddiol yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018. Mae'r ddrama'n archwilio effaith trawma ar filwr o Gymru, wrth iddo ef a'i deulu geisio dod i delerau â digwyddiadau erchyll o'i orffennol a'r heriau newydd sy'n ei wynebu. Roedd hwn yn gydgynhyrchiad gyda Theatr y Sherman, ac mewn partneriaeth ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru.
- **X**
  Cynhyrchiad o ddrama fuddugol cystadleuaeth Medal Ddrama Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018, a gyflwynwyd yn wreiddiol yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019. Mae hon yn ddrama wedi ei gosod yn y dyfodol ac yn edrych ar hunaniaeth wleidyddol Cymru. Roedd hwn yn gynhyrchiad mewn partneriaeth ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru.
- **Macbeth**
  Cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru mewn partneriaeth â Cadw a gyda chefnogaeth gan Chapter. Dyma gynhyrchiad o glasur William Shakespeare mewn trosiad i'r Gymraeg gan Gwyn Thomas, a gyflwynwyd yn wreiddiol ar leoliad yng Nghastell Caerffili ac mewn darllediad byw trwy gyfrwng lloeren i ganolfannau ledled Cymru ym mis Chwefror 2017, ac yna fel ailddangosiad yn y canolfannau hynny yn ystod gwanwyn 2017.
- **Blodeuwedd**
  Cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru, gyda chefnogaeth gan Cadw, o glasur Saunders Lewis, a gyflwynwyd yn wreiddiol ar leoliad ar safle Tomen y Mur yng Ngwynedd ym mis Gorffennaf 2013.
- **Y Tŵr**
  Cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru a Music Theatre Wales mewn partneriaeth â Pontio. Dyma gynhyrchiad o opera wreiddiol gan Guto Puw, gyda libreto gan Gwyneth Glyn, yn seiliedig ar ddrama wreiddiol Gwenlyn Parry. Cyflwynwyd y cynhyrchiad yn wreiddiol fel rhan o Ŵyl Bro Morgannwg, gyda chefnogaeth gan Theatr y Sherman, ac yna ar daith ledled Cymru yn 2017.

6. Datblygu Gwaith Newydd ar gyfer y Dyfodol

Yn ogystal â chomisiynu gweithiau newydd i'w cyflwyno o fewn y flwyddyn, cynorthwyo yn natblygiad creadigol y gweithiau hynny a goruchwylio ansawdd artistig y cyflwyniadau digidol uchod (fel rhan o arlwy Creu Ar-lein), bu'r cwmni hefyd yn datblygu arlwy newydd ac eang ar gyfer y dyfodol. Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i greu gwaith newydd a fydd yn cyfrannu at adferiad y sector ac adferiad cymdeithasol yn gyffredinol o ganlyniad i'r pandemig, yn cynnwys denu cynulleidfaoedd yn ôl i'n canolfannau i fynychu digwyddiadau theatr byw yn y dyfodol. Penderfynwyd y byddid yn canolbwyntio ar gomisiynu a datblygu gweithiau newydd . . .

- sy'n fentrus a dychmygus
- sy'n boblogaidd neu ac iddynt elfennau adloniannol amlwg
- a fydd yn apelio'n arbennig at gynulleidfa ifanc a chymharol ifanc

- a fydd yn arbennig o berthnasol i gynulleidfaoedd ac amrywiol gymunedau Cymru mewn cyfnod ôl-bandemig
- a fydd yn cyd-fynd â blaenoriaethau datblygu a rhaglennu artistig strategol y cwmni'n gyffredinol (yn cynnwys creu gwaith ac iddo apêl arbennig i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli ac sy'n ymateb i themâu neilltuol megis iechyd, digartrefedd a ffoaduriaid)
- a fydd yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r cyd-destun gwleidyddol a chymdeithasol cyfredol wrth iddo esblygu
- a fydd yn chwarae rôl amlwg o ran adferiad cymdeithasol
- y bydd modd eu creu a'u cyflwyno mewn canolfannau dan amodau a rheoliadau ymbellhau cymdeithasol
- y bydd modd eu creu a'u cyflwyno mewn lleoliadau amgen, yn cynnwys yn yr awyr agored.

Bu'r gwaith o gynorthwyo datblygiad comisiynau newydd a ddyrannwyd yn ystod 2020/21, yn ogystal ag ar gomisiynau a gychwynnwyd mewn blynyddoedd blaenorol, yn digwydd bron yn ddieithriad ar-lein. Yn ogystal, cynhaliwyd gweithdai datblygu sgript a darlleniadau o weithiau mewn datblygiad, oll ar-lein.

3. CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD

Trosolwg o Brif Weithgaredd y Flwyddyn:

Targedau a chyrhaeddiad	**2019/20**	**2020/21**
Theatr Byw – Mynychwyr	**16,399**	**0**
Cyflwyniadau Theatr Ddigidol – Gwyliadau	**0**	**73,427**
Cyfranogwyr – Plant a Phobl Ifanc	3,979	5,762
Cyfranogwyr – Cyffredinol	1,462	99
Sgyrsiau a Sesiynau Holi ac Ateb	1,174	622
Cyfanswm Cyfranogwyr	**6,615**	**6,483**
Cyfanswm y Mynychwyr a'r Cyfranogwyr	**23,014**	**79,910**

4. ADOLYGIAD ARIANNOL

Tra bod y cyfan o wariant y cwmni yn gysylltiedig mewn rhyw fodd â gwasanaethau'r cwmni, mae gwariant uniongyrchol ar brif weithgareddau'r cwmni, fel y disgrifir hwy uchod, yn cynrychioli'r rhan helaethaf o wariant blynyddol y cwmni. Mae'r rhan helaethaf o gostau cyflwyno cynyrchiadau theatraidd yn gysylltiedig â gwaith artistiaid llawrydd wrth greu'r gwaith, ac â staffio'r cynyrchiadau. Er mwyn cynnal y safonau artistig uchaf posibl, mae'r cwmni'n cyflogi naill ai'r artistiaid mwyaf profiadol neu'r mwyaf cymwys, ac yn gweithredu taliadau yn unol â chanllawiau a chytundebau UK Theatre, sef y sefydliad ambarél y mae'r cwmni'n aelod ohono. Mae'r taliadau hynny, yn eu tro, yn seiliedig ar gytundebau'r sefydliad hwnnw gydag undebau llafur y diwydiannau creadigol a'r sector ddiwylliannol.

Mae gwerthoedd cynhyrchu uchel y cwmni – yn unol â disgwyliadau'r gynulleidfa wrth ystyried gwaith cwmni theatr cenedlaethol, a nodau ac amcanion y cwmni – yn golygu bod rhan sylweddol o gyllideb pob cynhyrchiad yn gysylltiedig â chostau cynhyrchu (e.e. cynllunio a chreu neu ddarparu set a gwisgoedd, cynlluniau sain a goleuo, rheoli llwyfan, ac ati, ac yn achos cynyrchiadau digidol, gwaith camera a golygu, a chostau ffrydio).

Sicrhau Gwerth am Arian

Ym mhob agwedd o'i waith, mae'r cwmni'n ymdrechu bob amser i sicrhau gwerth am arian, gan ofalu ei fod yn sicrhau prisiau cystadleuol wrth, e.e. brynu offer, archebu llety a chostau eraill yn gysylltiedig â chreu cynyrchiadau theatr. Mae gan y cwmni bolisi caffael sy'n nodi'r isod:

Cost	Gofyniad
Hyd at £5,000	Dyfynbrisiau – Isafswm o 1
£5,000 i £25,000	Dyfynbrisiau – Isafswm o 3
£25,000 i £75,000	Proses dendro gaeedig – gwahodd 4–6 (angen derbyn o leiaf 2)
Uwch na £75,000	Proses dendro agored (angen derbyn o leiaf 2)

Pennir cyflogau staff parhaol yn seiliedig ar arolwg o gyflogau cyfatebol yn y sector ac yn lleol, er mwyn sicrhau gwerth am arian, tra ar yr un pryd yn cynnal safonau disgwyliedig.

Polisi Cronfeydd

Cedwir swm o £195,000 wrth gefn (y swm i'w adolygu'n flynyddol) ar gyfer amgylchiadau eithriadol na ellir eu rhagweld.

Arwyddwyd prydles newydd ar ran o adeilad Y Llwyfan (sef pencadlys y cwmni) ym mis Hydref 2018. Prydles 10 mlynedd yw'r cytundeb presennol, gyda chymal torri ar ôl 5 mlynedd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r cwmni wedi bod yn neilltuo swm yn flynyddol tuag at y brydles newydd, a defnyddiwyd y gronfa hon i dalu cost y brydles am y 5 mlynedd gyntaf. Cytunodd y Bwrdd y dylid neilltuo £37,000 yn 2018/19 a £35,000 am y 4 blynedd nesaf ar gyfer taliad nesaf y brydles (h.y. y 5 mlynedd sy'n weddill).

Er mwyn adnewyddu offer presennol y cwmni, yn cynnwys cerbydau, a buddsoddi mewn offer sy'n lleihau costau refeniw'r cwmni, mae'r Bwrdd wedi penderfynu neilltuo swm blynyddol o £10,000 i gronfa gyfalaf.

Nawdd Cyhoeddus

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC), ac mae'r statws hwnnw'n rhoi sicrwydd cymharol o gyllid am gyfnod penodol o bum mlynedd. Bydd CCC yn cynnal Adolygiad Buddsoddiad o'i Bortffolio yn 2023, a'r disgwyliad yw y bydd y Portffolio o sefydliadau a ariennir yn flynyddol (yn cychwyn am gyfnod o bum mlynedd o Ebrill 2024) yn cael ei gadarnhau ym mis Medi 2023.

Mae'r cwmni'n cyfarfod a thrafod yn gyson gyda CCC, ei brif noddwr. Mae'r cwmni'n falch iawn o barhau i fod yn aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru CCC, ac mae ganddo berthynas adeiladol gyda'i brif noddwr. Mae'r cwmni'n adrodd yn ôl yn gyson i CCC, ac yn cyflawni'r holl orchwylion a'r gofynion sydd ynghlwm â derbyn y nawdd hwn.

Yn hanesyddol, mae Theatr Genedlaethol Cymru wedi dibynnu'n drwm ar gyllid gan CCC. Mae hyn yn gosod risg sylweddol i'r cwmni oherwydd y pwysau cynyddol sydd ar arian cyhoeddus. Un o'n prif nodau ar gyfer cyfnod cynllun busnes 2018–22 oedd lleihau'r ddibyniaeth ar arian CCC trwy gynyddu incwm o ffynonellau eraill. Yn 2019/20 llwyddwyd i ostwng ein lefel dibyniaeth ar arian CCC y tu hwnt i'r targed a osodwyd, ac roedd y gostyngiad yn 10% o'r flwyddyn flaenorol (2018/19). Y nod oedd lleihau'r ddibyniaeth ymhellach dros y blynyddoedd nesaf, ac erbyn 2022 byddai cyllid CCC yn cynrychioli 75% o gyfanswm incwm y cwmni.

	2019/20	2020/21
Cyllid CCC	£1,054,495	£1,072,566
Cyfanswm Incwm	£1,364,196	£1,103,316
Cyllid CCC fel %	77%	97%

Yn sgil COVID-19, cynyddodd y lefel ddibyniaeth yn sylweddol unwaith eto, gyda chyllid CCC yn cynrychioli 97% o holl incwm y cwmni. Roedd hyn yn bennaf oherwydd nad oedd modd cynhyrchu incwm o werthiant

tocynnau i berfformiadau, na denu incwm partneriaeth i gynyrchiadau. O 2021/22 ymlaen, fe fydd yn flaenoriaeth unwaith eto ar leihau'r ddibyniaeth ar arian CCC.

Staff

- Yn ystod 2020/21 roedd staff craidd y cwmni'n cynnwys 10 aelod o staff llawn amser (2019/20:9) a 5 aelod o staff rhan amser (2019/20:4), ar gyfartaledd.
- Mae staff y cwmni'n cynyddu'n sylweddol wrth gyflogi artistiaid a gweithwyr llawrydd mewn perthynas â phrosiectau penodol drwy gydol y flwyddyn. Rhoddwyd 347 o gytundebau llawrydd i weithwyr llawrydd yn ystod 2020/21, gyda nifer o weithwyr yn derbyn mwy nag 1 cytundeb.
- Mae holl staff parhaol y cwmni'n siarad Cymraeg, ac felly hefyd y rhan helaethaf o'r gweithwyr a'r artistiaid a gyflogir ar gytundebau tymor byr.

Cartref y Cwmni

Lleolir pencadlys y cwmni yn adeilad Y Llwyfan ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin. Yno, mae gan y cwmni swyddfeydd, storfeydd ac ystafell gyfarfod. Fel rhan o'r cytundeb prydles presennol mae gan y cwmni ddefnydd o ystafell ymarfer ac ystafelloedd newid pwrpasol am 12 wythnos y flwyddyn. Mae gan y cwmni storfa ychwanegol ar safle y tu allan i'r dref. Mae'r adnoddau hyn yn caniatáu i'r cwmni weithredu'n effeithiol. Mae'r cytundeb presennol yn Y Llwyfan yn para hyd ddiwedd Medi 2028, gydag opsiwn i dorri'r les yn 2023.

Adnoddau Technegol

Er mwyn darparu ei wasanaethau, mae'n ofynnol i'r cwmni logi offer technegol o bryd i'w gilydd, a thro arall ei bwrcasu. Dros y blynyddoedd, mae'r cwmni wedi cronni casgliad sylweddol o offer technegol a ddefnyddir wrth i'r cwmni greu a theithio prosiectau theatr. Mae'r casgliad hwn o offer technegol hefyd yn fodd o gefnogi'r sector a chreu partneriaethau gyda chwmnïau eraill, lle mae modd i sefydliadau eraill elwa o'r adnoddau hyn. Mae gan y cwmni restr gynhwysfawr o'i holl offer, ynghyd â gweithdrefnau manwl a hylaw er mwyn caniatáu llogi a chyd-rannu'r offer pan fo hynny'n briodol neu'n fanteisiol iddo.

Adnoddau Eraill

Mae gan y cwmni hefyd nifer o adnoddau eraill, megis cerbydau ac offer swyddfa, sy'n caniatáu iddo weithredu'n effeithiol a chost-effeithiol. Derbyniwyd grant cyfalaf tuag at brynu cerbydau newydd yn ystod 2017/18.

COVID-19

Daeth effeithiau COVID-19 i'r amlwg ar ddiwedd 2019/20, a'r clo mawr yn dechrau ar ddiwedd mis Mawrth 2020. Bu raid canslo 2 gynhyrchiad oedd i fod i deithio o amgylch Cymru ym misoedd Mawrth ac Ebrill 2020. Nid oedd modd cyflwyno unrhyw berfformiadau byw yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21, ond fe drodd y cwmni at blatfformau amgen a mentro i gynhyrchu theatr ddigidol, gan fanteisio ar bartneriaethau strategol newydd. Mae'r cwmni bellach wedi dychwelyd i gyflwyno perfformiadau byw, gan i'r Llywodraeth lacio cyfyngiadau COVID, gyda'r perfformiadau byw cyntaf i gynulleidfa yn digwydd ym mis Awst 2021. Mae'n amlwg o'r profiadau a gafodd y cwmni ers hynny, gyda thaith lwyddiannus Anfamol, bod awydd gan gynulleidfaoedd i ddychwelyd i theatrau. Serch hynny, mae'r sefyllfa'n parhau i fod yn fregus, a'r posibilirwydd o gyfyngiadau'n cael eu hailgyflwyno os bydd sefyllfa COVID yn gwaethygu. Bydd y staff a'r ymddiriedolwyr yn ceisio sicrhau bod y cwmni'n gweithredu mewn modd digon hyblyg i ymateb yn gyflym i heriau sy'n codi. Bydd yr ymddiriedolwyr a'r staff hefyd yn monitro sefyllfa ariannol y cwmni'n ofalus i sicrhau nad yw COVID-19 yn cael effaith ddinistriol, gan gydweithio'n agos gyda'r prif arianwyr i sicrhau bod y cwmni'n diwallu eu hanghenion.

Lluniwyd Cofrestr Risg COVID-19 er mwyn cynorthwyo'r Bwrdd a'r swyddogion i adnabod risgiau penodol yn ymwneud â'r pandemig ac i gytuno ar drefniadau rheoli priodol.

5. CYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Theatr Genedlaethol Cymru i bwrpasau cyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau cyllid yn unol â'r gyfraith berthnasol o Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ôl y ddeddf ar gyfer cwmnïau, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, a'r rheiny'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y cwmni yn ystod y cyfnod dan sylw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u gweithredu'n gyson;
- arsylwi ar y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau;
- dyfarnu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn ddoeth;
- paratoi'r cyfrifon ar y sail y bydd y cwmni'n parhau i weithredu, os nad yw'n amhriodol i dybio hyn.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu addas sy'n datgelu sefyllfa ariannol y cwmni'n gymharol gywir ar unrhyw adeg, ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau cyllidol yn unol â Deddf Cwmnïau 2006. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb dros warchod asedau'r cwmni a chymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll neu afreoleidd-dra arall.

Cyn belled ag y mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:

- nid oes gwybodaeth archwiliad perthnasol nad yw'n wybyddus i archwilwyr y cwmni elusennol;
- mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam angenrheidiol i'w gwneud yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliad perthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Trwy orchymyn y Bwrdd



.....

Cadeirydd: Efa Gruffudd Jones

Dyddiad:

30/11/2021

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

Barn

Archwiliwyd cyfrifon Theatr Genedlaethol Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021; maent yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau Ariannol, y Fantolen a'r nodiadau perthnasol. Paratowyd y cyfrifon yn unol â'r polisïau cyfrifo a nodir yn y cyfrifon. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.

Yn ein barn ni:

- Mae'r cyfrifon yn rhoi adlewyrchiad cywir a theg o gyflwr ariannol y cwmni ar 31 Mawrth 2021 a'r adnoddau a ddefnyddiwyd am y flwyddyn ariannol;
- Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â'r gyfraith berthnasol o Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifo Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.
- Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Cwmnïau 2006;

Sail ein Barn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) ("ISA's (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan ISAs (DU) ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol o'nn hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r elusen gofrestredig yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, sy'n cynnwys Safon Foesegol yr FRC, a'r darpariaethau ar gyfer endidau bach, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen i'n barn ni.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r cyfrifon, rydym o'r farn bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac Aadroddiad ar yr Archwilwyr Annibynnol.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn sylweddol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos eu bod wedi'i camddatgan yn sylweddol. Os byddwn yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau ymddangosiadol sylweddol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym

wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Materion yr ydym yn rwymedig i adrodd drwy eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r eitemau canlynol lle mae'r Ddeddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw berthynas materol â'r datganiadau cyllid; neu
- bod y cwmni elusennol heb gadw cofnodion cyfrifo derbynniol; neu
- bod y datganiadau cyllid ddim yn cyd fynd â'r cofnodion cyfrifo a ffurflenni statudol: neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau anghenrheidiol i gyflawni ein archwiliad.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw fater ynghylch defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddynt ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol

Rydym wedi'n penodi'n archwilwyr o dan Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n cael effaith o dan y Ddeddf honno.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn ei cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi Adroddiad gan yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyfan, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra. Amcanion ein harchwiliad yw cael digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfynu ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol, cyflawni gweithdrefnau archwilio er mwyn helpu nodi achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau eraill a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol, ac i ymateb yn briodol i ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

O ran twyll, amcanion ein harchwiliad yw nodi ac asesu'r risg o gamddatganiad sylweddol o'r datganiadau ariannol oherwydd twyll, casglu digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch y risgiau aseswyd o gamddatganiad sylweddol trwy dwyll gan ddylunio a gweithredu ymatebion priodol ac ymateb yn briodol i dwyll neu dwyll tybiedig a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

Fodd bynnag, prif gyfrifoldeb y rheolwyr, gyda goruchwyliaeth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yw sicrhau bod gweithrediadau'r endid yn cael eu cynnal yn unol â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau ac ar gyfer atal a chanfod twyll.

Wrth asesu a nodi'r risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, fe wnaeth y tîm archwilio:

- gael dealltwriaeth o natur y diwydiant a'r sector, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r elusen yn gweithredu ynddo a sut mae'n cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol;
- holi'r rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, am eu hasesiad a chydnabyddiaeth eu hunain o beryglon afreoleidd-dra, gan gynnwys unrhyw achosion gwirioneddol, tybiedig neu honedig o dwyll;
- drafod materion ynghylch peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a sut y gallai twyll ddigwydd gan gynnwys asesu sut a ble y gallai'r datganiadau ariannol fod yn agored i dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, rydym yn ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw SoRP Elusennau, FRS 102, Deddf Cwmnïau 2006 a Deddf Elusennau 2011. Gwnaethom gynnal gweithdrefnau archwilio i ganfod diffyg cydymffurfio a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol a oedd yn cynnwys adolygu'r datgeliadau yn y cyfrifon.

Nododd y tîm archwilio mai'r risg mwyaf i gamddatganiad sylweddol trwy dwyll fyddai o ganlyniad i'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau mewnol. Roedd y gweithdrefnau archwilio a berfformiwyd yn cynnwys ond nid oeddent wedi'u cyfyngu i brofi cyfnodolion ac addasiadau eraill a gwerthuso'r rhesymeg fusnes mewn perthynas ag unrhyw drafodion sylweddol, anarferol a wnaed y tu allan i gwrs busnes arferol.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilwyr annibynnol.

Defnyddio'r adroddiad hwn

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer ymddiriedolwyr y cwmni elusennol yn unig, fel corff yn unol ag Adran 144 Deddf Elusennau 2011 a rheoleiddiadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno (Rhan 4 o'r Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Rheoliadau 2008). Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel y gallem ddatgan i ymddiriedolwyr y cwmni elusennol y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r cwmni elusennol ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi'i ffurfio.

Ashmole & Co

Ashmole & Co (Archwilydd Statudol)
Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig & Archwilwyr Cofrestredig
Yn gymwys i weithredu fel archwilwyr yn unol ag adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006
3 Stryd y Farchnad
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6AH

Dyddiad: 30/11/2021

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

DATGANIAD O SYMUDIADAU ARIANNOL (Incwm a Gwariant)

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

	Nodyn	Cronfa Gyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm 2021 £	Cyfanswm 2020 £
INCWM A GWADDOLION					
Incwm gwirfoddol a chymynroddion	2	40,038	1,048,469	1,088,507	1,080,024
Gweithgareddau elusennol	3	-	11,171	11,171	201,369
Incwm arall a dderbynnir o weithgareddau masnachol	4	-	2,879	2,879	4,588
Buddsoddiadau – Llog		-	759	759	2,501
Cyfanswm Adnoddau a dderbynnir		40,038	1,063,278	1,103,316	1,288,482
ADNODDAU A WARIWYD					
Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol	5	-	4,242	4,242	2,220
Gweithgareddau elusennol	6	54,528	820,729	875,257	1,343,051
Cyfanswm adnoddau a wariwyd		54,528	824,971	879,499	1,345,271
Incwm / (Gwariant) am y flwyddyn – net cyn treth a throslwyddiadau		(14,490)	238,307	223,817	(56,789)
Rhyddhad Treth	7	-	-	-	75,714
Incwm / (Gwariant) am y flwyddyn – net ar ol treth		(14,490)	238,307	223,817	18,925
Cronfa – dygwyd ymlaen		42,812	722,357	765,169	746,244
Cronfa – cariwyd ymlaen		28,322	960,664	988,986	765,169

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

DATGANIAD O SYMUDIADAU ARIANNOL (Incwm a Gwariant)

AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021 – parhad

Ni pharatowyd datganiad ar wahân o incwm a gwariant.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 17 i 24 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2021

	Nodyn		2021		2020
			£		£
ASEDAU SEFYDLOG					
Asedau Gweladwy a ddefnyddir gan yr elusen	**11**		135,989		160,193
ASEDAU CYFREDOL					
Dyledwyr	**12**	142,892		198,153	
Arian yn y banc ac mewn llaw		874,757		643,790	
		1,017,649		841,943	
CREDYDWYR – symiau'n daladwy o fewn blwyddyn	**13**	81,277		153,592	
ASEDAU CYFREDOL NET			936,372		688,351
CYFANSWM ASEDAU LLAI CREDYDWYR CYFREDOL NET			1,072,361		848,544
CREDYDWYR – Symiau'n daladwy mewn dros blwyddyn	**13**		83,375		83,375
ASEDAU NET			**988,986**		**765,169**
			£		**£**
CRONFEYDD	**18**				
Cronfeydd Anghyfyngedig			960,664		722,357
Cronfeydd Cyfyngedig			28,322		42,812
			988,986		**765,169**

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2021

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 roedd hawl gan y cwmni elusennol i gael eithriad o'r gofyniad am archwiliad statudol dan adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Nid yw'r aelodau wedi ei gwneud yn ofynnol i'r cwmni gael archwiliad o'i gyfrifon ar gyfer y flwyddyn dan sylw yn unol ag adran 476 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod eu cyfrifoldebau dros y canlynol:

a) sicrhau bod y cwmni'n cydymffurfio ag adrannau 386 a 387 o Ddeddf Cwmnïau 2006 o ran cofnodion cyfrifydda;

b) paratoi datganiadau ariannol sy'n cynnig darlun clir a theg o asedau, atebolrwydd, safle ariannol ac elw ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol yn unol â gofynion adrannau 394 a 395 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae'r cyfrifon hyn wedi eu harchwilio dan ofynion adran 144 o'r Ddeddf Elusen 2011.

Paratowyd y cyfrifon yn unol â darpariaethau arbennig Rhan 15 Deddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau bychain (effeithiol Ionawr 2015).

Arwyddwyd y cyfrifon ar ran y Bwrdd gan:



..... (Cadeirydd)

Efa Gruffudd Jones

Dyddiad: 30/11/2021

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

NODIADAU AR Y CYFRIFON – 31 MAWRTH 2021

1. Polisïau Cyfrifo

a) Sail Cyfrifo

Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi dan y confensiwn prisio hanesyddol ac yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau (SORP FRSSE) a gyhoeddwyd yn Ionawr 2015, y Safon Adrodd Ariannol ar gyfer Endidau Llai (yn effeithiol o Ionawr 2015) a Deddf Cwmnïau 2006.

b) Incwm – Gwirfoddol

Cynhwysir incwm yn y datganiad o sumudiadau ariannol pan fo'r elusen â hawl i gronfa, pan fo'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn, a phan fydd y swm yn medru cael ei fesur yn ddibynadwy.

Caiff incwm cyfyngedig ei gynnwys mewn cronfa gyfyngedig a'i gyfatebu i'r gwariant. Caiff grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy eu trin fel credydwyr hirdymor, a'u cynnwys mewn cronfa gyfyngedig sy'n cael ei dibrisio i ffwrdd yn unol â dibrisiant yr asedau.

Incwm – Adnoddau i'w derbyn o weithgareddau elusennol

Cynhwysir adnoddau i'w derbyn o weithgareddau elusennol pan yn ddyledus. Mae'r incwm yn cynnwys gwerthiant tocynnau am berfformiadau o'r cynyrchiadau yn ystod y flwyddyn.

c) Adnoddau a ddefnyddiwyd

Cydnabuwyd costau a threuliau yn y cyfnod pan yn ddyledus. Mae costau'n cynnwys TAW lle nad yw'n bosibl ei hawlio. Mae costau trefn lywodraethu'n cynrychioli'r gost o weinyddu'r elusen a chwrdd â gofynion cyfansoddiadol a statudol. Mae'r gost o gynhyrchu incwm gwirfoddol yn cynrychioli'r gost o gwrdd â gofynion Cyngor Celfyddydau Cymru.

ch) Dibrisio

Mae'r asedau sefydlog wedi eu dibrisio dros eu bywyd defnyddiol ar y cyfraddau canlynol:

Adeiladau prydles	– Dros gyfnod y les
Cerbydau	– 25%
Cyfrifiaduron ac offer	– 33%

d) Les Gweithredol

Ymrwymwyd i brydles newydd ar y Llwyfan o ddechrau Hydref 2018, am gyfnod o 10 mlynedd. Cyfanswm gwerth y les yw £166,750. Talwyd y swm am y 5 mlynedd gyntaf ar ddechrau'r les, o gronfa brydles y cwmni, ac fe fydd yr ail daliad yn ddyledus ym mis Hydref 2023.

dd) Cronfeydd Cyffredinol

Mae Cronfeydd Cyffredinol yn cynnwys rhoddion ac incwm i'w derbyn, neu a gynhyrchwyd am amcanion yr elusen heb bwrpas arbennig arall ac felly ar gael fel cronfa gyffredinol. Ni osodir amodau allanol ar gronfeydd cyffredinol, ac maent i'w gwario gan yr elusen yn ôl eu hamcanion/bwriadau neu i'w neilltuo tuag at bwrpasau priodol mewnol.

e) Polisi pensiwn

Mae'r cwmni elusennol yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Mae'r cyfraniadau i'r cynllun pensiwn y cwmni elusennol yn cael ei ddangos ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y cyfnod y maent yn ymwneud ag.

2. INCWM GWIRFODDOL A CHYMYNRODDION

	Cronfa Gyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm 2021 £	Cyfanswm 2020 £
Grant CCC	-	1,040,892	1,040,892	1,029,567
Grantiau prosiect eraill CCC	30,000	1,674	31,674	24,928
Eraill	10,038	-	10,038	500
Rhoddion	-	5,903	5,903	25,029
	40,038	1,048,469	1,088,507	1,080,024

3. GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

Swyddfa docynnau	-	566	566	60,145
Nawdd/Cyd-gynhyrchu	-	6,605	6,605	123,720
Incwm o bartneriaethau	-	1,000	1,000	9,900
Incwm cyfranogi	-	3,000	3,000	7,604
	-	11,171	11,171	201,369

4. INCWM ARALL A DDERBYNNIR O WEITHGAREDDAU MASNACHOL

Incwm Adnoddau	-	-	-	760
Incwm gwerthu nwyddau	-	-	-	298
Incwm hysbysebion	-	-	-	800
Arall	-	754	754	2,709
Elw ar werthu asedau	-	750	750	21
Incwm llogi offer	-	1,375	1,375	-
	-	2,879	2,879	4,588

5. COSTAU O GYNHYRCHU INCWM GWIRFODDOL

	Cronfa Gyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm 2021 £	Cyfanswm 2020 £
Costau cynnal (Nodyn 8)	-	4,242	4,242	2,220
	-	4,242	4,242	2,220

6. COSTAU GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

	Cronfa Gyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm 2021 £	Cyfanswm 2020 £
Cynyrchiadau	17,442	149,661	167,103	248,498
Marchnata a chyfathrebu	-	22,542	22,542	54,777
Ffioedd cynyrchiadau	-	80,432	80,432	360,165
Teithio a chynhaliaeth cynyrchiadau	-	2,069	2,069	94,276
Costau cynnal (Nodyn 8)	37,086	566,025	603,111	585,335
	54,528	820,729	875,257	1,343,051

7. RHYDDHAD TRETH

	Cronfa Gyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm 2021 £	Cyfanswm 2020 £
Rhyddhad treth	-	-	-	75,714

Nid oedd unrhyw hawliad rhyddhad treth ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021. Cyfanswm hawliad rhyddhad treth ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020 oedd £86,959. O'r swm yma, roedd £11,245 yn ddyledus i gyd-gynhyrchwyr gan adael cyfanswm net i Theatr Genedlaethol Cymru o £75,714.

8. COSTAU CYNNAL	**Cronfa Gyfyngedig £**	**Cronfeydd Anghyfyngedig £**	**Cyfanswm 2021 £**	**Cyfanswm 2020 £**
Cyflogau cwmni	4,265	414,161	418,426	386,449
Costau pensiwn	-	16,816	16,816	18,936
Teithio a chynhaliaeth cwmni	-	6,028	6,028	18,019
Costau archwilio	-	4,000	4,000	3,949
Costau'r bwrdd	-	1,975	1,975	1,758
Hyfforddiant	-	3,079	3,079	4,349
Costau'r adeilad	-	44,053	44,053	42,337
Costau'r swyddfa	-	34,159	34,159	31,347
Costau proffesiynol	10,000	28,848	38,848	38,578
Costau banc a manion	-	473	473	705
Dibrisio – cerbydau ac offer	22,821	-	22,821	24,453
Dibrisio - prydles		16,675	16,675	16,675
	37,086	570,267	607,353	587,555

9. COSTAU STAFF CRAIDD

Costau Cyflogau

	2021 £	**2020 £**
Staff craidd	384,953	355,089
Yswiriant Gwladol y Cyflogwr	33,473	31,360
Costau pensiwn staff craidd	16,816	18,936
	435,242	405,385

Ar gyfartaledd, cyflogwyd 10 aelod o staff craidd llawn amser (2020: 9) a 5 aelod o staff rhan amser (2020:4) yn ystod y flwyddyn.

Ni enillodd yr un aelod o staff cyflogedig fwy na £60,000 yn y blynyddoedd 2020/21 na 2019/20.

NODIADAU AR Y CYFRIFON – 31 MAWRTH 2021 – parhad

10. Cymhariaeth ar gyfer Datganiad o Weithgareddau Ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020

	Nodyn	Cronfa Gyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm £
INCWM A GWADDOLION				
Incwm gwirfoddol a chymynroddion	2	24,928	1,055,096	1,080,024
Gweithgareddau elusennol	3	-	201,369	201,369
Incwm arall a dderbynnir o weithgareddau masnachol	4	-	4,588	4,588
Buddsoddiadau – Llog banc		-	2,501	2,501
Cyfanswm Adnoddau a dderbynnir		24,928	1,263,554	1,288,482
ADNODDAU A WARIWYD				
Costau cynhyrchu incwm gwirfoddol	5	-	2,220	2,220
Gweithgareddau elusennol	6	49,381	1,293,671	1,343,052
Cyfanswm adnoddau a wariwyd		49,381	1,295,891	1,345,272
Incwm / (Gwariant) am y flwyddyn – net cyn treth		(24,453)	(32,336)	(56,789)
Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd		(7,687)	7,687	-
Rhyddhad Treth	7	-	75,714	75,714
Incwm / (Gwariant) am y flwyddyn – net ar ol treth		(32,140)	51,065	18,925
Cronfa – dygwyd ymlaen		74,952	671,292	746,244
Cronfa – cariwyd ymlaen		42,812	722,357	765,169

NODIADAU AR Y CYFRIFON – 31 MAWRTH 2021 – parhad

11. ASEDAU SEFYDLOG

	Eiddo ar les byr	Cerbydau	Offer a Dodrefn	Offer Cyfrifiadurol a System Ffôn	Offer Technegol	Cyfanswm
	£	£	£	£	£	£
Cost						
Balans a ddygwyd ymlaen	166,750	63,420	160,352	34,331	10,592	435,445
Ychwanegiadau	-	-	-	7,323	7,968	15,291
Gwaredwyd	-	(13,064)	-	-	-	(13,064)
Balans a gariwyd ymlaen	166,750	50,356	160,352	41,654	18,560	437,672
Dibrisio						
Balans a ddygwyd ymlaen	25,013	55,208	160,352	25,730	8,948	275,251
Cost y flwyddyn	16,675	8,212	-	10,309	4,300	39,496
Gwaredwyd		(13,064)			-	(13,064)
Balans a gariwyd ymlaen	41,688	50,356	160,352	36,039	13,248	301,683
Gwerth yn y llyfrau						
31 Mawrth 2021	125,062	-	-	5,615	5,312	135,989
31 Mawrth 2020	141,737	8,212	-	8,600	1,644	160,193

Defnyddiwyd yr holl asedau gan yr elusen ar gyfer gweithgareddau elusennol parhaol.

NODIADAU AR Y CYFRIFON – 31 MAWRTH 2021 – parhad

12. DYLEDWYR

	2021 £	2020 £
Dyledwyr masnachol	27,882	73,202
Taliadau ymlaen llaw	20,430	19,878
Dyledwyr eraill	-	10,160
TAW	7,538	7,954
Rhyddhad Treth	87,042	86,959
	142,892	198,153

13. CREDYDWYR – Symiau'n daladwy ymhen blwyddyn

	2021 £	2020 £
Credydwyr masnachol	36,452	63,571
Costau wedi cronni	13,994	57,974
Trethi ac yswiriant gwladol	9,764	10,887
Credydwyr eraill	15,067	19,160
Incwm gohiriedig	6,000	2,000
	81,277	153,592

13. CREDYDWYR – Symiau'n daladwy ar ol 12 mis

	2021 £	2020 £
Lês	83,375	83,375

14. TRETH

Mae'r elusen yn rhydd o dalu treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

15. TALIADAU A BUDD-DALIADAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Derbyniodd un Ymddiriedolwr, Mr Arwel Gruffydd, dâl a budd-daliadau treuliau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, fel y caniateir gan ddogfen lywodraethol yr elusen. Derbyniodd gyflog o £59,087 yn sgil ei swydd fel Cyfarwyddwr Artistig yr elusen a chyfrannodd y Theatr £2,940 i'r Gronfa Bensiwn ar ei ran. Ni dderbyniodd unrhyw dâl yn sgil ei rôl fel Ymddiriedolwr.

16. TREULIAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Ni dderbyniodd Ymddiriedolwyr ad-daliadau treuliau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 (2019/20: £1,758). Roedd yr ad-daliadau i ddigolledu'r Ymddiriedolwyr am eu costau teithio, cynhaliaeth, llety a chostau eraill yn ymwneud â mynychu cyfarfodydd yr elusen. Y nifer o Ymddiriedolwyr a dderbyniodd ad-daliad yn ystod y flwyddyn oedd 0 (2019/20:10).

17. DATGANIAD O'R ASEDAU NET RHWNG Y CRONFEYDD

	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cyfanswm 2021 £	Cyfanswm 2020 £
Asedau Sefydlog	10,927	125,062	135,989	160,193
Arian yn y banc ac mewn llaw	19,266	855,491	874,757	643,790
Dyledwyr	-	142,892	142,892	198,153
Credydwyr	(1,871)	(162,781)	(164,652)	(236,967)
	28,322	960,664	988,986	765,169

18. SYMUDIADAU YN Y CRONFEYDD

	Balans d/y 01/04/2020 £	Adnoddau a dderbyniwyd £	Adnoddau a Wariwyd £	Rhyddhad Treth £	Trosglwyddo £	Balans c/y 31/03/2021 £
Cronfeydd Cyfyngedig						
- Cronfa Gyfalaf	42,812	4,773	(22,821)	-	-	24,764
- Cronfa Refeniw	-	35,265	(31,707)	-	-	3,558
Cronfeydd Anghyfyngedig						
- Cronfa Wrth Gefn	195,000	-	-	-	-	195,000
- Cronfa Brydles	213,197	-	(16,675)	-	16,307	212,829
- Cronfa Gyfalaf	68,951	-	-	-	10,000	78,951
- Cronfa Rydd	245,209	1,063,278	(808,296)	-	(26,307)	473,884
	765,169	1,103,316	(879,499)	-	-	988,986

Polisi Cronfa wrth Gefn

Cedwir swm o £195,000 wrth gefn (y swm i'w adolygu'n flynyddol) ar gyfer amgylchiadau eithriadol na ellir eu rhagweld.

Mae'r Gronfa Anghyfyngedig yn cynnwys swm o £212,829 a glustnodwyd ar gyfer talu am brydles newydd yn Y Llwyfan ar ôl diwedd Mawrth 2021. Penderfynodd yr Ymddiriedolwyr i neilltuo £35,000 i'r diben hwn yn 2019/20 a £35,000 y flwyddyn hyd at 2022/23. Mae'r Gronfa Anghyfyngedig hefyd yn cynnwys swm o £78,951 sydd wedi neilltuo ar gyfer gwariant cyfalaf yn y dyfodol.

Mae gan y cwmni ddwy gronfa gyfalaf – un gyfyngedig, o ganlyniad i dderbyn cymhelliant ariannol wrth leoli'r cwmni yn ei leoliad presennol, ac un anghyfyngedig. Mae unrhyw wariant cyfalaf ar offer yn cael ei wneud o'r gronfa gyfyngedig ar hyn o bryd, nes i'r gronfa honno ddod i ben. Cytunodd yr Ymddiriedolwyr i neilltuo swm o £10,000 y flwyddyn i'r gronfa anghyfyngedig o 2018/19 ymlaen er mwyn adnewyddu a buddsoddi mewn offer newydd yn y dyfodol.

19. DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Mae COVID19 yn parhau i effeithio ar weithgareddau Theatr Genedlaethol Cymru ar ôl dyddiad y fantolen, ond mae'r Bwrdd yn ffyddiog fod y cynllun sydd mewn lle ar gyfer y flwyddyn 2021/22 yn ateb gofynion y grant craidd.

Er bod y sefyllfa bresennol yn sgil COVID-19 yn dal i beri peth ansicrwydd, , mae'r ymddiriedolwyr yn ffyddiog na ddylai hyn effeithio ar werth net asedau a chredydwyr ar 31 Mawrth 2021. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd o'r farn bod y cronfeydd wrth gefn yn diogelu dyfodol yr elusen am gyfnod o 12 mis wedi dyddiad y cyfarfod blynyddol.